



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Haen Opsiynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Adolygiad o Gynefinoedd: Canllawiau Technegol – Gwaith Cyfalaf

Awst 2026



Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
6501 Gât Moch Daear.....	2
6503 Rheoli Mieri/Prysgwydd – Chwistrellydd Cefn.....	4
6504 Trawsddraeniau.....	5
6505 Adfer Wal Gerrig Sych.....	8
6506 Adfer Clawdd.....	11
6507 Ffens: Postyn a Rheilen	14
6508 Ffens: Ffens Postyn gyda Netin Stoc.....	16
6509 Ffens: Postyn a weiren.....	19
6510 Atodiad: Ffens Cwningod	21
6511 Ffens: Weiren ar ben Wal	23
6512 Coed Ffrwythau gyda Phostyn	24
6513 Cynnal Bwlch Cae â Rwbel.....	26
6514 Bondocio Perth/Gwrych a Chau Bylchau	28
6515 Plygu Perth/Gwrych: Traddodiadol.....	31
6516 Llewys Rhwyll Coed Unigol: > 1.2m.....	34
6517 Llewys Rhwyll Coed Unigol: > 1.8m.....	35
6518 Gosod Cwrbin	36
6519 Camfa Ysgol.....	38
6520 Plannu Perth Newydd ar gyfer Pryfed Peillio	40
6521 Llewys coed gwrth-stoc mewn parcdir	42
6522 Pibelli Cyflenwi Dŵr.....	44
6523 Adfer Pwll	46
6525 Nwyddau Dŵr Glaw: Pibellau Glaw.....	51
6526 Nwyddau Dŵr Glaw: Cafnau glaw.....	53
6527 Gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o fetel yn lle camfa	54
6528 Gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o bren yn lle camfa	57
6529 Adfer Crawiau.....	60
6530 Dargyfeirydd Dŵr ar Draws Ffordd.....	61
6531 Peiriannu Meddal i Leihau Erydiad Glannau Afonydd	63
6532 Llewys Coed Rhag Cwningod	71
6533 Llewys coed gwrth-gwningod: Biogdiraddiadwy	72
6534 Gatiau Safonol (Pren caled).....	73

6535 Gatiau Safonol (Pren meddal).....	75
6536 Adfer Clawdd Cerrig	77
6537 Gât Ceffyl a Chilbyst o Bren.....	79
6538 Gât Mochyn a Chilbyst o Bren.....	81
6539 Cysgod Coed: 60cm gyda phostyn	83
6540 Cysgod Coed: 60cm gyda phostyn: Bioddiraddiadwy	84
6541 Coed a Llwyni: Coed Chwip	86
6542 Coed a Llwyni: Trawsblannu	90
6543 Coed a Llwyni: Plannu Llafnau.....	94
6544 Coed: Hirgyff	97
6545 Gât Ddŵr	101
6546 Cafnau Dŵr	104
6547 Camfa Bren.....	106
6601- Tir âr: Ymylon o wyndwn heb eu trin	108
6602 Tir âr: cnydau protein (heb reoli chwyn)	110
6603 Tir âr: sofr wedi'i gadw	112
6604 - Tir âr: Talarau yd heb eu cynaeafu	114
6605 Tir âr: ydau a chnydau protein cymysg heb eu chwistrellu â'r sofr wedi'i gadw	116
6606 Tir âr: ydau a chnydau protein cymysg heb eu chwistrellu	118
6607 Tir âr: ydau a chnydau protein heb eu chwistrellu, gyda gwyndynnydd cymysg wedi'u hau oddi tanynt	120
6608 Tir âr: gwreiddgnwd neu gnwd porthiant heb ei chwistrellu, gydag ymylon y cae heb eu pori	123
6609 Tir âr – ydau'r gwanwyn heb eu chwistrellu, gyda gwyndynnydd cymysg wedi'u hau oddi tanynt	125
6610 Tir âr – ydau'r gwanwyn heb eu chwistrellu, gyda meillion coch wedi'u hau oddi tanynt	128
6611 Tir âr: ydau'r gwanwyn heb eu chwistrellu, a'r sofr wedi'i gadw	131
6612 - Tir âr: cnwd wedi'i hau yn y gwanwyn, heb ei chwistrellu.....	133
6613 Gwyndynnydd cymysg ar dir wedi'i wella	135
6614 - Gwyndynnydd cymysg: gyda chyfnod caeedig ar gyfer blodeuo.....	138
6615 Meillion coch neu liwsérn ar dir wedi'i wella	140
6616 Indrawn â chnwd wedi'i hau oddi tano (gwanwyn/haf)	142
6617 Tir âr: Cnwd gorchudd bywyd gwyllt. Wedi'i gadw am 2 flynedd tan 15 Chwefror yn yr ail flwyddyn ar ôl ei sefydlu	144
6618 Tir âr: Cnwd gorchudd bywyd gwyllt. Wedi'i gadw tan 15 Chwefror y flwyddyn sy'n dilyn.	147
6701 Bocsys nythu tylluanod gwynion	150
6702 Blychau ystlumod	153

6704 Griliau ystlumod	155
6705 Arolwg Ystlumod	156
6706 Blychau nythu adar	157
6707 Creu pyllau dŵr tymhorol	160
6708 Ffensys ceirw	163
6709 Gatiau ceirw	166
6710 Clirio Ffogydd	168
6711 Blwch pathewod	170
6712 Adfer Wal Gerrig Sych: Mewngludo Cerrig.....	173
6713 Gwlyptir mewn ffos wedi'i wella.....	174
6714 Llifddorau piben hyblyg	178
6717 Matiau geojute.....	183
6718 Geotecstilau	186
6719 Gwair Gwyrdd	189
6720 Cau Ffogydd.....	191
6723 Gosod wyneb caled.....	194
6724 Rheoli Grug: Llosgi.....	197
6725 Rheoli Grug: Torri	201
6726 Rheoli Grug: Torri a Gwaredu.....	203
6727 Molinia: rheolaeth gemegol	205
6728 Bylchau cae newydd	207
6733 Coed Perllan: Impio ac Impio Blaguryn	208
6734 Coed Perllan: Adfer trwy Docio	214
6736 Gwâl dyfrgwn	216
6737 Parcdir: Gatiau Haearn	220
6738 Parcdir: Ffensys Rheiliau Haearn.....	222
6740 Creu pyllau	223
6742 Torri Cyrs.....	229
6744 Plannu Cyrs: Hadau o Glystyrau Presennol	230
6745 Adleoli Dipiau Defaid a Chorlannau Dal i Safle Gwell	233
6748 Tynnu Pysgod Bras	237
6749 Aildyfiant Naturiol: Ail-fylchu i ffafrio rhywogaethau llydanddail brodorol	238
6750 Torri llystyfiant â pheiriant ar rodfeydd a llennyrch at ddiben cadwraeth/brêc rhag tân	239
6753 Creithio i annog coed neu grug i aildyfu'n naturiol o hadau.....	241
6754 Clirio Prysgwydd/Coed: Â Llaw	242
6755 Clirio Prysgwydd/Coed: Â Pheiriant	244

6766 Trapiau Gwaddodion	246
6767 Rhwylstr Diferion.....	249
6768 Profi Pridd: Maethynnau a pH	253
6770 Gât safonol (metel).....	262
6772 Bwyd adar atodol	263
6773 Pantiau.....	265
6774 Gwella porfa gan ddefnyddio hadau o darddiad lleol (glaswelltir neu rostir)	267
6775 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw: Clirio llystyfiant â llaw, trwy dynnu neu gloddio	270
6776 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw:	274
Trin dail â chwynladdwr.....	274
6777 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli planhigion o'r fath	280
6779 Rhywogaethau Estron Goresgynol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw: Cyfarpar bioddigolwch	284
6781 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Clwt-chwynnu gyda chwynladdwr.....	288
6782 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Torri a thrin y bonyn	292
6783 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Cloddio clymog Japan a chlymogau eraill a'u claddu ar y safle.....	297
6784 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Torri (ac eithrio clymog Japan neu glymogau eraill).....	300
6785 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Rheoli Rhododendron a Llawryf – Ysgafn.....	304
6786 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Rheoli Rhododendron a Llawryf – Canolig.....	313
6787 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Rheoli Rhododendron a Llawryf – Anodd.....	322
6788 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Chwistrellu coesynnau gyda chwynladdwr	331
6789 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Strimio a thocio (ac eithrio clymog Japan neu glymogau goresgynol eraill).....	335
6790 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Rafft mincod Americanaidd	339
6791 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Trapiau clyfar mincod Americanaidd	342
6792 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Trapiau gwiwerod llwyd	345
6793 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Gosod a gwirio trapiau, lladd a gwaredu mincod Americanaidd	348
6794 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Gosod a gwirio trapiau, lladd a gwaredu gwiwerod llwyd	354
6795 Llifddor Bren.....	362

6799 Bondocio Coed.....	365
6800 Trin coed (y dydd)	368
6802 Coed Llydanddail: Tocio Ffurfiannol	370
6804 Coed: Brigdocio.....	375
6805 Stripio tyweirch.....	378
6806 Clwt-chwynnu.....	382
6858 Rheoli Rhedyn: Torri neu rollo â pheiriant ddwywaith y flwyddyn	384
6860 Darnio neu gau draeniau caeau	386
6862 Aredig gan ddefnyddio aradr gynion.....	388
6864 Camfa risiau	390

ISBN – 978-1-80853-256-6

Produced by the Welsh Government

©Crown copyright 2026

Cyflwyniad

Mae'r Canllawiau Technegol canlynol yn nodi safonau gofynnol pob un o'r Gwaith Cyfalaf yr Adolygiad o Gynefinoedd: SFS Opsiynol.

Dyma'r safonau gofynnol y mae'n rhaid i chi eu dilyn os yw unrhyw un o'r Gwaith Cyfalaf hyn yn cael eu cynnwys yn eich Cynllun Rheoli a'ch Atodlen Waith ac yna eu gweithredu trwy ddyfarniad grant Gweithredoedd Cynefin: SFS Opsiynol.

Ni all Llywodraeth Cymru warantu na fydd y gofynion a gynhwysir yn y llyfryn hwn yn cael eu newid (ee o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol neu bolisi). Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi unrhyw newidiadau ac yn cysylltu â chi os oes angen.

Gallwch weld y Gwaith Cyfalaf unigol drwy glicio ar y teitl yn y rhestr o gynnwys uchod. Fel arall, fe allwch sgrolio drwy'r ddogfen i gyrraedd y tudalennau sydd eu hangen arnoch.

6501 Gât Moch Daear

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gât Moch Daear'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae moch daear fel rheol yn dilyn yr un llwybrau wrth symud o amgylch eu tiriogaeth. Dylai ffens i reoli darn penodol o gynefin ystyried y llwybrau y mae moch daear yn eu defnyddio. Gellir defnyddio gatiau moch daear i ganiatáu i foch daear groesi ffiniau atal stoc heb niweidio'r ffens.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gosodwch gât moch daear sydd â'r un dimensiynau â'r rheini yn y diagram isod.

Rhaid gosod y gatiau yn union ar lwybrau moch daear sydd eisoes yn bodoli, er mwyn annog moch daear i ddefnyddio'r gât.

Claddwch y ffens bob ochr i'r gât at ddyfnder priodol yn y pridd i rwystro'r moch daear rhag tyrchu o gwmpas y gât.

Dylech drin y pren â hylif cadw priodol diwenwyn, diarogl.

Os ydych yn cynnal unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi holi a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylech gadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i ddangos pan ofynnir ichi wneud hynny.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwylt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)


Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gofynion a chynghor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Yr arfer gorau yw claddu'r ffens at ddyfnder o 15cm fan leiaf bob ochr i'r gât.

Dylech drin y pren â hylif cadw priodol diwenwyn, diarogl.

Example of a badger gate



6503 Rheoli Mieri/Prysgwydd – Chwistrellydd Cefn

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd er mwyn derbyn taliadau ar gyfer 'Rheoli Mieri/Prysgwydd – Chwistrellydd Cefn'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith.

Mae mieri a phrysgwydd yn creu llwyni trwchus, ac yn gallu cael effaith negyddol ar lystyfiant arall. Cyn defnyddio plaladdwr (gan gynnwys chwynladdwr), ystyriwch bob tro a oes modd eu rheoli heb gemegolion.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Triniwch yr ardal y cytunwyd arni gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Gofalwch eich bod yn defnyddio cynnyrch sydd wedi'i gymeradwyo ar gyfer chwistrellu â llaw/chwistrellydd cefn ar gyfer mieri a/neu brysgwydd. Cadwch at y cyfarwyddiadau ar labeli cynnyrch, eu cadw a'u dangos wrth gael cais i wneud hynny.

Rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion (plaladdwyr) fel rhan o'u gwaith feddu ar dystysgrif hyfforddi benodol a chydabyddedig. Rhaid i ddefnyddwyr, neu'r rhai sy'n peri neu'n caniatáu eu defnydd, sicrhau bod yr holl ragofalon rhesymol yn cael eu cymryd i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd, bod defnydd wedi'i gyfyngu i ardaloedd targed ac mae faint sy'n cael ei ddefnyddio, ac amllder y defnydd, cyn lleied ag sy'n rhesymol ymarferol.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Ni ddylid defnyddio chwynladdwr o fewn 6m i gwrs dŵr neu o fewn 1m i ffiniau caeau. Peidiwch â'i ddefnyddio o fewn 50 metr i darddiad dŵr, ffynnon, twll turio nac unrhyw gyflenwad dŵr cyhoeddus neu breifat. Dylid dilyn y cod ymarfer ar gyfer chwistrellu ger cyrsiau dŵr sy'n cael ei gynhyrchu gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Defnyddio chwynladdwyr](#)

Rhaid glynu'n dynn at holl argymhellion label y gwneuthurwyr ar gyfer defnyddio'r chwynladdwr.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Defnyddio Chwynladdwyr

Ym mhob achos, rhaid i label y chwynladdwr a ddefnyddir argymhell eich defnydd arfaethedig ohono, a'r dull arfaethedig o'i ddefnyddio.

Mae rhagor o wybodaeth ddefnyddiol ar gael yn y lleoliadau canlynol:

[Code of Practice for Using Plant Protection Products \(hse.gov.uk\)](#)

6504 Trawsddraeniau

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Trawsddraeniau'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Pwrpas trawsddraen yw helpu i reoli llif dŵr glaw dros y tir i atal erydiad, atal creu ffrydiau dŵr ffo a throï'r llif oddi wrth fuarthau fferm. Mae llawer o nentydd ac afonydd yng Nghymru yn cael eu llygru wrth i ddŵr lifo iddynt oddi ar dir amaethyddol, gan effeithio ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd ac ansawdd dŵr yfed. Gall cadw dŵr glân o'r mannau sy'n cynhyrchu dŵr halogedig neu slyri olygu y bydd angen llai o le i storio slyri ac y gallwch ddefnyddio'r dŵr glân mewn mannau eraill ar y fferm.

Gallwch ddefnyddio trawsddraen i ddal y dŵr glân ar draciau a buarthau glân sydd uwchlaw buarthau/traciau brwnt/budr. Gall y dŵr glân hwn gael ei sianelu i ffos, pant neu drap gwaddodion.

Neu gallwch ddefnyddio'r trawsddraen i ddal y dŵr halogedig islaw'r buarth/trac. Rhaid sianelu'r dŵr halogedig i storfa slyri addas. Mae'n hawdd clirio unrhyw silt a baw all fod wedi crynhoi yn ffos agored y trawsddraen. Peidiwch â gadael i ddŵr halogedig lifo i gyrsiau dŵr neu dir.

Os ydych yn gosod trawsddraen ar fuarth i ddal dŵr glân, dylech ystyried hefyd a oes angen ichi wneud cais am Eitem 6526 Nwyddau Dŵr Glaw – Cafnau Glaw ac Eitem 6525 Nwyddau Dŵr Glaw – Pibellau Glaw.

Cewch wneud cais am nifer o drawsddraeniau ar gyfer traciau/buarthau llydan neu am nifer o haenau o drawsddraeniau ar draws traciau y mae llawer o ddŵr yn llifo ar eu traws.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gosodwch drawsddraeniau sydd wedi'u hadeiladu at y pwrpas ac y gellir clirio unrhyw sbwriel oddi arnyn nhw ac sy'n gallu cynnal peiriannau araf trwm a symudiadau da byw.

Gofalwch fod trawsddraeniau wedi'u gwneud o ddeunydd newydd.

Dylai unrhyw waith concrit fod yn unol â'r Safonau Prydeinig perthnasol, BS 8000 a BS 8500, fel y'u diwygiwyd.

Gofalwch fod dŵr glân o'r trawsddraen yn cael ei sianelu at allanfa ddraenio sefydlog fel ffos, pant neu drap gwaddodion.

Sicrhau bod dŵr halogedig sy'n bodloni'r diffiniad o slyri yn CoAPR yn llifo i storfa slyri briodol.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Os ydych yn cynnal unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi holi a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd na bywyd gwyllt.

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Dylech fod wedi cael copi o'r rhestr pan gafodd y safle ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. **Dylech gadw'r drwydded/ caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i ddangos pan ofynnir ichi wneud hynny.** Gweler yr Amodau a'r Telerau i gael rhagor o fanylion.

Sut i osod trawsddraen – yr arfer gorau

Bydd y gwaith yn cynnwys prynu a gosod system drawsddraenio gyda gratin. Dylai'r sianel allu cynnal pwysau peiriant trwm araf, a dylai fod yn hawdd ei gadw'n glir a glân.

Palwch ffos ar draws y trac neu ar hyd rhan o'r buarth, at ddyfnder a lled sy'n ddigon ar gyfer gosod gwely ac ochrau o goncrit.

Gofalwch fod y ffos yn llifo i bant neu ffos addas.

Gofalwch fod gwely'r ffos yn goleddfu at yr allanfa, ac yn ddigon dwfn ar gyfer y sianel.

Gofalwch fod unrhyw saethau ar ochr y sianel yn pwyntio tuag at yr arllwysfa, hy cyfeiriad y llif.

Gosodwch y lefelau a rhowch y sianeli i orwedd wrth ochr y ffos, gan weithio o geg yr arllwysfa bob tro.

Gan gychwyn wrth yr arllwysfa, arllwyswch wely o goncrit o ansawdd uchel i'r ffos.

Gan weithio o'r arllwysfa, gosodwch y sianel yn ei lle gan ddilyn cyfarwyddiadau'r cynhyrchwyr.


Sicrhewch fod y sianel wedi'i halinio'n gywir.

Dylai'r gratiau gael eu gosod yn llac a'u lapio mewn plastig, gan bontio'r uniad rhwng darnau unigol y sianel er mwyn sicrhau bod y cyfan wedi'i osod yn daclus.

Wedyn dylid arllwys concrit i'r ffos o amgylch y sianel, gan gymryd gofal i beidio â'i symud o'i lle. Dylai'r concrit gyrraedd 3mm uwch ben arwyneb y sianel a'r gratiau.

Ar ôl i'r concrit galedu, codwch y gratiau a thynnwch y plastig amddiffynnol.

Er mwyn cynnal peiriannau trwm sy'n symud yn araf, mae angen o leiaf 200mm o goncrit ar y gwaelod a'r ochrau, oni bai bod y cyfarwyddiadau gosod yn nodi'n wahanol.



6505 Adfer Wal Gerrig Sych

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Adfer Wal Gerrig Sych'. Os ydych am amrywio unrhyw safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith.

Mae waliau cerrig sych yn nodweddion pwysig o'r dirwedd sy'n gallu bod yn gofnod hanesyddol pwysig o'r modd y mae'r tir wedi cael ei ddefnyddio. Maen nhw'n bwysig hefyd i fioamrywiaeth ac fel cysgod i dda byw.

Ni fydd pob wal gerrig sych yn dilyn llinell syth, ffactor sy'n cyfrannu at eu pwysigrwydd hanesyddol a thirweddol.

Mae difrod gan gerbydau, dwyn a da byw yn rhwbio yn eu herbyn i gyd yn gallu difrodi waliau.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Mae angen adfer wal gerrig sych sy'n dadfeilio fel bod uchder a llinell y darn sy'n cael ei adfer yn adlewyrchu uchder a llinell y wal wreiddiol. Gweler canllawiau isod ar sut i ddilyn yr arferion gorau wrth adfer wal gerrig sych.

Rhaid i'r holl gerrig a ddefnyddir i adfer waliau cerrig sych fod yn debyg i'r rheini sydd yn y wal wreiddiol.

Cadwch a/neu ailgodwch bob camfa garreg, cwter ddefaid, cwlfer a nodwedd draddodiadol arall.

Rhaid mynd ag unrhyw gerrig sydd dros ben ar ôl adeiladu'r wal o'r safle a gadael i'r llystyfiant gwreiddiol aildyfu ar dir cyfagos.

Mae angen adfer grisiau cerrig yn ôl yr angen, ynghyd ag unrhyw nodweddion lleol eraill sy'n gysylltiedig â waliau cerrig sych.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Dylid defnyddio cerrig lleol lle bynnag y bo modd, ond peidiwch â dwyn cerrig o fannau amhriodol, megis o adfeilion neu waliau eraill. Os ydych yn mewngludo cerrig, dylent ddod o'r ardal leol.

Penderfynwch a ydych am roi weiren ar frig y wal cyn dechrau adfer y wal.

Sylfeini – yr haenen gyntaf o gerrig mawr wrth droed y wal. Dylai'r sylfeini gynnwys dwy res o'r cerrig mwyaf y medrwyd gael gafael arnyd nhw wedi'u gosod mewn ffos 15cm i 30cm o ddyfnder. Ar dir meddal iawn, bydd angen sylfeini dyfnach. Dylech lenwi'r bwloch rhwng y ddwy res o gerrig

sylyfaen â cherrig afreolaidd eu siâp. Dylai'r sylfeini fod tua 7.5cm yn lletach na gwaelod y wal. Os ydych yn ailgodi wal, gofalgwch fod y sylfeini gwreiddiol yn gadarn a'u newid os ydynt yn simsanu, yn camu llinell y wal, ar dro neu'n malurio.

Goleddfiad – y gwahaniaeth rhwng lled wal yn ei gwaelod ac ar ei brig. Dylai dwy ochr y wal gulhau'n gymesur o'r gwaelod i'r brig. Dylai maint y goleddfiad ddibynnu ar y math o stoc fydd yn pori nesaf at wal. Ar gyfer wal 1.3m o uchder, dylai'r gwaelod fod 70cm i 90cm o led gan gulhau i 30cm i 40cm o led o dan y meini copa, yn ddibynnu ar faint a math y cerrig lleol.

Wynebfeini – dylid codi'r wal ag iddi ddau wyneb sy'n wastad â'i gilydd ac yn dilyn y goleddfiad. Gosodwch y wynebfeini gan gadw'r rheolau canlynol mewn cof:

rhowch y cerrig mwyaf yn y gwaelod, a'r rhai lleiaf ar y top

adeiladwch y wal fesul haen (oni bai ei bod yn draddodiad peidio â gwneud hynny)

gosodwch bob carreg fel bod ei hochr hiraf yn mynd i mewn i'r wal

dylai cerrig yr haenen nesaf orwedd dros bob bwlch rhwng cerrig yn yr haenen oddi tani. Ni ddylech allu gweld unrhyw raniadau fertigol yn y wal

peidiwch â gosod y cerrig ar oledf i mewn am y wal

rheid i wyneb y wal fod yn llyfn heb gerrig yn ymwithio allan, heblaw am y 'cerrig pwyth'

rheid gosod y cerrig ar eu hyd ar hyd llinell y wal, hyd yn oed os yw'r wal ar lethr

rheid gosod lletemau (cerrig bychain i gloi cerrig mwy) ar du fewn y wal, nid y tu allan.

Canol y wal – defnyddio cerrig bychain i llenwi a phacio'r canol. Rhaid llenwi'r bwlch yng nghanol y wal rhwng wynebfeini dwy ochr y wal â cherrig llai, afreolaidd eu siâp. Peidiwch â defnyddio pridd na deunydd mân arall gan y caiff ei olchi i ffwrdd. Dylech osod y deunydd llenwi wrth i bob haen o gerrig adeiladu gael ei gosod.

Cerrig pwyth – cerrig mawr trwm sy'n cael eu gosod i blethu dwy ochr y wal gyda'i gilydd. Yn ddelfrydol, dylech osod dwy haenen o gerrig pwyth, 45cm a 90cm uwchlaw'r ddaear gyda 100cm rhwng y naill garreg bwyth a'r nesaf ar wal 1.3m o uchder.

Os nad oes gennych ddigon o gerrig addas, dylech osod un rhes o 'gerrig pwyth' rhwng 60cm a 75cm uwchlaw'r ddaear. Rhaid i'r 'cerrig pwyth' fesur lled cyfan y wal gan efallai ymestyn rai centimetrau o'r wal.

Cerrig copa – cerrig ar dop y wal i roi pwysau a diogelu'r wal. Dylai top y wal gael ei adeiladu i'r un uchder, a'r canol wedi'i llenwi'n iawn. Dylai'r cerrig copa fod o'r un lled â'r wal a dylent fod 20cm i 30cm o uchder. Fel arfer, dylech docio cerrig sy'n lletach na'r wal, ond os nad oes stoc pori ar un ochr y wal, mae'n iawn i'r garreg gopa ymwithio allan hyd at 5cm ar yr ochr honno. Gosodwch y cerrig copa'n ofalus fel eu bod yn dynn ac yn clymu wrth ei gilydd ac yn pwyso ar bob wynebfaen uchaf.


Pen y wal – pen fertigol y wal. Mae iddynt haenau am yn ail o 'beniadau' (cerrig pwyth sy'n clymu dwy ochr y wal ynghyd) a cherrig ymestyn (cerrig hir sy'n cael eu gosod gydag ochr y wal). Rhaid i'r garreg gopa ar y pen fod yn garreg fawr ac yn ddigon trwm i gynnal gweddill y copa. Gofalgwch nad oes cerrig yn ymwithio allan o ben y wal y gall stoc rwbio yn eu herbyn.

Codi wal gynnal – Codir waliau cynnal ar wyneb llethr i rwystro pridd rhag llithro i lawr y rhiw. Dylech godi waliau cynnal yn yr un ffordd â waliau sy'n sefyll ar eu pen eu hunain ag iddynt ddau wyneb. Nid oes angen i'r wyneb mewnol fod yn llyfn fel ag sydd ei angen ar wal sy'n sefyll ar ei phen ei hun. Dylai'r wyneb mewnol fod yn fertigol, gyda goleddfiad arferol ar yr wyneb allanol. Lle bo angen, gofalwch fod yna ddraenio digonol.

Morter – Os ydych yn codi wal wrth heol brysur, yn enwedig os oes lorïau trwm yn teithio arni, efallai y bydd angen defnyddio mortar i rwystro'r cryndod rhag difrodi'r wal. Bryd hynny, rhwch forter yng nghanol y wal ac ar y cerrig copa, gan adael i'r gweddill ymddangos fel wal sych draddodiadol. Os bydd y cerrig copa yn debygol o ddisgyn am fod pobl yn dringo dros y wal (e.e. wrth safle picnic), rhwch forter ar y cerrig copa. Ni ddylech wneud hyn am o leiaf blwyddyn ar ôl adeiladu'r wal er mwyn iddi gael amser i setlo.

Weiren dop – Gallwch osod pyst pren yn y wal i gynnal llinell o weiren bigog ar hyd y wal i rwystro stoc rhag dringo ar y wal a chreu difrod.

Dylai'r wal orffenedig fod yn gadarn gydag wynebfeini tynn. O'i tharo, ni ddylai'r wal na'r canol symud.



6506 Adfer Clawdd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Adfer Clawdd'.

Rhaid i unrhyw amrywiad ar y safonau a nodir gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith.

Mae cloddiau yn nodweddion pwysig o'r dirwedd sy'n gallu bod yn gofnod hanesyddol pwysig o'r modd y mae'r tir wedi cael ei ddefnyddio. Maen nhw'n bwysig hefyd i fioamrywiaeth ac fel cysgod i dda byw.

Ni fydd perth wedi'i phlannu ar ben pob un. Ni fydd hen berthi a chloddiau yn dilyn llinell syth o reidrwydd, ffactor sy'n cyfrannu at eu pwysigrwydd hanesyddol a thirweddol.

Mae cyfnod hir o dywydd gwael, sathru gan dda byw a chloddio gan gwningod i gyd yn gallu difrodi cloddiau.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Mae angen adfer cloddiau sy'n dadfeilio fel bod uchder a llinell y darn sy'n cael ei adfer yn adlewyrchu uchder a llinell y clawdd gwreiddiol. Mae'r canllawiau arfer gorau ar gyfer adfer cloddiau i'w gweld isod.

Gofalwch nad yw anifeiliaid sy'n pori yn difrodi cloddiau sydd wedi cael eu hadfer.

Dylech ddefnyddio pridd rhydd neu dyweirch diangen i lenwi'r ffosydd a thyllau y codwyd pridd ohonynt. Dylai'r tir bob ochr i'r clawdd fod yn wastad a thaclus.

Mae patrymau wynebau cerrig yn amrywio yn hanesyddol, yn dibynnu ar ddaeareg leol ac argaeledd cerrig. Mae angen i ddeunyddiau ac arddull y wynebfeini gydweddu â'r cloddiau gwreiddiol.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Yn ddelfrydol, dylech ddefnyddio tyweirch o'r cae sy'n ffinio i roi wyneb newydd ar y clawdd, ond os oes aildyfiant naturiol pan gyflwynir yr hawliad a bod ffotograffau â geotag 'ar ôl' yn dangos hyn, byddai hynny'n dderbyniol.

Codwch yr holl dyweirch a'r pridd rhydd o'r man gwan yn y clawdd nes dod at sylfaen gref. Cadwch y pridd rhydd at ailadeiladu'r clawdd. Dylai ochrau'r bwlch rydych wedi'i glirio oleddfu tuag i mewn ychydig a bod yn lletach wrth y brig nag wrth y bôn (siâp V neu drapesoid o'i wynebu). Gallwch felly ddefnyddio'r clawdd presennol fel sylfaen ar gyfer trwsio a chau'r bwlch. Tampiych y sylfaen newydd ag offer llaw addas i greu arwyneb mor solet â phosibl. (Gweler diagram 1).

Dylech dorri unrhyw dyweirch newydd o'r cae wrth fôn y clawdd. Mae tyweirch llai yn fwy tebygol o asio ar ôl eu gosod yn eu cartref newydd.

Mae tyweirch llai na 30cm sgwâr yn haws eu trin a bydd tyweirch sydd wedi'u torri ar oleddf yn fwy tebygol o asio na'r rheini ag ymylon sgwâr (Gweler diagram 1).

Bydd angen sylfaen ar gyfer y tyweirch newydd cyn eu gosod yn eu lle. Defnyddiwch y pridd rhydd a gadwyd ynghyd ag unrhyw bridd rhydd sydd ar ôl yn y ffos y torroch chi'r tyweirch ohoni.


Gofalwch roi digon o bridd yn y clawdd gan ei adeiladu ychydig uwch na lefel pob rhes newydd o dyweirch. Dylech lenwi'r pridd yn dynn yn erbyn ochrau'r hen glawdd a'i dampio'n dynn rhag i law trwm neu rew caled beri i'r gwaith newydd lithro. (Gweler diagram 2).

Yr arfer gorau yw gosod y tyweirch ar bridd newydd y clawdd mewn cyfres o haenau neu resi. Ni ddylai cymalau'r rhes nesaf o dyweirch gyfateb yn union o ran eu lleoliad i dyweirch yn y rhes o'i tani fel gwaith brics. Dylai'r tyweirch oleddfu am i mewn ychydig a dylech fwrw pob tywarchen i mewn yn dynn er mwyn cuddio'r cymalau rhwng y rhesi. Gosodwch bob rhes ychydig bach (1-2.5cm) yn ôl o'r rhes oddi tani. Bydd hynny, gyda goleddfiad, yn caniatáu peth symudiad tuag allan wrth dampio'r tyweirch ac i law allu llifo at wreiddiau pob tywarchen. (Gweler diagramau 1 a 2).


I orffen, rhowch bridd rhydd ar ben y clawdd, ychydig uwchlaw lefel y tyweirch i ganiatáu ar gyfer sefydlogi. Bydd y goleddfiad yn amrywio yn ôl y safle a'r amodau ond dylai bôn y clawdd fod 45-60cm yn lletach na thop y clawdd.

Llenwch unrhyw fylchau mawr â phridd wedi'i gywasgu'n dynn cyn rhoi tyweirch newydd yn eu lle ar wyneb y clawdd. Bydd hynny'n dda i osgoi rhagor o erydiad. Bydd tywarchen fer ar glawdd sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn helpu i gadw siâp y clawdd

Face View of Earth Bank (1)



Cross Section of Earth Bank (2)



6507 Ffens: Postyn a Rheilen

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffens Postyn a Rheilen'.

Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Defnyddir ffens postyn a rheilen fel arfer lle byddai'n addas yn y dirwedd, ar barcdir neu i reoli stoc ar lan dyfroedd.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gofalwch eich bod wedi cael ac yn cadw at unrhyw drwydded neu ganiatâd sydd ei angen arnoch.

Defnyddiwch naill ai pren meddal wedi'i drin dan bwysau neu bren caled.

Defnyddiwch byst sydd o leiaf 1.8m o hyd ag iddynt groestoriad o 12.5cm x 7.5cm fan leiaf.

Defnyddiwch byst sgwâr neu hirsgwar.

Ni ddylai fod mwy na 2m rhwng postyn canol a'r postyn nesaf ato (1.8m fel arfer, gan mai hyd rheilen safonol yw 3.6m).

Rhaid gosod y pyst yn ddigon dwfn yn y pridd i'w sefydlogi. Rhaid i wyneb y postyn fod yn sgwâr â llinell y ffens. Os byddwch yn llifio brig y pyst ar ôl eu gosod, rhaid trin yr arwynebau â hylif cadw priodol o'r un lliw â gweddill y pren.

Rhaid gosod o leiaf tair rhes o reiliau pren 3.8cm x 8.7cm, gyda'r hoelion wedi'u hoelio ar ongl iddynt. Gallwch ychwanegu rhesi o reiliau yn ôl y gofyn.

Rhaid hoelio'r rheiliau ar ochr y stoc o'r pyst rhag i'r stoc allu gwthio'r rheiliau oddi ar y pyst.

Pan fydd dwy reilen yn cwrdd ar un postyn, yna dylai'r rheiliau ar y rhes oddi tani gwrdd ar y postyn nesaf ac felly yn y blaen, fel y gwelwch yn y diagram.

Gofalwch fod yna o leiaf 1m rhwng y llawr a thop y rheilen uchaf.

Peidiwch â:

Defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu ffensio a pheidiwch chwaith â'u defnyddio i gynnal weiren, staplau na netin.

Defnyddio concrit gan ei fod yn pydru'r pyst ar lefel y pridd.

Gofynion a chynghor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Yr arfer gorau yw gosod o leiaf 70cm o bob postyn yn y pridd a rhoi'r postyn yn sownd trwy gywasgu pridd a cherrig yn y twll.

Os yw'r ffens yn cael ei gosod yn lle hen ffens wedi'i difrodi, dylech dynnu'r hen ffens yn ei chyfanrwydd cyn gosod ffens newydd. Dylid tynnu'r hen ffensys o'r cae a'u gwaredu'n briodol.

Nid oes angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd ar y math hwn o weithgaredd, cyn belled nad yw'n cael ei gynnal mewn prif afon sydd â statws morffolegol uchel neu o fewn 100m iddi.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwaharddiadau gweithgarwch perygl llifogydd.](#)

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes.


Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd na bywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Dylech fod wedi cael copi o'r rhestr pan gafodd y safle ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd.

Dylech gadw'r drwydded/ caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i ddangos pan ofynnir ichi wneud hynny. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.

Example of a Post and Rail Fence



6508 Ffens: Ffens Postyn gyda Netin Stoc

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffens Postyn gyda Netin Stoc'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gofalwch eich bod wedi cael ac yn cadw at unrhyw drwydded neu ganiatâd sydd ei angen arnoch.

Defnyddiwch naill ai pren meddal wedi'i drin dan bwysau neu bren caled.

Rhaid i'r pren, y weiren, y netin a'r staplau wedi'u galfaneiddio i gyd fod yn newydd.

Bydd gan y pyst tynnu groestoriad o 12.5cm fan leiaf a byddant o leiaf 2m o hyd. Straen

Dylech osod bob postyn tynnu yn ddigon dwfn yn y pridd i'w wneud yn sefydlog. Rhaid rhoi pyst tynnu bob pen y ffens a phob 100m neu lai yng nghanol y ffens. Rhaid gosod pyst tynnu hefyd bob tro y mae'r tir yn mynd i fyny neu i lawr neu pan fydd y ffens yn newid cyfeiriad.

Rhaid rhoi pwyslathau (strytiau) ar y pyst sydd ym mhen llinell y ffens a phan fydd y tir yn mynd i fyny neu i lawr neu pan fydd y ffens yn newid cyfeiriad. Bydd gan y pwyslathau ddiamedr o 6.5cm neu fwy a rhaid eu cynnal rhag ymwithio allan. Ni ddylai'r pyst canol fod â diamedr o lai na 6.5cm (pyst crwn a phren wedi'i llifio) a dylent fod o leiaf 1.7m o hyd. Mae pyst hanner crwn yn dderbyniol ar yr amod eu bod yn mesur o leiaf 6.5cm o ganol yr ochr wedi'i lifio i ganol pwynt yr ochr grwn. Rhaid gosod y pyst canol bob 3m neu lai.

Rhaid cysylltu'r netin wrth y pyst â staplau wedi'u galfaneiddio.


Rhaid defnyddio staplau wedi'u galfaneiddio i gysylltu pob weiren wrth y pyst. Ni ddylai'r weiren dop fod yn llai na 1.05m o'r llawr. Lle bydd gwartheg neu ddefaid yn rhoi llawer o bwysau ar y ffens, dylech roi ail linyr o weiren uwch ben y netin yn ogystal â weiren ychwanegol o dan y netin. Ar ffens sy'n ffinio â llwybr neu ffordd gyhoeddus, rhaid i'r weiren uchaf fod yn weiren blaen neu rhaid gosod llinyn arall o weiren blaen wrth du allan y pyst sydd agosaf i'r llwybr.

Gofalwch fod yn ffens newydd yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig 1722 a 4102, fel y'u diwygiwyd.

Peidiwch â:

Defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu ffensio a pheidiwch chwaith â'u defnyddio i gynnal weiren, staplau na netin.

Example Diagram of Post and Wire with Stock Netting



Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Yr arfer gorau yw gosod y pyst o leiaf 1m o dan ddaear i'w sefydlogi.

Rhaid cynnal y pwyslathau croesgornel ar naill ai blât sylfaen neu gan bostyn canol mewn lle addas i'w rhwystro rhag ymwthio allan.

Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu amddiffyniad rhag llifogydd.

Nid oes angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd ar y math hwn o weithgaredd, cyn belled nad yw'n cael ei gynnal mewn prif afon sydd â statws morffolegol uchel neu o fewn 100m iddi a bod y rhwyll yn fwy na 100mm. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwaharddiadau gweithgarwch perygl llifogydd](#).

Os ydy rhwyll y netin yn llai na 100mm, a'i fod yn cael ei osod ger prif afon, gorlifdir neu adeiledd amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi holi a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylech gadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i ddangos pan ofynnir ichi wneud hynny.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgarwch perygl llifogydd](#)

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac y n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd na bywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Dylech fod wedi cael copi o'r rhestr pan gafodd y safle ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. **Dylech gadw'r drwydded/ caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i ddangos pan ofynnir ichi wneud hynny.** Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.

6509 Ffens: Postyn a weiren

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffens Postyn a Weiren'.

Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gofalwch eich bod wedi cael ac yn cadw at unrhyw drwydded neu ganiatâd sydd ei angen arnoch.

Defnyddiwch naill ai pren meddal wedi'i drin dan bwysau neu bren caled.

Rhaid i'r pren, y weiren, y netin a'r staplau wedi'u galfaneiddio i gyd fod yn newydd.

Cysylltwch o leiaf tair llinell o wifren sy'n cynnwys naill ai wifren ddur ysgafn galfanedig

(trwch 4mm) neu wifren bigog droellog dwy haen (trwch 2.5mm). Ar ffens sy'n ffinio â llwybr neu ffordd gyhoeddus, rhaid i'r weiren uchaf fod yn weiren blaen neu rhaid gosod llinyn arall o weiren blaen wrth du allan y pyst sydd agosaf i'r llwybr.

Bydd gan y pyst tynnu groestoriad o 12.5cm fan leiaf a byddant o leiaf 2m o hyd. Rhaid gosod y pyst tynnu'n ddigon dwfn yn y pridd i'w sefydlogi. Rhaid rhoi pyst tynnu bob pen y ffens a phob 100m neu lai yng nghanol y ffens. Rhaid gosod pyst tynnu hefyd bob tro y mae'r tir yn mynd i fyny neu i lawr neu pan fydd y ffens yn newid cyfeiriad.

Rhaid rhoi pwyslathau (strytiau) ar y pyst sydd ym mhen llinell y ffens a phan fydd y tir yn mynd i fyny neu i lawr neu pan fydd y ffens yn newid cyfeiriad. Bydd gan y pwyslathau ddiamedr o 6.5cm neu fwy a rhaid eu cynnal rhag ymwithio allan.

Ni ddylai'r pyst canol fod â diamedr o lai na 6.5cm (pyst crwn a phren wedi'i llifio) a dylent fod o leiaf 1.7m o hyd. Mae pyst hanner crwn yn gwneud y tro cyn belled â'u bod yn mesur o leiaf 6.5cm o bwynt canol yr ochr sydd wedi'i llifio i bwynt canol yr ochr gron. Rhaid gosod y pyst canol bob 3m neu lai.


Rhaid defnyddio staplau wedi'u galfaneiddio i gysylltu pob weiren wrth y pyst.

Ni ddylai'r weiren dop fod yn llai na 1.05m o'r llawr.

Gofalwch fod yn ffens newydd yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig 1722 a 4102, fel y'u diwygiwyd.

Os yw'r ffens yn cael ei gosod yn lle hen ffens wedi'i difrodi, dylech dynnu'r hen ffens yn ei chyfanrwydd cyn gosod ffens newydd. Dylid tynnu'r hen ffens o'r cae a'u gwaredu'n briodol.

Example Diagram of Three Line Wire Fence



Peidiwch â:

Defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu ffensio a pheidiwch chwaith â'u defnyddio i gynnal weiren, staplau na netin.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Yr arfer gorau yw gosod pob postyn o leiaf 65cm yn y pridd i'w sefydlog.

Rhaid cynnal y pwyslathau croesgornel ar naill ai blât sylfaen neu gan bostyn canol mewn lle addas i'w rhwystro rhag ymwthio allan.

Nid oes angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd ar y math hwn o weithgaredd, cyn belled nad yw'n cael ei gynnal mewn prif afon sydd â statws morffolegol uchel neu o fewn 100m iddi.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwaharddiadau gweithgarwch perygl llifogydd.](#)

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd na bywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Dylech fod wedi cael copi o'r rhestr pan gafodd y safle ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd.

Dylech gadw'r drwydded/ caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i ddangos pan ofynnir ichi wneud hynny. Gweler y Rheolau Cyffredinol i gael rhagor o fanylion.

6510 Atodiad: Ffens Cwningod

Mae'r eitem hwn yn atodol a dim ond yn erbyn yr eitemau a ganlyn y gellir ei ddefnyddio os ydynt hwythau hefyd yn cael eu gosod:

6509 Ffens: Postyn a weiren

6508 Ffens: Postyn a Netin Stoc

6521 Llewys coed gwrth-stoc mewn parcdir

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Atodiad Ffens Cwningod'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Gellir defnyddio ffensys cwningod i rwystro difrod i safleoedd archeolegol neu i nodweddion penodol ar y dirwedd, fel coed neu berthi newydd eu plannu.

Rhaid cadw at y canlynol:

Rhaid cysylltu'r netin a'r weiar wrth y pyst â staplau wedi'u galfaneiddio.

Defnyddiwch weiren netin wedi'i galfaneiddio sydd o leiaf 1.05m o uchder, a rhwyll sydd heb fod yn fwy na 3cm.

Gofalwch fod ymyl dop y netin o leiaf 0.75m o'r llawr.

Rhaid i'r pren, y weiren, y netin a'r staplau wedi'u galfaneiddio i gyd fod yn newydd.

Cysylltwch y netin wrth y ffens a chladdu ymyl isa'r netin yn ddigon dwfn i rwystro cwningod rhag tyllu dano.

Lle bo angen, rhowch o leiaf ddau linyr o weiar i gynnal y ffens gwningod.

Rhaid diogelu pob gât yn y ffens rhag cwningod a sgyfarnogod.

Gofalwch fod yn ffens newydd yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig 1722 a 4102, fel y'u diwygiwyd.

Peidiwch â:

Defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Rhwystrowch gwningod rhag tyllu oddi tano trwy gladdu'r netin 15cm yn y pridd a'i droi allan 15cm arall gan ei angori'n ddiogel.

Os ydych yn cynnal unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi holi a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chael trwydded os

oes angen. Dylech gadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i ddangos pan ofynnir ichi wneud hynny.

Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd


Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir.

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Dylech fod wedi cael copi o'r rhestr pan gafodd y safle ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. I'r perwyl hwnnw, dylech gadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i dangos pan ofynnir i chi wneud hynny. Gweler yr Amodau a'r Telerau i gael rhagor o fanylion.

Os bydd gweithgareddau'n cynnwys gosod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.



6511 Ffens: Weiren ar ben Wal

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Weiren ar ben wal gerrig'.

Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid cadw at y canlynol:

Defnyddiwch naill ai pren meddal wedi'i drin dan bwysau neu bren caled.

Rhaid i'r pren, y weiren a'r staplau a ddefnyddir i adeiladu'r ffens i gyd fod yn newydd.

Defnyddiwch byst gydag o leiaf 6.5cm o ddiamedr mwyaf. Rhaid gosod y pyst canol bob 3m neu lai. Dylid gosod y pyst o fewn y wal.

Cysylltwch o leiaf un llinyn o weiar (plaen 4mm o drwch neu weiren bigog deulinyn 2.5mm o drwch) wrth y pyst â staplau wedi'u galfaneiddio.

Tynnwch unrhyw hen ffens sydd ar y wal.

Peidiwch â:

Defnyddio coed na llwyni fel pyst terfyn neu ffensio a pheidiwch chwaith â'u defnyddio i gynnal weiren, staplau na netin.

6512 Coed Ffrwythau gyda Phostyn

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Coed Ffrwythau gyda Llawes a Phostyn'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Yn y gorffennol, byddai bron pob fferm yn tyfu amrywiaeth o ffrwythau at ddefnydd y tŷ ac i'w gwerthu yn y farchnad leol. Wrth i'r coed heneiddio, ni phlannwyd coed newydd yn eu lle; mae'r ychydig enghreifftiau sydd wedi goroesi yn nodwedd unigryw yng nghefn gwlad, ac maen nhw'n aml yn werthfawr iawn o ran bywyd gwyllt.

Dylai cadw hen goed ffrwythau gael blaenoriaeth dros ailblannu gan fod hen goed yn bwysig o ran eu bioamrywiaeth a gellir eu tocio i estyn eu hoes.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylech ddefnyddio gwreiddgyff M25 neu MM111 er mwyn creu coed llawndwf o faint 'safonol' neu 'hirgyff' traddodiadol.

Plannwch goed ar uchafswm dwysedd o 100 o goed yr hectar, a dosbarthu'r coed ledled yr ardal sydd i'w phlannu.

Rhaid i goed ifanc gael eu clymu wrth bostyn a'u gwarchod rhag da byw sy'n pori drwy ddefnyddio llawes goed.

Rhaid i unrhyw lawes sydd wedi'i gwneud o reiliau pren fod o leiaf 1.2 metr o uchder a chael ei gosod o leiaf fetr o'r goeden i'w hamddiffyn rhag defaid (neu 1.5 metr i'w hamddiffyn rhag gwartheg a cheffylau). Dylai diamedr pob un o'r pedwar postyn cornel fod o leiaf 10cm x 10cm. Dylid gosod o leiaf bedair rheilen bren gyda diamedr o 10cm x 5cm o leiaf ar ochr allanol y pyst. Wedyn dylid gosod netin galfanedig o amgylch y strwythur a'i ddal yn ei le â staplau galfanedig.

Os mai defaid yw'r unig dda byw, mae llawes drionglog yn dderbyniol. Dylai'r ochrau fod o leiaf 1.2m o daldra, wedi'u gosod o leiaf 1m o'r goeden i'w hamddiffyn rhag defaid. Wrth i'r goeden dyfu, cofiwch y bydd angen lledu'r llawes.

Defnyddiwch ddeunyddiau ffensio pren caled neu bren meddal sydd wedi'i drin o dan wasgedd.

Rhaid i unrhyw bren, netin a styffylau fod yn newydd.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio gwreiddgyff corachu.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:


Plannwch amrywiaeth o goed gan gynnwys mathau sy'n blodeuo'n gynnar ac yn hwyr er mwyn helpu o ran peillio a lleihau problemau sy'n cael eu hachosi gan rew neu glefyd. Mae ychwanegu nifer fach o goed eirin, coed eirin hirion neu goed gellyg yn ogystal â choed afalau yn cynnig ychydig o amrywiaeth.

Fel rheol fras, dylech blannu'r coed o leiaf 6m oddi wrth ei gilydd.

Wrth adeiladu llewys, defnyddiwch gyfuniad o byst fertigol a rheiliau llorweddol i greu strwythur cadarn. Gosodwch weiar netin o'i amgylch i atal da byw rhag dod i mewn. Bydd y rheiliau llorweddol yn atal y pyst rhag cael eu llacio. Mae'n bosibl y caiff y tir ei ddefnyddio gan amrywiaeth o dda byw, felly mae'n rhaid i'r llewys fod yn ddigon cryf i wrthsefyll y bygythiad mwyaf un. Peidiwch â cheisio cynyddu'r pellter rhwng y rheilen uchaf a'r goeden drwy ogwyddo'r pyst am allan. Bydd hynny yn ei gwneud yn anodd gosod y netin yn gadarn yn ei le

Nid oes angen gosod weiren bigog ar ben y ffens am fod hyn yn annhebygol o atal anifeiliaid rhag pwyso drosodd, a bydd yn anos mynd i mewn i'r 'lloc' i drin y goeden.

Mae'n bosibl gosod set ychwanegol o reiliau hanner ffordd i fyny'r pyst i'w hatgyfnerthu.



6513 Cynnal Bwlch Cae â Rwbel

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Carthu Ffogydd'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Beth yw pwrpas y gweithgarwch hwn?

Mae'r pridd o gwmpas bylchau caeau a mannau eraill sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan dda byw a cherbydau fferm mewn perygl o gael ei gywasgu a'i erydu. Mae tir wedi'i gywasgu'n draenio'n wael a bydd dŵr yn crynhoi'n byllau.

Gall dŵr ffo o gae gael ei sianelu trwy fwllch cae. Mae llawer o afonydd a nentydd yng Nghymru wedi cael eu llygru gan y dŵr sy'n llifo oddi ar gaeau (dŵr ffo) gan effeithio ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd ac ansawdd dŵr yfed. Trwy roi rwbel wrth fwllch cae, fe welwch lai o gywasgu, erydu a llif dŵr.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gosodwch o leiaf 200mm o ddyfnder o gerrig ar draws y bwlch gan geisio creu pad gwastad rheolaidd o rwbel.

Trwsiwch ar unwaith unrhyw ddifrod neu hôl traul yn sgil y cynhaeaf neu ddigwyddiadau naturiol.

Peidiwch â:

Defnyddio concrit i osod y cerrig yn eu lle.

Tynnu cerrig o afonydd, cynefinoedd neu nodweddion daearegol

Defnyddio llawr rwbel y bwlch cae fel lleoliad ar gyfer cafnau bwydo, cafnau yfed neu i gadw cerbydau a pheiriannau

Defnyddio deunyddiau gwastraff anadweithiol ar gyfer creu llawr rwbel.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Os ydych yn cynnal unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi gadarnhau a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylech gadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i ddangos pan ofynnir ichi wneud hynny.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. I'r perwyl hwnnw, **dylech gadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i ddangos pan ofynnir i chi wneud hynny.** Gweler yr Amodau a'r Telerau i gael rhagor o fanylion.

6514 Bondocio Perth/Gwrych a Chau Bylchau

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Bondocio Perth/Gwrych a Chau Bylchau'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith

Pwysig: nid yw defnyddio peiriant ffustio i docio perth yn bodloni'r fanyleb dechnegol sy'n angenrheidiol i gyflawni bondocio perth at y lefel a nodir isod.

Byddwn yn gwrthod prosiectau Bondocio Perth/Gwrych a Chau Bylchau os mai'r cyfan rydych wedi'i wneud yw tocio rhyw ychydig ar y berth.

Bondocio

Peidiwch â bondocio unrhyw berthi heblaw am berthi traddodiadol. Ni ddylech bondocio rhesi o goed, fel coetiroedd sy'n tyfu ar lan afon. Mae gwaith bondocio'n cael ei wneud fel arfer pan fydd bonion perth yn rhy bell ar wahân i allu ei phlygu'n iawn, neu le mae bonion y berth yn rhy llydan (mwy na 12cm o led) i'w phlygu'n iawn. Weithiau, bydd y bonion mor drwchus fel y bydd angen i chi gael Trwydded Cwmpo Coed gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr a oes angen un neu beidio. Pan fydd y weithred hwn yn cael ei ymgymryd, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru a byddant yn darparu gwybodaeth ynghylch a yw cyfranogwyr sy'n ymgymryd â'r opsiwn hwn wedi gwneud cais am drwydded cwmpo coed.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Bondociwch y berth hyd at 7.5cm neu lai o'r llawr er mwyn gadael i'r coesyn ailegino.

Cadwch o leiaf 1 coeden fesul 50m fel coed hirgyff (neu safonol). Dylai hyn gynnwys pob coeden fawr aeddfed, yn enwedig y rheini sydd â thyllau, holltau, craciau neu sydd o dan drwch o iorwg, gan eu bod yn cynnig mannau clwydo i ystlumod. Mae cadw coed yn gallu lliniaru'r effaith o golli strwythur perth dros dro, gan barhau i ddarparu cysgod a lloches i dda byw.

Ailblannwch unrhyw fylchau mawr a rhannau lle mae bonion bondocio yn brin.

Plannwch goed a llwyni brodorol mewn cymysgedd sy'n cynnwys o leiaf dair rhywogaeth perth, heb i unrhyw un o'r elfennau fod yn fwy na 75% o'r cyfanswm.

Plannwch blanhigion perth gydag egin tyfu cryf ac sydd o leiaf 45-60cm o daldra.

Plannwch i lenwi bylchau mawr gyda dwysedd o 7 planhigyn mewn dwy res am yn ail, gyda 20cm rhwng pob rhes.

Lle mae bonion bondocio'n denau, mewnosodwch goed neu llwyni newydd ychwanegol i greu dwysedd o 2 goesyn y metr o leiaf.

Gofalwch nad yw planhigion newydd yn marw am eu bod dan gysgod chwyn.

Amddiffynnwch berthi sydd newydd gael eu bondocio neu eu plannu rhag da byw.

Plannwch goed/llwyni i gymryd lle unrhyw rai sy'n marw o fewn tair blynedd ar ôl eu plannu.

Gofalwch eich bod yn tynnu unrhyw hen weiren neu ddarnau o ffens.

Gofalwch fod o leiaf 1m rhwng y ffens amddiffyn a'r planhigion newydd.

Gofalwch fod y berth yn gallu tyfu at 3m o led. Gofalwch fod o leiaf 3m o fwllch rhwng y ddwy ffens. Lle mae perth yn cael ei bondocio wrth ymyl ffordd, caniateir bwlch o 1.5m rhwng canol y berth a'r ffens. Rhaid gosod y ffens wrth yr ochr sy'n ffinio â'r cae.

Mae angen caniatâd ysgrifenedig eich cymydog i osod ffens ar ei dir os ydych chi'n gwneud gwaith adfer perth ar y ffin rhwng eich eiddo.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Plannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd o blanhigion oherwydd clefyd y coed ynn (*Hymenoscyphus fraxineus*), naill ai ar gyfer coetir neu wrth sefydlu neu adfer perthi. Dylid cadw coed ynn presennol os nad ydynt yn berygl amlwg, gyda'r posibilrwydd o'u dethol i dyfu fel coed hirgyff.

Plannu coed llydanddail neu gonwydd anfrodorol.

Difrodi unrhyw glawdd hanesyddol wrth baratoi'r pridd, plannu neu ffensio.

Defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin ffensio.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gan ddibynnu ar faint o goed y bydd gofyn eu torri, mae'n bosibl y bydd angen gwneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru am drwydded cwmpo coed.

Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. I'r perwyl hwnnw, dylid cadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a dangos y ddogfen pan gewch gais i wneud hynny. Gweler Rheolau Cyffredinol am ragor o fanylion.

Os ydych yn cynnal gwaith chwistrellu fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod wedi cael y caniatâd sydd ei angen.

Lle mae gweithgareddau Cyfalaf - Yr Amgylchedd yn gofyn am osod seilwaith mynediad, fel camfeydd neu gatiau ar Hawl Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Prifffyrdd priodol o dan adran 147 o Ddeddf Prifffyrdd 1980.

Gwnewch unrhyw waith adfer perthi rhwng 31 Awst a 1 Mawrth. Mae perthi sy'n cael eu bondocio cyn diwedd Rhagfyr yn aildyfu'n gynt na rhai sy'n cael eu bondocio'n ddiweddarach. Gallai pathewod fod yn bresennol ar unrhyw adeg ac mae'n bosibl y byddant wedi dechrau nythu ym mis Mawrth. Wrth ganfod unrhyw nythod pathewod gweithredol, rhaid rhoi'r gorau i'r gwaith a cheisio cyngor a thrwydded.

Rhowch y cyfle gorau iddynt oroesi trwy blannu planhigion newydd yn y berth ym misoedd y gaeaf o fis Tachwedd tan fis Mawrth. Cadwch beli gwreiddiau'n llaith cyn eu plannu, a'u dyfrhau'n drylwyr mewn cyfnodau sych nes eu bod wedi cydio.

Byddai ychwanegu 1 metr at y bôn rhwng y berth a'r ffens (yn ychwanegol at y 3 metr gofynnol) yn creu cynefin ychwanegol i fywyd gwyllt.

Bydd cynyddu'r cymysgedd rhywogaethau y tu hwnt i'r isafswm o 3 rhywogaeth yn darparu mwy o ddewis o ffynonellau bwyd ar gyfer bywyd gwyllt ac yn gwneud eich perth yn fwy gwydn yn wyneb eithafion hinsawdd, plâu a chlefydau.

Dewiswch blanhigion sydd â gwreiddiau sydd wedi datblygu'n dda. Argymhellir planhigion sy'n 3-4 oed.

Mae'n well palu â llaw er mwyn osgoi difrodi cloddiau hanesyddol wrth baratoi'r pridd.

Os ydych yn plannu planhigion perth mewn bylchau mawr ar bridd llwm, gallech ychwanegu hen dail wedi pydru.

Plannwch rywogaethau brodorol sy'n gyffredin yn lleol lle bo hynny'n bosibl. Os medrwyd, dewiswch blanhigion o hadau neu doriadau o goed lleol, gan y byddant yn fwy tebygol o oroesi a chynnal mwy o anifeiliaid brodorol.

Lle mae coed wedi cael eu plannu mewn bylchau mawr, mae'n bosibl rheoli chwyn gyda haen drwchus o domwellt sglodion rhisgl, neu trwy osod haen o ffabrig rheoli chwyn bioddiraddadwy 1-2m o led wrth fonion y coed trawsblannu.

I annog tyfiant newydd ar ôl plannu mewn bylchau mawr, dylech docio'r coed trawsblannu. Ni ddylid tocio coed/llwyni newydd sy'n cael eu plannu rhwng coedlannau bondocio presennol, gan y byddai hynny'n eu hatal rhag cystadlu â choed sefydledig.

Sefydlwch o leiaf 2 goeden berth fesul 100m. Naill ai plannwch goed ifanc (o leiaf 1m o daldra) neu nodwch blanhigion ifanc a fyddai'n gallu datblygu'n goed. Byddai'n ddoeth tagio'r goeden er mwyn osgoi difrod damweiniol wrth docio'r berth. Dewiswch rywogaethau brodorol sy'n tyfu'n dda mewn perthi lleol gan y byddant yn cyfrannu at harddu'r dirwedd a chynyddu gwerth y berth i fywyd gwyllt.

Gallwch ddefnyddio llewys coed i amddiffyn y berth lle mae cwningod yn debygol o achosi difrod difrifol. Er hynny, mae'n well osgoi eu defnyddio yn y rhan fwyaf o ardaloedd gan eu bod yn atal tyfiant trwchus cadarn wrth fôn y berth.

Lle mae angen gwaith ar goeden/perth sydd wedi'i nodi fel clwydfan ystlumod neu safle bridio pathewod (naill ai oherwydd bod ystlumod/pathewod yn bendant yn bresennol neu mae olion cadarnhaol o ddefnydd gan ystlumod/pathewod), rhaid cael trwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

6515 Plygu Perth/Gwrych: Traddodiadol

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Plygu Perth/Gwrych'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gofalwch fod unrhyw ddeunydd ffensio neu wifrau diangen yn cael eu gwaredu.

Plygwch y berth trwy dorri'n rhannol trwy goesynnau addas, gyda thoriad ar oledf ar ongl o tua 30°. Dylai'r toriad ddod i ben yn agos at lefel y ddaear.

Gosodwch y coesynnau a dorwyd ar yr ongl sy'n briodol i'r arddull lleol (fel arfer rhwng 20 a 45°), a defnyddio polion i'w dal yn gadarn yn eu lle.

Cadwch o leiaf 1 coeden fesul 50m fel coed hirgyff. Dylai hyn gynnwys pob coeden fawr aeddfed, yn enwedig y rheini sydd â thyllau, holtau, craciau neu sydd o dan drwch o iorwg, gan eu bod yn cynnig mannau clwydo i ystlumod.

Gofalwch fod o leiaf 1m rhwng y ffens amddiffyn a pherth sydd newydd ei phlygu.

Gofalwch fod y berth yn gallu aildyfu at 3m o led. Gofalwch fod o leiaf 3m o fwllch rhwng ffensys dwbl. Lle mae perth yn cael ei phlygu wrth ymyl ffordd, caniateir bwlch o 1.5m rhwng canol y berth a'r ffens. **Rhaid gosod y ffens wrth yr ochr sy'n ffinio â'r cae.**

Rhaid i chi ofalu bod lled cyfan y berth yn cael ei blygu. Os oes rhan o led perth y tu hwnt i ffin eich eiddo, ni ddylech gynnwys y berth honno, oni bai eich bod yn cael caniatâd ysgrifenedig gan eich cymydog i wneud hynny.

Mae angen caniatâd ysgrifenedig eich cymydog i osod ffens ar ei dir os ydych chi'n plygu perth ar y ffin rhwng eich eiddo.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio weiren na chodyn bêls i glymu'r pyst na'r brigau wedi'u torri.

Plannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd o blanhigion oherwydd clefyd y coed ynn (*Hymenoscyphus fraxineus*), naill ai ar gyfer coetir neu wrth sefydlu neu adfer perthi. Dylid cadw coed ynn presennol os nad ydynt yn berygl amlwg, gyda'r posibilrwydd o'u dethol i dyfu fel coed hirgyff.

Llosgi'r deunydd a dorwyd wrth blygu'r berth. Mae angen defnyddio deunydd o'r fath i greu pentyrrau cynefin neu berthi marw.

Difrodi unrhyw glawdd hanesyddol wrth baratoi'r pridd, plannu neu ffensio.

Defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin ffensio.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gan ddibynnu ar faint o goed y bydd gofyn eu torri, mae'n bosibl y bydd angen gwneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru am drwydded cwmpo coed.

Gofalwch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Risg Llifogydd os ydych yn plannu neu'n ffensio wrth brif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd. Fel arall, gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. I'r perwyl hwnnw, **dylid cadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a dangos y ddogfen pan gewch gais i wneud hynny.** Gweler Rheolau Cyffredinol am ragor o fanylion.

Os ydych yn cynnal gwaith chwistrellu fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod wedi cael y caniatâd sydd ei angen.

Gwnewch unrhyw waith adfer perthi rhwng 31 Awst a 1 Mawrth. Mae perthi sy'n cael eu plygu cyn diwedd Rhagfyr yn aildyfu'n gynt na rhai sy'n cael eu plygu'n ddiweddarach. Gallai pathewod fod yn bresennol ar unrhyw adeg, ac mae'n bosibl y byddant wedi dechrau nythu ym mis Mawrth. Wrth ganfod unrhyw nythod pathewod gweithredol, rhaid rhoi'r gorau i'r gwaith a cheisio cyngor a thrwydded.

Yn ddelfrydol, dylai'r coesyndau i'w plygu fod tua 5-12cm o drwch yn y gwaelod, ac yn 2.5-3.5m o daldra. Y tu hwnt i hynny, dylid ystyried bondocio fel dull amgen mwy addas.

Byddai ychwanegu 1 metr at y bôn rhwng y berth a'r ffens (yn ychwanegol at y 3 metr gofynnol) yn creu cynefin ychwanegol i fywyd gwyllt.

Os ydych yn plannu mewn unrhyw fylchau, bydd defnyddio'r dewis ehangaf o rywogaethau sydd ar gael yn darparu mwy o ddewis o ffynonellau bwyd ar gyfer bywyd gwyllt.

Ceisiwch blygu perthi yn ystod misoedd y gaeaf rhwng Tachwedd a Mawrth.

Pryd bynnag y bo'n bosibl, dilynwch ddulliau ac arferion traddodiadol lleol.

Er budd bioamrywiaeth, dylid gwaredu cymaint o ysgawen ag sy'n angenrheidiol yn unig, a thociwch unrhyw fieri neu blanhigion dringo eraill os ydynt yn amharu ar y gwaith plygu.


Dylid plygu'r perthi i fyny'r llethr neu i gyd-redeg â chyrsiau dŵr cyfagos, i'r un cyfeiriad os yw'n bosibl.

Mae angen cadw coed ynn presennol lle bo'n bosibl.

Cadwch unrhyw goed aeddfed mawr wrth ymgymryd â gwaith adnewyddu perthi, gan eu bod yn gallu darparu safleoedd clwydo i ystlumod.

Lle mae angen gwaith ar goeden/perth sydd wedi'i nodi fel clwydfan ystlumod neu safle bridio pathewod (naill ai oherwydd bod ystlumod/pathewod yn bendant yn bresennol neu mae olion cadarnhaol o ddefnydd gan ystlumod/pathewod), rhaid cael trwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Example of the 'stake and pleach' style of
hedge laying:



6516 Llewys Rhwyll Coed Unigol: > 1.2m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Llewys Rhwyll Coed Unigol: > 1.2m'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae llewys rhwyll coed yn amddiffyn coed unigol, megis coed mewn parcdir a phlaniadau amaethgoedwigaeth, trwy atal anifeiliaid sy'n pori rhag difrodi'r goeden.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gosodwch lawes rwyll wedi'i gwneud o rwyll wifrog alfanedig wedi'i weldio.

Dylai'r llawes fod wedi'i gweithgynhyrchu o rwyll trwch 12 (2.5mm) 50x50mm neu 25mmx75mm.

1.2m o uchder o leiaf.

Dylai diamedr y llawes fod o leiaf 40cm

Defnyddiwch o leiaf ddau bostyn pren sydd â diamedr o 10cm x 10cm o leiaf i gadw'r llawes rwyll yn ei lle. Defnyddiwch staplau galfanedig i osod llewys rhwyll ar y pyst.

Defnyddiwch byst sy'n cynnwys pren caled neu bren meddal wedi'i drin dan wasgedd.

Gofalwch fod yr holl ddeunyddiau'n rhai newydd sbon.

Tynnwch neu newidiwch y llewys coed cyn iddynt effeithio ar dwf coed.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gellir cynnwys pyst ychwanegol i ddarparu sefydlogrwydd ychwanegol i'r llawes rwyll.

Gallai rhwyll wifrog gynnwys 'pigau'. Dim ond mewn ardaloedd heb fynediad cyhoeddus a lle mae'r effaith ar dda byw wedi'i hasesu y mae'r eitem hwn yn addas.

Cynnal y llewys coed nes bod y coed wedi'u sefydlu a/neu mae'r risgiau o ddifrod gan anifeiliaid sy'n pori wedi stopio

Dylech fonitro a chynnal a chadw'r coed, y llewys rhwyll a'r pyst cynnal yn rheolaidd. Dylech dynnu a newid y llawes rwyll a'i physt cynnal os ydynt yn difrodi'r goeden.

6517 Llewys Rhwyll Coed Unigol: > 1.8m

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Llewys Rhwyll Coed Unigol: > 1.8m'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae llewys rhwyll coed yn amddiffyn coed unigol, megis coed mewn parcdir a phlaniadau amaeth-goedwigaeth, trwy atal anifeiliaid sy'n pori rhag difrodi'r goeden.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gosodwch lawes rwyll wedi'i gwneud o rwyll wifrog alfanedig wedi'i weldio.

Dylai'r llawes fod wedi'i gweithgynhyrchu o rwyll trwch 12 (2.5mm) 50x50mm neu 25mmx75mm.

1.8m o uchder o leiaf.

Dylai diamedr y llawes fod o leiaf 40cm

Defnyddiwch o leiaf ddau bostyn pren sydd â diamedr o 10cm x 10cm o leiaf i gadw'r llawes rwyll yn ei lle. Defnyddiwch staplau galfanedig i osod llewys rhwyll ar y pyst.

Defnyddiwch byst sy'n cynnwys pren caled neu bren meddal wedi'i drin dan wasgedd.

Gofalwch fod yr holl ddeunyddiau'n rhai newydd sbon.

Tynnwch neu newidiwch y llewys coed cyn iddynt effeithio ar dwf coed.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylbau uchod:

Gellir cynnwys pyst ychwanegol i ddarparu sefydlogrwydd ychwanegol i'r llawes rwyll.

Gallai rhwyll wifrog gynnwys 'pigau'. Dim ond mewn ardaloedd heb fynediad cyhoeddus a lle mae'r effaith ar dda byw wedi'i hasesu y mae'r eitem hwn yn addas.

Cynnal y llewys coed nes bod y coed wedi'u sefydlu a/neu mae'r risgiau o ddifrod gan anifeiliaid sy'n pori wedi stopio

Dylech fonitro a chynnal a chadw'r coed, y llewys rhwyll a'r pyst cynnal yn rheolaidd. Dylech dynnu a newid y llawes rwyll a'i physt cynnal os ydynt yn difrodi'r goeden.

6518 Gosod Cwrbin

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gosod Cwrbin'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Beth yw pwrpas y gweithgarwch hwn?

Pwrpas gosod cwrbinau ar fuarthau ac o'u cwmpas ac wrth ochr traciau yw i helpu i wahanu dŵr glân a dŵr halogedig. Mae llawer o nentydd ac afonydd yng Nghymru yn cael eu llygru gan y dŵr sy'n llifo oddi ar dir amaethyddol (dŵr ffo). Mae'n effeithio ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd ac ansawdd dŵr yfed.

Gallwch ddefnyddio cwrbinau i sianelu dŵr halogedig o gyliau yn y buarth neu fannau eraill lle gallai ychwanegu at lif y dŵr ffo ac at y llygredd.

Gallwch wedyn sianelu'r dŵr halogedig i storfa addas neu storfa slyri.

Neu gallwch ddefnyddio cwrbinau i rwystro'r dŵr glân rhag llifo i draciau/buarthau halogedig. Trwy ddal dŵr glân at ei ddefnyddio wedyn a'i rwystro rhag llifo i ddŵr halogedig ar fuarth y fferm, bydd llif y dŵr halogedig yn haws ei reoli a'i ddal mewn storfa slyri ac ichi allu delio ag e' mewn ffordd addas.

Os ydych yn gosod cwrbinau ar fuarth i ddal dŵr glân, dylech ystyried hefyd a oes angen ichi wneud cais am Eitem 6526 Nwyddau Dŵr Glaw – Cafnau Glaw ac Eitem 6525 Nwyddau Dŵr Glaw – Pibellau Glaw.

Rhaid cadw at y canlynol:

Dylai'r cwrbinau fod yn 900mm x 255mm x 125mm (gydag un ymyl ar oleddf).

Dylai unrhyw waith concrit fod yn unol â'r Safonau Prydeinig perthnasol, BS 8000 a BS 8500, fel y'u diwygiwyd.

Gofalwch fod y dŵr glân sy'n cael ei ddargyfeirio gan y cwrbin yn llifo i arllwysfa draenio sefydlog fel ffos, cwlfer neu drap gwaddodion.

Dylai unrhyw ddŵr halogedig gael ei sianelu i storfa slyri addas.

Gofynion a chynghor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Os ydych yn cynnal unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi holi a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes. Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n

hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#).

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Dylech fod wedi cael copi o'r rhestr pan gafodd y safle ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd.

Dylech gadw'r drwydded/caniatâd neu gadarnhad nad oes angen trwydded/ caniatâd a'i dangos pan ofynnir ichi. Gweler yr Amodau a'r Telerau i gael rhagor o fanylion.

Sut i osod cwrbin – yr arfer gorau

Mae'r cwrbin yn fwy tebygol o fod yn sefydlog os ydy'r ffos yn cael ei phalu yn y trac at o leiaf 300mm o ddyfnder.

Llenwch y ffos â concrit a gosod cwrbinau arno, i godi o wyneb y trac.

Tamprwch y concrit ar yr ochr tu allan i fyny at ymyl dop y cwrbin.

Cadwch y concrit ar yr ochr fewnol (yr ochr a fydd yn dargyfeirio'r dŵr) yn fflat, ac yn is nag ymyl dop y cwrbin.

6519 Camfa Ysgol

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Camfa Ysgol'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith

Mae camfeydd ysgol yn cael eu defnyddio gan gerddwyr i fynd dros waliau a chloddiau.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Adeiladwch y gamfa ysgol o bren meddal sydd wedi'i drin o dan wasgedd neu o bren caled.

Defnyddiwch ddarnau o bren heb fod yn llai na'r rhai yn y diagram. Gallwch naill ai rabelu'r stepiau yn y ffrâm A neu eu cynnal â darnau ychwanegol o bren. Gosodwch ddwy droed y gamfa yn ddiogel trwy gladdu bonion y ffrâm A yn ddigon dwfn yn y ddaear a'u hangori gan ddefnyddio cynheiliaid fel y dangosir.

Os yw'r wal neu'r clawdd yn un llydan, efallai y bydd angen llwyfan ar dop y gamfa.

Lle mae'r gweithgarwch yn gofyn am osod seilwaith mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawl Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Priffyrdd priodol o dan adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Gofalwch fod y gamfa'n cydymffurfio â BS5709:2006, fel y'i diwygiwyd. Mae gât yn dipyn llai rhwystrol na chamfa ysgol felly dylid gosod gât lle bynnag y bod modd.

Peidiwch â gwneud y canlynol:


Defnyddio concrit i osod oren yn gadarn yn y ddaear.

Lleihau maint y wal neu'r clawdd er mwyn i'r ysgol allu rhychwantu'r ffin. Adeiladwch lwyfan ar dop y gamfa os oes angen.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Yr arfer gorau yw claddau pennau'r ffrâm A o leiaf 30cm yn y pridd i angori'r gamfa.

Example of a step ladder stile



6520 Plannu Perth Newydd ar gyfer Pryfed Peillio

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Plannu Perth/Gwrych Newydd'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Plannwch goed a llwyni brodorol mewn cymysgedd sy'n cynnwys o leiaf dair rhywogaeth perth. Rhaid i o leiaf 90% o'r gymysgedd gynnwys y rhywogaethau canlynol; draenen ddu, draenen wen, afalau surion, eirin gwyllt neu geirios du. Ni ddylai un elfen o'r gymysgedd fod yn fwy na 75% o'r cyfanswm.

Plannwch blanhigion perth gydag egin tyfu cryf ac sydd o leiaf 45-60cm o daldra.

Plannwch berth newydd gyda dwysedd o 7 planhigyn y metr mewn dwy res am yn ail, gyda 20cm rhwng pob rhes.

Gofalwch nad yw planhigion newydd yn marw am eu bod dan gysgod chwyn.

Amddiffynnwch berthi sydd newydd gael eu plannu rhag da byw.

Mae angen plannu planhigion newydd i gymryd lle unrhyw rai sydd wedi marw.

Gofalwch fod o leiaf 1m rhwng y ffens amddiffyn a'r planhigion newydd.

Gofalwch fod y berth yn gallu tyfu hyd at 3m o led. **Gofalwch fod o leiaf 3m o fwllch rhwng ffensys dwbl.** Lle mae perth yn cael ei phlannu wrth ymyl ffordd, caniateir bwlch o 1.5m rhwng canol y berth a'r ffens. Rhaid gosod y ffens wrth yr ochr sy'n ffinio â'r cae.

Mae angen caniatâd ysgrifenedig eich cymydog i osod ffens ar ei dir os ydych chi'n plannu perth newydd ar y ffin rhwng eich eiddo.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Plannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd o blanhigion oherwydd clefyd y coed ynn (*Hymenoscyphus fraxineus*).

Defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu byst ffensio na'u defnyddio chwaith i gynnal weiren, staplau na netin ffensio.

Difrodi unrhyw glawdd hanesyddol wrth baratoi'r pridd, plannu neu ffensio.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall

gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu adeiledd amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chyfeirio at ein tudalen [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgarwch perygl llifogydd](#)

Dylech gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod a oes angen caniatâd draenio tir cyn ar gyfer plannu unrhyw goed ger cyrsiau dŵr mewn Ardal Ddraenio Fewnol.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. I'r perwyl hwnnw, **dylid cadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a dangos y ddogfen pan gewch gais i wneud hynny**. Gweler Telerau ac Amodau am ragor o fanylion.

Os ydych yn cynnal gwaith chwistrellu fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod wedi cael y caniatâd sydd ei angen.

Rhowch y cyfle gorau iddynt oroesi trwy blannu planhigion newydd yn y berth ym misoedd y gaeaf o fis Tachwedd tan fis Mawrth. Cadwch beli gwreiddiau'n llaith cyn eu plannu, a'u dyfrhau'n drylwyr mewn cyfnodau sych nes eu bod yn cydio.

Dewiswch blanhigion sydd â gwreiddiau datblygedig. Argymhellir planhigion sy'n 3-4 oed.

Paratowch y pridd trwy naill ai ei dorbalu/rotofetio, ei aredig neu ei balu yn ystod yr haf blaenorol. Mae'n well palu â llaw er mwyn osgoi difrodi cloddiau hanesyddol wrth baratoi'r pridd.

Os ydych yn plannu planhigion perth ar bridd llwm, gallech ychwanegu hen dail wedi pydru.

Plannwch rywogaethau brodorol sy'n gyffredin yn lleol lle bo hynny'n bosibl. Os medrwn, dewiswch blanhigion o hadau neu doriadau o goed lleol, gan y byddant yn fwy tebygol o oroesi a chynnal mwy o anifeiliaid brodorol.

Mae'n bosibl rheoli chwyn gyda haen drwchus o domwellt sglodion rhisgl, neu trwy osod haen o ffabrig rheoli chwyn bioddiraddadwy 1-2m o led wrth fonion y coed trawsblannu. Gallwch ddefnyddio chwynladdwr i reoli porfa, dail tafol, ysgall a llysiau'r gingroen.

Rhaid i unrhyw gemegyn a ddefnyddir fod ag argymhelliad ar y label i'w ddefnyddio ar y rhywogaethau a restrir ac ar gyfer y dull defnyddio a fwriedir. Rhaid glynu'n dynn at holl argymhellion label y gwneuthurwyr ar gyfer defnyddio'r chwynladdwr.

I annog tyfiant newydd, dylech docio'r coed trawsblannu.

Gosodwch o leiaf 2 goeden berth fesul 100m. Naill ai plannwch goed ifanc (o leiaf 1m o daldra) neu nodwch blanhigion presennol a fyddai'n gallu datblygu'n goed. Byddai'n ddoeth tagio'r goeden er mwyn osgoi difrod damweiniol wrth docio'r berth. Dewiswch rywogaethau brodorol sy'n tyfu'n dda mewn perthi lleol gan y byddant yn cyfrannu at harddu'r dirwedd a chynyddu gwerth y berth i fywyd gwyllt.

Gallwch ddefnyddio llewys coed i amddiffyn y berth lle mae cwningod yn debygol o achosi difrod difrifol. Er hynny, mae'n well osgoi eu defnyddio yn y rhan fwyaf o ardaloedd gan eu bod yn atal tyfiant trwchus cadarn wrth fôn y berth.

6521 Llewys coed gwrth-stoc mewn parcdir

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Llewys coed gwrth-stoc mewn parcdir'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gosodwch llewys coed sy'n ddigon mawr ac wedi'u dylunio'n gywir i amddiffyn y coed rhag unrhyw dda byw neu anifeiliaid sy'n pori, megis ceirw, a fydd yn gallu mynd ar y tir.

Rhaid i'r holl llewys sydd wedi'u gwneud o reilau pren fod o leiaf 1.2m o uchder ac wedi'u gosod o leiaf 1m o'r goeden i'w hamddiffyn rhag defaid (neu 1.5m i'w hamddiffyn rhag gwartheg a cheffylau). Dylai pob un o'r 4 postyn cornel fod â diamedr o 10cm x 10cm o leiaf. Dylid gosod o leiaf 4 rheilen bren sydd â diamedr o 10cm x 5cm o leiaf i ochr allanol y pyst. Yna dylid gosod rhwyd alfanedig o amgylch y tu allan i'r strwythur a'i chadw yn ei lle gyda staplau galfanedig. Dim ond mewn parcdiroedd sy'n cael eu pori gan ddefaid yn unig y mae llociau siâp triongl yn dderbyniol.

Defnyddiwch ffensys pren wedi'u gwneud o bren caled neu bren meddal wedi'i drin dan wasgedd.

Gofalwch fod y pren, gwifrau, rhwydi a staplau galfanedig yn ddeunyddiau newydd.

Os defnyddir llewys metel traddodiadol yn hytrach na rhai pren, gofalwch eu bod yn ddigon o faint i amddiffyn y coed rhag pob math o dda byw.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gwaith sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Dylech gysylltu â CNC cyn gynted â phosibl i drafod a oes angen trwydded ar gyfer plannu coed ger prif afon, ei gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd.

Dylech gysylltu â CNC i drafod a oes angen caniatâd draenio tir ar gyfer plannu coed ger cyrsiau dŵr mewn Ardal Ddraenio Fewnol.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Bydd y dewis o llewys coed yn dibynnu ar y canlynol:

Maint y goeden i'w amddiffyn.

Y math o ddifrod a ddisgwylir e.e. pori, tynnu rhisgl, rhaflo.

Y math o anifail sydd fwyaf tebygol o achosi difrod.

Y cyfnod o amser y mae'r goeden mewn perygl o gael difrod.

Dylai ymddangosiad gweledol y rhwystr, cyn belled ag y bo modd, gyd-fynd ag arddull a lliw unrhyw ffensys presennol yn y parcdir

Defnyddiwch gyfuniad o byst fertigol a rheiliau llorweddol i adeiladu strwythur cadarn. Gosodwch rwydi gwifrog o'i gwmpas i gadw da byw allan. Bydd y rheiliau llorweddol yn atal y pyst rhag cael eu llacio. Gallai amrywiaeth o stoc ddefnyddio'r parcdir dros amser felly mae'n rhaid i'r rhwystr fod yn ddigon cryf i wrthsefyll y senario gwaethaf. Peidiwch â cheisio cynyddu'r pellter rhwng y rheilen uchaf a'r goeden trwy oleddu'r pyst am allan. Bydd hyn yn ei gwneud yn anodd gosod y rhwyd yn ei lle yn ddiogel.



Nid oes angen rhoi weiren bigog ar hyd top y strwythur, gan fod hyn yn annhebygol o atal anifeiliaid rhag pwyso drosodd, a byddwch yn ei gwneud yn anoddach i chi fynd i mewn i'r lloc i drin y goeden. Gall weiren bigog hefyd achosi anaf i chi a'ch da byw.

Gellir gosod setiau ychwanegol o reiliau hanner ffordd i fyny'r pyst i ddarparu cryfder ychwanegol.

Dim ond mewn parcdiroedd sy'n cael eu pori gan ddefaid yn unig y mae llociau siâp triongl yn dderbyniol. Rhaid i lociau o'r fath fod o leiaf 1.2m o uchder ac wedi'u gosod o leiaf 1m o'r goeden i'w hamddiffyn rhag defaid. Mae'n bwysig cofio efallai y bydd angen ehangu'r rhwystr wrth i'r goeden dyfu.

Defnyddir rhwystrau metel traddodiadol mewn parcdiroedd sydd wedi hen sefydlu. Mae'n bwysig eu bod yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau nad yw'r goeden yn tyfu i mewn i'r gwaith metel ac yn cael ei hanffurfio.

Roedd rhwystrau o'r fath wedi'u gwneud o haearn gyr yn wreiddiol ond maen nhw bellach ar gael mewn dur.



6522 Pibelli Cyflenwi Dŵr

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Pibell Cyflenwi Dŵr'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Gellir defnyddio pibelli dŵr i gario dŵr i gafnau yfed os yw'r da byw'n cael eu rhwystro rhag defnyddio ffynonellau dŵr eraill.

Rhaid cadw at y canlynol:

Rhaid i'r pibelli fod o bolyethylen glas dwysedd canolig gyda diamedr allanol o 2.5 cm fan leiaf.

Defnyddiwch gymalau dwrglos o bres neu blastig.

Rhaid claddu pibelli at ddyfnder digonol i sicrhau nad yw gweithgareddau ar y wyneb yn eu difrodi.

Rhaid adfer tir wedi'i dyrchu fel ei fod fel y tir o'i gwmpas ar ôl gorffen gosod y pibelli.

Rhaid gwarchod unrhyw bibelli sydd uwchlaw'r ddaear rhag anifeiliaid a rhew.

Pan fydd pibell yn croesi ffos agored neu drac, gofalwch ei bod yn cael ei hamddiffyn. Rhaid gosod giârd o diwb dur neu bibell lawes dros y bibell, a'i gosod at ddigon o ddyfnder o dan y ffos er mwyn ichi allu glanhau'r ffos. Wrth groesi trac fferm, gofalwch fod y bibell wedi'i diogelu'n ddigonol o dan y trac.

Rhaid rheoli lefelau'r dŵr â falfiau ynysu/tapiau cau ar y pwynt cyflenwi ac wrth bob cafn. Rhaid gwarchod y falfiau ynysu/tapiau cau rhag rhew a difrod gan stoc, a rhaid iddynt fod yn hawdd eu cyrraedd.

Lle bo angen claddu falfiau/tapiau cau, rhaid iddynt fod o leiaf 60cm o dan y pridd a dylai fod modd cyrraedd atynt drwy siambr archwilio dan glawr.

Rhaid i bibell ddŵr ddarparu digon o ddŵr yfed oer i ail-lenwi'r holl gafnau dŵr ar ei hyd yn barhaus drwy'r flwyddyn mewn 10 munud.

Rhaid i bob gwaith cyflenwi dŵr gydymffurfio â Chodau Ymarfer Safonau Prydeinig cyfredol BS6572, fel y'i diwygiwyd.

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Dylech fod wedi cael copi o'r rhestr pan gafodd y safle ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Bydd angen trwydded codi dŵr arnoch os ydych chi'n cymryd dŵr o ddŵr ar y tir neu o ddŵr daear, oni bai nad oes angen trwydded. Gall dŵr ar y tir gynnwys: afon neu nant, cronfa ddŵr, llyn neu bwl, camlas, ffynnon, doc, sianel, cilfach, bae, aber neu fraich o'r môr

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Cewch wybod a oes angen trwydded arnoch i dynnu neu gronni dŵr](#)

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl lifogydd sy'n bod eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl lifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd na bywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn cynnal unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag lifogydd, rhaid i chi holi a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Lifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylech gadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i ddangos pan ofynnir ichi wneud hynny..

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl lifogydd](#)

Peidiwch â:

Difrodi gwasanaethau eraill megis cyflenwad dŵr, gwastraff, nwy, trydan a ffôn.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Ystyriwch osod draeniau caeau a'r falfiau yn yr un lle er mwyn ichi allu cael atyn nhw'n rhwydd.

Ystyriwch amrywiaeth o ffactorau wrth bennu diamedr y pibelli. Er enghraifft pwysedd y dŵr, capasiti dŵr, llif cyfnewidiol, hyd y bibell a newid o ran uchder, faint o ddŵr sydd ei angen, nifer y cafnau, faint o stoc a'r math o stoc sy'n defnyddio pob cafn.

Lle bydd cymalau wedi'u claddu dan ddaear, cynghorir eich bod yn marcio eu lleoliad, ar byst ffensiau er enghraifft, er mwyn eich helpu â'u cynnal a'u cadw yn y dyfodol.

Rhaid claddu pibelli o leiaf 60cm o ddyfnnder, ac yn ddyfnach os rhagwelir aredig dwfn neu aredig yr isbridd yn y dyfodol.

Gosodwch bibelli drwy dorri ffosydd, gydag aradr wadd neu aradr isbridd, gan ddibynnu ar y math o bridd a'r peiriannau sydd ar gael.

Yr arfer gorau wrth osod pibell o dan ffos yw ei gosod 60cm islaw'r ffos er mwyn ichi allu glanhau'r ffos.

Yr arfer gorau wrth osod pibell o dan drac fferm yw gosod y bibell ar wely 7.5cm o dywod a'i gorchuddio â 10cm arall o dywod cyn ôl-lenwi ar ei ben.

6523 Adfer Pwll

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Adfer Pwll'. Mae'r gwaith cyfalaf hwn ar gyfer adfer pyllau sydd â llai na 30% o ddŵr agored. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith

Mae pyllau dŵr a chyrff bach eraill o ddŵr yn bwysig am eu bod yn cynnal bioamrywiaeth dŵr croyw ac yn storio dŵr. Gall ardal â llawer o byllau ynddi fod yn neilltuol o bwysig am ei bod yn gynefin i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid. Mae adfer pyllau yn gofyn am gael gwared ar silt sydd wedi cronni dros gyfnod o amser i greu dŵr agored.

Mae yna lawer o wahanol fathau o byllau 'da' ac mae angen osgoi ceisio gwneud i'r holl byllau ar eich fferm edrych yn debyg i'w gilydd. Mae amrywiaeth o wahanol fathau o byllau'n darparu'r amrywiaeth fwyaf o gynefinoedd ac yn gallu cynnal rhai o'n hanifeiliaid a'n planhigion prinnaf.

Os oes gennych fwy nag un pwll, bydd rheoli'r llystyfiant a'r silt bob ryw 10 mlynedd mewn cylchdro yn arwain at greu amrywiaeth o gynefinoedd gwahanol.

Mae'r canlynol yn tueddu i fod yn wir am byllau da:

Llawer iawn o ddŵr bas;

Dim neu ychydig iawn o bysgod ac adar y dŵr;

Dŵr clir;

Amrywiaeth o blanhigion dŵr heb unrhyw rywogaethau goresgynnol;

Ymylon wedi'u pori'n ysgafn, a dim mwy na hanner wyneb y pwll mewn cysgod.

Nid oes rheidrwydd bod dŵr yn y pwll trwy'r flwyddyn ac mae angen pyllau dros dro ar rai anifeiliaid a phlanhigion prin lle nad yw ysglyfaethwyr yn gallu goroesi. Rhaid caniatáu i lefelau'r dŵr amrywio'n naturiol ond dylai fod dŵr yn y pwll am o leiaf 6 mis o'r flwyddyn.

Peidiwch â chyflwyno anifeiliaid na phlanhigion i'ch pwll, yn enwedig o bwl yn yr ardd neu ganolfan arddio. Mae rhywogaethau pyllau brodorol yn gwasgaru'n hawdd, a byddant yn llwyddo i gyrraedd pyllau iach o'u pen a'u pastwn eu hunain.

Nid yw'r mathau canlynol o byllau'n addas ar gyfer yr opsiwn Cyfalaf - Yr Amgylchedd: adfer pwll hwn:

Llif i mewn neu lif allan. Y rheswm am hynny yw bod cyrsiau dŵr yn aml yn cario llawer o silt a/neu lygryddion.

Problemau mawr gydag ansawdd y dŵr nad oes modd eu datrys trwy fesurau adfer yr opsiwn hwn. Os ceir llygredd difrifol, bydd yn anodd cael gwared ar ddeunydd a bydd yn llawer anoddach adfer y pwll.

Mae pyllau â nifer fawr o bysgod neu hwyaid yn gynefin gwael ar gyfer bywyd gwyllt am eu bod yn hela'n drwm.

Pyllau addurnol neu byllau â phlanhigion goresgynnol estron. Maen nhw'n gynefin gwael ar gyfer bywyd gwyllt a gallai gwaith adfer helpu'r anifeiliaid a'r planhigion goresgynnol i ledaenu.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Mae'n bosibl bod rhywogaethau gwarchodedig fel dyfrgwn, llygod pengrwn y dŵr a madfallod dŵr cribog i'w cael mewn pyllau. Chi sy'n gyfrifol am nodi presenoldeb rhywogaethau o'r fath ac am ofalu na fydd y gwaith yn effeithio'n andwyol ar unrhyw rywogaethau gwarchodedig. Gofalwch bod unrhyw fynediad at ddŵr yfed gan dda byw o dir i lawr y llethr i'r pwll neu o dir gwastad wrth ymyl y pwll. Mae hyn er mwyn lleihau dŵr ffo a sathru.

Rhaid gwneud unrhyw waith dadsiltio a chlirio coed/prysgwydd rhwng 15 Hydref a 15 Ionawr rhag niweidio adar, amffibiaid ac infertebratau sy'n bridio. Dylid cadw cofnod o'r gwaith a wnaed yn eich dyddiadur gweithgarwch.

Wrth dynnu silt neu lystyfiant i gynnal dŵr agored, peidiwch â chlirio mwy na thraean o arwynebedd y pwll mewn blwyddyn. Mae hyn er mwyn i'r infertebratau a'r amffibiaid sy'n byw yn y silt allu dianc a goroesi yn y manau sy'n cael llonydd.

Pan fydd trwch o gysgod dros bwl, dylech fondocio cyfran o'r coed ifanc a/neu'r prysgwydd sy'n tyfu ar ochr ddeheuol y pwll er mwyn i olau allu cyrraedd wyneb y dŵr. Os ydych yn bondocio coed/prysgwydd, gofalwch eich bod yn eu torri o leiaf 15cm uwchlaw lefel y ddaear.

Lle mae ffens o gwmpas y llain glustogi i gadw da byw allan, mae angen gwaith cynnal a chadw arni.

Gofalwch nad yw da byw yn niweidio pyllau a'u glannau trwy stablad a sathru. Mae'n dderbyniol parhau i ddefnyddio cilfachau yfed sy'n bodoli eisoes

Gofalwch bod unrhyw fynediad at ddŵr yfed gan dda byw o dir i lawer y llethr o'r pwll neu o dir gwastad wrth ymyl y pwll. Mae hyn er mwyn lleihau dŵr ffo a sathru.

Dim ond rhwng 1 Ebrill a 30 Medi y mae hawl i bori unrhyw ardaloedd lle mae ffynhonnau neu drylifiadau sy'n bwydo pwll, er mwyn atal sathru a dŵr ffo gormodol yn yr ardaloedd hyn yn ystod adegau gwlypach o'r flwyddyn.

Gofalwch eich bod wedi atal unrhyw ffynonellau llygredd a maethynnau rhag cyrraedd y pwll, gan gynnwys unrhyw ddŵr ffo a allai gynnwys gwrtaith, slyri, tail, elifiant silwair neu faethynnau eraill.

Gwaredwch unrhyw sgrap, deunydd ffensio diangen neu sbwriel arall fel deunydd lapio plastig.

Gwasgarwch unrhyw silt sydd wedi'i glirio yn denau ar dir cyfagos yn unol ag esemptiad gwastraff U10 ac esemptiad gwastraff D1.

Mae gwahanol lefelau o fynediad da byw i wahanol rannau o'r pwll yn fuddiol, gan ddefnyddio dull 'Ffensio Pedwar Tymor' i hyrwyddo amrywiaeth o wahanol gynefinoedd.

Lle mae coed yn bresennol, mae'n syniad creu patrwm cymysg o goed a llwyni o amgylch y pwll trwy fondocio rhywfaint o'r prysgwydd i adael mwy o olau ar wyneb y dŵr ac atal mwy o ddail rhag gollwng i'r pwll. Nid oes angen plannu coed wrth ymyl y pwll.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Adfer pyllau rhwng mis Mawrth a mis Awst.

Carthu mwy na thraean o arwynebedd pwll ar unrhyw adeg.

Gadael i silt sydd wedi ei garthu i redeg yn ôl i'r pwll. Rhaid gwasgaru deunydd sydd wedi ei garthu ar dir i lawr y llethr o'r pwll, ond nid mewn man lle gallai redeg i gyrsiau dŵr cyfagos.

Creu ynysoedd yn y pwll.

Caniatáu mynediad i dda byw yfed o'r pwll ar gyfer mwy na 10% o'r pwll.

Gwasgaru mewnbynnau o unrhyw fath o fewn 10m i lan y pwll.

Rhyddhau pysgod neu anifeiliaid eraill i'r pwll.

Gollwng unrhyw blanhigion addurnol neu ddyfrol i'r pwll, gan fod nifer ohonyn nhw'n oresgynol.

Defnyddio peiriannau o fewn 5m i ymyl y dŵr, ac osgoi unrhyw ddifrod i lystyfiant y glannau a llystyfiant torlannol lle mae llygod pengrwn y dŵr.

Cael gwared ar brysgwydd neu garthu gwaelod y pwll os oes tystiolaeth bod dyfrgwn neu wâl dyfrgwn yn y pwll neu ar ei lan.

Cael gwared ar unrhyw hen goed o amgylch y pwll rhag ofn eu bod yn lletya nythod adar, clwydfannau ystlumod a mwsoglau a chennau prin.

Dyfnhau gormod ar y pwll neu greu glannau serth. Mae rhai pyllau'n sychu'n naturiol yn ystod misoedd yr haf. Nid oes yn rhaid i byllau bywyd gwyllt fod yn ddyfnach nag 1m, a dylai'r glannau fod ar oledf graddol.

Hau unrhyw hadau oddi mewn i lain glustogi'r pwll. Dim ond trwy aildyfiant naturiol y dylid caniatáu i llystyfiant dyfu mewn unrhyw ardal o'r fath.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a dangos y ddogfen pan gewch gais i wneud hynny.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgarwch perygl llifogydd](#)

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i ofalu nad yw eich gweithgarwch yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu'r perygl o lifogydd sydd yn bodoli eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. I'r perwyl hwnnw, **dylid cadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a dangos y ddogfen pan gewch gais i wneud hynny**. Gweler Rheolau Cyffredinol am ragor o fanylion.

Mae'r prosiect cyfalaf hwn yn cynnwys carthu uchafswm o draean o'r pwll y flwyddyn. Dylai'r ddwy ran o dair sy'n weddill gael eu carthu mewn cylchdro yn y blynyddoedd wedyn. Mae hyn yn sicrhau nad yw poblogaethau infertebratau yn cael eu gwaredu'n llwyr.

Er mwyn lleihau'r effeithiau ar fywyd gwyllt, dylid adfer pyllau rhwng Medi ac Ionawr. Ceisiwch wneud y gwaith mewn tywydd sych pan fydd lefelau'r pwll yn isel a pheiriannau yn llai tebygol o sathru'r pridd.

Mae tynnu silt o'r pwll yn briodol:

Pan na ellir gweld unrhyw blanhigion dyfrol tanddwr, naill ai oherwydd bod y dŵr yn dywyll iawn neu oherwydd bod gwely'r pwll yn amlwg wedi'i orchuddio gan haen ddwfn o silt rhydd neu ddeiliach marw.

Pan mae'r gwaddod yn hollol ddu ac yn aroglu o wyau wedi pydru, ac mae swigod mawr o nwy yn byrlymu i'r wyneb o bryd i'w gilydd.

Os ydych chi'n tynnu silt o'r pwll, crafwch waddod rhydd nes eich bod yn cyrraedd haen fwy cadarn o glai, marl neu waddod arall mwy solet. Gofalwch rhag i chi dorri sêl naturiol gwely'r pwll.

Peidiwch â chreu ynysoedd artiffisial gan eu bod yn annog gwyllanod ac adar dŵr, gan arwain at ansawdd dŵr gwael.

Os oes perygl o drwytholchi o gaeau cyfagos sy'n cael eu rheoli'n ddwys, ystyriwch sefydlu strïbed o lystyfiant hir ger y pwll i weithredu fel clustog.

Mae gwefan Million Ponds hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am adfer pyllau ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig eraill fel madfallod dŵr cribog a llygod pengrwn y dŵr:


<https://freshwaterhabitats.org.uk/projects/million-ponds/>

Mae mwy o wybodaeth am byllau cudd a choll yn <http://ghostponds.wordpress.com/>

Mae mwy o wybodaeth am esemptiadau gwastraff U10 yn (<https://www.gov.uk/guidance/waste-exemption-u10-spreading-waste-to-benefit-agricultural-land>)

Mae mwy o wybodaeth am esemptiad gwastraff D1 a chofrestru esemptiadau gwastraff yn (<https://www.gov.uk/guidance/waste-exemptions-disposing-of-waste>).

Diagram – Trawstoriad o Bwll



6525 Nwyddau Dŵr Glaw: Pibellau Glaw

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Nwyddau Dŵr Glaw: Pibellau Glaw'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Beth yw pwrpas y gweithgarwch hwn?

Pwrpas nwyddau dŵr glaw newydd yw helpu i gadw dŵr glaw glân a dŵr halogedig ar wahân ar fuarthau fferm a'u cyffiniau. Mae llawer o nentydd ac afonydd yng Nghymru yn cael eu llygru gan y dŵr sy'n llifo oddi ar dir amaethyddol (dŵr ffo). Mae'n effeithio ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd ac ansawdd dŵr yfed. Trwy rwystro dŵr glaw rhag cymysgu â dŵr halogedig ar lefel buarthau'r fferm, bydd lefelau haws dygymod â nhw o ddŵr halogedig yn casglu mewn storfeydd slyri i'w trin yn briodol.

Gellir defnyddio pibellau glaw i ddal a chasglu dŵr glaw oddi ar doeon adeiladau'r fferm.

Gellir sianelu'r dŵr glân hwnnw i ddraen dŵr glân neu ei ollwng i ffos, pant gwlyb neu drap gwaddodion. Neu fe allech ei gasglu i'w ddefnyddio ar y fferm.

Mae taliadau ar gael ar gyfer darparu a gosod pibellau glaw lle nad oes rhai yn bodoli ar hyn o bryd, neu lle bo'r rhai sydd yn bodoli yn aneffeithiol, ac yn arwain at ollwng dŵr glân ar fuarthau brwnt/budr.

Mae'r Eitem hwn ar gael ar gyfer adeiladau traddodiadol a modern sydd eisoes yn bodoli ar y buarth, sydd heb nwyddau dŵr glaw neu sydd â nwyddau dŵr glaw sydd wedi dirywio ac angen eu hadnewyddu. Nid yw tai ac adeiladau anamaethyddol yn gymwys

Nid oes grant ar gael i osod nwyddau dŵr glaw ar adeiladau sydd ar fin cael eu hadeiladu gan y dylai nwyddau dŵr glaw fod yn rhan o'u dyluniad eisoes.

Nid yw'r Eitem hwn ar gael ar gyfer adeiladau rhestredig.

Rhaid cadw at y canlynol:

Defnyddio pibell law 110mm a braced sy'n bodloni'r holl Safonau Prydeinig perthnasol, fel y'u diwygiwyd e.e. BS EN 607, BS EN12200 a BS EN 1462.

Dylai'r gwaith gosod fodloni'r holl Safonau Prydeinig perthnasol, fel y'u diwygiwyd, e.e. BS 5502 a BS EN1917.

Gofalwch fod yr holl nwyddau glaw wedi'u gwneud o ddeunydd newydd.

Dylai unrhyw waith draenio dan ddaear fodloni'r holl Safonau Prydeinig perthnasol, fel y'u diwygiwyd e.e. BS 8000, BS EN 752 a BS EN 1610.

Peidiwch â:

Gosod nwyddau dŵr glaw plastig ar Adeiladau Rhestredig heb ganiatâd gan yr Awdurdod Lleol.

Gofynion a chynghor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Lle gwelwch fod nwyddau dŵr glaw mewn perygl o gael eu difrodi gan dda byw, dylech osod rhywbeth addas i'w hamddiffyn.

6526 Nwyddau Dŵr Glaw: Cafnau glaw

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Nwyddau Dŵr Glaw (Cafnau Glaw)'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Beth yw pwrpas y gweithgarwch hwn?

Pwrpas nwyddau dŵr glaw newydd yw helpu i gadw dŵr glaw glân a dŵr halogedig ar wahân ar iardiau fferm a'u cyffiniau. Mae llawer o nentydd ac afonydd yng Nghymru yn cael eu llygru gan y dŵr sy'n llifo oddi ar dir amaethyddol (dŵr ffo). Mae'n effeithio ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd ac ansawdd dŵr yfed. Trwy gadw dŵr glaw rhag disgyn ar iardiau halogedig, caiff llai o slyri y bydd angen ei storio ei greu. Mae hynny'n hanfodol i helpu i leihau llygredd amaethyddol, .

Gellir defnyddio cafnau glaw i ddal a chasglu dŵr glaw oddi ar doeon adeiladau'r fferm. Gellir sianelu'r dŵr glân hwnnw i ddraen dŵr glân neu ei ollwng i ffos, pant gwlyb neu drap gwaddodion. Neu fe allech ei gasglu i'w ddefnyddio ar y fferm.

Mae taliadau ar gael ar gyfer darparu a gosod nwyddau dŵr glaw newydd (cafnau glaw a phibellau) lle nad oes rhai yn bodoli ar hyn o bryd, neu lle bo'r rhai sydd yn bodoli yn aneffeithiol, ac yn arwain at ollwng dŵr glân ar fuarthau brwnt/budr.

Mae'r Eitem hwn ar gael ar gyfer adeiladau traddodiadol a modern sydd eisoes yn bodoli ar y buarth, sydd heb nwyddau dŵr glaw neu sydd â nwyddau dŵr glaw sydd wedi dirywio ac angen eu hadnewyddu. Nid yw tai ac adeiladau anamaethyddol yn gymwys

Nid oes grant ar gael i osod nwyddau dŵr glaw ar adeiladau sydd ar fin cael eu hadeiladu gan y dylai nwyddau dŵr glaw fod yn rhan o'u dyluniad eisoes.

Nid yw'r Eitem hwn ar gael ar gyfer adeiladau rhestredig.

Rhaid cadw at y canlynol:

Defnyddiwch gafnau, fel cafnau PVC hanner cylch 150mm a bracedi. Rhaid i'r holl nwyddau fodloni'r holl Safonau Prydeinig perthnasol, e.e. BS EN 607, BS EN12200 a BS EN 1462.

Dylai'r gwaith gosod fodloni'r holl Safonau Prydeinig perthnasol, fel y'u diwygiwyd, e.e. BS 5502 a BS EN1917.

Gofalwch fod yr holl nwyddau glaw wedi'u gwneud o ddeunydd newydd.

Peidiwch â:

Gosod nwyddau dŵr glaw plastig ar Adeiladau Rhestredig heb ganiatâd gan yr Awdurdod Lleol.

6527 Gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o fetel yn lle camfa

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o fetel yn lle camfa'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Defnyddir gatiau cerddwyr neu gatiau ceffyl i ganiatáu mynediad i gerddwyr a marchogion.

Cyn gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o fetel yn lle camfa, rhaid i chi wneud y canlynol:

Cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan eich **Awdurdod Priffyrdd lleol** o dan **adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980**. Mae gatiau anawdurdodedig yn cael eu trin fel *rhwystrau anghyfreithlon*.

Dilyn y gofynion "mynediad lleiaf rhwystrol". Ystyriwch a oes angen unrhyw fath o rwystr yma; a ellid gadael bwlch i gerddwyr a marchogion? Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Awdurdodau Priffyrdd (o dan **adran 69 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000**) weithio ar yr egwyddor o **fynediad lleiaf rhwystrol** ac ystyried defnyddwyr sydd â chyfyngiadau symudedd.

Gât cerddwyr o fetel sy'n cau ar ei phen ei hun



Wrth osod gât fach o fetel yn lle camfa, rhaid i chi gadw at y canlynol:

Tynnwch y gamfa bresennol a'i gwaredu.

Gosodwch gât cerddwyr o fetel o fewn ffrâm H integredig.

Dylai'r gât a'r ffrâm H fod wedi'u galfaneiddio.

Gosodwch gatiau sydd o leiaf 1.0m o led a 1.3m o uchder.

Hongianwch y gât fel bod modd ei hagar o'r ddau gyfeiriad ac fel ei bod yn cau ar ei phen ei hun.

Rhaid i'r gât gydymffurfio â Safon Brydeinig BS5709:2018

Dylai'r ffrâm H fod wedi'i gosod mewn concrit.

Gosodwch byst pren ar y naill ochr a'r llall i'r ffrâm H i atodi rheiliau / gwifrau. Rhaid i'r pyst fod o leiaf 10cm o ddiamedr.

Llyfnwch unrhyw ymylon sinc garw.

Cadwch yr holl ffitiadau yn dynn.

Gât ceffyl o fetel



Wrth osod gât ceffyl o fetel yn lle camfa, rhaid i chi gadw at y canlynol:

Tynnwch y gamfa bresennol a'i gwaredu.

Gosodwch gât ceffyl o fetel o fewn ffrâm H integredig

Dylai'r gât a'r ffrâm H fod wedi'u galfaneiddio.

Gosodwch gatiau sydd o leiaf 1.525m o led a 1.3m o uchder.

Hongianwch y gât fel bod modd ei hagor o'r ddau gyfeiriad ac fel ei bod yn cau ar ei phen ei hun.

Dylai'r ffrâm H fod wedi'i gosod mewn concrit.

Rhaid i'r gât gydymffurfio â Safon Brydeinig BS5709:2018

Gosodwch byst pren ar y naill ochr a'r llall i'r ffrâm H i atodi rheiliau / gwifrau. Rhaid i'r pyst fod o leiaf 10cm o ddiamedr.

Gosodwch handlen hir fel bod modd agor y gât heb i'r marchog orfod dod oddi ar y ceffyl.

Llyfnwch unrhyw ymylon sinc garw.

Cadwch yr holl ffitiadau yn dynn.

Addaswch y gât fel ei bod **yn cau ar ei phen ei hun yn araf** (er diogelwch marchogion).

Gofalwch fod digon o le i ddefnyddwyr y llwybr symud.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gosod gatiau a physt ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus oni bai bod cymeradwyaeth wedi'i chael gan eich Awdurdod Priffyrdd Lleol

Cloi'r gât (rhwystr anghyfreithlon)

Defnyddio weiren bigog ger y gât.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gosodwch gât sy'n gallu agor i'r ddau gyfeiriad, ac eithrio wrth ymyl ffordd lle dylai'r gât agor i ffwrdd o'r ffordd.

Mewn ardaloedd lle mae fandaliaeth yn gyffredin, gellir gwrthdroi'r bachyn top i atal y gât rhag cael ei chodi oddi ar y colfachau.

Cyfrifoldebau parhaus

Rhaid i chi sicrhau bod y gât bob amser:

yn ddiogel

yn hawdd ei defnyddio

yn rhydd o rwystrau

yn hygyrch i ddefnyddwyr ag anghenion symudedd

Help sydd ar gael:

Efallai y bydd **Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus eich awdurdod lleol** yn darparu cyngor neu wirfoddolwyr i helpu i osod y gât.

6528 Gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o bren yn lle camfa

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o bren yn lle camfa'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Defnyddir gatiau cerddwyr neu gatiau ceffyl i ganiatáu mynediad i gerddwyr a marchogion.

Cyn gosod gât cerddwyr neu gât ceffyl fach o bren yn lle camfa, rhaid i chi wneud y canlynol:

Cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan eich **Awdurdod Priffyrdd lleol** o dan **adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980**. Mae gatiau anawdurdodedig yn cael eu trin fel *rhwystrau anghyfreithlon*.

Dilyn y gofynion "mynediad lleiaf rhwystrol". Ystyriwch a oes angen unrhyw fath o rwystr yma; a ellid gadael bwlch i gerddwyr a marchogion? Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Awdurdodau Priffyrdd (o dan **adran 69 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000**) weithio ar yr egwyddor o **fynediad lleiaf rhwystrol** ac ystyried defnyddwyr sydd â chyfyngiadau symudedd.

Gât cerddwyr o bren sy'n cau ar ei phen ei hun



Wrth osod gât cerddwyr fach o bren yn lle camfa, rhaid i chi gadw at y canlynol:

Tynnwch y gamfa bresennol a'i gwaredu.

Gosodwch gât cerddwyr a physt o bren wedi'u gwneud o bren caled neu bren meddal wedi'i drin dan wasgedd, a'u codi fel bod y gât yn cau ar ei phen ei hun.

Gosodwch gatiau sydd o leiaf 1.0m o led a 1.3m o uchder.

Defnyddiwch gât barod neu adeiladwch eich gât eich hun.

Rhaid i bob darn o bren a ddefnyddir ar gyfer gât fodloni'r dimensiynau canlynol:

Dylai prennau unionsyth fod o leiaf 10cm x 7.5cm mewn trawstoriad.

Dylai pob rheilen fod yn 7.5cm x 2.5cm mewn trawstoriad, ac eithrio'r rheilen dop a ddylai fod yn 10cm x 7.5cm.

Hongianwch y gât fel bod modd ei hagor o'r ddau gyfeiriad.

Gofalwch fod pob darn o bren yn bodloni'r dimensiynau canlynol;

Rhaid i byst hongian fod o leiaf 15cm o ddiamedr

Rhaid i'r pyst cau fod o leiaf 12cm mewn diamedr

Rhaid gosod pyst yn ddigon dwfn yn y ddaear i sicrhau sefydlogrwydd.

Rhaid i'r gât gydymffurfio â Safon Brydeinig BS5709:2018

Rhaid i'r glicied fod yn weladwy, rhaid bod modd ei defnyddio ag un llaw, rhaid iddi fod yn hawdd i'w gweithredu o'r ddwy ochr a rhaid iddi fod â handlen estynedig e.e. clicied hawdd.

Dylech ongli'r colfachau (y colfach top yn agos, y colfach gwaelod ymhellach allan) i wneud i'r gât **gau ar ei phen ei hun.**

Gât ceffyl o bren



Wrth osod gât ceffyl o bren yn lle camfa, rhaid i chi gadw at y canlynol:

Tynnwch y gamfa bresennol a'i gwaredu.

Gosodwch gât ceffyl a physt o bren wedi'u gwneud o bren caled neu bren meddal wedi'i drin dan wasgedd, a'u codi fel bod gât yn cau ar ei phen ei hun yn araf.

Gosodwch gatiau sydd o leiaf 1.525m o led (rhwng y pyst) ac 1.3m o uchder.

Defnyddiwch gât barod neu adeiladwch eich gât eich hun. Rhaid i bob darn o bren a ddefnyddir ar gyfer gât fodloni'r dimensiynau canlynol:

Dylai prennau unionsyth fod o leiaf 10cm x 7.5cm mewn trawstoriad.

Dylai pob rheilen fod yn 7.5cm x 2.5cm mewn trawstoriad, ac eithrio'r rheilen dop a ddylai fod yn 10cm x 7.5cm.

Hongianwch y gât fel bod modd ei hagor o'r ddau gyfeiriad.

Gosodwch handlen hir sy'n caniatáu i'r gât gael ei hagor heb i'r marchog orfod dod oddi ar y ceffyl.

Rhaid i'r gât gydymffurfio â Safon Brydeinig BS5709:2018

Addaswch y gât fel ei bod **yn cau ar ei phen ei hun yn araf** (er diogelwch marchogion).

Gofalwch fod marchogion yn gallu symud yn ddiogel a bod ganddynt **le i droi a phasio**.

Gofalwch fod pob darn o bren yn bodloni'r dimensiynau canlynol;

Rhaid i byst hongian fod o leiaf 15cm o ddiamedr

Rhaid i'r pyst cau fod o leiaf 12cm mewn diamedr

Rhaid gosod pyst yn ddigon dwfn yn y ddaear i sicrhau sefydlogrwydd.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gosod gatiau a physt ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus oni bai bod cymeradwyaeth wedi'i chael gan eich Awdurdod Priffyrdd lleol

Defnyddio concrit i osod pyst yn y ddaear, gan y gall y pyst pren bydru ar lefel y ddaear.

Cloi'r gât (rhwystr anghyfreithlon)

Defnyddio weiren bigog ger y gât.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gosodwch gât sy'n gallu agor i'r ddau gyfeiriad, ac eithrio wrth ymyl ffordd lle dylai'r gât agor i ffordd o'r ffordd.

Mewn ardaloedd lle mae fandaliaeth yn gyffredin, gellir gwrthdroi'r bachyn top i atal y gât rhag cael ei chodi oddi ar y colfachau.

Yr arfer gorau yw gosod y pyst o leiaf 70cm i mewn i'r ddaear i sicrhau sefydlogrwydd a chadw gwaelod y gât 7.5cm uwchben y ddaear.

Gofalwch fod digon o le i ddefnyddwyr y llwybr symud.

Cyfrifoldebau parhaus

Rhaid i chi sicrhau bod y gât bob amser:

yn ddiogel

yn hawdd ei defnyddio

yn rhydd o rwystrau

yn hygyrch i ddefnyddwyr ag anghenion symudedd

Help sydd ar gael

Efallai y bydd **Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus eich awdurdod lleol** yn darparu cyngor neu wirfoddolwyr i helpu i osod y gât.

6529 Adfer Crawiau

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Adfer Crawiau'. Rhaid i unrhyw amrywiad ar y safonau a nodir gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith.

Mae crawiau'n nodwedd o'r dirwedd yn yr ardaloedd hynny lle cafodd llechi eu cloddio'n fasnachol, sef ardaloedd Nantlle, Waunfawr, Llanberis a Bethesda yn arbennig.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dim ond crawiau sy'n bodoli'n barod y mae angen eu hadfer.

Ceisiwch gydweddu maint a lliw y crawiau gwreiddiol, gan ddefnyddio hyd at 3 llechen fesul metr fel arfer i greu ffin cadw stoc.

Rhowch y llechi yn ddigon dwfn yn y pridd i'w sefydlogi.

Dylai rhan uchaf y llechi ymestyn o leiaf 106cm uwchlaw'r ddaear.


Mae angen adlewyrchu'r arddull gwreiddiol wrth osod gwifrau ar grawiau i'w cryfhau er mwyn cydweddu â chrawiau lleol.

Rhaid i'r holl llechi a ddefnyddir i adfer crawiau gydweddu â'r llechi sydd yn y nodweddion gwreiddiol.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gosodwch y llechi o leiaf 30cm yn y ddaear, a 60cm yn ddelfrydol lle mae hynny'n bosibl, a chywasgu'r pridd o amgylch y llechi.



6530 Dargyfeirydd Dŵr ar Draws Ffordd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Dargyfeirydd Dŵr ar Draws Ffordd'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Beth yw pwrpas y gweithgarwch hwn?

Pwrpas dargyfeirydd dŵr yw helpu i wahanu dŵr glân a dŵr halogedig ar fuarth a thraciau fferm ac o'u cwrpas. Mae llawer o nentydd ac afonydd yng Nghymru yn cael eu llygru gan y dŵr sy'n llifo oddi ar dir amaethyddol (dŵr ffo). Mae'n effeithio ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd ac ansawdd dŵr yfed.

Trwy gadw dŵr glaw glân rhag llifo i iardiau halogedig, caiff llai o slyri y bydd angen ei storio ei greu. Mae hynny'n hanfodol i helpu i leihau llygredd amaethyddol.

Gallwch ddefnyddio dargyfeirydd dŵr i ddal y dŵr glân ar draciau a buarthau glân sydd uwchlaw buarthau/traciau halogedig.

Neu gallwch eu defnyddio hefyd i ddal y dŵr halogedig islaw'r buarth/trac. Rhaid ichi sianelu'r dŵr halogedig hwn i storfa neu storfa slyri addas.

Trwy osod dargyfeirydd dŵr ar draws traciau fferm, byddwch yn gallu dal a sianelu'r dŵr ffo, gan leihau'r llif i lawr rhiw a thrwy hynny helpu i rwystro erydiad ar draciau fferm. Trwy gymryd camau i arafu llif y dŵr ffo gallwch leihau'r difrod y mae dŵr yn ei wneud i draciau, lleihau erydiad ar bridd a lleihau'r perygl o lygru dŵr.

Os ydych yn defnyddio dargyfeirydd dŵr ar fuarth fferm i sianelu dŵr glân, dylech ystyried hefyd a oes angen ichi wneud cais am Eitem 6526 Nwyddau Dŵr Glaw - Cafnau Glaw ac Eitem 6525 Nwyddau Dŵr Glaw - Pibellau Glaw.

Rhaid cadw at y canlynol:

Dylai'r dargyfeirydd godi i uchder sydd o leiaf 150mm yn uwch na lefel y llwybr a dylai allu cynnal peiriant trwm araf.

Dylai unrhyw waith concrit fod yn unol â'r Safonau Prydeinig perthnasol, BS 8000 a BS 8500, fel y'u diwygiwyd.

Dylid cyfeirio dŵr glân a ddaw o'r dargyfeirydd dŵr at ollyngfa ddraenio sefydlog megis ffos, cwlfert neu drap gwaddodion.

Dylai unrhyw ddŵr halogedig gael ei sianelu i storfa slyri addas.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Os ydych yn cynnal unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi gadarnhau a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes. Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. **Dylech gadw'r drwydded/ caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i dangos pan ofynnir ichi.** Gweler yr Amodau a'r Telerau i gael rhagor o fanylion.

Bydd y dargyfeirydd dŵr yn fwy tebygol o fod yn sefydlog os oes ffos yn cael ei phalu yn y trac at o leiaf 1000mm o ddyfnder. Yna arllwyswch goncrit i'r ffos hyd at o leiaf 150mm o uchder.

6531 Peiriannu Meddal i Leihau Erydiad Glannau Afonydd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Peiriannu Meddal i Leihau Erydiad Glannau Afonydd'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes. Gan mai prosesau naturiol sy'n cael eu ffafrio yn agos at afonydd, dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn y dylid defnyddio'r dull hwn.

Mae coed a llwyni byw, yn ogystal â boncyffion marw a llwyni, wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus iawn i amddiffyn glannau rhag erydiad. Manteision defnyddio deunydd coediog o'i gymharu ag amddiffynfeydd 'caled', fel creigiau a deunyddiau wedi'u gwneud gan ddyn, yw bod y deunyddiau coediog yn creu cynefinoedd 'naturiol' lle gall rhywogaethau planhigion glan yr afon ymsefydlu. Mae hefyd yn bosibl gwneud defnydd effeithiol o goed a llwyni ar y cyd â deunyddiau amddiffyn caled, yn enwedig lle mae angen amddiffyniad ychwanegol neu le mae angen amddiffyniad o safon uchel cyn i'r coed a'r llwyni sefydlu'n llawn.

Y dulliau mwyaf nodweddiadol o amddiffyn glannau gyda deunydd coediog yw: bwndelu (prysgwydd neu goediach wedi'u clymu mewn bwndeli), plethu ffyn (helyg fel arfer, o gwmpas stanciau helyg) neu glwydi. Mae technegau eraill yn cynnwys defnyddio boncyffion a llwyni. Trafodwch pa un o'r technegau isod i'w defnyddio ym mhob achos unigol gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Boncyffion a Llwyni

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu adeiledd amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/canlatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/canlatâd) a'u dangos pan gewch gais i wneud hynny.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgarwch perygl llifogydd](#)


Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael canlatâd draenio tir i ofalu nad yw eich gweithgarwch yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu'r perygl o lifogydd sy'n bodoli eisoes.

Mae angen canlatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Canlatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Mae'n bosibl defnyddio boncyffion coed mawr i atal erydiad trwy eu gosod ar hyd glan yr afon, at eu hanner yn y dŵr. Gyda boncyffion helyg, bydd egino yn digwydd ar hyd y boncyff, gyda'r gwreiddiau a'r egin yn cynnig amddiffyniad a chynefin ychwanegol yn y dyfodol.

Mae hefyd yn bosibl defnyddio boncyffion a changhennau mawr i lenwi tyllau sgwrio rhwng coed eraill i ddarparu amddiffyniad ar unwaith, a chynefin tanddwr buddiol. Fel gyda boncyffion llai sy'n cael eu defnyddio i amddiffyn glannau, mae angen gwifrau i'w dal yn gadarn yn eu lle, ynghlwm wrth stanciau wedi'u gwthio'n ddwfn i ymyl a glan yr afon. Mae'r ardaloedd hyn yn darparu cynefin ar gyfer llygod pengrwn y dŵr a dyfrgwn yn ogystal â lloches ar wely'r afon i silod mân.



Plethu Helyg

Adeiladwaith plethedig yw hwn sy'n defnyddio techneg hynafol bangorwaith ar gyfer adeiladu waliau a ffensys. Os ydych chi'n defnyddio pren helyg sydd newydd ei dorri, bydd yn gwreiddio i greu wal gynnal 'fyw'.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Helyg brau (*Salix fragilis*) neu helyg gwynion (*Salix alba*) sy'n cynhyrchu'r deunydd gorau ar gyfer stanciau, a ddylai fod tua 65-100mm (2.5-4") o ddiamedr ar gyfer plethwaith hyd at 600mm o uchder. Ar gyfer plethwaith hyd at 900mm (3") o uchder, bydd angen stanciau mwy trwchus gyda diamedr o 100-130mm (4-5"). Dylid torri gwdenni o helyg gwial (*Salix viminalis*), helyg deilgrwn (*Salix caprea*) neu helyg llwyd (*Salix cinerea*). Dylai diamedr blaenau'r gwdenni fod yn 10-20mm

(0.25-0.75”), a’u hyd yn cyfateb i bum gwaith hyd y bwlch rhwng stanciau, er mwyn creu plethiad agos a thynn. Os nad oes helyg ar gael, bydd rhaid defnyddio’r deunydd amgen gorau.

Y cyfnod gorau i wneud y gwaith yw rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror, er mwyn sicrhau bod yr helyg yn egino. Mae’n bosibl storio stanciau a gwdenni am hyd at dair wythnos ar yr adeg yma, cyn belled â’u bod yn cael eu cadw’n glae ar ac yn llaith. Y tu allan i’r tymor hwn, maen nhw ar eu gorau o’u defnyddio o fewn 48 awr i’w torri.

Dylid cynnal archwiliad gweledol o’r lan cyn ymgymryd â gwaith, gan fod stanciau yn gallu difrodi nythod a niweidio llygod pengrwn y dŵr. Mewn rhai achosion, mae’n bosibl bod ceblau o dan y cwrs dŵr, ac mae angen nodi hynny ymlaen llaw.


Bydd brigdocio neu fondocio coed helyg ar y lan, neu docio plethwaith helyg cynharach, yn cynhyrchu deunydd addas, fel y nodwyd uchod.

Morthwylwch y stanciau i mewn yn fertigol ar hyd llinell y wal gynnal, tua hanner metr ar wahân ac fel bod dwy ran o dair o’r stanc yn is na lefel y pridd, yna torri brig y stanciau i’r uchder terfynol.

Plethwch y gwdenni rhwng y stanciau, gan newid cyfeiriad y pen gwaelod bob yn ail, a gwrthio’r ddau ben i mewn fel nad ydyn nhw’n ymwithio allan. Ar ben pob darn o’r wal gynnal, dylid rhedeg y plethwaith i mewn i’r lan fel bod y ddau neu dri stanc olaf yn cael eu claddu’n llwyr ar ôl gwneud y gwaith ôl-lenwi.

Er mwyn atal fandaliaid, mae angen diogelu’r gwdenni uchaf gyda weiren a’u cysylltu’ dynn i’r stanc gyda stwffwl.

Lle mae perygl i'r ôl-lenwad olchi ymaith, gosodwch fwndeli (gweler isod) y tu ôl i'r plethwaith. Ôl-lenwch â phridd nes bod proffil y banc yn gywir.




Mae'r cynllun amgen canlynol yn creu plethwaith mwy llac, sy'n addas ar gyfer waliau cynnal uwchben lefel y dŵr.

Morthwylwch y stanciau i mewn fel y disgrifiwyd uchod.

I ddechrau'r plethu, gwthiwch ben gwden fer i'r ddaear rhwng yr ail a'r trydydd stanc o un pen. Plethwch hi rhwng y stanciau. Yna gwthiwch wden arall i'r ddaear wrth ei hymyl a phlethu i'r un cyfeiriad. Bydd pennau'r gwdenni yn bwrw gwreiddiau.

Daliwch ati i blethu hyd at frig y stanciau, gan sicrhau bod y gwdenni uchaf yn cael eu plethu'n dynn i ddiogelu'r plethwaith.

Er mwyn atal fandaliaeth, mae angen diogelu brig y gwdenni uchaf gyda weiren, neu wthio weiren i lawr trwy'r plethwaith. Dylai ffensys atal stoc rhag pori'r egin am o leiaf ddwy i dair blynedd.



Clwydi

Mae'n bosibl defnyddio techneg blethu debyg i greu clwydi bangorwaith, sy'n cael eu creu oddi ar y safle ac yna eu cario i'r lan a'u gosod i greu wal gynnal. Mae hyn yn ddefnyddiol lle mae amodau gwaith ar lan y dŵr yn anodd. Mae clwydi bangorwaith ar gyfer gerddi neu i atal defaid ar gael gan wneuthurwyr clwydi, ond maen nhw fel arfer yn rhy ddurud ar gyfer creu waliau cynnal ar lannau. Lle maen nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer waliau cynnal, dylai llystyfiant eu cuddio ymhen amser. Cyn belled â bod yr adeiladwaith yn ddigon cryf i oroesi'r gwaith trin a gosod, nid yw edrychiad taclus gymaint o bwys.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Ni ellir gwneud gwaith mewn afonydd rhwng 15 Hydref a 15 Ebrill, gan mai dyma'r tymor caeedig i ganiatáu i bysgod silio.

Pren cyll yw'r deunydd gorau ar gyfer creu clwydi, ond mae helyg hefyd yn addas ac mae ei allu i fwrw gwreiddiau yn ddefnyddiol yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. Os yw'n bosibl, defnyddiwch bren cyll wedi'i hollti ar gyfer y stanciau, gan eu bod yn dal y ffyn llorweddol yn well na pholion crwn.

Rhowch y clwydi at ei gilydd lle bynnag mae hynny'n gyfleus a mynd â nhw i'r safle mewn darnau parod. Mae clwydi defaid traddodiadol yn 1.8m (6') o hyd ac 1m (3.5') o uchder, gyda deg o stanciau 200mm (8") ar wahân. Ar gyfer gwaith wal gynnal ar lan dŵr, mae'r dimensiynau yn llai pwysig, ond ni ddylai'r stanciau fod yn fwy na 250mm (10") ar wahân er mwyn sicrhau plethiad digon tynn. Mae clwyd o'r dimensiynau isod yn hawdd ei thrin, ond mae'n bosibl gwneud rhai mwy yn ôl yr angen.


Gwthiwch stanciau 900mm (3') tua 300mm (1') i mewn i'r ddaear mewn rhes, gyda bwlch cyfartal rhyngddyn nhw.

Plethwch wiail cyll neu helyg rhwng y stanciau, gan wthio pen pob gwialen yn ôl o dan ei hun i gloi'r gwial yn eu lle. Gwthiwch y gwial i lawr gyda'ch troed i'w plethu'n dynn. Mae'n bosib y bydd angen clymu'r gwial uchaf gyda weiren neu gortyn i atal fandaliaeth.

Codwch y gwahanol glwydi i'w cludo i'r safle. Rhowch y clwydi yn eu lle, yn gorgyffwrdd fel yn y diagram, a'u gwthio i'r ddaear cyn belled â'r gwial isaf.

Gan ddefnyddio dau stanc 1.5m (5') i bob clwyd, tarwch y stanciau i'w lle ar ymyl allanol y wal gynnal a chlymu'r clwydi i'r stanciau gyda weiren.

Ôl-lenwch â phridd gwastraff yn ôl yr angen.



Bwndeli

Mae bwndeli neu ffagodau yn fwndeli o helyg neu brysgwydd, wedi'u rhwymo gyda'i gilydd a'u defnyddio at amryw o ddibenion sefydlogi a chynnal. Mae bwndelu yn dechneg hynafol, ac mae'n profi ychydig o adfywiad wrth i fanteision dulliau cynnal 'meddal' ddod i'r amlwg. Mae'r ffagodau yn arafu llif dŵr ac yn dal silt a gwaddodion, ac mae'r canghennau yn y dŵr wedyn yn helpu i gyfnerthu'r gwaddodion rhag erydu newydd.



Rhaid i chi gadw at y canlynol:



Mae'n bosibl gwneud bwndeli o unrhyw goediach sydd ar gael. Fodd bynnag, mae helyg ffres yn debygol o wreiddio a thyfu, yn enwedig o'u torri yn y gaeaf. Mae angen gwneud dewis pwrpasol rhwng defnyddio bwndeli helyg neu fwndeli o bren arall ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd. Mewn cyrsiau dŵr bach (llai na 5m o led), gallai tyfiant beri risg annerbyniol o ran llifogydd neu greu cysgod, ac i'r perwyl hwnnw, dylid defnyddio deunyddiau amgen. Mewn sianeli mwy, gallai tyfiant helyg fod yn fuddiol, gyda'u gwreiddiau yn helpu i sefydlogi deunydd glannau a'u hegin yn amddiffyn rhag erydu.

Mae bwndeli fel arfer yn cael eu creu o'r maint mwyaf sy'n hawdd i ddau berson eu codi, ond mae'n bosibl gwneud rhai llai yn ôl yr angen. Mae'r maint traddodiadol oddeutu 2m (7') o hyd a 300mm (1') o ddiamedr, wedi'u rhwymo mewn tri lle gwahanol. Mae'r deunydd rhwymo yn amrywio, gan gynnwys helyg wedi'i droelli, cortyn byrnau neu weiren.

Er mwyn sefydlogi glan dŵr, mae'n bosib gosod y bwndeli mewn rhes unigol neu ddwbl, gyda stanciau a weiren yn eu dal yn eu lle, fel sydd i'w weld yn y diagram. Mae'n bosibl ychwanegu haen arall ar letraws, yn ôl yr angen.

Gellir rhwymo bwndeli llai, gyda diamedr o tua 100mm, i ffurfio 'matresi', i'w gosod ar lannau sy'n cael eu heffeithio gan adlif cychod neu lif dŵr cryf. Dylid gosod y bwndeli yn eu lle, a'u clymu gyda gwifrau i stanciau sydd wedi'u taro'n ddigon pell i'r ddaear. Bydd bwndeli mawr ar y gwaelod yn amsugno rhywfaint o egni tonnau.





6532 Llewys Coed Rhag Cwningod

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Llewys coed rhag cwningod'.

Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Llewys coed sbeiral yw'r ffordd fwyaf cyffredin o amddiffyn coed rhag cwningod a llygod.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gofalwch fod pob llawes goed sbeiral yn cael ei chynnal gan wialen bambŵ.

Mae llewys coed cwningod sbeiral wedi'u gwneud o blastig ac ar gael mewn tri maint (45cm, 60cm a 75cm).

Yn ddelfrydol, dylech wthio'r wialen bambŵ i'r ddaear wrth ochr y goeden. Yna weindiwch y deunydd plastig o amgylch y goeden a'r wialen er mwyn cadw mamaliaid bach allan.

Gofynion a chynghor yn ychwanegol at y manyldebau uchod.

Peidiwch â:

Defnyddio llawes sy'n dalach na'r goeden y mae'n ei hamddiffyn adeg ei phlannu.

6533 Llewys coed gwrth-gwningod: Biogdiraddiadwy

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Llewys coed gwrth-gwningod: Biogdiraddiadwy'.

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae llewys coed gwrth-gwningod yn declynnau a ddefnyddir yn helaeth i amddiffyn coed rhag cwningod a llygod pengrwn.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylai llewys coed fod yn gwbl fiogdiraddadwy ac ni ddylent fod wedi'u gwneud o blastig wedi'i ailgylchu a/neu y gellir ei ailgylchu.

Gofalwch fod pob llawes goed wrth-gwningod fiogdiraddadwy yn cael ei chynnal gan ffon.

Cadwch y llewys coed nes bod y coed wedi'u sefydlu. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer llewys coed biogdiraddadwy a all, yn dibynnu ar ffactorau megis eu cydrannau biogdiraddadwy a natur agored y safle, bara am gyfnodau gwahanol a/neu amrywiol o amser.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio llewys coed sy'n dalach na'r coed maen nhw'n eu hamddiffyn adeg eu plannu.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Yn ddelfrydol, dylid gwrthio'r ffon i'r ddaear wrth ymyl y goeden sydd newydd ei phlannu. Yna caiff y llawes ei weindio neu ei throelli o amgylch y goeden a'r ffon fel bod mamaliaid bach yn cael eu cau allan.

6534 Gatiau Safonol (Pren caled)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gatiau Safonol(Pren caled)'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gosodwch gatiau sydd o leiaf 2.4m o led, ond ddim mwy na 4.2m. Os ydy'r bwlch yn fwy 4.2m, rhaid gosod dwy ddalen.

Defnyddiwch gatiau sydd wedi'u gwneud o bren caled, yn unol â'r dimensiynau yn y diagram isod.

Defnyddiwch gatiau pren sy'n cydymffurfio â'r disgrifiad yn y diagram isod yn ogystal ag â Safon Brydeinig 3470, fel y'i diwygiwyd.

Gosodwch y gât bren i hongian ar bostyn o leiaf 2.1m o hyd. Bydd gan bob postyn hongian groestoriad o 200mm x 200mm fan leiaf a bydd gan byst cau groestoriad o 175mm x 175mm.

Gosodwch bob postyn yn gywir yn y pridd, gan ddefnyddio concrit os oes angen. Gosodwch y bachau a'r cliciedau (latsys) ar y postyn yn ôl y gofyn.

Nid oes angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd ar y math hwn o weithgaredd, cyn belled nad yw'n cael ei gynnal mewn prif afon sydd â statws morffolegol uchel neu o fewn 100m iddi.

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd na bywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)


Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Dylech fod wedi cael copi o'r rhestr pan gafodd y safle ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â:

Defnyddio pyst hongian na physt cau yn byst tynnu ar gyfer ffensys. Dylech ddefnyddio darn byr o bren hollt i ffurfio pwyslath (stryt) llorweddol rhwng postyn y gât (neu gilbost) a'r postyn tynnu agosaf.

Defnyddio deunydd ail-law i adeiladu gât heb ganiatâd ymlaen llaw Llywodraeth Cymru

Example of Timber Field Gate (Hardwood)



6535 Gatiau Safonol (Pren meddal)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gatiau Safonol (Pren meddal) Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Os gwelir bod unrhyw waith rydych yn ei hawlio wedi'i wneud at safon wahanol, heb ganiatâd Llywodraeth Cymru ymlaen llaw, gallai'r prosiect gael ei ystyried yn anghymwys. Bydd hynny'n golygu y caiff hawliadau eu gwrthod (neu y gofynnir ichi dalu unrhyw arian a dalwyd yn ôl) ac y cewch eich cosbi yn unol â rheolau'r cynllun, oni bai ein bod yn asesu bod y gwaith wedi'i wneud at safon gyfatebol.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gosodwch gatiau sydd o leiaf 2.4m o led, ond ddim mwy na 4.2m. Os ydy'r bwlch yn fwy 4.2m, rhaid gosod dwy ddalen.

Defnyddiwch gatiau sydd wedi'u gwneud o bren meddal wedi'i drin dan bwysedd, yn unol â'r dimensiynau yn y diagram isod.

Defnyddiwch gatiau pren sy'n cydymffurfio â'r disgrifiad yn y diagram isod yn ogystal ag â Safon Brydeinig 3470, fel y'i diwygiwyd. Bydd gan byst cau groestoriad o 175mm x 175mm.

Gosodwch bob postyn yn gywir yn y pridd, gan ddefnyddio concrit os oes angen. Gosodwch y bachau a'r cliciedau (latsys) ar y postyn yn ôl y gofyn.

Nid oes angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd ar y math hwn o weithgaredd, cyn belled nad yw'n cael ei gynnal mewn prif afon sydd â statws morffolegol uchel neu o fewn 100m iddi.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwaharddiadau gweithgarwch perygl llifogydd.](#)

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes.


Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd na bywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Dylech fod wedi cael copi o'r rhestr pan gafodd y safle ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â:

Defnyddio pyst hongian na physt cau yn byst tynnu ar gyfer ffensys. Dylech ddefnyddio darn byr o bren hollt i ffurfio pwyslath (stryt) llorweddol rhwng postyn y gât (neu gilbost) a'r postyn tynnu agosaf.

Defnyddio deunydd ail-law i adeiladu gât heb ganiatâd ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.



6536 Adfer Clawdd Cerrig

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Adfer Clawdd Cerrig'. Rhaid i unrhyw amrywiad ar y safonau a nodir gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith.

Mae cloddiau cerrig yn nodweddion pwysig o'r dirwedd sy'n gallu bod yn gofnod hanesyddol pwysig o'r modd y mae'r tir wedi cael ei ddefnyddio. Maen nhw'n bwysig hefyd i fioamrywiaeth ac fel cysgod i dda byw. Ni fydd perth wedi'i phlannu ar ben pob un o reidrwydd. Ni fydd hen berthi a chloddiau yn dilyn llinell syth, ffactor sy'n cyfrannu at eu pwysigrwydd hanesyddol a thirweddol. Mae cyfnod hir o dywydd gwael, sathru gan dda byw a chloddio gan gwningod i gyd yn gallu difrodi gwaith cerrig a'r clawdd oddi tano.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Mae angen adfer cloddiau cerrig sy'n dadfeilio fel bod uchder a llinell y darn sy'n cael ei adfer yn adlewyrchu uchder a llinell y clawdd cerrig gwreiddiol. Mae'r canllawiau arfer gorau ar gyfer adfer cloddiau cerrig i'w gweld isod.

Gofalwch nad yw anifeiliaid sy'n pori yn difrodi cloddiau sydd wedi cael eu hadfer.

Rhaid mynd ag unrhyw gerrig sydd dros ben ar ôl adeiladu'r wal o'r safle a gadael i'r llystyfiant gwreiddiol aildyfu ar dir cyfagos.

Gofynion a chanllawiau ychwanegol at y manylebau uchod:

Dylid defnyddio cerrig lleol lle bynnag y bo modd, ond peidiwch â dwyn cerrig o fannau amhriodol, megis o adfeilion neu waliau eraill.

Sylfeini – Mae'n rhaid clirio cerrig rhydd a phridd nes cael at glawdd da a chadarn. Dylech ailosod y cerrig a'r pridd a symudwyd yn flaenorol yn raddol. Yn ystod y gwaith hwn, dylech adael i'r mewnlennwad pridd sefydlogi bob yn gam cyn cwblhau'r gwaith. Bydd glaw yn ystod yr ailadeiladu yn cyflymu'r broses sefydlogi hon.


Os byddwch yn gweld bod angen adfer y clawdd yn llwyr, dylech glirio'r holl gerrig i'r sylfeini ac ailadeiladu o'r lefel honno. Ar gyfer sylfeini cadarn bydd angen gosod o leiaf un rhes o'r cerrig mwyaf sydd ar gael mewn ffos 15-20cm o ddyfnder. Dylech wasgu cerrig bach yn y bylchau rhwng y sylfeini. Dylai'r sylfeini eu hunain fod o leiaf 7.5cm yn lletach na gwaelod y wal. (Gweler y diagram).

Goleddfiad – Y gwahaniaeth rhwng lled wal yn ei gwaelod ac ar ei thop. Os yw'r wyneb yn 70-90cm o led ar y gwaelod, dylai fod yn 30-40cm o led ar y top. Mae'n rhaid bod digon o oleddf i'r wal fod yn sefydlog. Gall y goleddf fod yn syth, ar ffurf 'A' neu'n bantiog, gan ddibynnu ar yr arddull lleol.

Draenio – Os yw dŵr ffo yn debygol o wneud y clawdd yn ansefydlog, dylech osod draen dwfn o 40-60cm fel sydd i'w weld yn y diagram. Dylech osod peipiau yng ngwaelod y ffos cyn ei hail-lenwi â cherrig rhydd.

Morter – Lle mae cloddiau cerrig yn cael eu hadeiladu wrth ymyl ffyrdd prysur neu safleoedd picnic, efallai y bydd angen defnyddio mortar calch mewn mannau, yn enwedig rhwng y cerrig copa ar y top. Ni ddylid defnyddio mortar trwy'r strwythur cyfan gan y gallai hyn achosi problemau draenio. Dylai'r clawdd edrych fel wal gerrig sych ar y tu allan.

Ar ôl eu hadfer, rhaid gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar gloddiau cerrig i atal dirywiad.



6537 Gât Ceffyl a Chilbyst o Bren

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gât Ceffyl a Chilbyst o Bren'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith

Mae gatiau ceffyl yn caniatáu mynediad i gerddwyr, marchogion a beicwyr.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Lle mae'r gweithgarwch yn gofyn am osod seilwaith mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawl Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Priffyrdd priodol o dan adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Gosodwch Gât Ceffyl a Chilbyst wedi'u gwneud naill ai o bren meddal sydd wedi'i drin o dan wasgedd neu o bren caled.

Rhaid i'r gatiau fod o leiaf 1.5m o led a 1.3m o uchder. Gofalwch fod digon o le ar un ochr y gât i'r ceffyl aros tra bod y gât yn cael ei hagor.

Rhaid i bob darn o bren yn y gât fodloni'r dimensiynau canlynol:

Defnyddiwch gilbyst sydd o leiaf 10cm x 7.5cm mewn trawstoriad.

Defnyddiwch reiliau sydd o leiaf 7.5cm x 2.5cm mewn trawstoriad, heblaw'r rheilen dop, a ddylai fod yn 10cm x 7.5cm.

Dylech hongian y gât fel bod modd ei hagor o'r ddau gyfeiriad.

Gosodwch gliciedi sy'n caniatáu i'r gât gael ei hagor heb i'r marchog orfod dod oddi ar y ceffyl.

Gofalwch fod dimensiynau'r cilbyst fel a ganlyn;

Rhaid i ddiamedr pyst hongian fod o leiaf 15cm

Rhaid i ddiamedr pyst cau fod o leiaf 12cm.

Dylech osod bob postyn yn ddigon dwfn yn y pridd i'w wneud yn sefydlog.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio concrit i osod pyst yn gadarn yn y ddaear, gan ei fod yn gallu arwain at y pyst yn pydru ar lefel y ddaear.


Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Defnyddiwch glicied 'estynedig' neu un sy'n syrthio dros y postyn ('drop over') fel bod modd i'r gât gael ei hagor heb i'r marchog orfod dod oddi ar y ceffyl.

Mewn ardaloedd lle mae fandaliaeth yn debygol, mae'n bosibl gwyrddroi'r bachyn uchaf atal y gât rhag cael ei chodi i ffwrdd.

Yr arfer gorau yw gosod pob postyn o leiaf 70cm yn y pridd i sicrhau ei fod yn sefydlog.

Example of a timber bridge gate



6538 Gât Mochyn a Chilbyst o Bren

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gât Mochyn a Chilbyst o Bren'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith

Mae gatiau mochyn yn cael eu defnyddio gan gerddwyr i groesi ffiniau caeau.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Lle mae'r gweithgarwch yn gofyn am osod seilwaith mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawl Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Priffyrdd priodol o dan adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Gosodwch Gât Mochyn a Chilbyst wedi'u gwneud naill ai o bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd neu o bren caled.

Gosodwch gât mochyn nad yw da byw yn gallu mynd trwyddi o gwbl, ond un y bydd pobl yn gallu cerdded trwyddi'n hawdd.

Gwnewch yn siŵr bod y gât mochyn yn rhwystr effeithiol rhag beicwyr modur a cheffylau.

Rhaid i bob gât fodloni'r dimensiynau canlynol;

Rhaid i'r gât fod yn 1.2m o led ac 1.2m o uchder.

Rhaid i silindr 1m ar ei phen allu pasio trwy'r gât. Gofalwch nad yw 'gwddf' y gât mochyn (y lle culaf pan fyddwch yn cerdded trwyddi) yn llai na 1m o led.

Gofalwch fod dimensiynau'r cilbyst a'r rheiliau fel a ganlyn;

Defnyddiwch sydd o leiaf 10cm x 7.5cm mewn trawstoriad.

Defnyddiwch reiliau sydd o leiaf 7.5cm x 2.5cm mewn trawstoriad, heblaw'r rheilen dop, a ddylai fod yn 10cm x 7.5cm.

Rhaid i ddiamedr pyst hongian fod o leiaf 15cm.

Rhaid i ddiamedr pyst cau fod o leiaf 12cm.

Dylech osod bob postyn yn ddigon dwfn yn y pridd i'w wneud yn sefydlog.

Dylech hongian y gât fel bod bachau'r gât yn ymestyn 3cm o'r cilbost. Bydd hynny'n gwneud i'r gât gau yn erbyn un o'r cilbyst ochrol o ollwng gafael arni.

Gofalwch fod y gât yn cydymffurfio â BS5709:2006, fel y'i diwygiwyd. Rhaid defnyddio'r seilwaith lleiaf rhwystrol e.e. mae gât yn llai rhwystrol na chamfa.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio concrit i osod pyst yn gadarn yn y ddaear, gan ei fod yn gallu arwain at y pyst yn pydru ar lefel y ddaear.

Rhoi weiren bigog ar y gât mochyn.


Gofynion a chanllawiau ychwanegol at y manylbau uchod:

Er mwyn i'r gât fod yn fwy fyth o rwystr i dda byw, gosodwch glicied sy'n cau ei hun.

Mewn ardaloedd lle mae fandaliaeth yn debygol, mae'n bosibl gwyrddroi'r bachyn uchaf i atal y gât rhag cael ei chodi oddi ar y bachau.

Yr arfer gorau yw gosod pob postyn o leiaf 70cm yn y pridd i sicrhau ei fod yn sefydlog.

Example of a timber kissing gate



6539 Cysgod Coed: 60cm gyda phostyn

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cysgod Coed: 60cm gyda Phostyn'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae angen amddiffyn coed a llwyni sydd newydd eu plannu rhag anifeiliaid (amaethyddol, ceirw ac ati) neu gallai peiriannau eu difrodi. Y ffordd rataf o amddiffyn grwpiau o goed a llwyni rhag peiriannau neu anifeiliaid mawr yw trwy godi ffens o'u hamgylch, hynny ynghyd â gosod llewys coed sbeiral i'w hamddiffyn rhag cwningod ac ysgyfarnogod.

Defnyddiwch gysgod coed unigol a physt lle byddai ffens hir yn hyll e.e. mewn parcdir.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gosodwch bostyn yn fertigol i'r pridd wrth ymyl pob coeden newydd ei phlannu. Dylai'r postyn fod â diamedr o 2.5cm x 2.5cm ar safleoedd cysgodol a 3cm x 3cm ar safleoedd mwy agored.

Rhaid cysylltu pob cysgod coed â phostyn gan ddefnyddio weiren neu glipiau plastig.

Gofalwch nad yw'r postyn yn dalach na'r cysgod.

Peidiwch â:

Gadael i chwyn dyfu y tu mewn y cysgodion.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Tiwbiau plastig lled dryloyw hyd at 2m o uchder gyda diamedr o hyd at 12cm yw cysgodion coed, ar gyfer amddiffyn coed ifanc. Maen nhw wedi'u gwneud o bolypropylen ymyl ddwbl.

Dylai pob cysgod ddarparu cymorth ac amddiffyniad am oddeutu 5-10 mlynedd. Pan nad oes defnydd iddynt mwyach, mae angen eu casglu a'u gwaredu'n gywir.

Er eu bod ar gael mewn amrywiaeth o liwiau, nid oes gwahaniaeth rhyngddynt o ran eu heffaith ar dyfiant y coed. Wrth blannu o dan goed sydd wedi cydio, lle bydd llai o oleuni, mae hi fel arfer yn well defnyddio tiwbiau tryloyw clir.

Mae angen i'r cysgod fod yn uwch nag uchder pori'r anifail. Gall hyn amrywio o 60cm ar gyfer cwningod ac ysgyfarnogod i 2m ar gyfer iyrchod. Gall defaid bori hyd at 1.2m–1.5m o uchder.

Mae'n hanfodol cael gwared â chwyn o amgylch y goeden ac yn y tiwb gan fod chwyn yn cystadlu am faeth a goleuni. Rhaid chwynnu o amgylch coed mewn cysgod coed yn ystod 2-3 blynedd gyntaf eu bywydau. Rhaid tynnu'r chwyn sy'n tyfu y tu mewn i'r cysgod coed hefyd. Gellir gwneud hyn drwy godi'r cysgod ychydig a thynnu'r chwyn yn ofalus allan o'r tiwb â llaw.

Os bydd y gwynt neu rew'r gaeaf yn rhyddhau neu'n lled-godi'r planhigion, sathrwch nhw'n dyner yn ôl i'r pridd. Archwiliwch y ffensys, y llewys coed, y pyst a'r rhwymau (cofiwch lacio'r rhwymau rhag iddyn nhw dagu'r goeden) a gofalwch nad yw'r coed yn tyfu trwy neu yn erbyn y llewys coed.

6540 Cysgod Coed: 60cm gyda phostyn: Boddiraddiadwy

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Cysgod Coed: 60cm gyda phostyn: Boddiraddiadwy'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae angen amddiffyn coed a llwyni sydd newydd eu plannu rhag anifeiliaid (da byw, ceirw ac ati) neu ddifrod gan beiriannau.

Gellir defnyddio cysgodau coed a physt unigol lle byddai ffens yn ddiolwg, er enghraifft, mewn parcdir.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylai cysgod coed fod yn gwbl foddiraddadwy ac ni ddylai fod wedi'i wneud o blastig wedi'i ailgylchu a/neu y gellir ei ailgylchu.

Rhowch bostyn (os yw dyluniad y cysgod boddiraddadwy yn golygu bod angen postyn) yn fertigol i mewn i'r ddaear wrth ymyl pob coeden sydd newydd ei phlannu. Dylai'r postyn fod â diamedr o 2.5cm x 2.5cm ar safleoedd cysgodol a 3cm x 3cm ar safleoedd mwy agored.

Clymwch y cysgodau coed boddiraddadwy wrth y postyn gan ddefnyddio gwifrau neu glymau cebl, neu rhowch y cysgod dros y goeden a'r postyn, yn dibynnu ar ddyluniad a manylebau'r cynnyrch a ddefnyddir.

Gofalwch nad yw'r postyn yn dalach na'r cysgod.

Cadwch y cysgod coed nes bod y coed wedi'u sefydlu. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cysgodau boddiraddadwy a all, yn dibynnu ar ffactorau megis eu cydrannau polymer a pha mor agored yw'r safle, bara am gyfnodau gwahanol a/neu amrywiol o amser.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gadael i chwyn dyfu y tu mewn i'r cysgodau.

Defnyddio pyst metel.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Mae cysgodau coed i amddiffyn coed ifanc yn diwbiau plastig tryloyw hyd at 1.8m o uchder, gyda diamedr o hyd at 12cm.

Dylai pob cysgod boddiraddadwy ddarparu cymorth ac amddiffyniad am oddeutu 5-10 mlynedd. Pan nad oes defnydd swyddogaethol iddynt mwyach, mae angen eu gwaredu'n gywir.

Er bod cysgodau yn dod mewn amrywiaeth o liwiau, nid oes fawr o wahaniaeth rhyngddynt o ran twf coed. Wrth blannu o dan goed sefydledig, lle mae dwysedd golau yn debygol o fod yn isel, mae'n well defnyddio tiwbiau tryloyw clir fel arfer.

Mae angen i gysgodau coed fod uwchben uchder pori'r anifail. Gall hyn amrywio o 60cm ar gyfer cwningod ac ysgyfarnogod, i 2m ar gyfer ceirw. Gall defaid bori ar uchder o 1.2m-1.5m.

Mae cael gwared ar chwyn o amgylch coed ac mewn cysgodau yn hanfodol gan fod y chwyn yn gallu cystadlu am faethynnau a golau. Rhaid chwynnu coed mewn cysgodau coed am 2-3 blynedd gyntaf eu hoes. Rhaid cael gwared ar chwyn sy'n tyfu y tu mewn i'r cysgod coed hefyd. Gellir gwneud hyn trwy godi'r cysgod ychydig a thynnu'r chwyn allan o'r tiwb â llaw.

Dylai unrhyw blanhigion sydd wedi'u llacio neu eu codi'n rhannol gan wyntoedd a rhew y gaeaf gael eu rhoi'n ôl yn eu lle yn ofalus gyda throed. Archwiliwch ffensys, llewys coed, pyst a chlymau cebl yn rheolaidd (llaciwch glymau tynn gan y bydd y rhain yn cyfyngu ar dwf coed) a cheisiwch atal coed rhag tyfu trwy lewys coed neu rwbio yn eu herbyn.

Lle bo'n bosibl, gofalwch fod y postyn/ffon yn is na thop y cysgod i osgoi'r goeden yn rhwbio yn erbyn y postyn a chael ei difrodi.

6541 Coed a Llwyni: Coed Chwip

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Coed a Llwyni – Coed Chwip'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Gall plannu coetiroedd bach ddod â manteision i natur a'r dirwedd. Mae coed sy'n tyfu yn tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer (sy'n cael effaith bositif ar newid hinsawdd) ac yn amsugno llawer o ddŵr, gan leihau swm y dŵr sy'n llifo oddi ar dir ffermio.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Plannwch blanhigion cadarn, o leiaf 1m o daldra.

Plannwch rywogaethau brodorol yn unig – gweler y tabl isod.

Bydd gofyn defnyddio coed a llwyni sydd wedi'u tyfu yn y DU ac yn ddelfrydol, o stoc [Planhigion lach](#) at ddibenion bioddiogelwch

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Plannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd o blanhigion oherwydd clefyd y coed ynn (*Chalara fraxinea*).

Plannu coed conwydd neu lydanddail anffrodorol, gan gynnwys ffawydd, y tu allan i dde-ddwyrain Cymru.

Caniatáu difrod gan beiriannau neu anifeiliaid sy'n pori (gan gynnwys anifeiliaid gwyllt).

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gallwch sefydlu coed yn unigol, wedi'u gwasgaru trwy'r parcel neu mewn grwpiau bychain.

Rhaid i chi amddiffyn y coed rhag pori, yn cynnwys gan dda byw.

Dylai unrhyw ardaloedd wedi'u ffensiio gynnwys gât, er mwyn hwyluso rheoli a mynediad posibl i dda byw yn y dyfodol.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Dylech gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl i drafod a oes angen trwydded ar gyfer plannu coed ger prif afon, ar ei gorlifdir neu adeiledd amddiffyn rhag llifogydd.

Dylech gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod a oes angen caniatâd draenio tir cyn ar gyfer plannu unrhyw goed ger cyrsiau dŵr mewn Ardal Ddraenio Fewnol.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. I'r perwyl hwnnw, **dylid cadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a dangos y ddogfen pan gewch gais i wneud hynny**. Gweler Rheolau Cyffredinol am ragor o fanylion.

Os ydych yn cynnal gwaith chwistrellu fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod wedi cael y caniatâd sydd ei angen.

Lle mae gweithgarwch Cyfalaf – Yr Amgylchedd yn gofyn am osod seilwaith mynediad, fel gatiau ar Hawl Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Priffyrdd priodol o dan adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Defnyddir coed chwip ar gyfer plannu coed unigol a choed perthi – coed o 1m neu dalach heb fawr o ganghennau. Dylid defnyddio'r rhain yn achlysurol, mewn amgylchiadau penodol. Er eu bod yn ddrotach ac yn llai cadarn na choed wedi'u trawsblannu, maen nhw'n rhatach ac yn haws i'w sefydlu na choed hirgyff. Fel arfer, maen nhw'n ddigon byr fel nad oes angen polion a chlymau, yn ddigon tal i atal ysgyfarnogod rhag difrodi'r prif flagur ac yn haws i'w hamddiffyn rhag cwningod na choed wedi'u trawsblannu. Mae chwynnu yn llai hanfodol, ond mae angen eu hamddiffyn rhag anifeiliaid sy'n pori a pheiriannau.

Lle bo hynny'n bosibl, ni ddylid plannu coed neu lwyni o fewn 15 metr i byllau er mwyn cyfyngu ar gysgod neu effaith bosibl ar unrhyw ecosystemau daearol sy'n dibynnu ar ddŵr daear/cynefin â blaenoriaeth ac eithrio coetir brodorol neu goed pori.

Dylid hefyd sicrhau na fydd unrhyw lwyni a choed y byddwch yn eu plannu'n effeithio ar gyflenwad dŵr pyllau ac na fyddant yn niweidio leinin pyllau.

Mae'r tymor plannu fel arfer yn rhedeg o 1 Hydref tan 30 Ebrill. Yn ymarferol, mae rhew ac eira yn rhannu'r cyfnod hwn yn ddau dymor plannu: mis Hydref i fis Rhagfyr ac yn ystod mis Mawrth. Ar dir uchel, gallwch estyn y cyfnod plannu hyd ddechrau Ebrill.

Mae'n well plannu coed a llwyni llydanddail yn yr hydref, gan y bydd y gwreiddiau'n tyfu mewn cyfnodau cynnes gan leihau effeithiau unrhyw sychder yn y gwanwyn. Mewn mannau agored neu safleoedd lle mae gwyntoedd cryf y gaeaf yn debygol, efallai y byddai'n well plannu yn y gwanwyn.

Archebwch gymaint ymlaen llaw â phosibl er mwyn gwneud yn siŵr bod y coed cywir ar gael. Gofynnwch i'ch cyflenwr gludo'r planhigion atoch cyn agosed â phosibl at y dyddiad plannu. Mae'n well defnyddio meithrinfa leol sydd wedi ennill ei phlwyf gan y dylai'r costau cludiant fod yn is. Bydd hynny hefyd yn golygu nad yw'r planhigion allan o'r pridd am gyfnod hir.

Lle bynnag bo modd, ceisiwch gael gafael ar blanhigion a gafodd eu tyfu o hadau neu doriadau lleol (tarddiad brodorol), gan y byddant yn ffynnu'n well o dan amodau lleol ac yn fwy buddiol i fywyd gwyllt na stoc wedi'i mewnforio.

Byddwch wrth law pan fydd y planhigion yn cyrraedd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod mewn cyflwr da. Gofalwch fod y gwreiddiau wedi'u gorchuddio bob amser rhag iddynt gael niwed neu sychu. Er nad yw oerfel yn debygol o fod yn niweidiol, buan iawn y mae haul poeth ac unrhyw ffurf ar sychu, fel gwynt, yn gallu difrodi neu ladd y planhigion.

Os nad yw'n bosibl eu plannu ar unwaith, palwch ffos cyn iddyn nhw gyrraedd a rhowch nhw ynddi gyda'u gwreiddiau wedi'u gorchuddio er mwyn eu cadw'n llaith ac oer. Amddiffynnwch y planhigion rhag anifeiliaid, gan gynnwys mamaliaid bach.

Mae'r pedwar prif ddull o blannu gan ddefnyddio rhaw i'w gweld ar ddiwedd y nodyn hwn. Mae offer mwy arbenigol ar gael i'w defnyddio ar gyfer plannu ar raddfa fawr.

Defnyddiwch lewys coed a physt unigol pe bai ffens yn rhy ddrud neu'n rhy hyll, fel o gwmpas coed unigol gwasgaredig ar barcdir, neu le gallai peiriannau eu niweidio.

Mae cynnal a chadw blynyddol yn hanfodol er mwyn sicrhau goroesiad a thyfiant iach. Dylech ddyfrhau'r planhigion yn rheolaidd, yn enwedig ar adegau o dywydd sych. Taenwch y dŵr yn araf fel ei fod yn cael amser i ddiferu i'r pridd o gwmpas y goeden. Mae taenu tomwellt yn gallu golygu nad oes angen dyfrio mor aml.

Peidiwch â gadael i chwyn na phorfa dyfu wrth fôn y coed (bydd chwynnu yn lleihau'r difrod gan lygod a llygod y gwair hefyd). Bydd haen drwchus o domwellt sglodion rhisgl yn help yn hyn o beth, neu osod haen o bolythen du (mesur 500) a'i phegio yn sownd yn y ddaear. Fel arall, torrwyd laswellt ac unrhyw lystyfiant arall yn ofalus yn yr ardal uwchben gwreiddiau coed. Mae caglau defaid hefyd yn gweithredu fel tomwellt da ac, yn y 1-2 flynedd gyntaf, yn darparu maethynnau i'r goeden hefyd.

Dylech chwynnu ddwywaith yn y flwyddyn gyntaf ar ôl plannu ac unwaith y flwyddyn wedi hynny tan y bydd y goeden wedi tyfu'n glir o'r tyfiant o'i hamgylch. Chwynnwch â llaw neu ddefnyddio chwynladdwr i reoli porfa, dail tafol, ysgall a llysiau'r gingroen.

Os ydych yn defnyddio strimiwr, gofalwch nad ydych yn niweidio coesyn y goeden. Rhaid i unrhyw gemegyn a ddefnyddir fod ag argymhelliad ar label i'w ddefnyddio ar y rhywogaethau a restrir ac ar gyfer y dull defnyddio a fwriedir. Rhaid glynu'n dynn at holl argymhellion label y gwneuthurwyr ar gyfer defnyddio'r chwynladdwr.

Os oes unrhyw blanhigion yn rhydd neu wedi dadwreiddio'n rhannol gan wyntoedd a rhew y gaeaf, mae angen eu gwasgu i lawr yn ofalus gyda'ch traed. Archwiliwch y gwaith ffensio, y llewys coed, y pyst a'r clymau coed (dylech eu llacio os ydyn nhw'n rhy dynn rhag iddyn nhw gyfyngu ar dwf y goeden) a rhwystro coed rhag tyfu trwy lewys coed a rhwystro'r llewys rhag eu crafu.

Awgrymiadau o Goed a Llwyni Brodorol sy'n Addas i'w Plannu


Gwernen	Coeden ceirios du a cheirios yr adar	Gwifwrnwydden y gors	Criafolen (cerddinen)
Aethnen	Coeden afalau surion	Draenen wen	
Ffawyddden (deddwyrain Cymru yn unig)	Rhosyn gwyllt	Collen	Piswydden
Bedwen arian a bedwen gyffredin	Ysgawen	Celynnen	Helygen frau, helygen ddeilgron a helygen lwyd
Draenen ddu	Masarnen fach	Pisgwydden dail bach a dail mawr	Poplysen wen
Poplysen ddu		Derwen mes coesynnog a di-goes	Ywen

Mae rhestr lawn o goed brodorol Cymru yng nghyhoeddiad Forest Research, [Using Local Stock for Planting Native Trees and Shrubs](#) (mae parthau 303 a 304 yn berthnasol).

Example of the four main methods of planting using a spade


1. Pit Planting

Use for large plants or those with bulky root systems




2. Turf Planting

Use on wet sites




3. Notch or Slit Planting

Use for smaller plants with compact root systems



4. Ridge or Mount Planting

Use on wet sites where it is difficult to cut



6542 Coed a Llwyni: Trawsblannu

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Coed a Llwyni – Trawsblannu'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith.

Gall plannu coetiroedd bach ddod â manteision i natur a'r dirwedd. Mae coed sy'n tyfu yn tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer (sy'n cael effaith bositif ar newid hinsawdd) ac yn amsugno llawer o ddŵr, gan leihau swm y dŵr sy'n llifo oddi ar dir ffermio.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Plannwch blanhigion cadarn, o leiaf 50cm o daldra.

Plannwch rywogaethau brodorol yn unig – gweler y tabl isod.

Bydd gofyn defnyddio coed a llwyni sydd wedi'u tyfu yn y DU ac yn ddelfrydol, o stoc [Planhigion lach](#) at ddibenion bioddiogelwch

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Plannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd o blanhigion oherwydd clefyd y coed ynn (*Hymenoscyphus fraxineus*).

Plannu coed conwydd neu lydanddail anffrodorol, gan gynnwys ffawydd, y tu allan i dde-ddwyrain Cymru.

Caniatáu difrod gan beiriannau neu anifeiliaid sy'n pori (gan gynnwys anifeiliaid gwyllt).

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gallwch sefydlu coed yn unigol, wedi'u gwasgaru trwy'r parcel neu mewn grwpiau bychain.

Rhaid i chi amddiffyn y coed rhag pori gan dda byw ac anifeiliaid gwyllt.

Dylai unrhyw ardaloedd wedi'u ffensio gynnwys gât, er mwyn hwyluso rheoli a mynediad posibl i dda byw yn y dyfodol.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Dylech gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl i drafod a oes angen trwydded ar gyfer plannu coed ger prif afon, ar ei gorlifdir neu adeiledd amddiffyn rhag llifogydd.

Dylech gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod a oes angen caniatâd draenio tir ar gyfer plannu unrhyw goed ger cysiau dŵr mewn Ardal Ddraenio Fewnol.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. I'r perwyl hwnnw, **dylid cadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a dangos y ddogfen pan gewch gais i wneud hynny**. Gweler Rheolau Cyffredinol am ragor o fanylion.

Os ydych yn cynnal gwaith chwistrellu fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod wedi cael y caniatâd sydd ei angen.

Lle mae gweithgareddau Cyfalaf - Yr Amgylchedd yn gofyn am osod seilwaith mynediad, fel gatiau ar Hawl Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Priffyrdd priodol o dan adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Mae coed i'w trawsblannu yn blanhigion 1-2 oed gyda chyfran dda'n wreiddiau o'i gymharu â'r egin. Bydd hyn yn eu helpu i oroesi, yn enwedig mewn pridd llwm ac ar safleoedd agored. Byddant yn fwy na'r coed chwip ymhen rhai blynyddoedd gan gynhyrchu coed iachach â ffurfiant gwell. Rhaid eu hamddiffyn rhag peiriannau ac anifeiliaid, ac mae cynnal a chadw gofalus yn hanfodol yn ystod y blynyddoedd cyntaf. Maen nhw'n dipyn rhatach na choed chwip a choed hirgyff, ac yn cael eu prynu mewn swmp fel arfer.

Lle bo hynny'n bosibl, ni ddylid plannu coed neu llwyni o fewn 15 metr i byllau er mwyn cyfyngu ar gysgod neu effaith bosibl ar unrhyw ecosystemau daearol sy'n dibynnu ar ddŵr daear/cynefin â blaenoriaeth ac eithrio coetir brodorol neu goed pori. Dylid hefyd sicrhau na fydd unrhyw llwyni a choed y byddwch yn eu plannu'n effeithio ar gyflenwad dŵr pyllau ac na fyddant yn niweidio leinin pyllau.

Mae'r tymor plannu fel arfer yn rhedeg o 1 Hydref tan 30 Ebrill. Yn ymarferol, mae rhew ac eira yn rhannu'r cyfnod hwn yn ddau dymor plannu: mis Hydref i fis Rhagfyr ac yn ystod mis Mawrth. Ar dir uchel, gallwch estyn y cyfnod plannu hyd ddechrau Ebrill.

Mae'n well plannu coed a llwyni llydanddail yn yr hydref, gan y bydd y gwreiddiau'n tyfu mewn cyfnodau cynnes gan leihau effeithiau unrhyw sychder yn y gwanwyn. Mewn mannau agored neu safleoedd lle mae gwyntoedd cryf yn debygol yn y gaeaf, efallai y byddai'n well plannu yn y gwanwyn.

Archebwch gymaint ymlaen llaw â phosibl er mwyn gwneud yn siŵr bod y coed cywir ar gael. Gofynnwch i'ch cyflenwr gludo'r planhigion atoch cyn agosed â phosibl at y dyddiad plannu. Mae'n well defnyddio meithrinfa leol sydd wedi ennill ei phlwyf gan y dylai'r costau cludiant fod yn is. Bydd hynny hefyd yn golygu nad yw'r planhigion allan o'r pridd am gyfnod hir.

Lle bynnag bo modd, ceisiwch gael gafael ar blanhigion a gafodd eu tyfu o hadau neu doriadau lleol (tarddiad brodorol), gan y byddant yn ffynnu'n well o dan amodau lleol ac yn fwy buddiol i fywyd gwyllt na stoc wedi'i mewnfario.

Byddwch wrth law pan fydd y planhigion yn cyrraedd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod mewn cyflwr da. Gofalwch fod y gwreiddiau wedi'u gorchuddio bob amser rhag iddynt gael niwed neu sychu. Er

nad yw oerfel yn debygol o fod yn niweidiol, buan iawn y mae haul poeth ac unrhyw ffurf ar sychu, fel gwynt, yn gallu difrodi neu ladd y planhigion.

Os nad yw'n bosibl eu plannu ar unwaith, palwch ffos cyn iddyn nhw gyrraedd a rhowch nhw ynddi gyda'u gwreiddiau wedi'u gorchuddio er mwyn eu cadw'n llaith ac oer. Amddiffynnwch y planhigion rhag anifeiliaid, yn enwedig mamaliaid bach.

Mae'r pedwar prif ddull o blannu gan ddefnyddio rhaw i'w gweld yn y nodyn hwn. Mae offer mwy arbenigol ar gael i'w defnyddio ar gyfer plannu ar raddfa fawr.

Defnyddiwch lewys coed a physt unigol pe bai ffens yn rhy ddrud neu'n rhy hyll, fel o gwmpas coed unigol gwasgaredig ar barcdir, neu lle gallai peiriannau eu niweidio.

Mae cynnal a chadw blynyddol yn hanfodol er mwyn sicrhau goroesiad a thyfiant iach. Dylech ddyfrhau'r planhigion yn rheolaidd, yn enwedig ar adegau o dywydd sych. Taenwch y dŵr yn araf fel ei fod yn cael amser i ddiferu i'r pridd o gwmpas y goeden. Mae taenu tomwellt yn gallu golygu nad oes angen dyfrio mor aml.

Peidiwch â gadael i chwyn na phorfa dyfu wrth fôn y coed (bydd chwynnu yn lleihau'r difrod gan lygod a llygod y gwair hefyd). Bydd haen drwchus o domwellt sglodion rhisgl yn help yn hyn o beth, neu osod haen o bolythen du (trwch 500) a'i phegio yn sownd yn y ddaear. Fel arall, torrwch laswellt ac unrhyw lystyfiant arall yn ofalus yn yr ardal uwchben gwreiddiau coed. Mae caglau defaid hefyd yn gweithredu fel tomwellt da ac, yn y 1-2 flynedd gyntaf, yn darparu maethynnau i'r goeden hefyd.

Dylech chwynnu ddwywaith yn y flwyddyn gyntaf ar ôl plannu ac unwaith y flwyddyn wedi hynny tan y bydd y goeden wedi tyfu'n glir o'r tyfiant o'i hamgylch. Chwynnwch â llaw neu ddefnyddio chwynladdwr i reoli porfa, dail tafol, ysgall a llysiau'r gingroen. Os ydych yn defnyddio strimiwr, gofawch nad ydych yn niweidio coesyn y goeden. Rhaid i unrhyw gemegyn a ddefnyddir fod ag argymhelliad ar y label i'w ddefnyddio ar y rhywogaethau a restrir ac ar gyfer y dull defnyddio a fwriedir. Rhaid glynu'n dynn at holl argymhellion label y gwneuthurwyr ar gyfer defnyddio'r chwynladdwr.

Awgrymiadau o Goed a Llwyni Brodorol sy'n Addas i'w Plannu			
Gwernen	Coeden ceirios du a cheirios yr adar	Gwifwrnwydden y gors	Criafolen (cerddinen)
Aethnen	Coeden afalau surion	Draenen wen	
Ffawyddden (deddwyrain Cymru yn unig)	Rhosyn gwyllt	Collen	Piswydden
Bedwen arian a bedwen gyffredin	Ysgawen	Celynnen	Helygen frau, helygen ddeilgron a helygen lwyd

Draenen ddu	Masarnen fach	Pisgwydden dail bach a dail mawr	Poplysen wen
Poplysen ddu		Derwen mes coesynnog a di-goes	Ywen


Os oes unrhyw blanhigion yn rhydd neu wedi dadwreiddio'n rhannol gan wyntoedd a rhew y gaeaf, mae angen eu gwasgu i lawr yn ofalus gyda'ch traed. Archwiliwch y gwaith ffensio, y llewys coed, y pyst a'r clymau coed (dylech eu llacio os ydyn nhw'n dynn rhag iddyn nhw gyfyngu ar dwf y goeden) a rhwystro coed rhag tyfu trwy lewys coed neu rwbio yn eu herbyn.

Mae rhestr lawn o goed brodorol Cymru yng nghyhoeddiad Forest Research, [Using Local Stock for Planting Native Trees and Shrubs](#) (mae parthau 303 a 304 yn berthnasol).

Example of the four main methods of planting using a spade


1. Pit Planting

Use for large plants or those with bulky root systems




2. Turf Planting

Use on wet sites with poor soil




3. Notch or Slit Planting

Use for smaller plants with compact root systems



4. Ridge or Mount Planting



6543 Coed a Llwyni: Plannu Llafnau

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i allu derbyn taliadau ar gyfer 'Plannu Llafnau'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Datblygwyd dull arloesol 'plannu llafnau' (plannu heb ffens) gan elusen leol annibynnol o'r enw 'Bugeiliaid y Coed'. Mae'n efelychu'r ffordd y mae coed sydd wedi hunan-hau yn gwreiddio'n naturiol ar dir pori amaethyddol.

Gallwch 'lafn blannu' coed dros 1m o daldra yn berpendicwlar i dir serth (yn hytrach na'n pwyntio'n syth i fyny) fel na fydd modd i ddefaid na gwartheg sy'n pori gyrraedd y prif flagur. Mae i goed o'r fath broffil 'crwm', a gallwch eu gweld yn tyfu yn y rhan fwyaf o gymoedd Cymru.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Plannwch blanhigion cadarn, o leiaf 1m o daldra.

Plannwch ar ongl berpendicwlar i'r llethr ar dir serth.

Plannwch rywogaethau brodorol yn unig – gweler y tabl isod.

Bydd gofyn defnyddio coed a llwyni sydd wedi'u tyfu yn y DU ac yn ddelfrydol, o stoc [Planhigion Iach](#) am resymau bioddiogelwch

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Plannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd o blanhigion oherwydd clefyd y coed ynn (*Chalara fraxinea*).

Plannu coed conwydd neu lydanddail anfroddol.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylbau uchod:

Mae'n bosibl plannu coed ymhlith eithin.

Mae tir serth ac anwastad, o dan redyn, yn ddelfrydol ar gyfer 'plannu llafnau'.

Mae dulliau di-ffens eraill yn cynnwys plannu coed 1.5m-2m o daldra.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Dylech gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl i drafod a oes angen trwydded ar gyfer plannu coed ger prif afon, ar ei gorlifdir neu adeiledd amddiffyn rhag llifogydd.

Dylech gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod a oes angen caniatâd draenio tir cyn ar gyfer plannu unrhyw goed ger cyrsiau dŵr mewn Ardal Ddraenio Fewnol.

Lle bo hynny'n bosibl, ni ddylid plannu coed neu lwyni o fewn 15 metr i byllau er mwyn cyfyngu ar gysgod neu effaith bosibl ar unrhyw ecosystemau daearol sy'n dibynnu ar ddŵr daear/cynefin â blaenoriaeth ac eithrio coetir brodorol neu goed pori.

Dylid hefyd sicrhau na fydd unrhyw lwyni a choed y byddwch yn eu plannu'n effeithio ar gyflenwad dŵr pyllau neu wlyptiroedd eraill.

Mae'r tymor plannu fel arfer yn rhedeg o 1 Hydref tan 30 Ebrill. Yn ymarferol, mae rhew ac eira yn rhannu'r cyfnod hwn yn ddau dymor plannu: mis Hydref i fis Rhagfyr; ac yn ystod mis Mawrth. Ar dir uchel, gallwch estyn y cyfnod plannu hyd ddechrau Ebrill.

Mae'n well plannu coed a llwyni llydanddail yn yr hydref, gan y bydd y gwreiddiau'n tyfu mewn cyfnodau cynnes gan leihau effeithiau unrhyw sychder yn y gwanwyn. Mewn mannau agored neu safleoedd lle mae gwyntoedd cryf yn debygol yn y gaeaf, efallai y byddai'n well plannu yn y gwanwyn.

Archebwch gymaint ymlaen llaw â phosibl er mwyn gwneud yn siŵr bod y coed cywir ar gael. Gofynnwch i'ch cyflenwr gludo'r planhigion atoch cyn agosed â phosibl at y dyddiad plannu. Mae'n well defnyddio meithrinfa leol sydd wedi ennill ei phlwyf gan y dylai'r costau cludiant fod yn is. Bydd hynny hefyd yn golygu nad yw'r planhigion allan o'r pridd am gyfnod hir.


Lle bynnag bo modd, ceisiwch gael gafael ar blanhigion a gafodd eu tyfu o hadau neu doriadau lleol yn lleol (tarddiad brodorol), gan y byddant yn ffynnu'n well o dan amodau lleol ac yn fwy buddiol i fywyd gwyllt na stoc wedi'i mewnfario.

Byddwch wrth law pan fydd y planhigion yn cyrraedd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod mewn cyflwr da. Gofalwch fod y gwreiddiau wedi'u gorchuddio bob amser rhag iddynt gael niwed neu sychu. Er nad yw oerfel yn debygol o fod yn niweidiol, buan iawn y mae haul poeth ac unrhyw ffurf ar sychu, fel gwynt dwyreiniol, yn gallu difrodi neu ladd y planhigion.

Os nad yw'n bosibl eu plannu ar unwaith, palwch ffos cyn iddyn nhw gyrraedd a rhowch nhw ynddi gyda'u gwreiddiau wedi'u gorchuddio er mwyn eu cadw'n llaith ac oer. Amddiffynnwch y planhigion rhag anifeiliaid, gan gynnwys cwningod ac ysgyfarnogod.

Awgrymiadau o Goed a Llwyni Brodorol sy'n Addas i'w Plannu			
Gwernen	Coeden ceirios du a cheirios yr adar	Gwifwrnwydden y gors	Criafolen (cerddinen)
Aethnen	Coeden afalau surion	Draenen wen	
Ffawyddden (deddwyrain Cymru yn unig)	Rhosyn gwyllt	Collen	Piswydden
Bedwen arian a bedwen gyffredin	Ysgawen	Celynnen	Helygen frau, helygen ddeilgron a helygen lwyd
Draenen ddu	Masarnen fach	Pisgwydden dail bach a dail mawr	Poplysen wen
Poplysen ddu		Derwen mes coesynnog a di-goes	Ywen

Mae rhestr lawn o goed brodorol Cymru yng nghyhoeddiad Forest Research, [Using Local Stock for Planting Native Trees and Shrubs](#) (mae parthau 303 a 304 yn berthnasol).



6544 Coed: Hirgyff

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Coed Hirgyff (heb ffens)'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Gall plannu coetiroedd bach ddod â manteision i natur a'r dirwedd. Mae coed sy'n tyfu yn tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer (sy'n cael effaith bositif ar newid hinsawdd) ac yn amsugno llawer o ddŵr, gan leihau swm y dŵr sy'n llifo oddi ar dir ffermio.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Plannwch blanhigion cadarn, o leiaf 1.6m o daldra.

Plannwch rywogaethau brodorol yn unig – gweler y tabl isod.

Bydd gofyn defnyddio coed a llwyni sydd wedi'u tyfu yn y DU ac yn ddelfrydol, o stoc [Planhigion lach](#) at ddibenion bioddiogelwch

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Plannu coed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd o blanhigion oherwydd clefyd y coed ynn (*Hymenoscyphus fraxineus*).

Plannu coed conwydd neu lydanddail anffrodorol, gan gynnwys ffawydd, y tu allan i dde-ddwyrain Cymru.

Caniatáu difrod gan beiriannau neu anifeiliaid sy'n pori (gan gynnwys anifeiliaid gwyllt).

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gallwch sefydlu coed yn unigol, wedi'u gwasgaru trwy'r parcel neu mewn grwpiau bychain.

Rhaid i chi amddiffyn y coed rhag pori gan dda byw ac anifeiliaid gwyllt.

Dylai unrhyw ardaloedd wedi'u ffensio gynnwys gât, er mwyn hwyluso rheoli a mynediad posibl i dda byw yn y dyfodol.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Dylech gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl i drafod a oes angen trwydded ar gyfer plannu coed ger prif afon, ar ei gorlifdir neu adeiledd amddiffyn rhag llifogydd.

Dylech gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod a oes angen caniatâd draenio tir ar gyfer plannu unrhyw goed ger cyrsiau dŵr mewn Ardal Ddraenio Fewnol.

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd. I'r perwyl hwnnw, **dylid cadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a dangos y ddogfen pan gewch gais i wneud hynny**. Gweler Rheolau Cyffredinol am ragor o fanylion.

Os ydych yn cynnal gwaith chwistrellu fel rhan o'r gweithgarwch hwn, gofalwch eich bod wedi cael y caniatâd sydd ei angen.

Lle mae gweithgareddau Cyfalaf - Yr Amgylchedd yn gofyn am osod seilwaith mynediad, fel gatiau ar Hawl Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Priffyrdd priodol o dan adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Coed hirgyff (safonol) – yn cael eu defnyddio mewn parcdir cofrestredig – coed gydag o leiaf 1.6m o goesyn clir cyn y canghennau. Dylid dewis y rhain lle mae angen coed unigol neu grwpiau bach o goed i greu effaith ar unwaith. Maen nhw fel arfer yn cael eu plannu at ddibenion tirlunio. Maen nhw'n llai agored i gystadleuaeth gan chwyn, ond yn ddrutach, ac yn anoddach i'w sefydlu na choed wedi'u trawsblannu a choed chwip oherwydd eu bod yn fwy tebygol o ddioddef sychder. Maen nhw angen pyst coed a chlymau, a'u hamddiffyn rhag peiriannau ac anifeiliaid sy'n pori.

Lle bo hynny'n bosibl, ni ddylid plannu coed neu lwyni o fewn 15 metr i byllau er mwyn cyfyngu ar gysgod neu effaith bosibl ar unrhyw ecosystemau daearol sy'n dibynnu ar ddŵr daear/cynefin â blaenoriaeth ac eithrio coetir brodorol neu goed pori. Dylid hefyd sicrhau na fydd unrhyw lwyni a choed y byddwch yn eu plannu'n effeithio ar gyflenwad dŵr pyllau ac na fyddant yn niweidio leinin pyllau.

Mae'r tymor plannu fel arfer yn rhedeg o 1 Hydref tan 30 Ebrill. Yn ymarferol, mae rhew ac eira yn rhannu'r cyfnod hwn yn ddau dymor plannu: mis Hydref i fis Rhagfyr ac yn ystod mis Mawrth. Ar dir uchel, gallwch estyn y cyfnod plannu hyd ddechrau Ebrill.

Mae'n well plannu coed a llwyni llydanddail yn yr hydref, gan y bydd y gwreiddiau'n tyfu mewn cyfnodau cynnes gan leihau effeithiau unrhyw sychder yn y gwanwyn. Mewn mannau agored neu safleoedd sydd yn nannedd stormydd y gaeaf, efallai y byddai'n well plannu yn y gwanwyn.

Archebwch gymaint ymlaen llaw â phosibl er mwyn gwneud yn siŵr bod y coed cywir ar gael. Gofynnwch i'ch cyflenwr gludo'r planhigion atoch cyn agosed â phosibl at y dyddiad plannu. Mae'n well defnyddio meithrinfa leol sydd wedi ennill ei phlwyf gan y dylai'r costau cludiant fod yn is. Bydd hynny hefyd yn golygu nad yw'r planhigion allan o'r pridd am gyfnod hir.

Lle bynnag bo modd, ceisiwch gael gafael ar blanhigion a gafodd eu tyfu o hadau neu doriadau lleol (tarddiad brodorol), gan y byddant yn ffynnu'n well o dan amodau lleol ac yn fwy buddiol i fywyd gwyllt na stoc wedi'i mewnforio.

Byddwch wrth law pan fydd y planhigion yn cyrraedd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod mewn cyflwr da. Gofalwch fod y gwreiddiau wedi'u gorchuddio bob amser rhag iddynt gael niwed neu sychu. Er nad yw oerfel yn debygol o fod yn niweidiol, buan iawn y mae haul poeth ac unrhyw ffurf ar sychu, fel gwynt, yn gallu difrodi neu ladd y planhigion.

Os nad yw'n bosibl eu plannu ar unwaith, palwch ffos cyn iddyn nhw gyrraedd a rhowch nhw ynddi gyda'u gwreiddiau wedi'u gorchuddio er mwyn eu cadw'n llaith ac oer. Amddiffynnwch y planhigion rhag anifeiliaid, gan gynnwys mamaliaid bach.

Mae'r pedwar prif ddull o blannu gan ddefnyddio rhaw i'w gweld ar ddiwedd y nodiadau plannu coed hyn. Mae offer mwy arbenigol ar gael i'w defnyddio wrth blannu ar raddfa fawr.

Defnyddiwch lewys coed a physt unigol pe bai ffens yn rhy ddrud neu'n rhy hyll, fel o gwmpas coed unigol gwasgaredig ar barcdir, neu le gallai peiriannau eu niweidio.

Mae cynnal a chadw blynyddol yn hanfodol er mwyn sicrhau goroesiad a thyfiant iach. Dylech ddyfrhau'r planhigion yn rheolaidd, yn enwedig ar adegau o dywydd sych. Ychwanegwch y dŵr yn araf fel ei fod yn cael amser i ddiferu i'r pridd o gwmpas y goeden. Mae taenu tomwellt yn gallu golygu nad oes angen dyfrio mor aml.

Peidiwch â gadael i chwyn na phorfa dyfu wrth fôn y coed (bydd chwynnu yn lleihau'r difrod gan lygod a llygod y gwair hefyd). Bydd haen drwchus o domwellt sglodion rhisgl yn help yn hyn o beth, neu osod haen o bolythen du (trwch 500) a'i phegio yn sownd yn y ddaear. Fel arall, torrwyd laswellt ac unrhyw lystyfiant arall yn ofalus yn yr ardal uwchben gwreiddiau coed. Mae caglau defaid hefyd yn gweithredu fel tomwellt da ac, yn y 1-2 flynedd gyntaf, yn darparu maethynnau i'r goeden hefyd.

Dylech chwynnu ddwywaith yn y flwyddyn gyntaf ar ôl plannu ac unwaith y flwyddyn wedi hynny tan y bydd y goeden wedi tyfu'n glir o'r tyfiant o'i hamgylch. Chwynnwch â llaw neu ddefnyddio chwynladdwr i reoli porfa, dail tafol, ysgall a llysiau'r gingroen. Os ydych yn defnyddio strimiwr, gofalwch nad ydych yn niweidio coesyn y goeden. Rhaid i unrhyw gemegyn a ddefnyddir fod ag argymhelliad ar y label i'w ddefnyddio ar y rhywogaethau a restrir ac ar gyfer y dull defnyddio a fwriedir. Rhaid glynu'n dynn at holl argymhellion label y gwneuthurwyr ar gyfer defnyddio'r chwynladdwr.

Os oes unrhyw blanhigion yn rhydd neu wedi'u dadwreiddio'n rhannol gan wyntoedd a rhew y gaeaf, mae angen eu gwasgu i lawr yn ofalus gyda'ch traed. Archwiliwch y gwaith ffensio, y llewys coed, y pyst a'r clymau coed (dylech eu llacio os ydyn nhw'n dynn rhag iddyn nhw gyfyngu ar dwf y goeden) a rhwystro coed rhag tyfu trwy lewys coed neu rwbio yn eu herbyn.

Awgrymiadau ar gyfer Coed a Llwyni Brodorol sy'n Addas i'w Plannu			
Gwernen	Coeden ceirios du a cheirios yr adar	Gwifwrnwydden y gors	Criafolen (cerddinen)
Aethnen	Coeden afalau surion	Draenen wen	
Ffawyddden (deddwyrain Cymru yn unig)	Rhosyn gwyllt	Collen	Piswydden
Bedwen arian a bedwen gyffredin	Ysgawen	Celynnen	Helygen frau, helygen ddeilgron a helygen lwyd
Draenen ddu	Masarnen fach	Pisgwydden dail bach a dail mawr	Poplysen wen
Poplysen ddu		Derwen mes coesynnog a di-goes	Ywen

Mae rhestr lawn o goed brodorol i Gymru yng nghyhoeddiad Forest Research, [Using Local Stock for Planting Native Trees and Shrubs](#) (mae parthau 303 a 304 yn berthnasol).

6545 Gât Ddŵr

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gât Ddŵr'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Mae angen gatiâu ddŵr i reoli stoc pan fydd ffens yn croesi ar draws afon neu nant. Maen nhw'n arbennig o ddefnyddiol os ydy lefel y ddŵr yn amrywio'n fawr yn ystod y flwyddyn.

Rhaid cadw at y canlynol:

Adeiladwch gât sy'n cynnwys cyfres o byst pren crog yn hongian gerfydd darn o gebl neu reilen bren gron sy'n hongian yn llorweddol rhwng pyst cynnal. Mae angen ei gosod yn uwch na llif y llifogydd a ddisgwylir. Rhaid adeiladu pob gât fel ei bod yn addas ar gyfer proffil y nant unigol.

I wahanu'r gât ddŵr oddi wrth linell y ffens, gosodwch ddarnau byr o reilen bren neu netin wedi'u cysylltu wrth byst cynnal sydd wedi'u gosod mewn mannau addas.

Cysylltwch byst pren crog sydd o leiaf 5cm sgwâr ar draws. Rhaid i'r pyst crog fod wedi'u gwneud o bren heb ei drin. Rhaid eu drilio a dirwyn y cebl neu weiren y ffens drwyddynt a gosod darnau gwahanu 15cm o hyd o bibell blastig rhyngddynt. Bydd bwlch felly o 15cm rhwng pob postyn crog.

Os ydy gyli'r nant dros 1.5m o ddyfnder, bydd angen pyst crog 7cm sgwâr o faint o leiaf.

Rhowch y post crog i hongian ar bolyn crwn o bren gan ddefnyddio dolenni o weiar i'w cysylltu.

Dylai gwaelod y gât ddŵr fod 10-20cm yn uwch na'r lif isaf rhag rhwystro pysgod. Dylai'r gât hongian yn unionsyth ond dylai allu pendilio.

Archwiliwch y gât ddŵr ar ôl llifogydd a chliriwch cyn gynted â phosibl unrhyw falurion sydd wedi cronni a allai rwystro'r gât ddŵr rhag gweithio'n iawn neu'ch gallu chi i'w chynnal.

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Dylech fod wedi cael copi o'r rhestr pan gafodd y safle ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd na bywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn cynnal unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi holi a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chael trwydded os

oes angen. Dylech gadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'i ddangos pan ofynnir ichi i wneud hynny.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Wrth ddewis croesfan addas i osod y gât, bydd angen i wely'r nant fod yn galed a dylai fod yn rhwydd mynd o un lan i'r llall. Bydd y gwaith adeiladu a'r gwaith cynnal a chadw yn haws o ddewis croesfan addas.

Trwy hongian y gât ar wahân i'r brif ffens, mater rhwydd fydd codi'r gât pan fydd llifogydd mawr heb ddifrodi'r brif ffens. Ni fydd llawer o ddifrod i'r gât a gallwch ei thrwsio a'i rhoi yn ei hôl.


Mae'n well creu gatiau mawr mewn darnau. O wneud hynny, mae'n llai tebygol y caiff y gât gyfan ei hysgubo i ffwrdd gan lif mawr.

Byddai'n ddoeth ichi garthu bôn y gât o dro i dro. Mae cymysgedd o ddail a changhennau'n gallu crynhoi wrth fôn y gât gan roi pwysau ar y weiers a'r polion a difrodi'r gât.

Dylech hongian gatiau ar ongl, gyda gwaelod y gât yn gorwedd ar wely'r nant ar waered y nant. Bydd hyn yn rhwystro da byw rhag pasio o dan y gât pan fydd llif y nant yn isel

Efallai na fydd gatiau dŵr yn addas mewn llawer o leoliadau. Peidiwch â gosod gât ddŵr ar ran isaf dalgylch afon lle ceir llifogydd sydyn.

Examples of water gates



Examples of water gates




Figure 3: Swinging action



Figure 4: Good anchor & cantilever



6546 Cafnau Dŵr

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cafnau Dŵr'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Defnyddir cafnau dŵr i roi dŵr yfed i dda byw sydd ddim yn gallu mynd at gyflenwad dŵr arall.

Rhaid cadw at y canlynol:

Defnyddiwch gafnau dŵr sydd wedi'u gwneud o ddur wedi'i alfaneiddio, plastig neu goncrit.

Gosodwch gafn sydd o leiaf 1.8m o hyd. Bydd naill ai wedi'i gysylltu â'r cyflenwad dŵr neu bydd dŵr yn llifo'n rheolaidd iddo o 'fowser', fel bod y stoc yn y cae yn cael digon o ddŵr i ateb eu gofynion. Bydd y taliad safonol yn cynnwys costau ffitiadau fel tap pelen ac ati.

Defnyddiwch gafnau dŵr sydd wedi'u dylunio at y gwaith.

Rhaid gofalu nad yw'r cafnau'n sarnu na'n gollwng dŵr. Mae'r taliad safonol yn cynnwys tâl am osod sylfaen.

Gofalwch fod y cafn dŵr yn bodloni Cod Ymarfer y Safonau Prydeinig.

Peidiwch â:

Ei osod wrth fwllch cae neu ger llwybr.

Ar dir gwlyb gan y bydd perygl i'r stoc ei stablad (stwnsio'r pridd).


Peidiwch â gosod cafnau dŵr unrhyw le sy'n bwysig oherwydd ei blanhigion neu ei anifeiliaid gwyllt.

Gofynion a chyngor yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Ceisiwch ofalu nad yw'r cafn yn cael effaith andwyol ar y dirwedd trwy ei gosod wrth ymyl cae a dewiswch ddeunydd na fydd yn eich taro'n chwith wrth ichi edrych arno fel rhan o'r dirwedd o'i gwmpas.

Gosodwch gafn sy'n ddigon mawr i gyflenwi digon o ddŵr i'r anifeiliaid fydd yn yfed ohono.

Example of a water trough



6547 Camfa Bren

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Camfa Bren'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith.

Mae camfeydd pren yn cael eu defnyddio gan gerddwyr i groesi ffiniau caeau.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Lle mae'r gweithgarwch yn gofyn am osod seilwaith mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawl Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Priffyrdd priodol o dan adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Gosodwch gamfeydd pren wedi'u gwneud naill ai o bren meddal sydd wedi'i drin o dan wasgedd neu o bren caled.

Gallwch brynu camfa barod neu gallwch adeiladu camfa. Ar gyfer camfeydd cul a llydan, rhaid cadw at y dimensiynau canlynol;

Dylai'r gris fod yn 200mm o led

Dylai diamedr neu wyneb y canllaw fod yn 70-100mm o leiaf

Dylai ongl cilbyst fod rhwng y fertigol i 1:30

Ni ddylai fod mwy na 1:30 o oleddf ar unrhyw ran o unrhyw ris.

Os yw'r gamfa ar lethr, gallwch roi trydydd gris ar yr ochr isaf. Dylai fod ddwywaith lled gris cyffredin ac ni ddylai fod yn uwch na 300mm.

Gofalwch fod y gamfa'n cydymffurfio â BS5709:2006, fel y'i diwygiwyd. Rhaid defnyddio'r seilwaith lleiaf rhwystrol e.e. mae gât yn llai rhwystrol na chamfa.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gadael i'r stepen ei hun gyffwrdd â rheiliau'r gamfa rhag creu effaith si-so, gan wneud y gamfa'n anniogel i'w defnyddio.

Defnyddio'r pyst fel pyst tynnu ar gyfer ffens.

6601 Tir âr: Ymylon o wyndwn heb eu trin

Disgrifiad

Dylid cadw ymyl wedi'i drin a heb ei hau wrth ymyl cnwd yd wedi'i hau yn y gwanwyn neu'r hydref er budd adar tir fferm, infertebratau a phlanhigion âr prin. Dylid cadw'r ymyl wedi'i drin a heb ei hau tan i'r cnwd gael ei gynaeafu.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau âr y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei dyfu ar dir cynefin.

Nodau

Darparu amodau da i blanhigion âr prin i ailsefydlu eu hunain

Darparu ffynhonnell fwyd i adar tir fferm brodorol sy'n bwyta hadau megis golfanod y mynydd, llinosiaid, breision melyn a phetris.

Darparu cynefin gwerthfawr ar gyfer amrywiaeth o infertebratau, gan gynnwys pryfed peillio megis gwenyn a phryfed sy'n hedfan yn yr haf a'r hydref. Gall cynnydd yn nhoreithrwydd pryfed fod o fudd i boblogaethau ystlumod lleol hefyd.

Rheoli

Cadw ymylon o wyndwn heb eu trin sydd ag:

Isafswm arwynebedd o 0.1 ha

Isafswm lled o 6m.

Uchafswm lled o 12m.

Dylid cwblhau'r gwaith trin erbyn 15 Mai.

Dylid defnyddio dulliau trin priodol i greu gwely had gwastad, megis aredig ac yna trin neu ddisgio dwfn.

Dylid cadw'r ymyl nes bod y cnwd cyfagos yn cael ei gynaeafu, neu tan 15 Gorffennaf, pa un bynnag yw'r hwyraf

Dylid cynnal lleiniau clustogi un metr o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gysiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb.

Dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae i'w archwilio.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio plaladdwyr neu ddulliau mecanyddol i reoli chwyn.

Defnyddio gwrtaith.

Topio'r ymyl.

Defnyddio gydag india-corn.

Pori

6602 Tir âr: cnydau protein (heb reoli chwyn)

Disgrifiad

Dylid sefydlu a chynaeafu cnwd protein heb reoli chwyn er budd adar tir fferm, mamaliaid a phryfed peillio.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau âr y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei dyfu ar dir cynefin.

Nodau

Dylid annog amrywiaeth o gnydau er mwyn:

Darnio tir o dan ungnwd o laswellt wedi'i wella

Darparu manteision amaeth-economaidd wrth gylchdroi cnydau âr

Darparu ffynonellau neithdar ar gyfer pryfed peillio.

Cloi nitrogen o'r atmosffer a defnyddio llai o wrtaith artiffisial.

Darparu dogn amrywiol mewn bwydydd anifeiliaid, gan arwain at well iechyd a lles anifeiliaid.

Lleihau'r ddibyniaeth ar gnydau protein wedi'u mewnfario, na ellir eu holrhain i raddau helaeth

Rheoli

Cnydau cymwys: Ffa maes, pys, bysedd y blaidd.

Dylid hau cyn 15 Mai.

Rhaid tyfu'r cnwd mewn lleoliad priodol gan ystyried y math o bridd, topograffi a mynediad ar gyfer hau a chynaeafu.

Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir.

Gellir cynaeafu'r cnwd fel grawn, eu crimpio a'u storio trwy ddefnyddio ychwanegyn neu drwy eu silweirio fel porthiant (mewn pydew silwair neu ar ffurf bêls silwair).

Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys tystiolaeth o'r dyddiad hau a chynaeafu, a thystiolaeth o ddefnyddio gwrtaith a phlaladdwyr.

Gellir sefydlu'r cnydau trwy aredig, trwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, trwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes. (Nid yw'r gofyniad

hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi'u hardystio fel ffermwyr organig neu sy'n troi'n organig trwy Gorff Rheoli Organig cymeradwy)

Rhaid rheoli plâu gan ddefnyddio egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Blâu. Lle bo hynny'n briodol, gallwch gael cyngor gan weithiwr amaeth-economaidd cymwys.

Peidiwch â chynaeafu'r cnwd cyn 15 Gorffennaf, neu lai na 12 wythnos ar ôl ei hau, pa bynnag ddyddiad fydd hwyraf.

Os caiff ei gynaeafu fel porthiant, argymhellir y dylid dadansoddi'r maethynnau yn y cnwd porthiant i gefnogi'r broses o gynllunio dognau.

Dylid cynnal lleiniau clustogi un metr o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gyrsiau dŵr.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Aredig neu drin y tir cyn 1 Mawrth.

Hau unrhyw beth o dan y cnwd protein.

6603 Tir âr: sofl wedi'i gadw

Disgrifiad

Dylid cadw ardaloedd o sofl ar ôl cynaeafu cnwd yd er mwyn darparu ffynhonnell fwyd i adar tir fferm brodorol sy'n bwyta hadau i'w helpu i oroesi dros y gaeaf – adar megis golfanod y mynydd, llinosiaid, breision melyn a phetris. Mae'r adar hyn ymhlith y grŵp o adar sy'n dirywio gyflymaf yng Nghymru.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau âr y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei dyfu ar dir cynefin.

Nodau

Cynyddu amrywiaeth strwythurol yn y dirwedd amaethyddol, gan gynnal infertebratau a helpu dŵr i dreiddio

Darparu bwyd a gorchudd i adar gwyllt drwy gydol y gaeaf.

Darparu amodau da i blanhigion âr prin ailsefydlu eu hunain

Rheoli

Dylid tynnu'r gwellt o fewn pythefnos o orffen cynaeafu a dylid gadael i laswelltau a phlanhigion llydanddail aildyfu'n naturiol.

Ni fydd sofl indrawn, sofl sorgwm na sofl â chnydau eraill wedi'u hau oddi tanynt yn dderbyniol.

Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys tystiolaeth o'r dyddiad cynaeafu.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio plaladdwyr ac eithrio i sbot-drin a rheoli chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol. Gellir defnyddio plaladdwyr o 15 Chwefror. Dylid cofnodi unrhyw blaladdwyr a ddefnyddir yn eich dyddiadur gweithgarwch.

Torri llystyfiant ar ôl cynaeafu cyn 15 Chwefror.

Gwasgaru slyri rhwng adeg cynaeafu a 15 Chwefror.

Storio tail ar yr ardal.

Darparu porthiant atodol ar yr ardal.

Aredig, trin neu ddrilio uniongyrchol cyn 1 Mawrth.

Pori tan 15 Chwefror y flwyddyn ganlynol

Defnyddio'r tir ar gyfer mynediad rheolaidd i gerbydau, troi cerbydau neu storio (er enghraifft, storio byrnau/bêls neu beiriannau).

6604 Tir âr: Talarau yd heb eu cynaeafu

Disgrifiad

Dylid cadw talarau yd heb eu cynaeafu er budd adar tir fferm. Rhaid cadw'r dalar heb ei chynaeafu tan 15 Chwefror y flwyddyn ganlynol. Ni ddylid gwrteithio na chwistrellu'r dalar.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau âr y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei dyfu ar dir cynefin.

Mae'r weithred hon yn arbennig o werthfawr mewn ardaloedd sydd â phoblogaethau sy'n dirywio o adar tir fferm sy'n bwyta hadau, megis golfanod y mynydd, breision melyn, petris a llinosiaid.

Gellir cylchdroi'r weithred hon neu gall fod yn sefydlog, fel y bo'n briodol.

Bydd defnyddio blociau neu stribedi mwy (mwy na 0.4 hectar), lle bo'n bosibl, yn caniatáu i fwy o hadau aros heb eu darganfod am gyfnod hirach ac yn ymestyn gwerth yr ardal fel ffynhonnell fwyd ymhellach i'r gaeaf.

Pan ddewisir yr weithred hon, gellir defnyddio gweithredoedd eraill, megis cnydau heb eu chwistrellu a chadw sofl, ar gyfer gweddill y cae.

Nodau

Darparu bwyd a gorchudd i adar tir fferm drwy gydol y gaeaf.

Darparu amodau da i blanhigion âr prin i ailsefydlu eu hunain.

Rheoli

Cnydau cymwys: haidd, gwenith, ceirch, rhygwenith, rhyg. (Nid yw talarau heb eu cynaeafu o indrawn yn gymwys)

Dylid cadw talarau yd heb eu cynaeafu sydd ag:

Isafswm arwynebedd o 0.1 ha.

Isafswm lled o 6m.

Uchafswm lled o 12m.

Dylid cynnal lleiniau clustogi un metr o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gysiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb

Dylid cadw'r dalar tan 15 Chwefror y flwyddyn ganlynol.

Dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae i'w archwilio.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Aredig neu drin y tir cyn 1 Mawrth.

Hau unrhyw beth o dan y cnwd.

Defnyddio plaladdwyr neu ddulliau chwynnu â pheiriant ar ymylon heb eu cynaeafu, ar ôl eu hau. (Gellir defnyddio ffwngleiddiaid os cânt eu defnyddio ar yr hadau cyn eu hau.)

Defnyddio gwrtaith

Defnyddio'r dalar heb ei chynaeafu ar gyfer mynediad rheolaidd i gerbydau, troi cerbydau neu storio (er enghraifft, storio byrnau/bêls neu beiriannau).

6605 Tir âr: ydau a chnydau protein cymysg heb eu chwistrellu â'r sofl wedi'i gadw

Disgrifiad

Dylid sefydlu ydau gwanwyn / cnydau protein cymysg heb eu chwistrellu â'r sofl wedi'i gadw tan 15 Chwefror y flwyddyn ganlynol er budd adar tir fferm.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau â'r y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei dyfu ar dir cynefin.

Nodau

Darparu ffynhonnell fwyd i adar tir fferm brodorol sy'n bwyta hadau er mwyn iddynt allu goroesi dros y gaeaf – adar fel golfanod y mynydd, llinosiaid, breision melyn a phetris, y grŵp o adar sydd mewn mwyaf o berygl.

Rheoli

Dylid sefydlu ydau gwanwyn / cnydau protein cymysg heb eu chwistrellu â'r sofl wedi'i gadw tan 15 Chwefror y flwyddyn ganlynol.

Cnydau cymwys: haidd, gwenith, ceirch, rhygwenith, rhyg / ffa maes, pys, bysedd y blaidd, ffacbys.

Dylai'r cymysgedd hadau gynnwys 50% o hadau yd a 50% o hadau protein yn ôl pwysau.

Dylid hau rhwng 1 Mawrth a 15 Mai.

Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir.

Dylid cynnal lleiniau clustogi 1m o led gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gyrsiau dŵr.

Gellir sefydlu'r cnydau drwy aredig, drwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, drwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes. (Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi'u hardystio'n ffermwyr organig)

Gellir cynaeafu'r cnwd fel grawn, eu crimpio, a'u storio drwy ddefnyddio ychwanegyn neu drwy ei silweirio fel porthiant (mewn pydew silwair neu ar ffurf bêls silwair).

Os caiff ei gynaeafu fel porthiant, argymhellir y dylid dadansoddi'r maethynnau yn y cnwd porthiant i gynorthwyo gyda chynllunio dognau.

Mae angen i'r dewis o gnwd fod yn briodol i'r lleoliad.

Wrth ddewis y cnydau a'r amrywogaethau, dylid ystyried sut bydd y cnwd yn cael ei ddefnyddio ynghyd â'r dyddiad cynaeafu cynharaf.

Peidiwch â chynaeafu'r cnwd cyn 15 Gorffennaf, neu lai nag 14 wythnos ar ôl ei hau, pa bynnag ddyddiad fydd hwyraf.

Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys tystiolaeth o'r dyddiad hau a chynaeafu, ddefnyddio gwrtaith a dadansoddiad o faetholion y cnwd porthiant.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio plaladdwyr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy neu rywogaethau anfredorol goresgynnol. Gellir defnyddio plaladdwyr o 15 Chwefror. Dylid cofnodi unrhyw ddefnydd o blaladdwyr yn eich dyddiadur gweithgarwch.

Torri llystyfiant ar ôl cynaeafu cyn 15 Chwefror.

Gwasgaru slyri rhwng adeg cynaeafu a 15 Chwefror.

Storio tail ar yr ardal.

Darparu porthiant atodol yn yr ardal.

Aredig, trin neu ddrilio uniongyrchol cyn 1 Mawrth, ar ôl cynaeafu.

Pori tan 15 Chwefror, ar ôl cynaeafu

Defnyddio ar gyfer mynediad rheolaidd i gerbydau, troi cerbydau neu storio (er enghraifft, storio byrnau/bêls neu beiriannau).

6606 Tir âr: ydau a chnydau protein cymysg heb eu chwistrellu

Disgrifiad

Sefydlu cnwd yd gwanwyn heb ei chwistrellu, a hau cymysgedd o hadau gwyndwn cymysg oddi tano er budd adar tir fferm, mamaliaid bach, pryfed peillio a phlanhigion âr prin.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau âr y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei ddefnyddio ar dir cynefin.

Nodau

Dylid annog amrywiaeth o gnydau er mwyn:

Amrywio ungnydau glaswellt wedi'u gwella

Darparu manteision amaeth-economaidd wrth gylchdroi cnydau âr

Darparu ffynonellau neithdar ar gyfer pryfed peillio.

Cloi nitrogen o'r atmosffer a defnyddio llai o wrtaith artiffisial.

Darparu dogn amrywiol mewn bwydydd anifeiliaid, gan arwain at well iechyd a lles anifeiliaid.

Lleihau'r ddibyniaeth ar gnydau protein wedi'u mewnfario, na ellir eu holrhain i raddau helaeth.

Annog twf ystod eang o blanhigion llydanddail, gan gynnwys rhywogaethau prin megis glas yr yd, blodyn-ymenyn yr yd a gludlys amryliw.

Darparu safleoedd nythu ac ardaloedd bwydo ar gyfer adar megis cornchwiglod, ehedyddion, petris, breision melyn a thylluanod gwynion, yn ogystal â mamaliaid, megis ysgyfarnogod.

Diogelu a gwella ansawdd dŵr.

Diogelu a gwella nodweddion tirwedd a thalarau di-gnwd.

Darparu ystod o ffynonellau neithdar a phlanhigion bwyd eraill ar gyfer pryfed peillio ac infertebratau eraill. Gall rhai o'r rhain helpu i reoli plâu, ond mae eraill, megis gloÿnnod byw a chacwn, yn destun pryder cadwraeth eu hunain.

Rheoli

Dylid sefydlu yd gwanwyn / cnwd protein cymysg heb ei chwistrellu.

Cnydau cymwys: haidd, gwenith, ceirch, rhygwenith, rhyg / ffa maes, pys, bysedd y blaidd, ffacbys.

Dylai'r cymysgedd hadau gynnwys 50% o hadau yd a 50% o hadau protein yn ôl pwysau, fel a ganlyn:

Dylid hau rhwng 1 Mawrth a 15 Mai.

Gellir sefydlu'r cnydau drwy aredig, drwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, drwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes. (Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi'u hardystio'n ffermwyr organig)

Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir

Dylid cynnal lleiniau clustogi un metr o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gyrsiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb.

Gellir eu cynaeafu fel grawn, eu crimpio, a'u storio drwy ddefnyddio ychwanegyn neu drwy ei silweirio fel porthiant (mewn pydew silwair neu ar ffurf bêls silwair).

Os caiff ei gynaeafu fel porthiant, argymhellir y dylid dadansoddi'r maethynnau yn y cnwd porthiant i gynorthwyo gyda chynllunio dognau.

Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys tystiolaeth o'r dyddiad hau a chynaeafu, ddefnyddio gwrtaith a dadansoddiad o faetholion y cnwd porthiant.

Peidiwch â chynaeafu'r cnwd cyn 15 Gorffennaf, neu lai nag 14 wythnos ar ôl ei hau, pa bynnag ddyddiad fydd hwyraf.

Cyfngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Aredig neu drin y tir cyn 1 Mawrth.

Hau unrhyw beth o dan y cnwd.

Defnyddio plaladdwyr neu chwynnu â pheiriant, ar ôl hau. (Gellir defnyddio ffwngleiddiaid os cânt eu defnyddio ar yr hadau cyn eu hau.)

6607 Tir âr: ydau a chnydau protein heb eu chwistrellu, gyda gwyndynnydd cymysg wedi'u hau oddi tanynt

Disgrifiad

Sefydlu cnwd yd gwanwyn heb ei chwistrellu, a hau cymysgedd o hadau gwyndwn cymysg oddi tano er budd adar tir fferm, mamaliaid bach a phryfed peillio.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau âr y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei ddefnyddio ar dir cynefin.

Nodau

Darparu porfa amrywiol o laswellt, codlysiau a pherlysiau gyda gwreiddiau dwfn yn dilyn cnwd yd heb ei chwistrellu, gyda'r nod o:

Atafaelu carbon drwy gynyddu deunydd organig yn y pridd.

Lleihau allyriadau tŷ gwydr drwy leihau'r defnydd o wrtaith anorganig a chloi carbon yn yr haen pridd.

Darparu ystod o ffynonellau neithdar a phlanhigion bwyd eraill ar gyfer pryfed peillio ac infertebratau eraill, yn enwedig os yw'r gwyndwn sefydledig ar gau am gyfnod i ganiatáu i blanhigion flodeuo. Gall rhai o'r rhain helpu i reoli plâu, ond mae eraill, megis gloŷnnod byw a chacwn, yn destun pryder cadwraeth eu hunain.

Darparu ffynhonnell hadau ar gyfer adar tir fferm.

Cynyddu ymdreiddiad dŵr i'r haen pridd i liniaru'r risg o lifogydd.

Cadw dŵr am gyfnod hirach o fewn yr haen pridd i liniaru effeithiau cyfnod hir o dywydd sych.

Darparu dogn porthiant amrywiol ar gyfer da byw, gan arwain at wella iechyd a lles anifeiliaid

Amrywio ungnydau glaswellt wedi'u gwella

Darparu manteision amaeth-economaidd wrth gylchdroi cnydau âr

Darparu ffynonellau neithdar ar gyfer pryfed peillio.

Cloi nitrogen o'r atmosffer a defnyddio llai o wrtaith artiffisial.

Darparu dogn amrywiol mewn bwydydd anifeiliaid, gan arwain at well iechyd a lles anifeiliaid.

Lleihau'r ddibyniaeth ar gnydau protein wedi'u mewnfario, na ellir eu holrhain i raddau helaeth.

Darparu safleoedd nythu ac ardaloedd bwydo ar gyfer adar megis cornchwiglod, ehedyddion, petris, breision melyn a thylluanod gwynion, yn ogystal â mamaliaid, megis ysgyfarnogod.

Diogelu a gwella ansawdd dŵr.

Diogelu a gwella nodweddion tirwedd a thalarau di-gnwd.

Darparu ystod o ffynonellau neithdar a phlanhigion bwyd eraill ar gyfer pryfed peillio ac infertebratau eraill. Gall rhai o'r rhain helpu i reoli plâu, ond mae eraill, megis gloënnod byw a chacwn, yn destun pryder cadwraeth eu hunain.

Rheoli

Dylid sefydlu cnwd yd gwanwyn / protein cymysg heb ei chwistrellu.

Cnydau cymwys: haidd, gwenith, ceirch, rhygwenith, rhyg / ffa maes, pys, bysedd y blaidd,

Dylai'r cymysgedd hadau gynnwys 50% o hadau yd a 50% o hadau protein yn ôl pwysau.

Gwyndwn cymysg wedi'i hau o dan y cnwd, sy'n cynnwys uchafswm o 5 math o laswellt (Rhywogaethau, nid amrywogaethau unigol o fewn rhywogaethau) ac o leiaf 3 rhywogaeth o godlysiau a 3 rhywogaeth o berlysiau.

Isafswm cyfradd hadau o 25kg/ha.

Uchafswm cyfanswm cynnwys hadau glaswellt 15 kg / ha

Uchafswm cynnwys rhygwellt, gan gynnwys pob math hybrid a chyltifarau, 6 kg / ha

Uchafswm cynnwys hadau glaswellt eraill 9 kg / ha

Dylid hau rhwng 1 Mawrth a 31 Mai

Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir. (Dylid defnyddio cyfradd hadau is ar gyfer y cnwd yd i gynorthwyo sefydlu'r gwyndwn cymysg).

Mae angen i'r dewis o gnwd yd a gwyndwn cymysg fod yn briodol i'r lleoliad.

Peidiwch â defnyddio gwrteithiau anorganig sy'n cynnwys nitrogen ar ôl i'r cnwd gael ei sefydlu tan y gwanwyn sy'n dilyn. Argymhellir osgoi gwrtaith nitrogen er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r gwyndwn cymysg.

Wrth ddewis y cnydau a'r amrywogaethau, dylid ystyried sut bydd y cnwd yn cael ei ddefnyddio ynghyd â'r dyddiad cynaeafu cynharaf.

Dylid cadw gwyndwn cymysg am o leiaf 3 flynedd o'r dyddiad sefydlu.

Gellir sefydlu'r cnydau drwy aredig, drwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, drwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Dylid cynnal lleiniau clustogi un metr o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gyrsiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb.

Gellir cynaeafu'r cnwd fel grawn, eu crimpio, a'u storio drwy ddefnyddio ychwanegyn neu drwy ei silweirio fel porthiant (mewn pydew silwair neu ar ffurf bêls silwair).

Dylid rheoli pori gwyndwn cymysg sefydledig i gynnal amrywiaeth rhywogaethau ar gyfer y tymor canlynol.

Os caiff ei gynaeafu fel porthiant, argymhellir y dylid dadansoddi'r maethynnau yn y cnwd porthiant i gynorthwyo gyda chynllunio dognau.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes.

Peidiwch â chynaeafu'r cnwd cyn 15 Gorffennaf, neu lai nag 14 wythnos ar ôl ei hau, pa bynnag ddyddiad fydd hwyraf.

Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys tystiolaeth o'r dyddiad hau a chynaeafu a defnyddio gwrtaith.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio plaladdwyr neu chwynnu â pheiriant, ar ôl eu hau

Aredig neu drin y tir cyn 1 Mawrth.

6608 Tir âr: gwreiddgnwd neu gnwd porthiant heb ei chwistrellu, gydag ymylon y cae heb eu pori

Disgrifiad

Sefydlu gwreiddgnwd neu gnwd porthiant heb ei chwistrellu gydag ymylon caeau heb eu pori. Mae angen ymyl cae heb ei bori i rwystro erydiad pridd ac i ddal dŵr ffo.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau âr y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei dyfu ar dir cynefin.

Nodau

Annog twf ystod eang o blanhigion llydanddail, gan gynnwys rhywogaethau prin megis glas yr yd, blodyn-ymentyn yr yd a gludlys amryliw.

Darparu safleoedd nythu ac ardaloedd bwydo ar gyfer adar megis ehedyddion, petris, breision melyn a thylluanod gwynion, yn ogystal â mamaliaid megis ysgyfarnogod.

Darparu ystod o ffynonellau neithdar a phlanhigion bwyd eraill ar gyfer pryfed peillio ac infertebratau eraill. Gall rhai o'r rhain helpu i reoli plâu, ond mae eraill, megis gloÿnnod byw a chacwn brodorol, yn destun pryder cadwraeth eu hunain

Diogelu a gwella ansawdd dŵr.

Lleihau colli maethynnau ac erydiad pridd yn ystod y gaeaf.

Rheoli

Dylid sefydlu gwreiddgnwd neu gnwd porthiant heb ei chwistrellu **gydag ymylon caeau heb eu pori**.

Dylid hau rhwng 1 Ebrill a 31 Gorffennaf.

Gellir sefydlu'r cnydau drwy aredig, drwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, drwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes. (Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi'u hardystio'n ffermwyr organig)

Dylid cynnal lleiniau clustogi un metr o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gysiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb.

Cnydau cymwys: Erfin (rwdins), betys porthiant, maip gwyn, maip melyn meddal, maip caled, cnydau bresych, rêp pori, sicori (neu gyfuniad o'r cnydau hyn).

O leiaf 50% o ffin y cae i fod ag ymyl 10m heb ei bori, wedi'i gadw tan 15 Chwefror. Rhaid i led y llain glustogi hon fod yn ychwanegol at unrhyw leiniau clustogi sy'n ofynnol o dan y Cod i Bawb neu Weithredoedd Cyffredinol.

Dylid cynnal asesiad ar addasrwydd y cae ar gyfer tyfu'r weithred hon . Ni ddylid tyfu ar gaeau sydd â hanes o erydiad pridd neu gaeau â llethr sy'n ddigonol i gynyddu'r risg o erydiad pridd.

Lle mae'r cae wrth ymyl cwrs dŵr, rhaid i bob un o'r cyrsiau dŵr fod ag ymyl cae 10m heb ei bori. (Gallai hyn olygu bod rhaid i'r ymyl cae heb ei bori fynd y tu hwnt i'r gofyniad lleiaf o 50%.) Os oes unrhyw lethr i'r cae, rhaid i'r ymyl heb ei bori fod ar waelod y llethr.

Gellir cynnwys rhygwellt yr Eidal, rhygwellt Westerwolds neu ryg o fewn ymyl 10m y cae i wella gallu'r ymyl i leihau dŵr ffo.

Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir.

Mae angen i'r dewis o gnwd fod yn briodol i'r lleoliad.

Dylid cadw'r ymyl 10m heb ei bori tan 15 Chwefror

Gellir cynaeafu'r cnwd aeddfed neu ei bori yn y cae.

Wrth ddewis y cnwd a'r amrywogaeth, rhaid ystyried sut y bydd y cnwd yn cael ei ddefnyddio, ynghyd â'r dyddiad cynaeafu cynharaf.

Isafswm arwynebedd o 1 ha. (Gallwch rannu'r isafswm arwynebedd o 1ha ar draws un neu fwy o barseli tir, ar yr amod bod yr arwynebedd yn o leiaf 0.1ha).

Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys tystiolaeth o ddefnyddio gwrtaith a phlaladdwyr, pori a chynaeafu.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Aredig neu drin y tir cyn 1 Mawrth.

Defnyddio plaladdwyr, ar ôl hau, ac eithrio chwynladdwyr i sbot-chwynnu neu glwt-chwynnu chwyn niweidiol neu rywogaethau estron goresgynnol, brwyn meddal a chaled, danadl poethion neu redyn. (Gellir defnyddio ffwngleiddiaid os cânt eu defnyddio ar yr hadau cyn eu hau.)

Ac eithrio'r ymyl 10m, pori neu gynaeafu'r cnwd tan 15 Hydref.

Pori'r ymyl tan 15 Chwefror.

6609 Tir âr – ydau'r gwanwyn heb eu chwistrellu, gyda gwyndynnydd cymysg wedi'u hau oddi tanynt

Disgrifiad

Sefydlu cnwd ydau'r gwanwyn heb eu chwistrellu, gyda gwyndynnydd cymysg wedi'u hau oddi tanynt er lles adar tir fferm, mamaliaid bach a phryfed peillio.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd gwyndynnydd dros dro neu gnydau âr y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei ddefnyddio ar dir cynefin.

Nodau

Darparu porfa amrywiol o laswelltau, codlysiau a pherlysiau â gwreiddiau dwfn gyda chnwd yd heb ei chwistrellu gyda'r nod o:

Atafaelu carbon trwy gynyddu'r deunydd organig yn y pridd.

Lleihau allyriadau tŷ gwydr trwy ddefnyddio llai o wrtaith anorganig a chloi carbon yn yr haen pridd.

Darparu ystod o ffynonellau neithdar a phlanhigion bwyd eraill ar gyfer pryfed peillio ac infertebratau eraill, yn enwedig os yw'r gwyndwn sefydledig wedi'i gau am gyfnod i ganiatáu i blanhigion flodeuo. Gall rhai o'r rhain helpu i reoli plâu, ond mae eraill, megis gloŷnnod byw a chacwn, yn destun pryder cadwraeth eu hunain.

Darparu ffynhonnell hadau ar gyfer adar tir fferm.

Cynyddu faint o ddŵr sy'n ymdreiddio i'r haen pridd i liniaru risg llifogydd.

Cadw dŵr am gyfnod hirach o fewn yr haen pridd i liniaru effeithiau tywydd sych dros gyfnod hir.

Darparu dogn porfwyd amrywiol ar gyfer da byw sy'n arwain at well iechyd a lles anifeiliaid.

Darparu safleoedd nythu ac ardaloedd bwydo ar gyfer adar megis cornchwiglod, ehedyddion, petris, breision melyn a thylluanod gwynion, yn ogystal â mamaliaid, megis ysgyfarnogod.

Diogelu a gwella ansawdd dŵr.

Diogelu a gwella nodweddion tirwedd a thalarau di-gnwd.

Rheoli

Cnydau cymwys: haidd, gwenith, ceirch, rhygwenith, rhyg.

Gwyndwn cymysg wedi'i hau o dan y cnwd yd, sy'n cynnwys uchafswm o 5 rhywogaeth o laswellt ac o leiaf 3 rhywogaeth o godlysiau a 3 rhywogaeth o berlysiau.

(Rhywogaethau, nid amrywogaethau unigol o fewn rhywogaethau)

Isafswm y gyfradd hadau: 25kg/ha.

Uchafswm cyfanswm cynnwys hadau glaswellt 15 kg / ha

Uchafswm rhygwellt gan gynnwys yr holl hybridau a chyltifarau 6 kg / ha

Uchafswm cynnwys hadau glaswellt eraill 9 kg / ha

Dylid hau rhwng 1 Mawrth a 31 Mai

Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir. (Dylid defnyddio cyfradd hadau is ar gyfer y cnwd yd i helpu'r gwyndwn cymysg i sefydlu).

Mae angen i'r dewis o gnwd yd a chymysgedd y gwyndwn cymysg fod yn briodol i'r lleoliad.

Gellir sefydlu'r cnydau drwy aredig, drwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, drwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes.

Peidiwch â defnyddio gwrteithiau anorganig sy'n cynnwys nitrogen ar ôl i'r cnwd gael ei sefydlu tan y gwanwyn sy'n dilyn. Argymhellir osgoi gwrtaith nitrogen er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r gwyndwn cymysg.

Wrth ddewis y cnwd a'r amrywogaeth, rhaid ystyried sut y bydd y cnwd yd yn cael ei ddefnyddio, ynghyd â'r dyddiad cynaeafu cynharaf.

Dylid cynnal lleiniau clustogi 1m o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gyrsiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb

Gellir cynaeafu'r cnwd fel grawn, eu crimpio, a'u storio drwy ddefnyddio ychwanegyn neu drwy ei silweirio fel porthiant (mewn pydew silwair neu ar ffurf bêls silwair).

Peidiwch â chynaeafu'r cnwd cyn 15 Gorffennaf, neu lai nag 14 wythnos ar ôl ei hau, pa bynnag ddyddiad fydd hwyraf.

Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys tystiolaeth o'r dyddiad hau a chynaeafu a thystiolaeth o ddefnyddio gwrtaith.

Dylid cadw gwyndwn cymysg am o leiaf 3 blynedd o'r dyddiad sefydlu.

Os caiff ei gynaeafu fel porthiant, argymhellir y dylid dadansoddi'r maethynnau yn y cnwd porthiant i gefnogi'r broses o gynllunio dognau.

Dylid rheoli pori gwyndwn cymysg sydd wedi sefydlu er mwyn cynnal amrywiaeth rhywogaethau ar gyfer y tymor sy'n dilyn.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Aredig neu drin y tir cyn 1 Mawrth, ar ôl sefydlu.

Defnyddio plaladdwyr neu ddulliau chwynnu mecanyddol ar ôl hau.

6610 Tir âr – ydau'r gwanwyn heb eu chwistrellu, gyda meillion coch wedi'u hau oddi tanynt

Disgrifiad

Sefydlu cnwd ydau'r gwanwyn heb eu chwistrellu, gyda meillion coch wedi'u hau oddi tanynt er lles adar tir fferm, mamaliaid bach a phryfed peillio.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau âr y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei dyfu ar dir cynefin.

Nodau

Annog twf ystod eang o blanhigion llydanddail, gan gynnwys rhywogaethau prin megis glas yr ŷd, blodyn-ymenyn yr ŷd a gludlys amryliw.

Darparu safleoedd nythu ac ardaloedd bwydo ar gyfer adar megis cornchwiglod, ehedyddion, petris, breision melyn a thylluanod gwynion, yn ogystal â mamaliaid, megis ysgyfarnogod.

Diogelu a gwella ansawdd dŵr.

Diogelu a gwella nodweddion tirwedd a thalarau di-gnwd.

Darparu ystod o ffynonellau neithdar a phlanhigion bwyd eraill ar gyfer pryfed peillio ac infertebratau eraill. Gall rhai o'r rhain helpu i reoli plâu, ond mae eraill, megis gloŷnnod byw a chacwn, yn destun pryder cadwraeth eu hunain.

Dylid annog amrywiaeth o gnydau er mwyn:

Amrywio ungnydau glaswellt wedi'u gwella

Darparu manteision amaeth-economaidd wrth gylchdroi cnydau âr

Darparu ffynonellau neithdar ar gyfer pryfed peillio.

Cloi nitrogen o'r atmosffer a defnyddio llai o wrtaith artiffisial.

Darparu dogn amrywiol mewn bwydydd anifeiliaid, gan arwain at well iechyd a lles anifeiliaid.

Lleihau'r ddibyniaeth ar gnydau protein wedi'u mewnfario, na ellir eu holrhain i raddau helaeth.

Annog twf ystod eang o blanhigion llydanddail, gan gynnwys rhywogaethau prin megis glas yr ŷd, blodyn-ymenyn yr ŷd a gludlys amryliw.

Darparu safleoedd nythu ac ardaloedd bwydo ar gyfer adar megis cornchwiglod, ehedyddion, petris, breision melyn a thylluanod gwynion, yn ogystal â mamaliaid, megis ysgyfarnogod.

Diogelu a gwella ansawdd dŵr.

Diogelu a gwella nodweddion tirwedd a thalarau di-gnwd.

Darparu ystod o ffynonellau neithdar a phlanhigion bwyd eraill ar gyfer pryfed peillio ac infertebratau eraill. Gall rhai o'r rhain helpu i reoli plâu, ond mae eraill, megis gloënnod byw a chacwn, yn destun pryder cadwraeth eu hunain

Rheoli

Cnydau cymwys: haidd, gwenith, ceirch, rhygwenith, rhyg

Caniateir cymysgeddau o gyltifarau meillion coch.

Gall cnydau meillion coch sy'n cael eu hau o dan ydau'r gwanwyn gael eu cyfuno â rhywogaeth o laswellt.

Wrth hau meillion coch fel ungnwd, yr isafswm cyfradd hadau yw 12 kg / ha.

Wrth hau meillion coch mewn cyfuniad â glaswellt, yr isafswm cyfradd hadau ar gyfer meillion coch yw 7 Kg / ha.

Gellir cynnwys meillion Sweden fel rhan o'r gymysgedd hadau ar uchafswm cyfradd hadau o 1 kg / ha, yn ychwanegol at y 7kg o feillion coch

Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir. (Dylid defnyddio cyfradd hadau is ar gyfer y cnwd yd i helpu'r meillion coch i sefydlu).

Mae angen i'r dewis o gnwd yd a'r gymysgedd meillion fod yn briodol i'r lleoliad.

Peidiwch â defnyddio gwrteithiau anorganig sy'n cynnwys nitrogen ar ôl i'r cnwd gael ei sefydlu tan y gwanwyn sy'n dilyn. Argymhellir osgoi gwrtaith nitrogen er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r gwyndwn.

Wrth ddewis y cnwd a'r amrywogaeth, rhaid ystyried sut y bydd y cnwd yd yn cael ei ddefnyddio, ynghyd â'r dyddiad cynaeafu cynharaf.

Dylid cadw gwyndwn meillion coch am o leiaf 2 flynedd o'r dyddiad sefydlu.

Dylid hau rhwng 1 Mawrth a 31 Mai.

Gellir sefydlu'r cnydau drwy aredig, drwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, drwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes.

Dylid cynnal lleiniau clustogi 1m o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gyrsiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb

Peidiwch â chynaeafu'r cnwd cyn 15 Gorffennaf, neu lai nag 14 wythnos ar ôl ei hau, pa bynnag ddyddiad fydd hwyraf.

Gellir cynaeafu'r cnwd fel grawn, eu crimpio, a'u storio drwy ddefnyddio ychwanegyn neu drwy ei silweirio fel porthiant (mewn pydew silwair neu ar ffurf bêls silwair).

Os ydynt yn cael eu cynaeafu fel porthiant, argymhellir y dylid dadansoddi'r maethynnau yn y cnwd porthiant i gefnogi'r broses o gynllunio dognau.

Dylid rheoli pori gwyndwn sydd wedi sefydlu er mwyn cynnal y meillion ar gyfer y tymor sy'n dilyn.

Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys tystiolaeth o'r dyddiad hau a chynaeafu a thystiolaeth o ddefnyddio gwrtaith

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Aredig neu drin y tir cyn 1 Mawrth, ar ôl cynaeafu.

Defnyddio plaladdwyr neu ddulliau chwynnu mecanyddol ar ôl hau.

6611 Tir âr: ydau'r gwanwyn heb eu chwistrellu, a'r sofl wedi'i gadw

Disgrifiad

Sefydlu cnwd yd gwanwyn heb ei chwistrellu a chadw'r sofl tan 15 Chwefror y flwyddyn ganlynol er budd adar tir fferm.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau âr y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei dyfu ar dir cynefin.

Nodau

Darparu ffynhonnell fwyd i adar tir fferm brodorol sy'n bwyta hadau er mwyn iddynt allu goroesi dros y gaeaf – adar fel golfanod y mynydd, llinosiaid, breision melyn a phetris, y grŵp o adar sydd mewn mwyaf o berygl.

Rheoli

Dylid sefydlu cnwd yd gwanwyn heb ei chwistrellu a chadw'r sofl tan 15 Chwefror y flwyddyn ganlynol.

Cnydau cymwys: haidd, gwenith, ceirch, rhygwenith, rhyg

Dylid hau rhwng 1 Mawrth a 15 Mai.

Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir.

Dylid cynnal lleiniau clustogi 1m o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gyrsiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb.

Gellir sefydlu'r cnydau drwy aredig, drwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, drwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes. (Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi'u hardystio'n ffermwyr organig)

Gellir cynaeafu'r cnwd fel grawn, eu crimpio, a'u storio drwy ddefnyddio ychwanegyn neu drwy ei silweirio fel porthiant (mewn pydew silwair neu ar ffurf bêls silwair).

Os caiff ei gynaeafu fel porthiant, argymhellir y dylid dadansoddi'r maethynnau yn y cnwd porthiant i gynorthwyo gyda chynllunio dognau.

Mae angen i'r dewis o gnwd fod yn briodol i'r lleoliad.

Wrth ddewis y cnydau a'r amrywogaethau, dylid ystyried sut bydd y cnwd yn cael ei ddefnyddio ynghyd â'r dyddiad cynaeafu cynharaf.

Peidiwch â chynaeafu'r cnwd cyn 15 Gorffennaf, neu lai nag 14 wythnos ar ôl ei hau, pa bynnag ddyddiad fydd hwyraf.

Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys tystiolaeth o'r dyddiad hau a chynaeafu, ddefnyddio gwrtaith a dadansoddiad o faethynnau'r cnwd porthiant.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Hau unrhyw beth o dan y cnwd.

Defnyddio plaladdwyr ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol. Gellir defnyddio plaladdwyr o 15 Chwefror. Dylid cofnodi unrhyw ddefnydd o blaladdwyr yn eich dyddiadur gweithgarwch.

Torri llystyfiant ar ôl cynaeafu cyn 15 Chwefror.

Gwasgaru slyri rhwng adeg cynaeafu a 15 Chwefror.

Storio tail ar yr ardal.

Darparu porthiant atodol ar yr ardal.

Aredig, trin neu ddrilio uniongyrchol cyn 1 Mawrth, ar ôl cynaeafu.

Pori tan 15 Chwefror, ar ôl cynaeafu

Defnyddio ar gyfer mynediad rheolaidd i gerbydau, troi cerbydau neu storio (er enghraifft, storio byrnau/bêls neu beiriannau).

6612 Tir âr: cnwd wedi'i hau yn y gwanwyn, heb ei chwistrellu

Disgrifiad

Dylid sefydlu cnwd yd neu had llin wedi'i hau yn y gwanwyn, heb ei chwistrellu er budd adar tir fferm, mamaliaid bach, pryfed peillio a phlanhigion âr prin.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau âr y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei dyfu ar dir cynefin.

Nodau

Annog twf ystod eang o blanhigion llydanddail, gan gynnwys rhywogaethau prin megis glas yr yd, blodyn-ymenyn yr yd a gludlys amryliw.

Darparu safleoedd nythu ac ardaloedd bwydo ar gyfer adar megis cornchwiglod, ehedyddion, petris, breision melyn a thylluanod gwynion, yn ogystal â mamaliaid, megis ysgyfarnogod.

Diogelu a gwella ansawdd dŵr.

Diogelu a gwella nodweddion tirwedd a thalarau di-gnwd.

Darparu ystod o ffynonellau neithdar a phlanhigion bwyd eraill ar gyfer pryfed peillio ac infertebratau eraill. Gall rhai o'r rhain helpu i reoli plâu, ond mae eraill, megis gloënnod byw a chacwn, yn destun pryder cadwraeth eu hunain.

Rheoli

Dylid sefydlu cnwd yd wedi'i hau yn y gwanwyn, heb ei chwistrellu.

Cnydau cymwys: haidd, gwenith, ceirch, rhygwenith, rhyg.

Dylid hau rhwng 1 Mawrth a 15 Mai.

Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir.

Mae angen i'r dewis o gnwd fod yn briodol i'r lleoliad.

Wrth ddewis y cnwd a'r amrywogaeth, rhaid ystyried sut y bydd y cnwd yn cael ei ddefnyddio, ynghyd â'r dyddiad cynaeafu cynharaf.

Gellir sefydlu'r cnydau drwy aredig, drwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, drwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Dylid cynnal lleiniau clustogi un metr o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gysiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes. (Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi'u hardystio'n ffermwyr organig)

Gellir cynaeafu'r cnwd fel grawn, eu crimpio, a'u storio drwy ddefnyddio ychwanegyn neu drwy ei silweirio fel porthiant (mewn pydew silwair neu ar ffurf bêls silwair).

Peidiwch â chynaeafu'r cnwd cyn 15 Gorffennaf, neu lai nag 14 wythnos ar ôl ei hau, pa bynnag ddyddiad fydd hwyraf.

Os caiff ei gynaeafu fel porthiant, argymhellir y dylid dadansoddi'r maethynnau yn y cnwd porthiant i gynorthwyo gyda chynllunio dognau.

Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys tystiolaeth o'r dyddiad hau, tystiolaeth o ddefnyddio gwrtaith a dyddiad cynaeafu.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Aredig neu drin y tir cyn 1 Mawrth, ar ôl ei gynaeafu.

Hau unrhyw beth o dan y cnwd.

Defnyddio plaladdwyr neu ddulliau chwynnu mecanyddol ar ôl i'r cnwd sefydlu. (Gellir defnyddio ffwngleiddiaid os cânt eu defnyddio ar yr hadau cyn eu hau.)

6613 Gwyndynnydd cymysg ar dir wedi'i wella

Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn cyflwyno gwyndwn cymysg yn lle glaswelltir wedi'i wella neu gnydau â'r. Mae manteision allweddol yn cynnwys:

Mae rhywogaethau â gwreiddiau dwfn (megis sicori a liwsérn) yn gwella adeiladwaith y pridd ac yn cynyddu'r deunydd organig yn y pridd, gan arwain at ddŵr yn ymdreiddio'n well ac atafaelu mwy o garbon.

Mae codlysiau (meillion, ffacbys) yn cloi nitrogen atmosfferig, gan leihau'r angen am wrteithiau anorganig.

Gall y deiet amrywiol wella perfformiad ac iechyd da byw.

Mae rhywogaethau amrywiol yn gwneud y borfa yn fwy gwydn i eithafion tywydd a phlâu o'i gymharu ag ungnydau rhygwellt.

Mae perllysiau blodeuol yn darparu cynefin a bwyd i bryfed peillio ac adar.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau â'r y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei dyfu ar dir cynefin.

Nodau

Darparu porfa amrywiol o laswelltau, codlysiau a pherlysiau â gwreiddiau dwfn gyda'r nod o:

Atafaelu carbon trwy gynyddu'r deunydd organig yn y pridd.

Lleihau allyriadau tŷ gwydr trwy ddefnyddio llai o wrtaith anorganig a chloi carbon yn yr haen pridd.

Darparu ystod o ffynonellau neithdar a phlanhigion bwyd eraill ar gyfer pryfed peillio ac infertebratau eraill, os yw'r gwyndwn sefydledig wedi'i gau am gyfnod i ganiatáu i blanhigion flodeuo. Gall rhai o'r rhain helpu i reoli plâu, ond mae gan eraill, megis gloŷnnod byw a chacwn, werth cadwraeth eu hunain.

Darparu ffynhonnell hadau ar gyfer adar tir fferm pan fydd y cnwd yn cael ei dorri ar gyfer gwair.

Cynyddu faint o ddŵr sy'n ymdreiddio i'r haen pridd i liniaru'r risg o lifogydd.

Cadw dŵr am gyfnod hirach o fewn yr haen pridd i liniaru effeithiau tywydd sych dros gyfnod hir.

Darparu dogn porfwyd amrywiol ar gyfer da byw sy'n arwain at well iechyd a lles anifeiliaid.

Rheoli

Dylid sefydlu gwyndwn cymysg sy'n cynnwys o leiaf 5 rhywogaeth o laswellt, 3r rhywogaeth o godlysiau a 3 rhywogaeth o berlysiau. (Rhywogaethau, nid amrywogaethau unigol o fewn rhywogaethau)

Isafswm y gyfradd hadau: 25kg/ha.

Uchafswm cynnwys rhygwellt, gan gynnwys yr holl hybridau a chyltifarau 6 kg/ha.

Uchafswm yr hadau glaswellt eraill: 9kg/ha (uchafswm cyfanswm yr hadau glaswellt: 15kg/ha).

Dylid hau rhwng 1 Ebrill a 31 Awst

Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir.

Rhaid i'r dewis a'r gymysgedd o rywogaethau fod yn addas i'r lleoliad.

Gellir sefydlu'r cnydau drwy aredig, drwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, drwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes. (Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi'u hardystio'n ffermwyr organig.)

Dylid cynnal lleiniau clustogi 1m o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gysiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb.

Cymysgwch yr hadau yn yr hopran yn syth cyn hau cymysgedd o hadau er mwyn atal y cnydau rhag cael eu gwasgaru'n anghyson.

Dylid rholio ar ôl hau er mwyn cadw'r lleithder.

Gellir gwasgaru'r hadau ar led neu eu drilio, heb fod yn ddyfnach nag 1cm.

Peidiwch â defnyddio gwrteithiau anorganig sy'n cynnwys nitrogen ar ôl i'r cnwd sefydlu tan y gwanwyn sy'n dilyn. (Argymhellir osgoi gwrtaith nitrogen er mwyn sicrhau'r manteision amaeth-economaidd ac amgylcheddol mwyaf posibl o'r gwyndwn cymysg.)

Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys y dyddiad hau, tystiolaeth o ddefnyddio gwrtaith a phlaladdwyr a dyddiadau pori neu dorri.

Dylid cadw gwyndwn cymysg am o leiaf 3 blynedd o'r dyddiad sefydlu.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Aredig neu drin y tir cyn 1 Mawrth

Defnyddio plaladdwyr, ar ôl i'r cnwd sefydlu, ac eithrio chwynladdwyr i sbot-chwynnu neu glwt-chwynnu chwyn niweidiol neu rywogaethau estron goresgynnol, brwyn meddal a chaled, danadl poethion neu redyn.

6614 Gwyndynnydd cymysg: gyda chyfnod caeedig ar gyfer blodeuo

Disgrifiad

Dylid sefydlu cymysgedd hadau gwyndynnydd cymysg gyda chyfnod caeedig o 6 wythnos er budd adar tir fferm, mamaliaid bach a phryfed peillio.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau â'r y gellir defnyddio'r cnwd.

Dylid defnyddio'r weithred hon ar gaeau cyfan neu rannau o gaeau lle mae'r arwynebedd o leiaf 1 ha.

Nodau

Sefydlu porfa amrywiol, gynhyrchiol gan gynnwys rhywogaethau â gwreiddiau dwfn.

Lleihau gwrtaith neu waddodion ffo i gyrff dŵr cyfagos neu gynefinoedd eraill.

Gwella adeiledd y pridd a chynyddu'r deunydd organig yn y pridd.

Darparu ffynonellau paill a neithdar ar gyfer infertebratau ac, yn ei dro, cynyddu'r adnoddau bwyd i adar ac ystlumod.

Rheoli

Dylid cadw gwyndwn cymysg am o leiaf 3 blynedd o'r dyddiad sefydlu.

Peidiwch â phori na thorri am gyfnod o 6 wythnos rhwng 1 Mai a 31 Gorffennaf ym mlynnyddoedd 2 a 3 ar ôl sefydlu. Ar ôl y cyfnod, gellir torri gwair/silwair a/neu ailgyflwyno da byw. Gellir defnyddio un cyfnod caeedig ar gyfer y parcel cyfan, neu gellir cau rhannau o'r parcel fesul cam.

Noder: Bydd angen ffotograffau â geotag o ardaloedd caeedig ar gyfer blynnyddoedd 2 a 3. Yn y man lleiaf, bydd hyn yn cynnwys ffotograff ar ddechrau'r cyfnodau caeedig ac ar ôl 6 wythnos. Pan na ddarperir tystiolaeth o gyfnod caeedig, bydd y taliad ar gyfer yr opsiwn hwn yn cael ei atal neu ei adennill.

Dylai'r gymysgedd hadau gynnwys o leiaf 5 rhywogaeth o laswellt, 3 rhywogaeth o godlysiau a 3 rhywogaeth o berlysiau. (Dylai'r rhain fod yn rhywogaethau gwahanol, nid amrywogaethau ar wahân o fewn yr un rhywogaeth)

Isafswm y gyfradd hadau: 25kg / ha.

Uchafswm rhygwellt gan gynnwys yr holl hybridau a chyltifarau 6 kg / ha

Uchafswm cynnwys hadau glaswellt eraill 9 kg / ha

(Uchafswm cyfanswm cynnwys hadau glaswellt 15 kg / ha)

O leiaf 10 kg /ha sy'n cynnwys o leiaf 3 rhywogaeth o godlysiau a 3 rhywogaeth o berlysiau Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir uchod. Rhaid i'r dewis a'r gymysgedd o rywogaethau fod yn addas i'r lleoliad.

Dylid hau rhwng 1 Ebrill a 31 Awst.

Gellir sefydlu'r cnydau trwy aredig, trwy ddulliau trin traddodiadol ac yna gwasgaru hadau ar led, trwy ddrilio, trwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Cymysgwch yr hadau yn yr hopran yn syth cyn hau'r gymysgedd hadau i wneud yn siŵr eich bod yn gwasgaru'r gymysgedd yn gyfartal.

Gellir gwasgaru'r hadau ar led neu eu drilio, heb fod yn ddyfnach nag 1cm.

Dylid rhoio ar ôl hau er mwyn cadw'r lleithder.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes. (Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi'u hardystio'n ffermwyr organig.)

Argymhellir osgoi gwrtaith nitrogen er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r gwyndwn cymysg.

Ar ôl hau, peidiwch â defnyddio plaladdwyr, ac eithrio chwynladdwyr i sbot-chwistrellu neu glwt-chwynnu chwyn niweidiol neu rywogaethau estron goresgynnol

Dylid cynnal lleiniau clustogi un metr o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gysiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb.

Dylid rheoli'r borfa mewn modd a fydd yn cynnal amrywiaeth y borfa, er mwyn annog y gwyndynnydd cymysg i flodeuo a hadu, ac osgoi sathru.

Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen. Dylai hyn gynnwys cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys y dyddiad hau, tystiolaeth o ddefnyddio gwrteithiau a phlaladdwyr, y cyfnod caeedig a dyddiadau pori neu dorri.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Aredig neu drin y tir cyn 31 Mawrth yn y flwyddyn sefydlu.

Defnyddio gwrteithiau anorganig sy'n cynnwys nitrogen ar ôl i'r gwyndwn sefydlu, tan y gwanwyn canlynol.

6615 Meillion coch neu liwsérn ar dir wedi'i wella

Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn cyflwyno meillion coch neu liwsérn yn lle glaswelltir wedi'i wella neu gnydau â'r. Mae manteision allweddol yn cynnwys:

Mae rhywogaethau â gwreiddiau dwfn yn gwella adeiledd y pridd ac yn cynyddu deunydd organig, gan arwain at ddŵr yn ymdreiddio'n well ac atafaelu mwy o garbon.

Mae codlysiau yn cloi nitrogen atmosfferig, gan leihau'r angen am wrteithiau anorganig.

Gall y deiet amrywiol wella perfformiad ac iechyd da byw.

Mae rhywogaethau amrywiol yn gwneud y borfa yn fwy gwydn i eithafion tywydd a phlâu o'i gymharu ag ungnydau rhygwellt.

Mae perllysiau blodeuol yn darparu cynefin a bwyd i bryfed peillio ac adar.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond i ddisodli glaswelltiroedd wedi'u gwella neu gnydau â'r y gellir defnyddio'r cnwd. Ni chaniateir ei ddefnyddio ar dir cynefin.

Nodau

Dylid annog amrywiaeth o gnydau er mwyn:

Darparu ffynonellau neithdar ychwanegol ar gyfer infertebratau, yn enwedig pryfed peillio, gan gynnwys rhywogaethau dan fygythiad megis cardwenyn meinlais a chardwenyn llwydfrown, os yw'r cnwd yn gnwd gwair

Amrywio ungnydau glaswellt wedi'u gwella

Darparu manteision amaeth-economaidd wrth gylchdroi cnydau â'r

Cloi nitrogen o'r atmosffer a defnyddio llai o wrtaith artiffisial.

Darparu dogn amrywiol mewn bwydydd anifeiliaid, gan arwain at well iechyd a lles anifeiliaid.

Lleihau'r ddibyniaeth ar gnydau protein wedi'u mewnfario, na ellir eu holrhain i raddau helaeth.

Rheoli

Dylid sefydlu gwyndwn meillion coch neu liwsérn.

Caniateir cymysgeddau o gyltifarau meillion coch.

Gellir hau meillion coch fel ungnwd neu mewn cyfuniad â rhywogaethau glaswellt neu liwsérn.

Wrth hau meillion coch fel ungnwd, yr isafswm cyfradd hadau yw 12 kg / ha.

Wrth hau meillion coch mewn cyfuniad â glaswellt, yr isafswm cyfradd hadau ar gyfer meillion coch yw 7 Kg / ha.

Gellir cynnwys meillion Sweden yn y gymysgedd hadau ar uchafswm cyfradd hadau o 1 kg / ha, yn ychwanegol at y 7kg o feillion coch

Wrth hau liwsérn fel ungnwd, yr isafswm cyfradd hadau yw 20 kg / ha.

Dylid hau rhwng 1 Ebrill a 31 Awst.

Defnyddiwch hadau ardystiedig yn unig.

Rhaid i'r lleoliad fod yn briodol i'r cnwd.

Gellir sefydlu'r cnydau drwy aredig, drwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, drwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Dylid cynnal lleiniau clustogi un metr o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gysiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb

Peidiwch â defnyddio gwrteithiau anorganig sy'n cynnwys nitrogen ar ôl i'r cnwd gael ei sefydlu tan y gwanwyn sy'n dilyn. (Argymhellir osgoi gwrtaith nitrogen er mwyn sicrhau'r manteision amaeth-economaidd ac amgylcheddol mwyaf posibl o'r gwyndwn meillion coch)

Cymysgwch yr hadau yn yr hopran yn syth cyn hau cymysgedd o hadau er mwyn atal y cnydau rhag cael eu gwasgaru'n anghyson.

Dylid rholio ar ôl hau er mwyn cadw'r lleithder.

Gellir gwasgaru'r hadau ar led neu eu drilio, heb fod yn ddyfnach nag 1cm.

Dylid rheoli'r borfa sefydledig er mwyn cynnal y cynnwys meillion.

Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys y dyddiad hau, tystiolaeth o ddefnyddio gwrtaith a phlaladdwyr a dyddiadau pori neu dorri

Dylid cadw gwyndwn meillion am o leiaf 2 flynedd o'r dyddiad sefydlu.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Aredig neu drin y tir cyn 1 Mawrth, ar ôl ei gynaeafu.

Defnyddio plaladdwyr, ar ôl hau, ac eithrio chwynladdwyr i sbot-chwynnu neu glwt-chwynnu chwyn niweidiol neu rywogaethau estron goresgynnol, brwyn meddal a chaled, danadl poethion neu redyn.

6616 Indrawn â chnwd wedi'i hau oddi tano (gwanwyn/haf)

Disgrifiad

Dylid sefydlu indrawn â chnwd wedi'i hau oddi tano i sicrhau gorchudd daear â llystyfiant ar ôl y cynhaeaf.

Ble i'w ddefnyddio

Dim ond lle tyfir indrawn y gellir defnyddio'r opsiwn hwn.

Nodau

Atal erydu pridd trwy gynnal gorchudd porfa ar ôl cynaeafu'r indrawn.

Diogelu a gwella ansawdd dŵr.

Colli llai o faethynnau a llai o erydu pridd yn ystod y gaeaf

Gwella adeiledd y pridd drwy chwalu pridd wedi'i gywasgu ac annog amsugno dŵr.

Cynyddu'r deunydd organig yn y pridd, gwella adeiledd y pridd a gwella cyfansoddiad mwynau trwy awyru a chloi nitrogen, fel ei fod ar gael i'r cnwd a heuir y gwanwyn canlynol.

Darparu cysgod ac ardaloedd bwydo yn y gaeaf ar gyfer adar tir fferm a mamaliaid bach.

Rheoli

Dylid cynnal lleiniau clustogi un metr o led, wedi'u gwneud o laswellt, gerllaw perthi/gwrychoedd, cloddiau pridd neu gysiau dŵr, yn unol â'r Cod i Bawb.

Dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae i'w archwilio

Dylid sefydlu cnwd gorchudd o fewn cnwd indrawn sy'n tyfu.

Dylai'r gymysgedd hadau gynnwys o leiaf 2 rywogaeth o gnwd sy'n addas i'w tyfu yng nghysgod cnwd indrawn.

Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir.

Isafswm arwynebedd o 1 o ha. (Gallwch rannu'r isafswm arwynebedd 1ha ar draws un neu fwy o barseli tir, ar yr amod bod yr arwynebedd o leiaf 0.1ha).

Rhaid hau'r cnwd erbyn 10 Gorffennaf.

Isafswm cyfradd hadau'r is-gnwd: 15kg/ha

Dylid hau rhwng rhesi o indrawn a sefydlwyd yn ddiweddar (yn y cam 4-5 deilen fel arfer) trwy ddrilio uniongyrchol neu wasgaru hadau mewn ffordd wedi'i thargedu, ac yna mynd dros y tir â phigau.

Rhaid i'r cnwd gorchudd aros yn y ddaear tan 15 Chwefror yn y flwyddyn ar ôl ei sefydlu.

Gellir pori'r cnwd, ond peidiwch â gorburi er mwyn cynnal gorchudd cnwd y gaeaf ac osgoi sathru'r tir.

Cyfyngiadau

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gwasgaru hadau ar led ar draws y caeau.

Defnyddio gwrtaith artiffisial, tail neu slyri rhwng cynaeafu'r cnwd indrawn a 15 Chwefror y flwyddyn ganlynol.

6617 Tir âr: Cnwd gorchudd bywyd gwyllt. Wedi'i gadw am 2 flynedd tan 15 Chwefror yn yr ail flwyddyn ar ôl ei sefydlu

Disgrifiad

Mae cnwd hadau adar gwyllt wedi'i gynllunio i ddarparu bwyd i adar sy'n bwyta hadau ar dir fferm. Adar tir fferm yr iseldir, megis breision melyn, llinosiaid, petris a golfanod y mynydd, yw'r grŵp o adar sy'n dirywio gyflymaf yng Nghymru. Mae'r opsiwn hwn yn darparu bwyd ychwanegol yn eu hamgylchedd ac mae'n arbennig o werthfawr dros y gaeaf pan fo ffynonellau hadau yn brin.

Ble i'w ddefnyddio

Mae'r weithred hon ar gael ar dir wedi'i wella yn unig.

Fel arfer, bydd yn helpu os ydych chi'n hau'r cnwd hadau adar gwyllt ar safleoedd:

sy'n cael digon o olau haul, i helpu'r planhigion i sefydlu.

sy'n rhydd o chwyn, gan y bydd baich chwyn uchel yn effeithio ar sefydlu cynydau.

sy'n agos at nythod, mannau clwydo a chynefinoedd bwydo adar eraill ar dir fferm, lle bo hynny'n bosibl. Mewn ardaloedd petris a breision melyn, mae'r weithred hon wedi'i lleoli'n ddelfrydol ger ymylon glaswellt garw.

sydd wrth ymyl cae, ond gallant ymestyn i mewn i'r cae.

sydd i ffwrdd o adeiladau i leihau'r risg o fermin.

sydd i ffwrdd o ffyrdd neu hawliau tramwy cyhoeddus, gan fod aflonyddwch rheolaidd yn atal adar rhag bwydo.

sydd i ffwrdd o ardaloedd cysgodol wrth ymyl coetir trwchus lle bydd sefydlu yn anodd a lle gall ceirw a chwingod sy'n pori fod yn broblem.

Gallai dewis lleoli'r cnwd hadau adar gwyllt i sgwario ardaloedd wedi'u trin helpu i gyflymu gweithrediadau fferm.

Bydd defnyddio blociau neu sribedi mwy (mwy na 0.4 hectar), lle bo'n bosibl, yn caniatáu i fwy o hadau aros heb eu darganfod am gyfnod hirach ac yn ymestyn gwerth yr ardal fel ffynhonnell fwyd ymhellach i'r gaeaf.

Pan ddewisir y weithred hon gellir defnyddio gweithredoedd eraill, megis cynydau heb eu chwistrellu a chadw sofr, ar gyfer gweddill y cae.

Mae'r weithred hon yn arbennig o werthfawr mewn ardaloedd sydd â phoblogaethau o adar tir fferm sy'n bwyta hadau sy'n dirywio mewn niferoedd, megis golfanod y mynydd, breision melyn, petris a llinosiaid.

Nodau

Darparu bwyd a gorchudd i adar gwyllt gydol y gaeaf a darparu gorchudd yn ystod yr haf.

Darparu cynefin gwerthfawr ar gyfer amrywiaeth o infertebratau, gan gynnwys pryfed peillio, megis gwenyn a phryfed sy'n hedfan, yn yr haf a'r hydref. Gall cynnydd yn nhoreithrwydd pryfed fod o fudd i boblogaethau ystlumod lleol hefyd.

Darparu amodau da i blanhigion â'r prin i ailsefydlu eu hunain

Rheoli

Sefydlwch gnwd hadau adar gwyllt. Cadwch y cnwd hadau adar gwyllt tan 15 Chwefror yn yr ail flwyddyn ar ôl ei sefydlu

Dylech ei sefydlu fel bloc mewn cae neu ar hyd ymyl cae.

Gofynion maint:

Isafswm arwynebedd o 0.1 hectar

Isafswm lled o 6 metr

Bloc unigol o gnwd hadau adar gwyllt gydag arwynebedd o ddim mwy nag 1 hectar

Sefydlwch y cnwd trwy hau cymysgedd hadau fel a ganlyn:

Isafswm cyfradd hadau o 40 cilogram yr hectar

Cymysgedd hadau i gynnwys o leiaf 6 rhywogaeth sy'n cynnwys hadau o bob un o'r rhestrau ar gyfer ydau, rhywogaethau dwyflynyddol a rhestrau rhywogaethau eraill, isod.

Uchafswm o 50% o gynnwys yn ôl pwysau ar gyfer un rhywogaeth.

Rhywogaethau y gellir eu cynnwys yn y gymysgedd:

Ydau: haidd, ceirch, gwenith, rhyg, rhygwenith

Rhywogaethau dwyflynyddol (o leiaf 20% o gynnwys yn ôl pwysau): cêl, maip sofr, cribau'r pannwr, sicori

Rhywogaethau eraill: blodyn yr haul, hadau llin, ffacbys, cwinoa, miled coch, miled gwyn, mwstard gwyn, mwstard brown, sorgwm (**nid** enfawr na chanolradd), gwenith yr hydd, rhuddygl olew, rhuddygl porthiant

Sefydlu:

Dylech gynnal lleiniau clustogi 1 metr o led o laswellt gerllaw gwrychoedd, cloddiau pridd neu gyrsiau dŵr.

Peidiwch ag aredig na thrin y tir cyn 1 Mawrth.

Dylech hau'r cnwd hadau adar gwyllt rhwng 1 Mawrth ac 1 Gorffennaf.

Gallwch sefydlu'r cnydau trwy aredig, trwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, trwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes. (Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi'u hardystio'n ffermwyr organig.)

Dylech ail-hau unrhyw ardal lle gwelir nad yw'r cnwd wedi gafael.

Dylech gadw cofnod o'r holl weithgareddau maes yn y Dyddiadur Gweithgarwch, gan gynnwys tystiolaeth o'r dyddiad hau, a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio pan ofynnir amdano.

Cyfyngiadau

Peidiwch â hau unrhyw beth o dan y cnwd.

Peidiwch â hau indrawn neu rywogaethau eraill nad ydynt wedi'u rhestru.

Peidiwch â phori neu dorri'r cnwd cyn 15 Chwefror yn y flwyddyn ganlynol

Peidiwch â defnyddio molysgladdwyr oni bai eu bod yn cael eu drilio'n uniongyrchol gyda'r hadau. Dylech gofnodi unrhyw folysgladdwyr a ddefnyddiwyd yn eich Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu.

Peidiwch â defnyddio'r bloc neu stribed cnwd hadau adar gwyllt ar gyfer mynediad rheolaidd i gerbydau, troi cerbydau neu storio (er enghraifft, storio byrnau/bêls neu beiriannau).

Peidiwch â defnyddio plaladdwyr na chwynnu mecanyddol. (Gellir defnyddio ffwngleiddiaid os cânt eu defnyddio ar yr hadau cyn eu hau).

6618 Tir âr: Cnwd gorchudd bywyd gwyllt. Wedi'i gadw tan 15 Chwefror y flwyddyn sy'n dilyn.

Disgrifiad

Mae cnwd hadau adar gwyllt wedi'i gynllunio i ddarparu bwyd i adar sy'n bwyta hadau ar dir fferm. Adar tir fferm yr iseldir, megis breision melyn, llinosiaid, petris a golfanod y mynydd, yw'r grŵp o adar sy'n dirywio gyflymaf yng Nghymru. Mae'r opsiwn hwn yn darparu bwyd ychwanegol yn eu hamgylchedd ac mae'n arbennig o werthfawr dros y gaeaf pan fo ffynonellau hadau yn brin.

Ble i'w ddefnyddio

Mae'r weithred hon ar gael ar dir wedi'i wella yn unig.

Gellir cylchdroi'r weithred hon neu gall fod yn sefydlog, fel y bo'n briodol.

Fel arfer, bydd yn helpu os ydych chi'n hau'r cnwd hadau adar gwyllt ar safleoedd:

sy'n cael digon o olau haul, i helpu'r planhigion i sefydlu.

sy'n rhydd o chwyn, gan y bydd baich chwyn uchel yn effeithio ar sefydlu cynydau.

sy'n agos at nythod, mannau clwydo a chynefinoedd bwydo adar eraill ar dir fferm, lle bo hynny'n bosibl. Mewn ardaloedd petris a breision melyn, mae'r weithred hon wedi'i lleoli'n ddelfrydol ger ymylon glaswellt garw.

sydd wrth ymyl cae, ond gallant ymestyn i mewn i'r cae.

sydd i ffwrdd o adeiladau i leihau'r risg o fermin.

sydd i ffwrdd o ffyrdd neu hawliau tramwy cyhoeddus, gan fod aflonyddwch rheolaidd yn atal adar rhag bwydo.

sydd i ffwrdd o ardaloedd cysgodol wrth ymyl coetir trwchus lle bydd sefydlu yn anodd a lle gall ceirw a chwingod sy'n pori fod yn broblem.

Gallai dewis lleoli'r cnwd hadau adar gwyllt i sgwario ardaloedd wedi'u trin helpu i gyflymu gweithrediadau fferm.

Bydd defnyddio blociau neu sribedi mwy (mwy na 0.4 hectar), lle bo'n bosibl, yn caniatáu i fwy o hadau aros heb eu darganfod am gyfnod hirach ac yn ymestyn gwerth yr ardal fel ffynhonnell fwyd ymhellach i'r gaeaf.

Pan ddewisir y weithred hon, gellir defnyddio gweithredoedd eraill, megis cynydau heb eu chwistrellu a chadw sofr, ar gyfer gweddill y cae.

Mae'r weithred hon yn arbennig o werthfawr mewn ardaloedd sydd â phoblogaethau o adar tir fferm sy'n bwyta hadau sy'n dirywio mewn niferoedd, megis golfanod y mynydd, breision melyn, petris a llinosiaid.

Nodau

Darparu bwyd a gorchudd i adar gwyllt gydol y gaeaf a darparu gorchudd yn ystod yr haf.

Darparu cynefin gwerthfawr ar gyfer amrywiaeth o infertebratau, gan gynnwys pryfed peillio, megis gwenyn a phryfed sy'n hedfan, yn yr haf a'r hydref. Gall cynnydd yn nhoreithrwydd pryfed fod o fudd i boblogaethau ystlumod lleol hefyd.

Darparu amodau da i blanhigion â'r prin i ailsefydlu eu hunain

Rheoli

Dylech sefydlu cnwd hadau adar gwyllt fel bloc mewn cae neu ar hyd ymyl cae.

Dylech gadw'r cnwd hadau adar gwyllt tan 15 Chwefror yn y flwyddyn ar ôl ei sefydlu.

Gofynion maint:

Isafswm arwynebedd o 0.1 hectar

Isafswm lled o 6 metr

Blociau unigol o gnwd adar gwyllt gydag arwynebedd o ddim mwy nag 1 hectar

Sefydlwch y cnwd trwy hau cymysgedd hadau fel a ganlyn:

Isafswm cyfradd hadau o 12.5 cilogram yr hectar

Cymysgedd hadau i gynnwys o leiaf 6 rhywogaeth sy'n cynnwys rhywogaethau o'r rhestrau ydau a'r rhestrau rhywogaethau eraill.

Uchafswm cynnwys ydau o 80% yn ôl pwysau.

Rhywogaethau y gellir eu cynnwys yn y gymysgedd:

Ydau: haidd, ceirch, gwenith, rhyg, rhygwenith

Rhywogaethau eraill: blodyn yr haul, hadau llin, ffacbys, cwinoa, miled coch, miled gwyn, mwstard gwyn, mwstard brown, sorgwm (**nid** enfawr na chanolradd), gwenith yr hydd, rhuddygl olew, rhuddygl porthiant

Sefydlu:

Dylech gynnal lleiniau clustogi 1 metr o led o laswellt gerllaw gwrychoedd, cloddiau pridd neu gyrsiau dŵr.

Peidiwch ag aredig na thrin y tir cyn 1 Mawrth.

Dylech hau'r cnwd rhwng 1 Mawrth ac 1 Gorffennaf.

Gallwch sefydlu'r cnwd trwy aredig, trwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, trwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.

Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes. (Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi'u hardystio'n ffermwyr organig)

Ar ôl ei sefydlu, peidiwch â defnyddio plaladdwyr na chwynnu mecanyddol ar y cnwd hadau adar gwyllt (gellir defnyddio ffwngleiddiaid os ydynt wedi'u rhoi ar yr hadau cyn eu hau).

Dylech ail-hau unrhyw ardal lle gwelir nad yw'r cnwd wedi gafael.

Dylech gadw cofnod o'r holl weithgareddau maes yn y Dyddiadur Gweithgarwch, gan gynnwys tystiolaeth o'r dyddiad hau, a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio pan ofynnir amdano.

Cyfngiadau

Peidiwch â hau unrhyw beth o dan y cnwd.

Peidiwch â hau indrawn neu rywogaethau eraill nad ydynt wedi'u rhestru.

Peidiwch â phori neu dorri'r cnwd cyn 15 Chwefror yn y flwyddyn ganlynol.

Peidiwch â defnyddio molysgladdwyr oni bai eu bod yn cael eu drilio'n uniongyrchol gyda'r hadau. Dylech gofnodi unrhyw folysgladdwyr a ddefnyddiwyd yn eich Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu.

Peidiwch â defnyddio'r bloc neu stribed cnwd hadau adar gwyllt ar gyfer mynediad rheolaidd i gerbydau, troi cerbydau neu storio (er enghraifft, storio byrnau/bêls neu beiriannau).

Peidiwch â defnyddio plaladdwyr na chwynnu mecanyddol. (Gellir defnyddio ffwngleiddiaid os cânt eu defnyddio ar yr hadau cyn eu hau).

6701 Bocsys nythu tylluanod gwynion

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Bocsys nythu tylluanod gwynion'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Mae'r dylluan wen yn hela mamaliaid bach, yn enwedig llygod pengrwn, dros laswelltir garw. Mae'n defnyddio ysguboriau tawel a cheudodau mewn coed ar gyfer nythu a chlwydo. Fel arfer, mae pelenni a thail yn arwydd bod gennych chi dylluan wen. Gan fod tylluanod gwynion yn sensitif i aflonyddwch, mae'n well gosod bocsys mewn lleoliadau tawel. Gallwch ddarparu bocs y tu mewn i ysguboriau neu ar goed neu y tu allan i adeiladau.

Mae tylluanod gwynion wedi'u rhestru o dan Atodlen 1 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981), sy'n ei gwneud yn drosedd tarfu ar nyth sy'n cynnwys wyau neu dylluanod bach dibynnol. Er y gall gweithgareddau arferol fynd rhagddynt yn yr adeilad, dim ond o dan drwydded gan CNC y gellir archwilio cynnwys bocsys. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Trwyddedau adar](#).

Rhaid i chi gadw at y canlynol

Bocsys dan do

Adeiladwaith - Dylid adeiladu'r bocsys o bren haenog 9mm fel y dangosir yn y diagram. Mae'r caead codi yn caniatáu mynediad i lanhau ar ôl i'r cywion a'r rhieni adael.

Lleoli

Rhowch y bocs mor uchel yn yr adeilad â phosibl, ond gan adael digon o le i dynnu'r caead. Mae uchder o 3m yn ddelfrydol.

Rhowch y bocs mewn lle hollol sych fel y bydd gan y dylluan lwybr hedfan clir o'r pwynt lle mae'n fwyaf tebygol o fynd i mewn i'r adeilad.

Os yw'n bosibl, gosodwch y bocs fel y bydd cywion yn gallu cerdded ar drawstiau neu arwynebau gwastad eraill. Bydd yr hambwrdd glanio ar flaen y bocs hefyd yn darparu lle i'r cywion

Nid oes angen rhoi unrhyw leinin yn y bocs gan y bydd yr wyau'n cael eu dodwy ar y deunydd pelenni sy'n cael ei adgyfogi gan y dylluan.

Bocsys awyr agored

Adeiladwaith

Dylid adeiladu'r bocsys o bren haenog 15-20mm sydd wedi cael 2 gôt o gadwolyn cyn eu cydosod. Dylid defnyddio pren haenog addas i amodau morol neu awyr agored ar gyfer bocsys a fydd yn cael eu hadeiladu y tu allan i adeiladau.

Wrth i chi greu'r bocs ffrâm A, atodwch ddarn 200 x 485mm o bren wedi'i fraslifio i'r tu mewn i'r panel cefn. Bydd y gosodiad i'r goeden yn mynd trwy'r atgyfnerthiad hwn.


Peidiwch ag atodi'r panel blaen nes bod y bocs wedi'i hongian i fyny.

Lleoli


Ceisiwch osgoi lleoli'r bocs fel bod y fynedfa'n wynebu' prifwynt neu fod glaw yn dod i mewn iddo. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu osgoi'r gorllewin a'r de-orllewin

Gellir gosod bocsys ar goed neu adeiladau. Er mwyn osgoi niweidio coed, dylid atodi astell i'r boncyff gan ddefnyddio llinyn, a hoelio neu sgriwio'r bocs i'r astell.

Bocsys nythu tylluanod gwynion - Bocs dan do



Bocsys nythu tylluanod gwynion - Bocsys awyr agored



6702 Blychau ystlumod

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Blychau ystlumod'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gwneud blwch ystlumod

Mae blychau ystlumod ar gael ym mhob lliw a llun; isod mae manylion blwch ystlumod pren syml o'r enw Blwch Ystlumod Caint. Mae wedi bod yn llwyddiannus o ran denu ystlumod ac mae'n syml i'w adeiladu a'i lanhau ac nid oes angen llawer o waith cynnal a chadw arno. Mae'r blwch hwn yn gofyn am tua 1.6m o bren garw i'w adeiladu; mae'n bwysig peidio â defnyddio pren wedi'i drin.

Mae rhagor o wybodaeth yma: [Wooden bat boxes - Bat Boxes - Bat Conservation Trust](#)

Prynu blwch ystlumod parod

Mae blychau ystlumod sydd wedi'u gwneud o gymysgedd o naddion pren a sment yn llwyddiannus iawn o ran denu ystlumod, gan fod ganddynt y fantais o insiwleiddiad thermol gwell, ymwrthedd i bydredd a difrod gan gnoellod y coed a gwiwerod ac maen nhw'n para'n hirach. Mae nifer o gyflenwyr yn gwerthu'r rhain. Mae gwahanol fodelau ar gael, yn dibynnu ar a ydych chi am eu rhoi ar goed neu adeiladau.

Lleoli blychau

Pa bynnag fath o flwch rydych chi'n ei ddewis, maen nhw'n fwyaf tebygol o gael eu defnyddio os ydynt wedi'u lleoli mewn mannau lle rydych chi'n gwybod bod ystlumod yn bwydo. Mae coetiroedd, parcdir a glannau afonydd yn lleoedd da, yn ogystal â gerddi sy'n agos at byllau, afonydd neu barciau. Dylai safleoedd fod wedi'u cysgodi rhag gwyntoedd cryfion ac i ffwrdd o ffynonellau golau artiffisial. Dylai blychau fod yn agored i'r haul am ran o'r dydd (fel arfer yn wynebu'r de, y de-ddwyrain neu'r de-orllewin) ac yn ddelfrydol o leiaf 4m uwchben y ddaear (lle mae modd eu gosod yn ddiogel). Dylid gosod blychau fel bod ystlumod yn gallu eu cyrraedd heb orfod osgoi rhwystrau megis canghennau coed.

Mae ystlumod angen amrywiaeth o amodau clwydo trwy gydol y flwyddyn. Trwy osod mwy nag un blwch, mewn ystod o leoliadau ac yn wynebu i wahanol gyfeiriadau, gall ystlumod ddewis y lleoliad clwydo mwyaf addas. Ceisiwch osgoi lleoli'r blwch fel bod y fynedfa'n wynebu i mewn i'r prifwynt neu fod glaw yn dod i mewn iddo.

Unwaith y bydd y blwch ystlumod yn cael ei ddefnyddio

Unwaith y bydd y blwch yn cael ei ddefnyddio gan ystlumod (neu unrhyw rywogaethau eraill a warchodir), bydd yn cael ei warchod o dan y gyfraith a rhaid i chi ei drin fel y byddech yn trin unrhyw glwydfan arall a warchodir. Unwaith y bydd yn cael ei ddefnyddio, rhaid i chi beidio â difrodi neu ddinistrio'r blwch ystlumod neu aflonyddu ar yr ystlumod.

Blwch Ystlumod Caint:

Design and measurements

Simple to construct, self-cleaning and low maintenance, the Kent bat box (designed by the Kent Bat Group) is a great way to encourage bats in your garden or your green space. The box should be rainproof and draught-free.

The only critical measurement is the width of the crevices: between 15-25mm. Other measurements are approximate. Timber should be approximately 20mm thick.

Measurements for one Kent bat box kit would be as follows:

Part	Quantity	Size (mm)
Roof (A)	1	x 160 x 20
Back (B)	1	x 200 x 20
Centre (C)	1	x 200 x 20
Front (D)	1	x 200 x 20
Centre Rails (E)	2	x 20 x 20
Front Rails (F)	2	x 15 x 15
Stand-offs (optional)	2	x 20 x 20


Material and Tools

This kit requires approximately 1.6m of rough wood and 25 screws (8 x 1 ½ inches) to assemble. You can rough it up by scraping with a suitable tool – possibly a saw blade or even a screwdriver but make sure you use untreated wood as some preservative chemicals can kill bats.

Pre-drill the holes to prevent the wood splitting. Alternatively you can assemble your bat box kit with nails although they tend to be less robust than boxes made with screws.

The hanging screws may either be at the edges of the front panel or in the side centre block (not in the rails!). Fixing may be by use of brackets, durable nylon cord or wires.

When installing the box, assess the risks of working at height, use the appropriate fittings and assess where the box will be located, in relation to any public access. Regular checks should be made to ensure the box remains securely fitted, especially after high winds.



Yr enghraifft uchod trwy garedigrwydd yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod.

6704 Griliau ystlumod

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Griliau ystlumod'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Y mesur cadwraeth sydd ei angen amlaf ar gyfer ogofâu a mwynloddiau yw amddiffyniad rhag aflonyddwch gormodol. Gwneir hyn fel arfer trwy osod gril, sy'n caniatáu i ystlumod fynd a dod ond nid pobl, er y gall mesurau eraill, megis ffensys diogelwch, fod yn briodol mewn rhai achosion.

Bydd pob safle yn wahanol a bydd angen i ymgynghorydd ystlumod trwyddedig gynnal arolwg ystlumod i weld pa ystlumod sy'n bresennol, a oes angen gril ac, os felly, y dyluniad a'r dull gosod gorau ar gyfer y lleoliad hwnnw. Rhaid defnyddio'r egwyddor ganlynol wrth ddylunio griliau:

Rhaid i griliau fod wedi'u dylunio yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Eurobats: [EUROBATS PublSer No2 English 5th edition 2017.pdf](#). Rhaid i griliau fod wedi'u dylunio i beidio â rhwystro mynediad ystlumod.

Rhaid cynnwys gatiau mynediad i bobl mewn unrhyw griliau a'u diogelu â chloeon. Dylai gatiau fod tua 1000mm x 1000mm (o leiaf 500mm x 500mm). Gallant fod naill ai'n golfachog neu'n gatiau llithro, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Os yw colfachau wedi'u gosod, dylai'r rhain fod o adeiladwaith cadarn neu wedi'u cuddio fel na ellir torri trwyddynt yn hawdd gyda haclif.

Dylai'r gril gael ei araenu yn erbyn rhwd trwy ei alfaneiddio adeg ei weithgynhyrchu (proses dip poeth).

Rhaid gosod y gril fel nad yw'n rhwystro llif aer i mewn i'r safle. Fel arfer, ni ddylid gosod y gril yn rhan gulaf y fynedfa, lle gallai effeithio'n ddifrifol ar lif aer.

Rhaid i'r gril fod wedi'i osod yn ddiogel mewn craig solet, os yw ar gael.

Rhaid cyflwyno adroddiad yr arolwg ystlumod a'r datganiad dull arfaethedig i Cyfoeth Naturiol Cymru i'w gymeradwyo. Efallai y bydd angen Trwydded Cadwraeth Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS) ar gyfer gwaith gosod gril; bydd eich ymgynghorydd ystlumod yn eich cynghori, ac yn gwneud cais am y drwydded ar eich rhan os oes angen. Pan fo angen trwydded, ni ddylai'r gwaith ddechrau nes bod y drwydded wedi'i rhoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Rhaid gwneud yr holl waith yn unol â manylion y datganiad dull ac, os oes angen, unrhyw amodau trwydded cadwraeth rhywogaethau a warchodir gan Ewrop.

6705 Arolwg Ystlumod

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Arolwg ystlumod'.

Cefndir

Mae ystlumod yn famaliaid y nos bach sy'n gallu hedfan. Maen nhw'n bwyta pryfed ac yn defnyddio adlaisleoli i ddod o hyd i ysglyfaethau. Mae 17 rhywogaeth frodorol o ystlumod yn byw yn y DU, pob un ohonynt yn Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop. Fel y cyfryw, rhoddir amddiffyniad cyfreithiol llawn iddynt o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Rheoliadau Cynefinoedd 2017 fel y'u diwygiwyd. Mae ystlumod yn aml yn ystyriaeth mewn prosiectau cynllunio a datblygu, gan eu bod yn defnyddio adeiladau a choed i glwydo ynddynt ac yn agored i effeithiau datblygu. Mae'n drosedd i ladd, anafu, dal neu aflonyddu ar ystlumod, neu i ddifrodi neu ddinistrio eu cynefinoedd clwydo (nid oes rhaid i ystlumod fod yn y cynefinoedd hynny ar y pryd), er y gall camau sydd wedi'u gwahardd gan y ddeddfwriaeth gael eu gwneud yn gyfreithlon trwy gael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Mae'n hanfodol bod arolwg ystlumod yn cael ei gynnal cyn i unrhyw waith gael ei wneud ar unrhyw adeilad, strwythur neu goeden lle gallai ystlum glwydo.

Dylai'r arolwg gael ei gynnal gan ymgynghorydd â chymwysterau addas sydd wedi'i drwyddedu i gynnal arolygon ystlumod gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Rhaid i'r arolwg gadw at ganllawiau arferion gorau cyhoeddedig: [Bat Surveys for Professional Ecologists: Good Practice Guidelines 4th edition - Guidance for professionals - Bat Conservation Trust](#)

Gellir cynnal arolwg rhagarweiniol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn a bydd yn helpu i lywio'r gofyniad am arolygon ymddangosiad ystlumod; dim ond rhwng mis Mai a mis Medi y gellir cynnal y rhain. Bydd cynllunio ymlaen llaw yn helpu i atal oedi.

Dylai adroddiad manwl gael ei lunio gan yr ymgynghorydd ar ôl cwblhau arolygon. Rhaid i'r adroddiad hefyd gyfeirio'n glir at rif trwydded CNC y syrfewyr.

Os canfyddir ystlumod ac os canfyddir y bydd eich gwaith arfaethedig yn effeithio arnynt, efallai y bydd angen Trwydded Datblygu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop gan CNC cyn y gellir gwneud unrhyw waith. Bydd yr ecolegydd ymgynghorol yn eich cynghori ar hyn a bydd yn gallu gwneud cais am y drwydded ofynnol ar eich rhan. Ar ôl cael y drwydded, rhaid i chi gydymffurfio â'i holl amodau.

Os yw'r eitem Gwaith Cyfalaf isod wedi'u cynnwys yn eich dyfarniad grant, rhaid i chi beidio â dechrau ar y gwaith cyn i'r arolwg ystlumod a Thrwyddedau Datblygu Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop gael eu cymeradwyo. Os byddwch yn dechrau ar y gwaith heb gymeradwyaeth, ni fyddwch yn cael eich talu am y gwaith ac efallai y bydd cosbau'n cael eu gosod ar eich cais.

6706 Blychau nythu adar

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau am 'Blychau nythu adar'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gwneud bocs adar

Mae blychau adar fel arfer wedi'u gwneud o bren, ond peidiwch â defnyddio pren wedi'i drin dan wasgedd 'arsenad copr cromad' gan y gall trwytholchion niweidio adar; mae estyll tua 2cm o drwch yn rhoi digon o gryfder ac inswleiddiad. Mae tyllau draenio yng ngwaelod y blychau yn hanfodol, a gellir trin blychau pren meddal ar y tu allan yn unig, gyda chadwolion seiliedig ar ddŵr y gwyddys eu bod yn ddiogel i anifeiliaid i ymestyn eu hoes. Gosodwch blatiau metel o amgylch tyllau mynediad blychau ar gyfer rhywogaethau llai fel amddiffyniad rhag cnocellod y coed a gwiwerod. Dylid cymryd gofal i gysgodi blychau rhag y prifwynt, glaw a golau'r haul. Mynedfa sy'n wynebu rhywle rhwng y gogledd a'r dwyrain sydd orau.

Mae gan flychau nythu y gwerth cadwraeth uchaf os cânt eu defnyddio mewn ffordd wedi'i thargedu, er enghraifft, i gynyddu niferoedd golfanod y mynydd. Gallwch chwilio am gofnodion o rywogaethau adar yn eich ardal gan ddefnyddio [Aderyn](#). Gall y titw tomos las a'r titw mawr drechddisodli titw'r helyg a thitw'r wern. Am y rheswm hwn, mae'n well osgoi gosod blychau mewn coetir sy'n gartref i ditw'r wern a thitw'r helyg. Gallwch ddefnyddio [Aderyn](#) i chwilio am boblogaethau titw'r helyg a thitw'r wern yn eich ardal chi.

Mae monitro cynnydd ymdrechion nythu'r adar gan ddefnyddio eich blychau nythu yn gallu rhoi boddhad mawr, ond mae'n gallu darparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer cadwraeth hefyd. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael trwy [Gynllun Cofnodion Nythu](#) BTO.

Blychau ar gyfer adar sy'n nythu mewn tyllau

Gall y rhain gael eu defnyddio gan rywogaethau sy'n nythu mewn tyllau megis y titw mawr, y titw tomos las, y titw penddu, delor y cnau, y gwybedog brith, y tingoch, aderyn y to a golfan y mynydd.

Adeiladwaith

Mae'r blwch sylfaenol wedi'i wneud o blanc wedi'i fraslifio 130cm o hyd x 15cm o led x 2cm o drwch. Gan ddilyn y diagram torri, mae'r gwaith adeiladu yn gymharol syml. Mae'r uniadau yn cael eu dal gyda sgriwiau neu hoelion hirgrwn 5cm, ond peidiwch â hoelio'r caead i lawr gan y bydd angen ei dynnu bob blwyddyn i lanhau'r blwch. Dylid gosod y twll mynediad ar y blaen, gan ei fod yn darparu mwy o amddiffyniad i'r fynedfa gan y to uwchben, a dylai fod o leiaf 125mm o lawr y blwch.

Gellir colfachu'r caead gyda cholfach metel gwrthrwd, plastig neu rwber (darn o hen deiar beic) neu ei ddal o dan gantel metel. Yn yr achos hwn, dylid gosod bloc cadw bach addas yn

y safle priodol ar ochr isaf y to. Bydd twll mynediad 3cm o ddiamedr yn addas i'r rhan fwyaf o rywogaethau:

25mm ar gyfer y titw tomos las, y titw penddu a'r titw mawr

28mm ar gyfer y titw mawr, golfan y mynydd a'r gwybedog brith

32mm ar gyfer aderyn y to a delor y cnau

45mm ar gyfer y drudwy

Lleoli blychau

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhywogaethau a restrir, gellir gosod blychau ar uchder o rhwng 1.2 a 5m ar naill ai goed neu adeiladau. Dylid asesu cyfleustra'r blychau i'w harchwilio (lle bo angen) yn ofalus, yng ngoleuni'r angen i amddiffyn blychau rhag ymyrraeth gan bobl neu ysglyfaethwyr.

Blychau blaen agored

Mae dyluniad y blwch nythu blaen agored yn addas ar gyfer y robin goch a'r siglen frith ac, o'i leoli'n ofalus, efallai y bydd y tingoch, y dryw, y siglen lwyd a bronwen y dŵr yn ei ddefnyddio.

Adeiladwaith

Mae'r diagram torri yn dangos sut mae modd gwneud y blwch blaen agored hwn o blanc o bren 2cm o drwch wedi'i fraslifio, 120cm o hyd x 15cm o led. Mae blychau blaen agored ychydig yn fwy, gydag arwynebedd llawr o 17.5cm² ac uchder ar y blaen o 22.5cm, wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus i ddenu bronwen y dŵr. Bydd y siglen lwyd yn defnyddio blychau tebyg sydd wedi'u lleoli'n addas.

Blaen 10cm o uchder ar gyfer y robin goch a'r siglen frith

Blaen 14cm o uchder ar gyfer y dryw

Blaen 6cm o uchder ar gyfer y gwybedog mannog

Lleoliad


Mae angen rhywfaint o ofal wrth leoli blychau blaen agored. Mae'n well gan y robin a'r dryw flychau sydd wedi'u gosod mewn safleoedd cudd ynghanol llystyfiant ar ochr boncyffion coed, waliau gardd a thai, ond gall hyn wneud y nyth yn fwy agored i ysglyfaethwyr. Bydd y siglen frith yn defnyddio blychau blaen agored mewn safleoedd mwy agored:

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Blychau Arbenigol

Mae angen dyluniadau wedi'u haddasu i weddu i adar megis y gwybedog mannog a'r dringwr bach, yn ogystal â rhywogaethau mwy fel cnocell y coed. Ewch i wefan yr RSPB www.rspb.org.uk am ragor o fanylion.

Diagramau torri ar gyfer blychau bach



Strapiwch y blwch i goeden neu defnyddiwch hoelion alwminiwm di-ben neu gromennog (llai niweidiol i lifiau a pheiriannau gwneud sglodion) nad ydynt wedi'u morthwyllo i mewn yn llawn gan fod hyn yn caniatáu i'r goeden wthio'r bocs i ffwrdd heb hollti.

Mae'r diagramau uchod yn cael eu hatgynhyrchu trwy ganiatâd caredig Ymddiriedolaeth Adareg Prydain. Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghynllaw BTO Rhif 23 'Nest boxes' gan Chris de Feu.

Unwaith y bydd y blwch nythu yn cael ei ddefnyddio

Unwaith y bydd y blwch yn cael ei ddefnyddio gan adar (neu unrhyw rywogaeth arall a warchodir!), bydd yn cael ei warchod o dan y gyfraith a rhaid i chi ei drin fel y byddech yn trin unrhyw nyth arall a warchodir. Unwaith y bydd yn cael ei ddefnyddio, dylech osgoi difrodi neu ddinistrio'r blwch nythu neu aflonyddu ar yr adar.

6707 Creu pyllau dŵr tymhorol

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Pyllau dŵr tymhorol'. Lle mae dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Cymorth Maes.

Mae 'pwll dŵr tymhorol' yn bwl bach bas iawn gydag ymylon ar oledf ysgafn sy'n darparu ardaloedd sy'n llawn pryfed ar gyfer rhywogaethau megis cornchwiglod sy'n bridio a'u cywion, yn ogystal â rhydyddion eraill sy'n bridio. Bydd lefel y dŵr yn codi ac yn gostwng yn dibynnu ar y tywydd. Yr amcan yw sicrhau bod ardal helaeth o fwd a thir gwlyb meddal lle gall y cywion fwydo trwy gydol y tymor bridio (tan ganol mis Gorffennaf).

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Henebion Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin heneb gofrestredig, rhaid i chi gael cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Mae methu â chael y cydsyniad angenrheidiol cyn ymgymryd â'r gwaith yn drosedd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Gallwch gyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar-lein trwy: [Cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig | Cadw](#)

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: scheduledmonuments@llyw.cymru

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl henebion cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cymeradwyaeth cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Gallwch ddod o hyd i leoliad a maint yr holl Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn: heneb.org.uk/cy/cofnod-amgylchedd-hanesyddol

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Yn amodol ar amodau penodol, gall eithriad FRAP fod yn berthnasol (os yw wedi'i lleoli o fewn 8/16m i brif afon/prif afon lanw. [Eithriad 25 GN 044 Canllawiau Technegol: Eithriadau gweithgaredd perygl llifogydd ENG.](#)

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir.](#)

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Paratoi ac amseru

Dylai'r gwaith o gloddio'r pwll dŵr tymhorol gael ei gwblhau erbyn canol mis Mawrth. Yn ddelfrydol, dylid cloddio'r pwll dŵr tymhorol yr hydref blaenorol, er mwyn sicrhau bod y peiriant cloddio yn cywasgu'r ddaear cyn lleied â phosibl ar ymylon y pwll a chaniatáu amser iddo lenwi ac i'r gwaelod ddod yn fwy anhydraidd.

Lleoliad

Dylid lleoli pyllau dŵr tymhorol mewn caeau mawr, agored, cymharol wastad ac isel, fel bod eu siâp, eu maint a'u lleoliad yn cyd-fynd â chymeriad y dirwedd. Caeau dros 3ha yw'r gorau.

Dylid cloddio'r pyllau mewn pantiau naturiol mewn ardaloedd llaith hysbys, yn rhan naturiol wlypaf y cae.

Ni ddylai coed fod yn hongian drostynt ac ni ddylent fod yn agos at wrychoedd, sy'n darparu clwydi neu orchudd i ysglyfaethwyr posibl.

Lleolwch byllau dŵr tymhorol o leiaf 100m o ffiniau caeau megis gwrychoedd a choetir ac i ffwrdd o linellau uwchben, i helpu i leihau'r risg o ysglyfaethu.

Fel arfer, nid yw priddoedd y mae dŵr yn llifo trwyddynt yn rhwydd yn addas, oni bai bod y lefel trwythiad yn agos at yr wyneb neu y gellir rheoli lefel y dŵr.

Dyluniad

Mae dyfnder y dŵr yn y pwll dŵr tymhorol yn bwysig. Dylai'r ymylon fod ar oleddf graddol iawn o wyneb presennol y ddaear tuag at y canol. Ni ddylai dyfnder y dŵr fod yn fwy na 50cm yn y gaeaf, gyda dyfnder cyfartalog o tua 25cm. Yn gynnar yn y gwanwyn, dylai lefel y dŵr fod rhwng 25 a 50cm yn hanner canol y pwll dŵr tymhorol, a rhwng 0-25cm yn yr hanner allanol.

Rhaid i'r ymylon fod ar oleddf ysgafn (dim mwy na 15°), gydag ymyl troellog a gorffeniad anwastad fel y gall cywion symud drostynt yn hawdd i chwilio am fwyd.



Dylai pob pwll dŵr tymhorol fod tua 5m mewn diamedr. Mae sawl pwll dŵr tymhorol bach yn well nag un mawr gan fod mwy o ymylon, sy'n nodweddion pwysig.

Dylai'r pridd sy'n cael ei symud i greu'r pwll dŵr tymhorol gael ei ddosbarthu'n eang a'i lefelu o amgylch y pwll; gallai unrhyw bentyrrau o ddaear sy'n weddill weithredu fel ardal i ysglyfaethwyr.

6708 Ffensys ceirw

Dyma'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd er mwyn bod yn gymwys i gael taliadau ar gyfer 'Ffensys ceirw'.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Rhaid i brennau ffens fod wedi'u gwneud o bren caled o goetiroedd Cymru neu bren meddal wedi'i drin dan wasgedd.

Rhaid i bob pren a ddefnyddir fod ag isafswm oes o 10 mlynedd.

Rhaid i'r prennau ffens, weiers, netin a staplau a ddefnyddir i adeiladu llinellau ffens cymeradwy fod yn ddeunyddiau newydd bob amser.

Rhaid i'r holl ddeunyddiau a safonau adeiladu hefyd gydymffurfio â'r manylebau manwl canlynol yn ogystal â Safonau Prydeinig 1722 a 4102.

Deunyddiau ac Adeiladu - Ffensys Ceirw

Dylid lleoli pyst tynnu mewn mannau lle mae'r ffens yn newid cyfeiriad (ar i fynny neu ar draws) neu o leiaf bob 200m (tua 600 troedfedd) ar linell syth.

Dylent fod wedi'u palu neu eu morthwyllo o leiaf 90cm (3 troedfedd) i mewn i'r ddaear.

Dylid rhicio pwyslathau a'u hoelio i byst tynnu, a dylid eu sefydlogi gyda phlât gwthio wedi'i lifio 50cm x 38cm x 76cm (1 troedfedd 9" x 1½" x 3").

Dylid gosod pyst canol heb fwy na 5m (16 troedfedd 6") o fwllch rhyngddynt.

Rhaid i'r netin gael ei dynnu'n dynn a'i osod fel nad oes bwlch o fwy na 5cm (2") rhwng gwaelod y netin a'r ddaear.

Dylid gosod y weiren uchaf 10cm (4") uwchben top y netin.

Dylid gosod y weiar isaf i redeg ar hyd gwaelod y netin; dylai'r weiar ganol fod 1m (3 troedfedd 4") uwchben lefel y ddaear a dylai'r weiar uchaf fod ar hyd top y netin.

Dylai'r holl weiers fod wedi'u cysylltu'n ddiogel â'r netin gyda staplau cau neu rodenni cysylltu.

Peidiwch â gwneud y canlynol:


Defnyddio coed a llwyni fel pyst tynnu neu brennau ffens na'u defnyddio i gynnal weiar, staplau neu netin.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Mae'r taliadau safonol yn cynnwys lwfans ar gyfer datgymalu a thynnu ffensys presennol a'u gwaredu'n ddiogel.

Pyst tynnu	Isafswm diamedr top o 3m x 15cm	10 troedfedd x 6"
Pwyslathau	Diamedr top pren crwn 2.75m x 10-13cm	9 troedfedd x 4-5"
Pyst canolradd	Diamedr top pren crwn 2.75m x 8-10cm	9 troedfedd x 3-4"
Netin	Naill ai math tra hydwyth Neu fath tra hydwyth ysgafn	HT/13/190/15 LHT/13/190/15
Weiar uchaf	Weiar blaen dra hydwyth 1 x 12 ½ g	
Weiar flaen	Weiar blaen dra hydwyth 3 x 12 ½ g	
Staplau	4cm (1 ½ ") 8g	
Uchder gorffenedig	1.9m – 2m (6 troedfedd 4" - 6 troedfedd 6")	

Diagram – Ffensys Ceirw



Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a sicrhau bod y dogfennau ar gael ar gais.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

6709 Gatiau ceirw

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gatiau ceirw' Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Os gwelir bod unrhyw waith rydych yn ei hawlio wedi'i wneud at safon wahanol, heb ganiatâd Llywodraeth Cymru ymlaen llaw, gallai'r prosiect gael ei ystyried yn anghymwys. Bydd hynny'n golygu y caiff hawliadau eu gwrthod (neu y gofynnir ichi dalu unrhyw arian a dalwyd yn ôl) ac y cewch eich cosbi yn unol â rheolau'r cynllun, oni bai ein bod yn asesu bod y gwaith wedi'i wneud at safon gyfatebol.

Rhaid cadw at y canlynol:

Gosodwch gatiau sydd o leiaf 2.4m o led, ond ddim mwy na 4.2m gyda isafswm uchder o 1.8m.

Defnyddiwch gatiau wedi eu gwneud o ddur wedi'i alfaneiddio.

Dylai'r pyst cau neu hongian fod o ddur wedi'i alfaneiddio 100mm neu o bren caled neu meddal wedi'i drin 200mm sgwâr.

Gosodwch bob postyn yn gywir yn y pridd, gan ddefnyddio concrit os oes angen. Gosodwch y bachau a'r cliciedau (latsys) ar y postyn yn ôl y gofyn.

Nid oes angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd ar y math hwn o weithgaredd, cyn belled nad yw'n cael ei gynnal mewn prif afon sydd â statws morffolegol uchel neu o fewn 100m iddi. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwaharddiadau gweithgarwch perygl llifogydd](#).

Os ydych yn gwneud gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw'r gwaith yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu perygl llifogydd sy'n bod eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd na bywyd gwyllt.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn gwneud y gwaith hwn o fewn SoDdGA a bod y gwaith wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi wneud y gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Dylech fod wedi cael copi o'r rhestr pan gafodd y safle ei ddynodi. Gallwch hefyd chwilio am y rhestr trwy ddefnyddio cyfleuster [canfod safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â:

Defnyddio pyst hongian na physt cau yn byst tynnu ar gyfer ffensys. Dylech ddefnyddio darn byr o bren hollt i ffurfio pwyslath (stryt) llorweddol rhwng postyn y gât (neu gilbost) a'r postyn tynnu agosaf.

Defnyddio deunydd ail-law i adeiladu gât heb ganiatâd ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.

6710 Clirio Ffogydd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Carthu Ffogydd'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes. Mae'n ddigon posibl y bydd ardaloedd arbennig ac unigryw fel Gwastadeddau Gwent yn defnyddio dulliau gwahanol, a bydd eich Swyddog Cymorth Maes yn cynnig cyngor am y dulliau hynny yn ôl yr angen.

Mae sianeli draenio yn gynefinoedd amrywiol iawn yn aml, ac yn cynnal ystod o blanhigion ac anifeiliaid sy'n ffynnu mewn dŵr. Mae dyfnder y dŵr a phroffil sianel ddraenio yn dylanwadu'n sylweddol ar ei gwerth bywyd gwyllt. Mae'r mwyafrif o blanhigion dyfrol fel arfer i'w gweld mewn dŵr bas hyd at 1m o ddyfnder, lle maen nhw'n gallu manteisio orau ar olau'r haul.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gwneud gwaith glanhau ar un ochr i'r ffos yn unig, yn ddelfrydol ar yr ochr ddeheuol lle mae hynny'n bosibl.

Mae angen ymgorffori silffoedd ymylol neu lwybrau llifogydd lle bo hynny'n briodol.

Caniatáu i ddarnau sydd wedi'u glanhau gael eu hailgytrefu cyn mynd ati i lanhau lleiniau cyfagos.

Anelu at gylchdro o 1–10 mlynedd, yn dibynnu ar dwf llystyfiant.

Dylid cyfuno rhaglenni carthu ffogydd â rheolaeth briodol o lefelau dŵr trwy ffogydd sy'n bodoli eisoes neu ffogydd newydd. Gofynnwch am gyngor gan eich Swyddog Cymorth Maes.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gwneud gwaith yn ystod y cyfnod rhwng 1 Medi a 28 Chwefror, er mwyn gwarchod bywyd gwyllt. Pan fydd adar yn gaeafu neu'n bridio mewn caeau cyfagos, mae'n bosibl i'r 'ffenestr' ar gyfer gwaith o'r fath fod yn fwy cyfyng. Bydd eich Swyddog Cymorth Maes yn gallu cynnig cyngor ar weithdrefnau.

Gofynion a chanllawiau ychwanegol at y manylbau uchod:

Gall eich Swyddog Cymorth Maes gynnig cyngor ar sefydlu rhaglen gylchdro o garthu ffogydd. Bydd hyn yn atal unrhyw waddodion rhag cronni'n ormodol a rhwystro'r llif dŵr a llesteirio draenio. Bydd hefyd yn caniatáu i amrywiaeth o wahanol broffiliau ffogydd a dyfnderoedd dŵr ddatblygu ar draws eich tir, a thrwy hynny ddarparu'r budd mwyaf posibl i fywyd gwyllt.

Mae proffil delfrydol ffos yn ymgorffori dŵr o ddyfnderoedd gwahanol. Drwy gadw ochrau ar oledf ysgafn neu gynnwys silff ymylol, mae'n bosibl cynnal cynefinoedd da ar yr un pryd â sicrhau bod y sianel ddraenio yn gallu gweithredu'n effeithiol.

Mae'n bosibl y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu'r Bwrdd Draenio Mewnol lleol yn gallu cynnig cyngor ar beiriannau a dulliau addas.

6711 Blwch pathewod

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Blwch pathewod'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gwneud blwch pathewod

Isod mae'r manylion ar gyfer blwch pren syml y gwyddom ei fod yn gweithio'n dda. Dylai'r pren a ddefnyddir fod heb ei drin:

Driliwch dyllau draenio yn y gwaelod (4 x 4mm o ddiamedr)

Atodwch baneli ochr i'r gwaelod gan ddefnyddio sgriwiau 35mm

Atodwch banel cefn gan ddefnyddio sgriwiau 35mm

Driliwch dwll mynediad yn y panel blaen (28mm o ddiamedr)

Atodwch ddwy astell i'r panel blaen, uwchben ac islaw'r twll. Dylai pob astell ymwthio allan 18mm (defnyddiwch sgriw 30mm i atodi'r estyll)

Atodwch banel blaen (gan ddefnyddio sgriw 35mm)

Torrwch neu blaeniwch ongl y drydedd astell i gyfateb i ongl y to (tua 15°)

Atodwch y drydedd astell i flaen y to (gan ddefnyddio sgriw 30mm)

Gorchuddiwch y to gyda darn o gwrs gwrthleithder fel ei fod yn hongian dros y blwch mwy na 2.5cm ar bob ymyl (gan ymestyn oes y blwch)

Rhowch un sgriw yng nghanol pob ochr (gan sicrhau nad ydynt yn ymwthio allan y tu mewn i'r bocs) fel angorau i sicrhau'r caead.

Weindiwch y wifren yn dynn o amgylch un sgriw a'i basio dros y to i'w ddal yn ei le, gan weindio'r wifren ar yr ail sgriw. Gadewch ddarn digon hir o wifren fel y gellir ei ddadweindio a'i ailweindio wrth fonitro yn y maes.

Lleoli blychau

Bydd pathewod yn defnyddio'r blychau yn ystod yr haf, i gysgu ac i fridio. Yn ystod y gaeaf, bydd y pathewod yn gaeafgysgu ar lefel y ddaear neu mewn tyllau ac agennau o dan y ddaear.

Mae gwifrau ar wahân yn cael eu defnyddio i gysylltu'r blychau â choesyddau cyll, gyda'r twll agosaf at y coesyn. Mae'r estyll ar y blaen yn rhoi bwlch rhwng y twll mynediad a'r coesyn, gan ganiatáu i'r pathewod fynd i mewn i'r blychau. Bydd y Swyddog Cymorth Maes yn cynghori lleoli'r blychau yn briodol o fewn ardal o gynefin addas.


Deddfwriaeth a monitro blychau


Mae pathewod yn cael eu gwarchod yn llym o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), a Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol &c.) 1994 (fel y'u diwygiwyd).

Gellir defnyddio blychau pathewod i fonitro niferoedd y boblogaeth, gan ddarparu data gwerthfawr. Cysylltwch ag Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau mewn Perygl os hoffech gynnwys eich blychau yn y [Rhaglen Monitro Pathewod Genedlaethol \(NDMP\)](#).

Gellir cynnal a chadw blychau yn ystod y gaeaf pan fydd pathewod yn llai tebygol o fod yn bresennol. Mae'n werth cael gwared ar unrhyw hen ddeunydd nythu, gan gynnwys nythod adar. Mae gan nythod pathewod strwythur nodweddiadol: [Hazel dormouse ecology - Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau mewn Perygl](#)

Diagramau ar gyfer blychau pathewod






Mae'r holl baneli wedi'u gwneud o bren 2.54cm (1") o drwch

3 x astell = 18mm x 25mm x 120mm o hyd

Gwifren ar gyfer y to = Gwifren gardd ganolig (gwyrdd)



Unwaith y bydd y blwch yn cael ei ddefnyddio

- Unwaith y bydd y blwch yn cael ei ddefnyddio gan bathewod (neu unrhyw rywogaeth arall a warchodir), bydd yn cael ei warchod o dan y gyfraith a rhaid i chi ei drin fel y byddech yn trin unrhyw nyth arall a warchodir. Unwaith y bydd yn cael ei ddefnyddio, rhaid i chi beidio â difrodi neu ddinistrio'r blwch neu aflonyddu ar y pathewod. Chwiliwch am arwyddion o amgylch y blychau a chadwch lygad y tu allan i'r tymor bridio am arwyddion ei fod wedi cael ei ddefnyddio.

6712 Adfer Wal Gerrig Sych: Mewngludo Cerrig

Yn amodol ar gymeradwyaeth, gellir hawlio taliad i fewngludo cerrig i adfer waliau cerrig lle nad yw'r cerrig gwreiddiol ar gael mwyach neu nad oes modd eu defnyddio. Bydd y taliad yn seiliedig ar bob metr sgwâr o wal sydd wedi'i hadfer gan ddefnyddio cerrig wedi'u mewngludo. Dylid cadw anfoneb neu brawf prynu i'w archwilio. Nid yw cerrig o'r fferm yn gymwys am daliad.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylid defnyddio cerrig lleol lle bynnag y bo modd, ond peidiwch â 'dwyn' cerrig o leoedd amhriodol, megis nodweddion tirwedd hanesyddol, adfeilion neu waliau eraill.

Dylai'r cerrig wedi'u mewngludo fod o darddiad lleol a dylent fod yn debyg iawn i'r math o gerrig a geir mewn waliau cyfagos.

Dilynwch y fanyleb ar gyfer 'waliau cerrig sych'

6713 Gwlyptir mewn ffos wedi'i wella

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gwlyptir mewn ffos wedi'i wella'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith

Gwlyptiroedd mewn ffos yw ffosydd sydd wedi eu gwneud yn fwy llydan i greu ardal wylptir mwy eang a bas. Maent wedi cael eu cynllunio fel bod eu ffurf a'r llystyfiant yn arafu llif y dŵr, er mwyn i fwy o waddodion gronni o ddŵr ffo ar wyneb y tir, draeniau cae a ffosydd.

Pwrpas gwlyptir mewn ffos yw:

Gwella ansawdd dŵr: Mae gwlyptir mewn ffos yn dal gwaddodion sydd yn y dŵr ffo o gaeau a thir fferm a fyddai fel arall yn cael effaith andwyol ar afonydd a llynnoedd ymhellach i lawr y cwm.

Lleihau llifogydd: Mae gwlyptir mewn ffos yn arafu llif y dŵr trwy greu lle gwerthfawr i ddŵr ffo lifo iddo, gan ddarparu storfa ar gyfer llifddwr a helpu i leihau llifogydd i lawr y cwm.

Creu cynefin bywyd gwyllt: Mae gwlyptir mewn ffos yn cynnig manteision ychwanegol o ran cadwraeth natur (cynefin nythu i adar y dŵr fel bras y cyrs, telor y cyrs, telor yr hesg a thelor Cetti) a gwerth tirwedd ar raddfa fferm.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dewiswch leoliad lle mae ffosydd caeau artiffisial ar oledf bychan, a lle mae'r tir o boptu'r ffos o dan eich rheolaeth. Nid oes llif barhaus drwy'r flwyddyn ynddynt fel arferol. Mae'r diagram isod yn dangos rhwydwaith nodweddiadol o ffosydd.

Ewch ati i ledu'r ffos fel ei bod o leiaf 10m o hyd a dim mwy na 3m o led, a lefelu'r gwely.

Adeiladwch fwnd pridd a gosod peipen ynddo i fod yn all-lif. Dylai'r bwnd fod yn lletach na'r ffos. Dylai'r top fod yn wastad ac o leiaf 50cm uwchlaw'r lefel y bwriedir i'r dŵr ei gyrraedd. Dylai ochrau'r bwnd fod ar ychydig o oledf.

Gosodwch un neu ddwy beipen o fewn y bwnd i fod yn all-lif. Dylai'r peipiau fod â diamedr o 8-10", ac mae angen eu gosod 30cm (12") islaw brig y bwnd.

Mae'n bwysig estyn pen y beipen y tu hwnt i fôn y bwnd sy'n wynebu pen isaf y cwm, er mwyn atal y llif dŵr rhag erydu'r bwnd.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Lleoli gwlyptir mewn ffos ar gyrsiau dŵr naturiol.

Niweidio cynefinoedd eraill fel gwelyau cyrs i greu gwlyptir mewn ffos.

Creu'r gweithred hwn o 1 Mawrth i 31 Awst.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gofalwch eich bod yn cael unrhyw ganiatâd perthnasol

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Mae angen i chi ystyried sut gallai'ch cynnig effeithio ar lif dŵr, lefelau dŵr neu gyfaint dŵr. Lle gallai creu cronfa newydd, neu addasu neu ddileu cronfa bresennol, arwain at newidiadau parhaol neu dros dro yn lefel y dŵr, cyfaint y dŵr neu barhad y llif, bydd angen trwydded cronni fel arfer. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y gweithgarwch wedi'i eithrio o dan ddarpariaethau statudol perthnasol neu os yw'n bosibl dangos ei fod yn waith risg isel, heb fawr o effaith ar yr amgylchedd, defnyddwyr dŵr eraill a hawliau. Dylech gyfeirio at y wybodaeth a'r rhestr wirio [yma](#) i benderfynu a oes angen trwydded. Os ydych chi'n ateb unrhyw un o'r cwestiynau ar y rhestr wirio yn gadarnhaol, dylech wneud cais am drwydded cronni. Os ydych chi'n ateb pob cwestiwn yn negyddol, neu os gallwch ddarparu digon o dystiolaeth ategol neu gyfiawnhad i ddangos na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol, ni fydd angen trwydded fel arfer. Os nad ydych yn siŵr a oes angen trwydded arnoch, gallwch ofyn am gyngor cyn ymgeisio yn [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais ar gyfer trwyddedau tynnu a chronni dŵr](#).

Gofalwch fod gennych Ganiatâd Cwrs Dŵr Cyffredin addas os ydych yn gweithio ger cwrs dŵr cyffredin. Gall yr hyn sy'n edrych fel ffos fod yn gwrs dŵr cyffredin, felly efallai bydd angen caniatâd.

Dylid cadw unrhyw drwyddedau/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a dangos y ddogfen pan gewch gais i wneud hynny.

Ni ddylid defnyddio'r weithred hwn ar gyrsiau dŵr naturiol.

Mae angen cynnal y gweithgarwch hwn pan fydd amodau'r ddaear mor sych â phosibl rhwng mis Medi a mis Chwefror. Gosodwch fwnd dros dro i atal llif dŵr i'r ardal os oes angen, er mwyn gwella mynediad ar gyfer cloddio.

Lledaenwch y deunydd a gafodd ei gloddio yn denau dros ben y glannau er mwyn atal chwyn, megis danadl poethion, ysgall y maes ac ati, rhag mynd yn drech. Gofalwch nad yw silt yn gallu rhedeg yn syth yn ôl i mewn i'r gwlyptir mewn ffos. Bydd angen cofrestru esemptiad gwastraff perthnasol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Cofrestru neu adnewyddu eich esemptiadau gwastraff.](#)


Wrth adeiladu'r bwnd, tynnwch yr uwchbridd a digroeni'r isbridd i wella'r sêl rhwng yr argae ac wyneb y tir. Adeiladwch y bwnd yn araf fesul haen 15cm o drwch a chywasgu pob haen yn ei thro.

Wrth gwblhau'r gweithgarwch, gofalwch nad oes unrhyw ddŵr llawn gwaddod yn dianc o'r gwlyptir mewn ffos.


Unwaith y bydd coed yn sefydlu, mae angen bondocio rhywogaethau helyg a gwern bob 3-5 mlynedd. Dylid torri planhigion cyrs, brwyn a hesg bob yn ail flwyddyn i'w hatal rhag dominyddu'r gwlyptir. Torrwch nhw yn gynnar yn y gwanwyn cyn i adar nythu, er mwyn darparu'r gorchudd clwydo gorau posibl yn y gaeaf.

Dylai'r gweithgarwch hwn gael ei leoli a'i reoli i sicrhau nad oes unrhyw risg o lifogydd o ganlyniad i'r gwaith.


In-ditch wetland (aerial view)



In-ditch wetland (x-sectional view of earth bund)



Watercourse stages



6714 Llifddorau piben hyblyg

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Llifddorau piben hyblyg'. Lle mae dulliau ac arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir defnyddio'r rhain, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan eich Swyddog Cymorth Maes.

Mae taliadau ar gael am greu byndiau pridd neu argaeau ac ar gyfer gosod llifddorau piben hyblyg mewn glaswelltiroedd, ffeniau, gwernydd a gwelyau cyrs presennol, yn ogystal ag wrth greu ardaloedd gwlyptir newydd. Bydd bwnd neu arglawdd yn cynnal y lefel trwythiad ar lefel uwch na'r lefel y byddai'n draenio'n naturiol iddi.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Mae angen i chi ystyried sut gall eich cynnig effeithio ar lif dŵr, lefelau dŵr neu gyfanswm y dŵr. Lle gallai croniadau dŵr newydd, neu addasu neu dynnu croniadau dŵr presennol, arwain at newidiadau parhaol neu dros dro yn lefel y dŵr, cyfanswm y dŵr neu barhad llif y dŵr, bydd angen trwydded cronni dŵr fel arfer. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y gweithgaredd wedi'i eithrio o dan ddarpariaethau statudol perthnasol neu y gellir dangos ei fod yn weithgaredd risg isel, heb fawr o effaith ar yr amgylchedd, defnyddwyr dŵr eraill a hawliau. Dylech gyfeirio at yr wybodaeth a'r rhestr wirio [yma](#) i benderfynu a oes angen trwydded. Os ydych chi'n ateb yn gadarnhaol i unrhyw un o gwestiynau'r rhestr wirio, dylech wneud cais am drwydded cronni dŵr. Os ydych chi'n ateb yn negyddol i bob cwestiwn, neu os gallwch ddarparu digon o dystiolaeth ategol neu gyfiawnhad i ddangos na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol, ni fydd angen trwydded fel arfer. Os nad ydych yn siŵr a oes angen trwydded arnoch, gallwch ofyn am gyngor cyn gwneud cais yn [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais ar gyfer trwyddedau tynnu a chronni dŵr](#).

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwylt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd, a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a sicrhau bod y dogfennau hyn ar gael ar gais.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Bydd y math mwyaf addas o fyndiau neu lifddorau ar gyfer eich lleoliad yn dibynnu ar nifer o ffactorau:

Y lefel o gywirdeb sydd ei hangen wrth reoli lefelau dŵr.

Yr ystod o ddyfnderoedd dŵr sydd ei hangen.

Y gweithwyr sydd ar gael i weithredu a chynnal a chadw'r strwythurau.

Maint tebygol amrywiadau tymhorol ac amrywiadau eraill yn llif y dŵr.

Pa mor agored yw'r strwythurau i fandaliaeth.

Pa mor agored yw'r strwythurau i gael eu rhwystro gan falurion a thwf planhigion.

Byndiau pridd / argaeau pridd

Egwyddorion cyffredinol i'w defnyddio wrth adeiladu byndiau neu argaeau pridd:

Adeiladwch pan fo lefelau dŵr yn isel.

Defnyddiwch argaeau dros dro i rwystro sianeli draenio presennol a'u pwmpio'n sych cyn dechrau adeiladu.

Gellir defnyddio rhesi dwbl o fagiau tywod neu estyll pren gyda mewnlennad clai i greu argaeau dros dro.

Tynnwch yr uwchbridd a chreithiwch yr isbridd i wella'r sêl rhwng yr argae ac wyneb y ddaear.

Adeiladwch y bwnd i fyny'n araf mewn haenau 150cm o drwch a chywasgu pob haen yn ei thro.

Defnyddiwch ddeunydd ychwanegol i ddarparu ar gyfer y pridd yn setlo (10% wrth ddefnyddio peiriannau ac 20% os ydych yn cywasgu'r pridd trwy ei sathru).

Gellir gosod uwchbridd uwchlaw lefel arferol y dŵr a'i hau â glaswellt i sefydlogi'r wyneb ac atal chwyn â gwreiddiau dyfnach. Maeswellt rhedegog a maeswellt garw o ffynonellau lleol sy'n ddelfrydol.

Mae'n haws adeiladu byndiau mewn ardaloedd â phriddoedd lomog neu glai. Gellir defnyddio byndiau clai neu silt yn effeithiol ar draws sianeli draenio hyd at 5m o led. Dylid osgoi defnyddio mawn i adeiladu byndiau. Dylid cael cymeradwyaeth y Swyddog Cymorth Maes cyn defnyddio mawn. Gall mawn ddal dŵr yn ôl os yw wedi'i gywasgu'n dda, ond gall y lled effeithiol fod yn llai na 5m. Yn gyffredinol, dylai gwaelod y bwnd fod o leiaf 5 gwaith mor llydan â'i uchder. Dylai'r top fod yn wastad ac o leiaf 50cm uwchben y llinell ddŵr fwriedig.


Llifddorau piben hyblyg

Mae llifddorau piben hyblyg yn cynnwys piben blastig asennog hyblyg tua 35-50cm mewn diamedr. Mae hon yn cael ei hymgorffori mewn bwnd pridd a thrwy godi neu ostwng y naill ben a'r llall o'r biben gyda rhaff, gellir rheoli lefel y dŵr, fel y dangosir yn Ffigur (2). Bydd llifddor yn rhoi cyfle i amrywio lefel y dŵr yn ôl yr angen.

Ffigur 1. Bwnd pridd neu argae pridd

Argae ar bridd anathraidd


Golwg lorweddol



Rhowch unrhyw ddeunydd bras yn y darn i lawr yr afon

Argae ar bridd athraidd


Golwg lorweddol



Isbridd anathraidd y mae o leiaf 20% ohono yn glai

Ffigur 2. Bwnd pridd gyda llifddor piben hyblyg wedi'i chlymu â rhaff

2. Flexi-pipe sluice



Diagramau © Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain

6716 Glaswelltir ar orlifdir: Gosod gwteri a ffosydd bas

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Glaswelltir ar orlifdir: Gosod gwteri a ffosydd bas'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Sianel ddraenio wyneb fas, fach sydd wedi'i chloddio i helpu dŵr wyneb i ddraenio'n rhydd ar ôl llifogydd yw gwter neu ffos fas. Maen nhw'n angenrheidiol i wella draenio ar wyneb y tir heb ostwng y lefel trwythiad yn sylweddol. Dylai cyfyngu ar faint ffosydd bas ganiatáu i'r rhan fwyaf o beiriannau fferm basio dros y sianel heb yr angen i'w hosgoi.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gosodwch ffosydd bas i wella draenio ar wyneb glaswelltir ar orlifdir, yn enwedig ar safleoedd sy'n gorlifo'n aml.

Dylech gytuno ar leoliad ffosydd bas newydd gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Cloddiwch ffosydd bas i tua 30 cm o led a thua 30cm o ddyfnder (dyfnder rhaw).

Gellir gosod ffosydd bas â llaw neu gan ddefnyddio peiriannau.

Gellir cloddio ffosydd bas i ddraenio i ffosydd mwy, er enghraifft, o amgylch ymylon caeau, neu gellir eu lleoli i fynd â dŵr i ffwrdd o ardal benodol i ardal lle mae amodau dwrlawn neu bresenoldeb merddwr yn llai o broblem.

Dylid gwaredu deunydd sy'n cael ei gloddio o ffosydd bas yn ofalus i osgoi mygu neu ddifrodi'r glaswelltir trwy wneud y canlynol: ei wasgaru'n denau dros y llystyfiant yn agos at y ffos; ei osod dros ardaloedd sefydledig o dir wedi'i godi megis argloddiau (oni bai bod angen cyfyngu ar eu maint); neu ar dir cyfagos llai sensitif.

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd, a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a sicrhau bod y dogfennau hyn ar gael ar gais.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd

neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster chwilio safleoedd dynodedig CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gwneud ffosydd bas yn lletach neu'n ddyfnach na 50 cm.

Ffurio banciau neu dwmpathau newydd gyda'r deunydd a gloddiwyd.

Mewnlenni pantiau neu nodweddion draenio eraill, oni bai eich bod wedi cytuno fel arall gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Gwasgaru deunydd a gloddiwyd yn drwchus dros y cynefin fel bod llystyfiant yn cael ei fygu.

Gosod ffosydd bas gan ddefnyddio peiriannau trwm pan fydd y pridd yn ddwrlawn; mae hyn yn osgoi cywasgu'r pridd a difrod i'r cynefin.

Gosod ffosydd bas yn ystod y prif dymor tyfu (Mai i Awst).

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Wrth leoli ffosydd bas newydd, gall hen fapiau, data LIDAR a ffotograffau hanesyddol o'r awyr ddatgelu lleoliadau ffosydd hanesyddol nad ydynt yn weladwy ar yr wyneb mwyach.

Efallai y bydd angen i welliannau i brosesau draenio mewnol gael eu hategu gan fesurau draenio ychwanegol megis clirio ffosydd allanol a thynnu argloddiau neu adael iddynt gael eu gorlifo.

6717 Matiau geojute

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau am 'Matiau geojute'. Lle mae dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Cymorth Maes

Mae matiau geojute yn ffabrig erydu wedi'i wneud o ffeibr naturiol. Mae'r matiau yn darparu cysgod, yn inswleiddio rhag eithafion tymheredd ac yn cynnal lleithder, heb atal twf planhigion. Dros amser, mae'r ffeibrau cellwlos yn cael eu hymgorffori yn y pridd wrth i'r deunydd ddadelfennu, gan wella ymwrthedd hirdymor i erydu. Mae'r ffabrig yn amsugno cryn dipyn o ddŵr, sydd hefyd yn lleihau dŵr ffo cychwynnol ac yn darparu lleithder wrth gefn ar gyfer twf planhigion.

Dim ond os oes cryn dipyn o erydu yn yr ardal y gellir ystyried yr eitem gwaith cyfalaf hon. Rhaid i fudd amgylcheddol y matiau geojute gael ei gyfuno â gwaith cau ffosydd o fewn dalgylch dŵr yr ardal wedi'i herydu (os yw'r ardal honno wedi'i lleoli ar fawn). Bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar yr ardal wedi'i herydu ac yn ymestyn oes y matiau geojute.

Gellir defnyddio matiau geojute hefyd i atgyweirio nodweddion hanesyddol megis bryngaerau lle mae'r ochrau wedi'u herydu a lle mae'r pridd yn y golwg.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Cloddiwch ffos fach ar draws top y llethr lle byddwch yn gosod y rholiau o fatiau geojute. Mae'r ffos yn gweithredu fel angor ar gyfer y matiau. Cloddiwch y ffos fel ei bod tua 30cm o led a 30cm o ddyfnder ar hyd lled llawn y llethr. Gosodwch y rholyn o ffabrig rheoli erydu yn y ffos rydych chi newydd ei chloddio. Rhowch o leiaf 40cm o fatiau uwchben y ffos yn ymestyn i fyny'r bryn. Gosodwch staplau angori trwy'r matiau ac i mewn i waelod y ffos. Dylid gosod y staplau yn llorweddol yn y ffos heb fod mwy na 30cm rhyngddynt. Os yw'r pridd yn rhydd, gofalwch fod yr angorau yn ddigon hir i'w gosod yn ddyfnach yn y ffos.

Rhowch y pridd yn ôl ar ben y matiau geojute a gofalwch ei fod wedi'i gywasgu i helpu i ddal y matiau yn eu lle. Dewch â'r 40cm o fatiau uwchben y ffos i lawr dros y ffos a gosodwch fwy o bolion a staplau, 30cm ar wahân, ar draws hyd y ffabrig.

Dadrolwch y matiau geojute sy'n weddill dros y llethr. Cloddiwch ffos angori arall y tu hwnt i droed y llethr i angori cynffon y matiau geojute.

Os oes angen mwy nag un rholyn arnoch, dylech eu gosod fel eu bod yn gorgyffwrdd 10cm o leiaf lle bynnag mae un mat yn gorffen ac un arall yn dechrau, boed yn llorweddol neu'n fertigol. Dylai pob sêrn orgyffwrdd hefyd.

Gosodwch staplau a pholion ym mhob sêrn gan y bydd hyn yn helpu i leihau'r pwysau a'r plycio ar y matiau geojute.

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/cydsyniad (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/cydsyniad) a sicrhau ei bod ar gael ar gais.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Henebion Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin heneb gofrestredig, rhaid i chi gael cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Mae methu â chael y cydsyniad angenrheidiol cyn ymgymryd â'r gwaith yn drosedd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Gallwch gyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar-lein trwy: [Cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig | Cadw](#)

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: scheduledmonuments@llyw.cymru

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl henebion cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cymeradwyaeth cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Gallwch ddod o hyd i leoliad a maint yr holl Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn: heneb.org.uk/cy/cofnod-amgylchedd-hanesyddol

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwylt.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Mae gwybodaeth a chanllawiau ychwanegol yng Nghanllawiau UKFS: Ymarfer Coedwigaeth Cyffredinol 2, Coedwigoedd a'r Amgylchedd Hanesyddol 1-30.

6718 Geotecstilau

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau am 'Geotecstilau ar gyfer llwybrau'. Lle mae dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Cymorth Maes.

Mae geotecstilau yn bilenni synthetig sy'n ffabrigau cryf a mân-dyllog a all fod yn ddefnyddiol wrth greu deunydd is-sylfaen. Maen nhw'n gweithio ar yr egwyddor eu bod yn gweithredu fel rhwystr ac yn atal y deunyddiau wyneb uwchlaw rhag cymysgu â'r is-radd wan islaw.

Mewn gwaith ar lwybrau troed, mae geotecstilau wedi cael eu defnyddio ers blyneddau lawer i gynnal llwybrau agregau ar dir meddal. Buan iawn y bydd llwybr agregau sy'n cael ei osod yn uniongyrchol ar dir meddal yn methu wrth i'r garreg gael ei 'dyrnu' i mewn i'r is-radd ac wrth i ddeunydd mân o'r is-radd gael ei 'bwmpio' i fyny gan weithredoedd cerddwyr. Mae'r geotecstilau yn cadw'r haenau ar wahân a, thrwy gadw'r agregau gyda'i gilydd, yn rhoi cryfder strwythurol i'r llwybr. Mantais geotecstilau dros fathau eraill o is-sylfaen yw eu bod yn ysgafn i'w trin ac yn hawdd eu gosod.

Dim ond ar safleoedd sydd â graddiant ysgafn dros briddoedd mwynol llaith neu fawn bas y dylid ystyried yr eitem gwaith cyfalaf hon. Ni ddylid ei defnyddio ar lwybrau'r ucheldir sy'n agored i erydu.


Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Cloddiwch y llwybr i'r dyfnder gofynnol (gweler y nodiadau technegol am y gofynion penodol ar gyfer llwybrau), gan dynnu unrhyw gerrig mawr a allai aflunio'r geotecstil a gwneud wyneb mor wastad â phosibl. Yr enw ar y ffos sy'n cael ei chreu gan y gwaith cloddio hwn yw 'hambwrdd y llwybr' ('path tray').


Gosodwch y geotecstil naill ai ar draws gwaelod yr hambwrdd yn unig, neu gyda'r ymylon ran o'r ffordd i fyny'r ochrau ac wedi'u gorchuddio â thyweirch, fel y dangosir isod. Ar gyfer ardaloedd yr ucheldir lle mae twf llystyfiant yn araf, ni argymhellir dod â'r ymylon i fyny i'r wyneb er mwyn dal yr agregau yn eu lle, oherwydd hyd yn oed os yw wedi'i orchuddio â thyweirch, mae ymyl y ffabrig yn debygol o ddod i'r golwg. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, nid yw'n broblem fawr os yw agregau'n symud 'i'r ochr' i mewn i'r pridd, ac mae geotecstil wedi'i osod ar waelod hambwrdd y llwybr yn ddigonol.

Os oes angen mwy nag un rholyn arnoch, dylech eu gosod fel eu bod yn gorgyffwrdd 30cm o leiaf lle bynnag mae un mat yn gorffen ac un arall yn dechrau.


Dylid cadw geotecstilau allan o olau'r haul ac ni ddylid gyrru cerbyd dros geotecstil sydd heb ei orchuddio. Mae agregau yn cael eu tipio gan ddefnyddio lori godi, berfa neu o hopran hofrennydd, yn cael eu lledaenu gan raddiwr neu raca a'u gywasgu gan roler neu blât sy'n dirgrynu. Gweler y nodiadau technegol perthnasol am yr hyn a ddisgwylir o ran dyfnder yr haenau sylfaen ac wyneb.



geotextile on tray base



geotextile part-way
up sides of tray



liable to erode in
uplands

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylbau uchod:

Dylid cadw geotecstilau allan o olau'r haul ac ni ddylid gyrru cerbyd dros geotecstil heb ei orchuddio.

Mae agregau yn cael eu tipio gan ddefnyddio lori godi, berfa neu o hopran hofrennydd, yn cael eu lledaenu gan raddiwr neu raca a'u gywasgu gan roler neu blât sy'n dirgrynu. Gweler y nodiadau technegol perthnasol am yr hyn a ddisgwylir o ran dyfnder yr haenau sylfaen ac wyneb.

Henebion Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin heneb gofrestredig, rhaid i chi gael cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Mae methu â chael y cydsyniad angenrheidiol cyn ymgymryd â'r gwaith yn drosedd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Gallwch gyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar-lein trwy: [Cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig | Cadw](#)

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: scheduledmonuments@llyw.cymru

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl henebion cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cymeradwyaeth cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Gallwch ddod o hyd i leoliad a maint yr holl Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn: heneb.org.uk/cy/cofnod-amgylchedd-hanesyddol

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/cydsyniad (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/cydsyniad) a sicrhau ei bod ar gael ar gais.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

6719 Gwair Gwyrdd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gwair Gwyrdd'. Lle mae dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Swyddog Cymorth Maes yn nodi ardaloedd lle gallai cyflwyno gwair gwyrdd fod yn fuddiol ac yn dynodi'r gymuned darged i'w hadfer.

Mae'n bosibl defnyddio'r dechneg hon lle mae glaswelltir cyforiog o rywogaethau (y safle rhoi) o fewn dim mwy na 2 awr i'r safle sy'n cael ei adfer (y safle derbyn).

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Paratoi'r Safle Derbyn

Y nod yw creu bylchau yn y borfa i ganiatáu i hadau egino a sefydlu heb gystadleuaeth. Dylai'r safle fod â phorfa fer trwy dorri neu bori, gydag o leiaf 50% o dir moel wedi'i greu trwy bori gan dda byw neu drwy lyfnu ag oged bŵer, oged safonol neu oged ddisg.

Rhaid paratoi'r safle derbyn yn briodol fel ei fod yn barod erbyn y cyfnod torri gwair (diwedd Gorffennaf i ddechrau Awst).

Pori gan Anifeiliaid Trwm

Mae gwartheg yn effeithiol wrth greu bylchau, gan fod eu carnau yn torri'r borfa yn hawdd.

Dewis y Safle Rhoi

Dylai'r safle rhoi fod yn debyg o ran nodweddion i'r safle derbyn, er enghraifft math o bridd, pH y pridd a hydroleg. Yn y pen draw, dylai safleoedd mwy cyforiog o ran rhywogaethau roi canlyniadau gwell.

Ymhlith y ffactorau pwysig i'w hystyried mae safle rhydd o chwyn ac un sy'n cynnwys nifer o rywogaethau dymunol. Mae'n arfer dda i dynnu dim mwy na hanner glaswellt/llystyfiant safle.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Paratoi'r Safle Rhoi

Dylid cynnal y gwaith i gyd ar yr un diwrnod, er bod modd gadael y glaswellt a dorrwyd yn ei le am un diwrnod (cyn ei godi) i leihau'r pwysau a'r swmp. Gallai hyn arwain at golli peth cribell felen a rhywogaethau eraill sy'n aeddfed iawn adeg amser y cynhaeaf.

Torrwch y gwair pan fydd hadau'r prif weiriau, fel peiswellt coch a rhonwellt y ci, yn llawn hadau aeddfed, a hadau cribell felen yn dal ar y planhigion (Gorffennaf i ddechrau Awst).

Dull sy'n cael ei awgrymu:

Defnyddiwch beiriant torri gwair heb gyflyrydd i dorri'r glaswellt.

Cribiniwch y glaswellt a dorrwyd yn rhesi/rhenciau.

Codwch y glaswellt gyda chynaeafwr porthiant a'i drosglwyddo i beiriant chwalu tail o'r cefn, a fydd yn hwyluso'r gwaith o'i wasgaru ar y safle derbyn. Mae'n bosibl defnyddio peiriant chwalu tail troelli hefyd.

Fel arall, casglwch y glaswellt a chreu hyd at chwech o fynau crwn ar y tro.

Llwythwch y byrnau ar drelar a'u cludo i'r safle derbyn.

Llwythwch y byrnau unigol i dorrwr gwellt; torrwr a gwasgaru'r glaswellt a dorrwyd ar draws y cae ar gymhareb o 1:3 o leiaf (ar gyfer pob hectar a dorrwyd ar y safle rhoi, gwasgaru dros ddim mwy na thri hectar ar y safle derbyn).

Os nad yw'r gwair yn cael ei dorri'n fân, rhaid ei daenu'n denau a pheidio â'i adael mewn pentyrrau ar y safle derbyn.

Mae'n bosibl addasu'r dechneg hon ar gyfer safleoedd bach, gan ddefnyddio peiriannau sydd ar gael ar y fferm, neu wneud y gwaith â llaw. Mae modd defnyddio peiriannau gwithio e.e. byrnwr bach, tociwr llwyni neu beiriant torri porfa petrol, ar gyfer cynaeafu gwair gwyrdd.

Yn fuan ar ôl taenu'r gwair, mae angen cyflwyno pori ysgafn neu rollo ysgafn i helpu hadau i ymsefydlu. Dylid cadw'r borfa'n fyr yn yr wythnosau ar ôl taenu er mwyn i olau dydd gynorthwyo gyda'r egino.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gadael i'r gwair yn y byrnau sefyll am fwy nag awr i atal y byrnau rhag cynhesu a'r hadau rhag dirywio.

6720 Cau Ffogydd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Cau Ffogydd'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Mae cau ffogydd, gan ddefnyddio argaeau mawn, yn ddull syml ac effeithiol o leihau draeniad tir mawn. Mae dal dŵr yn ôl yn y ffos yn annog y broses waddodi, gan annog tyfiant cyflym migwyn a rhywogaethau eraill o blanhigion. Mae taliad tuag at gau ffogydd yn bosibl ar ôl llunio a chytuno ar cynllun reoli gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Mae'r broses yn cynnwys defnyddio peiriant tyrchu gyda thraciau pwysedd tir isel i greu argaeau o fawn yn y ffos neu o ardal agos i'r ffos (pwll benthg).

Cyn i'r argae gael ei adeiladu, dylid tynnu'r llystyfiant mewn tyweirch trwchus o ymylon y ffos a'u hailosod ar yr wyneb wedi i'r gwaith ddod i ben. Mae hyn yn atal amlygiad ac erydiad mawn moel.

Dylid tynnu llystyfiant y pwll benthg a'i ailosod yn yr un modd. Os yw pwll benthg yn cael ei ddefnyddio, dylid gosod y llystyfiant a godwyd o ymylon y ffos y pwll benthg a'r llystyfiant o'r pwll benthg ar ben yr argae.

Cyn adeiladu'r argae, mae angen cloddio a newid proffil darn byr (2m) o'r ffos er mwyn sicrhau bod plwg cadarn o fawn yn cael ei ffurfio a bod gwaelod y draen yn agored (gweler y diagram).

Dylai'r mawn hwn gael ei gorddi a'i lyfnhau eto i greu wyneb yr argae.

Dylid creu'r argaeau mawn gan ddefnyddio mawn a dynnwyd o'r ffos ei hun, i fyny'r afon o'r argae arfaethedig neu o bwl benthg wrth ochr y draen, ac yna'i gywasgu yn y ffos. Mae angen newid proffil y ffos uwchben yr argae trwy wasgu'r ochrau i mewn gyda bwced y peiriant tyrchu, i greu ymyl ar oledf bas.

Dylid gosod argaeau yn rheolaidd, ond mae angen llai o fwch rhyngddynt ar lethrau. Dylai uchder crib yr argae a'r dŵr mae hi'n ei ddal yn ôl fod yn uwch na gwaelod yr argae agosaf i fyny'r llethr. Mae hyn er mwyn sicrhau nad oes perygl i'r sylfaen sychu, a fyddai'n gallu achosi i'r argae fethu.

Yn gyffredinol, ni ddylai'r argaeau fod yn fwy na 10m oddi wrth ei gilydd ar unrhyw lethr er mwyn osgoi'r posibilrwydd eu bod yn methu. Ar lethrau serth iawn, dylid blocio'r ffos yn llawn, neu adael llonydd iddi'n llwyr mewn rhai achosion. Bydd eich Swyddog Cymorth Maes yn nodi hyn yn y cynllun reoli.

Mae'n rhaid codi uchder yr argae ychydig fel ei bod yn uwch nag uchder y ffos er mwyn atal y dŵr rhag gorlifo'r argae, gan y bydd yr argae yn setlo dros amser.

Dylid annog dŵr i dreiddio allan o ochrau'r ffos yn hytrach nag o gwmpas yr argae ac yn ôl i'r ffos.

Mae angen gofal i leihau'r peryglon, yr effeithiau a'r tarfu ar dda byw a bywyd gwyllt wrth gyflawni'r gwaith.

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu adeiledd amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a dangos y dogfennau pan gewch gais i wneud hynny.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgarwch perygl llifogydd](#)

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i ofalu nad yw eich gweithgarwch yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethgu'r perygl o lifogydd sy'n bodoli eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithgarwch sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig CNC](#).

Mae angen i chi ystyried sut gall eich cynnig effeithio ar lif, lefelau neu gyfaint dŵr. Lle gallai creu cronfa newydd, neu addasu neu ddileu cronfa bresennol, arwain at newidiadau parhaol neu dros dro yn lefel y dŵr, cyfaint y dŵr neu barhad y llif, bydd angen trwydded cronni fel arfer. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y gweithgarwch wedi'i eithrio o dan ddarpariaethau statudol perthnasol neu os yw'n bosibl dangos ei fod yn waith risg isel, heb fawr o effaith ar yr amgylchedd, defnyddwyr dŵr eraill a hawliau. Dylech gyfeirio at yr wybodaeth a'r rhestr wirio [yma](#) i benderfynu a oes angen trwydded. Os ydych chi'n ateb unrhyw un o'r cwestiynau ar y rhestr wirio yn gadarnhaol, dylech wneud cais am drwydded cronni. Os ydych chi'n ateb bob cwestiwn yn negyddol, neu os gallwch ddarparu digon o dystiolaeth ategol neu gyfiawnhad i ddangos na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol, ni fydd angen trwydded fel arfer. Os nad ydych yn siŵr a oes angen trwydded arnoch, gallwch ofyn am gyngor cyn ymgeisio yn [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais ar gyfer trwyddedau tynnu a chronni dŵr](#).

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Cludo mawn o rostir lle nad oes tarfu blaenorol wedi digwydd.

Ymgymryd â gwaith cau ffosydd yn ystod yr haf er mwyn gwarchod adar sy'n nythu.

Byrnau Grug

Mae'n bosibl ymgorffori byrnau grug mewn argaeau mawn i'w hatgyfnerthu ymhellach, neu eu gosod mewn ffosydd rhwng argaeau i'w cau yn llawn. Nid yw byrnau ar eu pennau eu hunain yn gwneud argaeau da. Fodd bynnag, dim ond os yw'r ardal o amgylch y ffos yn briodol ar gyfer byrnu grug y mae modd ystyried yr opsiwn hwn.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylid defnyddio peiriannau mewn modd sensitif ac ystyriol i leihau cywasgu a rhigoli'r mawn (h.y. gosod peiriant ar y lefel torri uchaf, ac osgoi ponciau neu lawntiau migwyn).

Dylai torri grug ar gyfer byrnau ddigwydd ar rostir sych ger gorgorsydd. Bydd eich Swyddog Cymorth Maes yn cynnwys unrhyw ardal byrnu grug yn eich cynllun reoli.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio toriadau coediog mewn argaeau mawn.

Defnyddio deunydd planhigion goresgynnol, fel Rhododendron.

Defnyddio deunydd a allai fod wedi'i halogi â deunydd planhigion goresgynnol.

6723 Gosod wyneb caled

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Gosod wyneb caled'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru

Mae taliadau ar gael am osod wyneb caled lle mae angen darparu:

Pad bwydo ar laswelltir wedi'i wella, wedi'i leoli mewn modd sy'n helpu i warchod nodweddion archeolegol neu gynefinoedd a allai gael eu heffeithio gan arferion presennol.

Arwyneb solet mewn bwlch cae neu o amgylch cafn dŵr wedi'i leoli mewn modd sy'n atal gwaddodiad mewn cyrsiau dŵr cyfagos.

Maes parcio ar gyfer nodwedd mynediad caniataol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gosod wyneb caled ar badiau bwydo

Dylid adeiladu padiau bwydo mewn tri cham:

Ffurio proffil

Haen sylfaen

Haen wyneb

Gellir ffurfio ffosydd ochr wrth gyflawni'r gwaith lle bo angen.

Rhaid i'r dimensiynau fod o leiaf 20 metr sgwâr ac o leiaf 2.5m o led.

Ffurio Proffil

Dylid cloddio'r ddaear i gael gwared ar yr holl llystyfiant a phridd i ddyfnder o 15cm o leiaf neu i lawr i wyneb caled naturiol, p'un bynnag yw'r lleiaf. Gellir lledaenu llystyfiant a sborion ar ymylon y pad, ar yr amod eich bod yn cael caniatâd ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.

Dylid cloddio pocedi meddal yn y proffil, eu draenio a'u llenwi â deunydd craidd caled wedi'i gywasgu'n dda. Dylid tocio'r proffil i'r dimensiynau gofynnol cyn cywasgu.

Mae gwahanol fathau o ddaear yn gallu cynnal gwahanol bwysau. Ni ddylid lleoli wyneb caled ar fawn dwfn. Mae'r tabl canlynol yn rhoi syniad o ddyfnder y garreg sydd ei angen i ffurfio proffil ar y gwahanol fathau hyn o bridd.

Math o ddaear	Dyfnnder y garreg	Sylwadau
Siâl cadarn	Dim angen carreg, deunydd yn caledu ei hun	Gan y gall siâl olchi allan yn rhwydd, dylech osgoi llethrau serth
Pridd brown a siâl gwannach	20-30cm	
Clai trwchus	30-45cm	Ar ôl ffurfio, dylech 'dywodi' neu orchuddio cerrig mân cyn ychwanegu cerrig mwy bras i roi cryfder

Haen sylfaen

Ni ddylai'r haen sylfaen fod yn llai na 15cm o drwch a dylid ei hadeiladu mewn haenau, heb fod yn fwy na 12.5cm o drwch ar ôl cywasgu. Mae'r trwch a nodwyd yn cyfateb i ddyfnnder cyfartalog craidd caled wedi'i gywasgu, gan gynnwys y deunydd tywodi. (Mae craidd caled yn cael ei ddosbarthu fel 'MOT Math 1' ac mae'n amrywio o 37mm o ddiamedr i lawr i lwch.)

Dylai wyneb yr haen sylfaen ddisgyn i un ochr neu i ddwy ochr y wyneb caled neu'r maes parcio. Y cwymp neu'r cambr a argymhellir yw 1 mewn 25.

Haen wyneb

Dylai wyneb yr haen sylfaen gael ei orchuddio â haen wynebo o ddeunydd rhwymo craidd caled cymysg a dylid ei gywasgu'n dda. Mae cydrannau'r haen wyneb yn cael eu dosbarthu fel 'MOT Math 2' ac yn amrywio o ddiamedr o 18mm i lawr i lwch. Dylai dyfnnder cywasgedig yr haen wyneb orffenedig fod yn o leiaf 2.5cm ond dim mwy na 5cm.

Meysydd parcio

Fel ar gyfer wyneb caled ar gyfer padiau bwydo, bydd y rhain wedi'u hadeiladu o gerrig wedi torri, ond bydd yn cynyddu dyfnnder yr haen sylfaen i 30cm, wedi'i gosod mewn haenau o ddim mwy na 15cm.

Nodiadau Ychwanegol

Mae lled yr wyneb caled yn cael ei fesur ar draws top yr haen wyneb nid lled yr haen sylfaen.

Dylid defnyddio rholer ffordd trwm neu roler dirgrynol i gywasgu'n ddigonol.

Gosodwch garreg i ddyfnnder o 200mm o leiaf ar draws y bwlch cae ac yn yr ardal sy'n arwain ato i greu pad craidd caled gwastad.

Rhaid atgyweirio unrhyw draul neu ddifrod gormodol, fel y difrod neu'r draul a achosir gan gynaeafu neu ddigwyddiadau naturiol, i ardal o graidd caled ar unwaith.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio tarmacadam wedi'i orchuddio, asffalt neu arwyneb bitwminaidd arall neu goncrit.

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/cydsyniad (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/cydsyniad) a sicrhau ei bod ar gael ar gais.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen cydsyniad hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir.](#)

6724 Rheoli Grug: Llosgi

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Rheoli Grug: Llosgi'. Lle mae dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol ar y safon gael cymeradwyaeth Swyddog Cymorth Maes.

Mae tân wedi cael ei ddefnyddio gan reolwyr tir ers miloedd o flynyddoedd. O'i gynllunio'n ofalus, mae llosgi dan reolaeth yn gallu bod yn adnodd gwerthfawr i gadw trefn ar gynefinoedd. Fodd bynnag, mae llosgi anghyfrifol yn weithgaredd peryglus sy'n gallu achosi niwed a difrod i bobl, eiddo a'r amgylchedd. Mae llosgi rhy aml a llosgi cynefinoedd sensitif yn gallu achosi niwed i'r llystyfiant a'r bywyd gwyllt cysylltiedig.

Dylid defnyddio llosgi dan reolaeth yn bennaf fel adnodd rheoli ar rostir sych lle mae grug, '*Calluna vulgaris*', yn tyfu'n helaeth. Ar dir is, mae hefyd yn bosibl llosgi rhostir gyda chymysgedd da o grug, grug y mêl ac eithin mân. Dim ond fel rhan o gynllun adfer y dylid llosgi ardaloedd diraddiedig iawn o rostir sych.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Cytuno ar ardaloedd i'w llosgi gyda Swyddog Cymorth Maes.

Cytuno ar hyd y cylchdro gyda Swyddog Cymorth Maes.

Cytuno gyda Swyddog Cymorth Maes ar drefn bori briodol ar gyfer ardaloedd sydd wedi'u llosgi.

Llosgi pan fydd y grug yn cyrraedd 20-30cm o daldra

Gofalu eich bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt 2008.

Cydymffurfio â'r rheolau a amlinellir yn y llyfryn 'Cod Llosgi Grug a Glaswellt yng Nghymru', a chwblhau'r adran 'Cynllun Rheoli Llosgi yng Nghymru'.

Dylid cadw cyfran o'r llystyfiant heb ei dorri/heb ei losgi i ddatblygu'n grug talach a hŷn lle mae'r canghennau yn agor allan a chaniatáu mwy o olau i gyrraedd y brigdwf i annog tyfiant mewn haenau.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Dim ond yn ystod y cyfnodau canlynol y mae hawl i losgi:

1 Hydref – 31 Mawrth ar ucheldir

1 Tachwedd – 15 Mawrth ar dir isel

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Ilosgi'r un darn o lystyfiant fwy nag unwaith mewn pum mlynedd

Ilosgi yn y parthau canlynol:

Coetir, ymylon coetir a phrysgwydd

Mae coetir llydanddail a chonwydd, prysgwydd a choed bach, fel coed bedw, ynn, y ddraenen wen a helyg, yn gynefinoedd gwerthfawr. Nid yw tân yn adnodd rheoli priodol ar gyfer coetir a phrysgwydd ac mae lledaeniad tanau i'r cynefinoedd hyn yn debygol o fod yn niweidiol iawn, yn enwedig os yw meryw yn bresennol gan na fydd yn ail-egino ar ôl losgi.

Corsydd, ffeniau a rhostir gwlyb

Mae gorgors yn ffurfio lle mae mawn yn datblygu dros ardaloedd eang a chymharol wastad o ucheldir, gan eu gorchuddio â mawn i bob pwrpas. Mae rhostir gwlyb, cyforgors a ffeniau i'w gweld ar yr ucheldir a'r iseldir. Mae rhostir gwlyb yn datblygu lle mae draeniad yn cael ei lesteirio, yn aml ar fawn bas. Mae ffeniau a chorsydd yn aml yn datblygu ar loriau dyffryn dirlawn.

Mae ffynhonnau, mignedd a phyllau yn aml yn digwydd oddi mewn i gynefinoedd eraill mwy helaeth ar yr ucheldir a'r iseldir. Maen nhw'n aml yn cynnwys mwsoglau arbenigol, planhigion talach, infertebratau ac amffibiaid, sy'n arbennig o sensitif i losgi.

Rhostir yr arfordir

Mewn amodau arforol bregus, mae'n hawdd i briddoedd tenau gael eu difrodi, a'r rhostir yn araf iawn i adfywio.

Ardaloedd lle mae erydiad pridd

Mae erydiad pridd yn gallu digwydd yn naturiol, ond mae ar ei fwyaf cyffredin yn sgil gweithgaredd dynol ar yr ucheldir a'r iseldir. Enghreifftiau cyffredin ar yr ucheldir yw torlannau mawn a rhigolau erydu. Gallai losgi ar fawndir danio'r mawn, gan greu risg uchel o danau gwyllt.

Ardaloedd lle mae'r pridd yn denau iawn

Mae'r Cod Llosgi Grug a Glaswellt yn diffinio'r rhain fel ardaloedd sydd â thrwch pridd o lai na 5cm (2 modfedd) dros y graig waelod. Maen nhw'n codi ledled yr ucheldir, yr iseldir ac ar yr arfordir, yn naturiol a lle mae gweithgaredd dynol wedi achosi erydiad pridd helaeth. Yn aml, maen nhw'n hawdd i'w hadnabod oherwydd presenoldeb creigwely yn ymwithio trwy'r pridd. Mae rhostir arfordirol yn arbennig o sensitif i losgi. Mae'r amodau yn aml yn rhy sych ar gyfer llosgi gan fod y pridd yn draenio'n gyflym iawn.

Llethrau serth a cheunentydd

Mae'r ardaloedd hyn yn cael eu diffinio fel llethrau gyda graddiant o 1 mewn 2 neu lai. Mae tanau yn cymryd mwy o amser i ledaenu ar lethrau serth, gan arwain at dân poeth ac araf sy'n niweidio'r haen mwsogl ac yn rhwystro aildyfiant, lle mae mwy o berygl o erydiad. Maen nhw hefyd yn anodd eu rheoli ac yn gallu ehangu wrth symud i fyny'r llethr.

Mae ceunentydd yn nodweddion cyffredin ar ucheldir Cymru. Maen nhw'n gallu ymddwyn fel simnai, gan gynyddu dwyster a chyfradd lledaenu tân yn sylweddol.

Ardaloedd o fewn 10m i gyrsiau dŵr

Mae amrywiaeth o gyrsiau dŵr naturiol (e.e. nentydd) ac artiffisial (e.e. ffosydd) i'w gweld ledled yr ucheldir, ac ar rostir a glaswelltir ar dir isel. Dylai unrhyw losgi orffen o fewn 10m i'r cwrs dŵr er mwyn sicrhau bod llystyfiant y glannau'n gyflawn, gan greu coridor i fywyd gwyllt a 'chlustog' ar gyfer dŵr ffo o wyneb y tir.

Rhywogaethau sensitif

Mae llosgi yn fygythiad mawr i rai ardaloedd prin iawn o rostir sych cyforiog o rywogaethau. Mae'n bosibl adnabod y cynefinoedd hyn trwy eu haenau trwchus o fwsoglau coch tywyll ynghyd ag amrywiaeth o redyn, rhostir a phlanhigion byr eu tyfiant. Ni ddylid llosgi ardaloedd sy'n cynnwys meryw chwaith.

Ardaloedd gyda brigiadau creigiog a chlogfeini

Rhaid i raglenni llosgi dan reolaeth sicrhau eu bod yn cadw'n glir o ardaloedd o frigiadau creigiog, clogfeini a sgri.

Rhagor o wybodaeth

Am arweiniad pellach, mae taflenni gwybodaeth a llyfrynnau ar gael gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cod Llosgi Grug a Glaswellt yng Nghymru

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/cod-llosgi-grug-a-glaswellt.pdf>

Canllawiau UKFS

Y Gymdeithas Gwarchod Adar www.rspb.org.uk

6725 Rheoli Grug: Torri

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Rheoli Grug: Torri'. Lle mae dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad ar y safon gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Torri Grug

Mae'n bosibl defnyddio torri fel dewis amgen i losgi ym mhobman lle byddai llosgi fel arfer yn cael ei ganiatáu. Gallai torri fod yn ddull rheoli gwell ar safleoedd lle na ddylid llosgi, lle mae'n anodd rheoli tân, neu le nad yw rheolwyr tir yn gallu cydymffurfio â chanllawiau llosgi. Fodd bynnag, gallai newid o losgi i dorri arwain at oblygiadau i gyfansoddiad y llystyfiant. Dim ond ar orgors lle mae'r gorchudd grug yn sylweddol iawn (>85%) ac yn mygu plu'r gweunydd unben y dylid ystyried torri grug.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dim ond yn ystod y cyfnodau canlynol y mae hawl i dorri:

1 Hydref – 31 Mawrth ar ucheldir

1 Tachwedd – 15 Mawrth mewn mannau eraill

Cytunwch ar gynllun rheoli torri llystyfiant pum mlynedd gyda'ch Swyddog Cymorth Maes yn unol â'r rheolau canlynol:

Torri clytiau rhwng 0.25 ac 1ha.

Torri i uchder o ddim llai na 5cm a dim mwy na 10cm.

Torri i annog aildyfiant rhostir corlwyni amrywiol fel bod yr ardal dorri yn cynnwys o leiaf ddau o'r canlynol o fewn pum mlynedd; grug, grug y mêl, llus, llus coch, creiglus neu grug croesddail.

Osgoi torri'r un darn o llystyfiant fwy nag unwaith mewn pum mlynedd

Osgoi torri llystyfiant rhostir byr (<10cm) neu rostir â thrwch pridd tenau (dyfnder <5cm) neu ar lethrau serth (1 mewn 2 neu lai), neu le mae dros 50% yn greigiau neu'n sgrî.

Osgoi torri safleoedd lle mae meryw wedi'u cofnodi.

Dylid cadw cyfran o'r llystyfiant heb ei dorri/heb ei losgi i ddatblygu'n grug talach a hŷn lle mae'r canghennau yn agor allan a chaniatáu mwy o olau i gyrraedd y brigdwf i annog tyfiant mewn haenau.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Torri mwy na thraean o'r llystyfiant rhostir yn ystod y cyfnod pum mlynedd.

Caniatáu torri i annog glaswelltir sur neu redyn i ledaenu.

Caniatáu torri i gynyddu gorchudd eithin mân uwchlaw 50%.

Torri ardaloedd o rostir arfordirol ataliedig, agored yn agos at y môr.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dim ond pan mae'r amodau canlynol yn cael eu bodloni y rhoddir caniatâd; nid yw rheoli torri yn gwrthdaro ag unrhyw amcanion strategol ar gyfer y safle mae rhaglen dorri hirdymor wedi'i chytuno gyda'r tirlfeddiannwr neu'r rheolwr tir mae cyfundrefn bori briodol ar waith.

Mae'n bosibl defnyddio torri yn yr ardaloedd canlynol hefyd:

Ar gyfer torri ardaloedd o rostir ucheldir gyda dim neu fawr ddim grug, e.e. rhostir gyda thrwch o laswellt y gweunydd neu frwyn, er mwyn annog twf grug a rhywogaethau eraill sy'n nodweddiadol o rostir a chorsydd.

Ar gyfer creu rhwystrau tân ar ardaloedd o grug coediog ei natur, lle mae risg sylweddol o danau gwyllt neu golli gafael ar waith llosgi dan reolaeth.

Ar rostir lle mae eithin mân yn tyfu'n helaeth, a dim neu fawr ddim grug a grug y mêl yn tyfu.

Fel dewis amgen i sbot-losgi eithin mân.

Ar gorsydd a rhostir gwlyb a llaith lle mae cyfran uchel o laswellt y gweunydd a/neu drwch o figwyn yn bresennol.

Ar gyfer creu brêc rhag tân wrth ochr coetir a choedwigoedd.

Wrth ymyl pocedi o redyn, ond mae angen monitro lleiniau a dorrwyd am olion o oresgyniad rhedyn ac atal torri pellach os bydd hyn yn digwydd.

6726 Rheoli Grug: Torri a Gwaredu

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Rheoli Grug: Torri a Gwaredu'. Lle mae dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi eu defnyddio, ond mae rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Torri a Gwaredu Grug

Mae'n bosibl defnyddio torri fel dewis amgen i losgi ym mhobman lle byddai llosgi fel arfer yn cael ei ganiatáu. Gallai torri fod yn ddull rheoli gwell ar safleoedd lle na ddylid llosgi, lle mae'n anodd rheoli tân, neu le nad yw rheolwyr tir yn gallu cydymffurfio â chanllawiau llosgi. Fodd bynnag, gallai newid o losgi i dorri arwain at oblygiadau i gyfansoddiad y llystyfiant. Dim ond ar orgors lle mae'r gorchudd grug yn sylweddol iawn (>85%) ac yn mygu plu'r gweunydd unben y dylid ystyried torri grug.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dim ond yn ystod y cyfnodau canlynol y mae hawl i dorri:

1 Hydref – 31 Mawrth ar ucheldir

1 Tachwedd – 15 Mawrth mewn mannau eraill

Cytunwch ar gynllun rheoli torri a gwaredu llystyfiant pum mlynedd gyda'ch Swyddog Cymorth Maes yn unol â'r rheolau canlynol:

Torri clytiau rhwng 0.25 ac 1ha.

Torri i uchder o ddim llai na 5cm a dim mwy na 10cm.

Torri i annog aildyfiant amrywiaeth o rostir corlwyni fel bod yr ardal dorri yn cynnwys o leiaf ddau o'r canlynol o fewn 5 mlynedd; grug, grug y mêl, llus, llus coch, creiglus neu grug croesddail.

Osgoi torri'r un darn o llystyfiant fwy nag unwaith mewn pum mlynedd

Osgoi torri llystyfiant rhostir byr (<10cm) neu rostir â thrwch pridd tenau (dyfnder <5cm) neu ar lethrau serth (1 mewn 2 neu lai), neu lle mae dros 50% yn greigiau neu'n sgri.

Osgoi torri safleoedd lle mae meryw wedi'u cofnodi.

Dylid cael gwared ar llystyfiant a dorrwyd o'r safle, naill ai trwy ddefnyddio cynaeafwr porthiant neu drwy fyrnu'r llystyfiant. Bydd gwaredu'r llystyfiant a dorrwyd yn helpu i annog aildyfiant, a hefyd yn parhau â'r broses o ddisbyddu maethynnau sy'n cynnal amodau rhostir.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Torri mwy na thraean o'r llystyfiant rhostir yn ystod y cyfnod pum mlynedd.

Caniatáu torri i annog glaswelltir sur neu redyn i ledaenu.

Caniatáu torri i gynyddu gorchudd eithin mân uwchlaw 50%.

Torri ardaloedd o rostir arfordirol ataliedig, agored yn agos at y môr.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dim ond pan mae'r amodau canlynol yn cael eu bodloni y rhoddir caniatâd;

nid yw rheoli torri a gwaredu yn gwrthdaro ag unrhyw amcanion strategol ar gyfer y safle

mae cytundeb yn ei le gyda'r tiffeddiannwr neu'r rheolwr tir ar raglen dorri hirdymor

mae cyfundrefn bori briodol ar waith.

Mae'n bosibl defnyddio torri yn yr ardaloedd canlynol hefyd:

Ar gyfer torri ardaloedd o rostir ucheldir gyda dim neu fawr ddim grug, e.e. rhostir gyda thrwch o laswellt y gweunydd neu frwyn, er mwyn annog twf grug a rhywogaethau eraill sy'n nodweddiadol o rostir a chorsydd.

Ar gyfer torri brêc rhag tân ar ardaloedd o grug coediog ei natur, lle mae risg sylweddol o danau gwyllt neu golli gafael ar waith llosgi dan reolaeth.

Ar rostir lle mae eithin mân yn tyfu'n helaeth, a dim neu fawr ddim grug a grug y mêl yn tyfu.

Fel dewis amgen i sbot-losgi eithin mân.

Ar gorsydd a rhostir gwlyb a llaith lle mae cyfran uchel o laswellt y gweunydd a/neu drwch o figwyn yn bresennol.

Ar gyfer creu brêc rhag tân wrth ochr coetir a choedwigoedd.

Wrth ymyl pocedi o redyn, ond mae angen monitro lleiniau a dorrwyd am olion o oresgyniad rhedyn ac atal torri pellach os bydd hyn yn digwydd.

6727 *Molinia*: rheolaeth gemegol

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Molinia: rheolaeth gemegol'.

Mae ungnydau sy'n cael eu dominyddu gan *Molinia* neu laswellt y gweunydd (*Molinia caerulea*) yn gorchuddio arwynebedd sylweddol o orgorsydd ledled Cymru. Dim ond yn gymharol ddiweddar y mae *Molinia* wedi dechrau dominyddu'r rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn a, heb dechnegau rheoli priodol, nid ydynt yn debygol o ddychwelyd i'r cynefin llawn corlwyni a oedd yn gartref i gyfoeth o fioamrywiaeth.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Chwistrellu glyffosad

Dylid chwistrellu 'glyffosad' ar ardaloedd dethol o *Molinia* yn ystod mis Mehefin neu fis Gorffennaf ar gyfradd o 6 litr/ha mewn 200-300 litr o ddŵr, heb ychwanegion.

Bydd y gyfradd hon yn y *Molinia* gan fod ganddo ddail llydan, ond ni ddylid lladd y rhywogaethau dail mân megis plu'r gweunydd, clwbfrwynen y mawn, yn ogystal â mwsoglau a rhywogaethau planhigion uwch sy'n tyfu'n fwy tenau o dan orchudd glaswellt y gweunydd, a byddant yn adfer wedi hynny.

Defnyddiwch chwistrellwr sy'n gallu gweithio'n llorweddol yn hytrach nag yn fertigol. Dylai hyn ddarparu ar gyfer tir garw a bydd hefyd yn dyddodi'r glyffosad ar ben y llystyfiant yn hytrach na'i wthio i lawr o dan y *Molinia*.

Ail-chwistrellwch tua chanol y mis Mehefin canlynol ar gyfradd o 2-3 litr/ha o glyffosad mewn 150 litr o ddŵr pe bai gormod o *Molinia* neu frwyn yn aildyfu. Byddai'n rhaid i hyn ddibynnu ar lefel y rhywogaethau dymunol a oedd wedi dod i'r amlwg a goruchafiaeth bosibl y rhywogaethau llai dymunol mewn clytiau. Efallai y bydd angen ail-chwistrellu mewn ardaloedd dethol yn unig.

Chwistrellwch y *Molinia* gan ddefnyddio naill ai beic cwad neu gerbyd isel ei bwysau ar y ddaear megis tractor gydag olwynion dwbl. Y peiriant mwyaf effeithiol ar gyfer chwistrellu fyddai cerbyd 'softrac' neu gerbydau trac tebyg, yn enwedig lle mae'r twmpathau *Molinia* yn fwy a'r ddaear yn wlypach.

Cofnodwch yn eich cynllun rheolaeth integredig ar blâu

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Ni ddylid defnyddio chwynladdwr o fewn 6m i gwrs dŵr neu o fewn 1m i ffiniau caeau.

Peidiwch â defnyddio chwynladdwr o fewn 50 metr i ffynnon, twll turio nac unrhyw gyflenwad dŵr cyhoeddus neu breifat. Dylid dilyn y cod ymarfer ar gyfer chwistrellu ger cyrsiau dŵr a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Defnyddio chwynladdwyr](#)

Rheoli deunydd marw ar ôl triniaeth trwy losgi

Ar ôl ei chwistrellu â chwynladdwr, bydd angen llosgi'r deunydd marw gan ei fod yn cymryd blwyddyn neu fwy i bydru.

Dilynwch y cod llosgi grug a glaswellt a gofalwch eich bod yn llosgi *Molinia* marw gyda rheolaethau priodol ac yn ystod y tymor llosgi.

Gofalwch fod rhwystr neu frêc rhag tân yn ei le i atal y tân rhag lledaenu.

Os nad oes modd llosgi, bydd adfer yn cymryd llawer mwy o amser. Un ffordd effeithiol o ddinistrio rhywfaint o'r deunydd yw caniatáu i stoc ymgynnull ar yr ardal a gafodd ei thrin am gyfnod byr i'w sathru. Ond byddai angen tynnu'r stoc o'r ardal cyn hadu.

6728 Bylchau cae newydd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Bylchau cae newydd'.

Mae'r eitem gwaith cyfalaf hwn i'w ddefnyddio lle mae lleoliadau'r bylchau cae presennol yn peri risg uchel o greu problemau llygredd o ddŵr ffo dros y pridd. Trafodwch hyn gyda'ch Swyddog Cymorth Maes a chytunwch ar ardal addas i adleoli'r bwlch cae.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Rhaid adleoli'r gât bresennol i fan lle mae llai o risg o lygredd o ddŵr ffo pridd.

Cyn agor bwlch cae newydd, gofalwch fod gennych bob cydsyniad, caniatâd neu drwydded gywir, gan y bydd angen caniatâd cynllunio ar unrhyw fylchau cae newydd sy'n agor i briffyrdd. Gofalwch eich bod yn gwneud y gwaith yn unol â'r trwyddedau neu'r caniatâd a roddwyd.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Agorwch fwllch ar gyfer gosod bwlch cae newydd mewn safle addas fel y cytunwyd gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Gallai hyn olygu tynnu rhan o wal, gwrych neu glawdd trwy ddefnyddio peiriannau priodol.

Os oes angen, defnyddiwch y grant gwaith cyfalaf 'gosod wyneb caled' i greu ardal o wyneb caled yn y bwlch cae newydd ac o'i gwmpas.

Gellir cynnwys grantiau gwaith cyfalaf ychwanegol hefyd os oes angen gât newydd.

Dylid llenwi'r bwlch a grëwyd o ganlyniad i symud yr hen fwllch cae i ffurfio rhwystr lled-athraidd, gan ddefnyddio deunyddiau ffin yn unol â thraddodiadau lleol. Gellir ychwanegu gwaith cyfalaf ychwanegol, gan gynnwys plannu gwrychoedd neu adeiladu waliau cerrig, er enghraifft.

Dylid ailgyfeirio llwybrau sy'n gysylltiedig â'r bwlch cae a gwella'r rhannau nas defnyddir ar hyn o bryd.

Lle bo'n bosibl, cadwch a/neu ailddefnyddiwch y pyst gât o garreg.

6733 Coed Perllan: Impio ac Impio Blaguryn

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Coed Perllan: Impio ac Impio Blaguryn'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Dull o luosogi coed ffrwythau newydd gan ddefnyddio blagur neu frigau yw impio. Mae'n cynnwys cyfuno impyn o goeden a'i asio i gangen neu goesyn coeden arall (y gwreiddgyff). Mae gwahanol wreiddgyffion yn cael eu dewis yn ôl maint, addasrwydd i safle a'u gallu i oddef amodau pridd penodol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Mae impio ac impio blaguryn coed ffrwythau yn waith tra medrus, ac mae'n bosibl y bydd angen i chi gwblhau cwrs hyfforddi.

Dewis Gwreiddgyff

Chwiliwch am egin-goed iach, rhydd o blâu a chlefydau.

Torrwch o blanhigion sy'n tyfu'n gadarn.

Defnyddiwch ddarnau un coesyn.

Dechreuwch ddyfrio a chwynnu wythnos cyn impio neu impio blagur.

Impio

Mae darn byr o impyn yn cael ei gysylltu â'r gwreiddgyff ar ddiwedd y gaeaf/dechrau'r gwanwyn.

Dewis Impyn (Toriadau)

Gofalwch ddefnyddio impyn o'r cyltifar o'ch dewis.

Mae angen iddo ddod o famgoeden iach, rhydd o blâu a chlefydau.

Defnyddiwch flaen aeddfed o egin, yn ddelfrydol gyda llygaid ymwthiol.

Casglwch o'r canghennau canol, yn hytrach na'r brig neu'r bôn, ac o ganghennau sy'n 6 i 12 mis oed.

Dylai'r diamedr fod yn debyg i ddiamedr y gwreiddgyff (oddeutu trwch pensil).

Torrwch impynnau 15 i 20cm o hyd, er mwyn gallu eu torri'n fyrrach wrth impio.

Rhaid i impyn gael 3 i 4 llygad blagur ar gyfer impio llwyddiannus.

Tynnwch yr holl ddail i leihau anweddu.

Cludwch impynnau mewn lliain llaith glân, eu cadw'n glaeear ac mewn cysgod. Blwch oeri yw'r dull gorau.

Mae cyfraddau impio ac impio blagur llwyddiannus ar eu gorau os yw'r impynnau'n ffres.
(Wedi'u cadw am 2 i 3 diwrnod)

Glendid

Glanhewch eich offer a'ch dwylo sawl gwaith, cyn ac yn ystod y gwaith (defnyddiwch ffwngladdwr trwyadl neu ddiheintydd cartref ar gyfer sterileiddio).

Gwnewch yn siŵr nad yw'ch dwylo na'r impynnau yn cyffwrdd â'r pridd tra byddwch chi'n impio.

Torrwch yr impynnau a'r gwreiddgyff gydag un toriad clir.

Peidiwch byth â chyffwrdd â thoriad yr impyn neu'r gwreiddgyff.

Paratoi'r Gwreiddgyff ar gyfer Impio

Dewiswch wreiddgyff gydag un coesyn cadarn ei ffurf, ac wedi'i ddyfrio'n dda.

Torrwch y gwreiddgyff yn ôl i 15-30cm, gan ddefnyddio toriad croeslin ar ongl o 45°.

Cymharwch ddiamedr eich impynnau. Rhaid i ddiamedr yr impyn a'r gwreiddgyff fod yr un fath.

Paratoi'r Impyn ar gyfer Impio

Tynnwch unrhyw ben o'r impyn sy'n sych.

Peidiwch â chyffwrdd ag unrhyw un o'r toriadau. Chwiliwch am impyn sydd union yr un diamedr â'ch gwreiddgyff.

Gwnewch doriad 45° sy'n cyfateb i'r toriad ar y gwreiddgyff. Dylai'r toriadau fod yn llyfn ac yn syth.

Atodi'r Impyn i'r Gwreiddgyff

Atodwch yr impyn yn llyfn i'r gwreiddgyff. Peidiwch â phwyso'n rhy gryf na chyffwrdd y toriad.

Y rheol rhisgl i risgl (gwreiddgyff ac impyn): Gofalwch fod rhisgl yr impyn a'r gwreiddgyff yn cydweddu'n iawn. Mae'r canlyniad gorau yn debygol os yw'r ddwy ochr yn cyfateb yn llwyr. Ni fydd yr impio'n llwyddo os nad oes o leiaf un ochr i'r impyn a'r gwreiddgyff yn cydweddu. Dim ond rhannau meddal yr impyn a'r gwreiddgyff o dan y rhisgl (cambiw) sy'n gallu tyfu dros y rhwyg a'i wella.

Clymu'r Uniad â Thâp

Er mwyn amddiffyn yr uniad impio rhag dŵr, clefyd a sychder, rhaid ei glymu gyda stribyn polythen tenau. Clymwch yn syth ar ôl impio.

Dylai'r stribyn fod yn 25cm o hyd ac 1cm o led.

Dechreuwch glymu ar y gwreiddgyff islaw'r uniad impio a weindio'r tâp am i fyny.

Mae angen ochrau'r tâp orgyffwrdd i atal dŵr rhag mynd i mewn.

Gorchuddiwch yr uniad impio tuag at frig yr impyn.

Pan mai dim ond 6 neu 7cm o dâp sy'n weddill, mae angen ei weindio am i lawr, gan ofalu bod y tâp yn gorgyffwrdd eto.

Seliwch y tâp gyda chwlwm syml, neu gorchuddiwch y toriadau'n llwyr â chwyr garddwriaethol.


Amddiffyn yr Impyn a'r Uniad Impio

Gorchuddiwch yr impyn a'r uniad impio gyda bag polythen tryloyw i gyfyngu i'r eithaf ar golledion dŵr.

Gorchuddiwch yn syth ar ôl impio

Mae'n bwysig trin y goeden wedi'i himpio yn ofalus. Os ydych chi'n symud y cynhwysydd, gafaewch yn ei waelod. Dyfrwch yr holl goed wedi'u himpio yn syth ar ôl eu himpio.

Peidiwch â gadael yr impiadau yn llygad yr haul neu mewn gwynt cryf.



Impio Blaguryn

Mae impio blaguryn yn ffordd arall o luosogi llystyfiant, lle mae un blaguryn yn cael ei atodi at wreiddgyff sy'n tyfu yn ystod yr haf. Mae'n dilyn yr un egwyddor ag impio, ac mae'n gofyn am yr un glendid, sgiliau a mewnbwn.

Yn lle impyn gyda 3 i 4 llygad blagur, dim ond un sy'n cael ei ddefnyddio wrth impio blaguryn. Mae'r meini prawf ar gyfer casglu impyn yr un fath ag ar gyfer impio.

Dim ond os yw rhisgl y gwreiddgyff a'r impyn yn feddal ac yn codi'n hawdd y mae impio blaguryn yn bosibl. Mae'r toriad impio yn edrych fel llythyren T.

Mae impio blaguryn yn gyffredin ar gyfer lluosogi cyltifarau sitrws ac eirin gwlanog.

Dulliau Cyffredin o Impio Blaguryn

Impio blaguryn mewn toriad siâp T ac mewn toriad siâp T ben i waered

Impio blaguryn gyda rhan o'r coesyn.

Paratoi'r Gwreiddgyff ar gyfer Impio Blaguryn

Defnyddiwch wreiddgyff dethol (coesyn unigol, ffurf dda, wedi'i chwynnu a'i ddyfrio). Dylai'r planhigyn gwreiddgyff fod tua 45cm (1.5 troedfedd) o daldra.

Peidiwch â thorri'r gwreiddgyff. Gadewch y gwreiddgyff gyda brig y coesyn nes bod yr impio blaguryn wedi gafael.

Os oes gan y gwreiddgyff lawer o ddail, tynnwch rai o'r dail isaf sy'n agos at y ddaear.

Wrth impio blaguryn, mae'r gwreiddgyff yn aml yn cael ei dyfu mewn gwelyau, nid mewn cynwysyddion.

Ar goesyn y gwreiddgyff, dewiswch leoliad sy'n llyfn, heb lygaid ac sydd oddeutu 30cm (1 troedfedd) o daldra.

Torrwch siâp T yn y rhisgl, gyda dau doriad syth. Mae'r maint yn dibynnu ar ddiamedr y gwreiddgyff (gweler diagram 4)

Codwch y rhisgl meddal yn ofalus o goesyn pren y gwreiddgyff, heb ei ddifrodi.

Peidiwch â chyffwrdd â'r toriad.

Cadwch bridd neu lwch rhag mynd i mewn i'r toriad.

Paratowch y llygad ar unwaith.

Paratoi'r Llygad

Dylai'r impyn y mae'r llygaid yn cael eu torri ohono, y brigyn blagur, gynnwys tyfiant y tymor presennol neu'r tymor blaenorol. Peidiwch â defnyddio'r blagur sy'n datblygu ar ddiwedd cangen na'r rhan aeddfed o ganghennau gyda rhisgl cryf.

Daliwch y brigyn blagur gydag un llaw, gyda'r brig yn wynebu eich corff.

Dewiswch un llygad i'w thorri. Dechreuwch dorri o 0.5cm o dan y llygad.

Torrwch drwy'r rhisgl ac ychydig i mewn i bren y brigyn blagur. Nawr gwnewch doriad syth o dan y llygad. Pasiwch y toriad o dan y llygad ac yna arwain y gyllell am i fyny. Wrth gyrraedd y rhisgl meddal, tynnwch y llygad i ffwrdd.

Peidiwch â chyffwrdd toriad y llygad.

Gyda blaen eich cylllell, tynnwch ran bren fewnol y llygad yn ofalus iawn. Peidiwch â tharfu ar y llygad ei hun. (Gweler diagram 1 i 3)

Mewnosod y Llygad Blagur yn Nhorriad T y Gwreiddgyff

Mewnosodwch y llygad yn y toriad siâp T yn y gwreiddgyff, gan ei wthio'n ysgafn o'r brig i lawr.

Rhaid i'r llygad aros yn yr un safle ag yr oedd yn tyfu ar y brigyn blagur. Peidiwch â'i mewnosod yn y gwreiddgyff wyneb i waered.

Rhowch y llygad tua 1.5cm i mewn yn rhisgl y gwreiddgyff.

Tynnwch risgl y llygad sy'n gorgyffwrdd trwy ailadrodd toriad llorweddol y siâp T. (Gweler diagram 6 a 7)

Clymu'r Llygad i'r Gwreiddgyff

Clymwch y llygad gyda tâp polythen, gan weithio o'r gwaelod i'r brig.


Tynhewch y tâp yn gadarn ar waelod a brig y llygad.

Gorchuddiwch frig y toriad T. Mae angen weindio'r tâp fel ei fod yn gorgyffwrdd, cyn newid cyfeiriad am i lawr.

Peidiwch â gorchuddio'r llygad. Gadewch ychydig bach o le i'r blagur egino. Tynhewch y tâp ar y brig gyda chwlwm syml. (Gweler diagramau 8 a 9)

Gafaelwch yn yr egin-goeden yn ofalus

Dyfriwch bob cynhwysydd neu wely sy'n cynnwys egin-goed yn syth ar ôl impio blagur. Peidiwch â gadael y coed yn llygad yr haul neu mewn gwynt cryf.



Yn ystod y gwanwyn canlynol, tociwch flaen y gangen gwreiddgyff cyn gynted ag y bydd y blagur impio yn dechrau tyfu.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y fanyleb uchod:

Hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd gan bron pob fferm berllan, yn tyfu llawer math o ffrwyth at ddefnydd domestig ac ar gyfer marchnadoedd lleol. Wrth i'r coed heneiddio, roedd y perllannau hyn yn aml yn dirywio. Mae'r enghreifftiau sydd wedi goroesi yn nodwedd neilltuol yng nghefn gwlad ac yn aml yn meddu ar werth sylweddol i fywyd gwyllt.

Mae impio ac impio blagur yn annog unffurfiaeth a chyltifarau o safon. Ar y cyfan, mae dwyn ffrwyth yn digwydd 3 i 4 blynedd yn gynharach. Mae'r ddwy dechneg hefyd yn cael yr effaith o greu coed ffrwythau llai, sy'n hwyluso'r gwaith o gynaeafu ffrwythau.

Mae impio ac impio blagur coed ffrwythau yn waith tra medrus, ac mae'n bosibl y bydd angen i chi gwblhau cwrs hyfforddi. Gall eich Swyddog Cymorth Maes gynnig cyngor am hyfforddiant.

6734 Coed Perllan: Adfer trwy Docio

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Adfer Coed Perllan trwy Docio'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylid tocio coed afalau a gellyg rhwng mis Hydref a mis Ebrill, gan osgoi tywydd oer, a gwneud y gwaith yn y fath fodd fel ei fod yn ymestyn bywyd y goeden.

Rhaid tocio coed ceirios, eirin duon ac eirin rhwng mis Mai a mis Medi i leihau'r risg o haint y ddeilen arian.

Rhaid torri'r goeden yn lân gyda thoriadau ar ongl fel eu bod yn gwyro i ffwrdd o'r brigdyfiant ac yn caniatáu i'r dŵr redeg ymaith.

Dylid pentyrru pren wedi'i docio mewn lleoliad lled-gysgodol o fewn y berllan.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Torri drwy'r gangen hanner ffordd ar hyd ei hyd

Tynnu mwy na chwarter y brigdwf mewn blwyddyn

Llosgi unrhyw bren heb ganiatâd ysgrifenedig gan Swyddog Cymorth Maes, gan y gallai mwsoglau a chennau gwerthfawr fod yn bresennol yn y tocion, tra bod y gwres y mae tanau'n ei gynhyrchu yn gallu bod yn niweidiol iawn i goed ffrwythau a'u bywyd gwyllt cysylltiedig.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y fanyleb uchod:

Hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd gan bron pob fferm berllan, yn tyfu llawer math o ffrwyth at ddefnydd domestig ac ar gyfer marchnadoedd lleol. Wrth i'r coed heneiddio, roedd y perllannau hyn yn aml yn dirywio. Mae'r enghreifftiau sydd wedi goroesi yn nodwedd neilltuol yng nghefn gwlad ac yn aml yn meddu ar werth sylweddol i fywyd gwyllt.

Mae coed ffrwythau sydd wedi sefydlu yn elwa ar docio rheolaidd. Mae hyn yn annog cynhyrchu ffrwythau, yn cynnal brigdyfiant agored sy'n lleihau'r posibilrwydd o glefydau, ac yn atal coed rhag mynd yn bendrwm ac yn fregus yn wyneb gwyntoedd yr hydref. Mae tocio coed ffrwythau yn waith tra medrus, ac mae'n bosibl y bydd angen i chi geisio cymorth proffesiynol neu gwblhau cwrs hyfforddi. Gall Swyddog Cymorth Maes gynnig cyngor i chi am gcontractwyr lleol a chysiau hyfforddi. Mae angen tocio coed ffrwythau sydd wedi cael eu hesgeuluso yn raddol dros o leiaf dair blynedd, er mwyn osgoi niweidio'r goeden a chynnal ffrwytho. Ar ôl eu hadfywio, mae'n rhaid cynnal y coed trwy docio rheolaidd.

Amcanion Tocio

Dod â golau i ganol y goeden i helpu i aeddfedu'r ffrwythau ac ysgogi cynhyrchu egin newydd.

Annog aer i symud trwy'r canghennau i leihau clefyd.

Creu cydbwysedd iach o hen bren ffrwytho ac egin ifanc i'w ddisodli.

Y Flwyddyn Gyntaf

Yn ystod blwyddyn gyntaf y tocio, mae angen tynnu:

crachgoed sy'n tyfu o'r gwaelod neu islaw'r impiad, sy'n debygol o fod yn dod o'r gwreiddgyff.

canghennau marw mawr a changhennau isel sy'n ymyrryd â phori neu dorri gwair, gan eu torri'n ôl i fonyn byr neu gangen addas. Peidiwch â thorri trwy'r gangen hanner ffordd ar ei hyd.

canghennau mawr sy'n croesi yng nghanol y brigdyfiant neu'n rhwbio yn erbyn ei gilydd. tyfiant unionsyth cadarn.

pren heintiedig.

Y nod yw ail-greu fframwaith o 5-12 cangen neu brifgainc rheiddiol tra'n dal i gynnal siâp naturiol y goeden. Y prifgeinciau yw'r sgerbwd naturiol sy'n cynnal canghennau ffrwytho ochrol a cheinciau. Os bydd cyflawni'r siâp hwn yn gofyn am gael gwared ar fwy na chwarter y brigdwf, mae angen ymestyn y cam tocio dros 2 flynedd neu fwy.

Mewn Blynnyddoedd Dilynol

Tociwch y brigdyfiant trwy deneuo unrhyw ganghennau ochrol trymlwythog a cheinciau sydd wedi gordyfu, gan adael bonion bach tua 1cm o hyd Bydd egin newydd sy'n tarddu o waelod y toriadau hyn yn dwyn ffrwyth yn y pen draw.

Ewch ati i dynnu neu fyrhau canghennau sy'n wynebu am i mewn.

Mae'n bosibl hyfforddi unrhyw egin ifanc cryf, sydd wedi'u lleoli'n dda ac yn tyfu'n agos at ganol y goeden, i fod yn brifgeinciau newydd.

6736 Gwâl dyfrgwn

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Gwâl dyfrgwn'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae dyfrgwn bellach yn bresennol ar lawer o nentydd ac afonydd yng Nghymru ar ôl cwmp ym eu niferoedd yn y 1950au. Bydd darparu gwâl dyfrgwn yn galluogi dyfrgwn i ddefnyddio ardaloedd heb y gorchudd trwchus sydd ei angen i orwedd yn ystod y dydd a thrwy hynny'n sicrhau mwy o ardaloedd iddynt eu defnyddio heb gael eu tarfu.

Gall prysgwydd ar hyd glan afon, llystyfiant sy'n bargodi a choed aeddfed â systemau gwreiddiau gwag i gyd ddarparu cysgod angenrheidiol. Gall darparu gwâl dyfrgwn artiffisial wella hyn ymhellach ac mae'n ffordd gyflym ac effeithiol o ddarparu safle gorffwys.

Mae angen i chi gadw at y canlynol:

Cyn adeiladu gwâl artiffisial, mae'n bwysig gwerthuso cynefinoedd presennol. Gellir diogelu cynefinoedd da ger cyrsiau dŵr trwy wneud y canlynol:

Gadael gwlyptiroedd heb eu draenio

Ffensio prysgwydd

Annog llystyfiant hir i dyfu trwy dorri yn llai aml a thorri ardaloedd mewn cylchdro

Ffensio ochrau glannau i amddiffyn coed a glannau rhag da byw sy'n pori. Mae dyfrgwn yn aml yn defnyddio ceudodau gwreiddiau mawr mewn coed aeddfed fel safleoedd gorwedd.

Caniatáu i goed adfywio ar lannau afonydd

Lleihau lefelau aflonyddwch, yn enwedig gan bobl a chŵn

Osgoi llygredd.

Gellir creu cynefin newydd i ddyfrgwn trwy:

Ffensio a phlannu ystumiau afon a chorneli caeau gyda helygen, draenen wen a draenen ddu

Plannu glannau moel gyda choed, yn enwedig derw, sycamorwydd, gwern, llwyf a helyg i greu safleoedd ar gyfer gwalau dyfrgwn yn y dyfodol neu ganiatáu i orchudd prysgwydd ddatblygu'n naturiol.

Adeiladu gwâl artiffisial os nad oes safleoedd addas eraill ar gael.

Pwyntiau allweddol i'w hystyried wrth adeiladu gwâl artiffisial:

Lleoliad

Adeiladwch yn agos at ymyl y dŵr, lle gall dyfrgwn ddringo'r lan yn rhwydd

Dewiswch safle nad yw pobl a chŵn yn tarfu arno braidd dim

Mewn Ardaloedd Draenio Mewnol, gofalwch nad yw gwâl yn cael ei gosod o fewn strbedi cynnal a chadw 7m

Deunyddiau

20-25 o foncyffion tua 1m o hyd a 30-40cm mewn diamedr

Nifer o bolion a changhennau coed eithaf syth, tua 3–10cm mewn diamedr x 3m o hyd. (Gellir defnyddio unrhyw bolion byrrach i fewnlenwi bylchau.)

Tocion, llawer iawn o ganghennau bach o wrychoedd neu goed conwydd.

Yn ddelfrydol, dylid cymryd pren mwy o goed sydd wedi cwmpo neu goed wedi'u teneuo fel rhan o raglen rheoli coetir wedi'i gynllunio.

Adeiladwaith

Mae'r gwaith adeiladu yn digwydd mewn tri cham. Y nod yw darparu sawl siambr dywyll a sych sy'n cysylltu â'i gilydd. Mae'r siâp cyffredinol yn dibynnu ar y safle a gall fod yn siâp petryal, yn sgwâr neu'n grwn:

Rhowch y boncyffion i ffurfio 6-8 siambr tua 1 metr sgwâr yr un. Gadewch fylchau tua 15–20cm o led fel mynedfeydd. Dylai un neu ddwy fynedfa fod ar ymyl y dŵr gyda mynedfeydd eraill ar yr ochrau tir.


Rhowch y polion ar draws y siambrau i ffurfio'r to. Llenwch y bylchau gyda darnau bach o bren i wneud y siambrau yn dywyllach a gwella eu gallu i wrthsefyll y tywydd.

Pentyrrwch y tocion ar y top i guddio'r boncyffion a'r polion yn llwyr a gadewch y siambrau'n sych ac yn dywyll. Dylai canghennau orwedd yn wastad a chael eu gwasgu i lawr. Gosodwch goesynnau canghennau i mewn gyda'r canghennau/ffrondau llai yn gorgyffwrdd â'r boncyffion a'r polion i ffurfio ymyl allanol.

Os yw'r safle yn agored i lifogydd, ymestynnwch netin defaid dros y tocion a defnyddiwch bolion i ddal y netin i lawr ar ddwy ochr y wâl gan gymryd gofal i sicrhau na all weiren finiog achosi anaf. Rhowch fwy o'r tocion ar y top i guddio'r weiren.


Cam 1

Adeiladwch strwythur sylfaenol gyda boncyffion 3 metr ar draws. Defnyddiwch stanciau i'w cadw yn eu lle:




Cam 2

Gosodwch bolion trwchus i ffurfio to



Cam 3

Gorchuddiwch â changhennau



6737 Parcdir: Gatiau Haearn

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Gatiau Haearn'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gât rheiliau pum bar gyda dwy set groesfarrau, un bar fertigol yn y canol a dau bostyn haearn silindrog, fel y gwelir yn y llun isod.

Bydd angen iddi fod â gorffeniad galfanedig safonol i BS EN ISO 1461.

Rhaid i'r pyst fod o leiaf 2100mm o hyd a rhaid i'r gatiau eu hunain fod rhwng 900mm a 3000mm o led.

Rhaid i unrhyw agoriadau sy'n fwy na 3000mm fod â dwy gât.

Rhaid gosod pob postyn gât 750mm i mewn i'r ddaear ac, os oes angen, gellir defnyddio mortar concrit i'w gosod yn eu lle.

Dylai'r ffens fod yn 1200mm o uchder sy'n cynnwys rheilen silindrog lorweddol 20mm ar y top a 4 rheilen wastad RSF is. Mae bwlch o 1000mm rhwng pob postyn RSF fertigol ar y ddaear.



Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Wrth newid hen gatiau haearn, bydd angen paentio'r rheiliau haearn newydd mewn lliw sy'n cyd-fynd â'r rheiliau du gwreiddiol.



Isod mae enghraifft o glicied gât haearn nodweddiadol. Os yw'r dyluniad yn wahanol i hyn, bydd yn dderbyniol cyn belled â'i fod yn cyd-fynd â dyluniad gwreiddiol yr ardal



Wrth ailosod hen reiliau haearn, bydd angen paentio'r rheiliau haearn newydd mewn lliw sy'n cyd-fynd â'r rheiliau gwreiddiol. Fel arfer, byddant wedi'u paentio'n dywyll (e.e. du) i ymdoddi i'r dirwedd.

6738 Parcdir: Ffensys Rheiliau Haearn

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau am 'Parcdir: Ffensys Rheiliau Haearn'. Rhaid i unrhyw amrywiad o'r safonau a nodir gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.

Mae taliad safonol ar gael ar gyfer ffensys parcdir metel traddodiadol sy'n gysylltiedig â rheoli bywyd gwyllt a nodweddion tirwedd, archaeolegol a hanesyddol. Dylai ffensys parcdir gynnal ymddangosiad agored y dirwedd fel nodwedd nodweddiadol. Fel arfer, byddant wedi'u paentio'n dywyll (e.e. du) i ymdoddi i'r dirwedd.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Rhaid i ffensys parcdir gynnwys ffens rheiliau 5 bar ddi-dor mewn gorffeniad galfanedig i BS EN ISO 1461. Rhaid i unrhyw amrywiad o'r safon hon gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.

Mewn tirwedd donnog, rhaid cymryd gofal wrth osod y ffens i sicrhau bod y rheiliau yn gyfochrog â'i gilydd ac â'r ddaear.

Dylai gwaith atgyweirio ddefnyddio deunyddiau a dulliau traddodiadol.



Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Wrth newid hen ffensys rheiliau haearn, bydd angen paentio'r rheiliau haearn newydd mewn lliw sy'n cyd-fynd â'r rheiliau du gwreiddiol.

6740 Creu pyllau

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Creu pyllau'. Lle mae dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Cymorth Maes.

Gall pyllau newydd greu manteision sylweddol i fywyd gwyllt, ond mae'n annhebygol y bydd hyn yn digwydd os yw'r gwaith adeiladu yn golygu dinistrio pocedi sy'n weddill o gynefin bywyd gwyllt megis glaswelltir corsiog. O gymharu â'u maint, mae pyllau yn hynod fioamrywiol. Mae pyllau yn gynefin allweddol i lawer o fathau o fywyd gwyllt, yn ogystal â bod yn ffynhonnell bwysig o ddŵr ac yn lleoliad bwydo ar gyfer bywyd gwyllt daearol.

Mae adeiladu a chynnal a chadw pyllau yn waith medrus a bydd trafodaethau manwl gyda chynghorwyr arbenigol yn arwain at fuddion tymor hir a thymor byr.

Mae taliadau ar gael tuag at gost creu pyllau newydd mewn lleoliadau addas y cytunir arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Cyflenwad dŵr

Dylai'r ffynhonnell ddŵr fod heb ei llygru ac, os yw'n bosibl, dylai fod ar gael trwy gydol y flwyddyn. Dylech osgoi defnyddio draeniau caeau os yw'n bosibl, gan y gall y rhain gario gwrtaith o dir cyfagos.

Adeiladwaith

Mae pyllau wrth ymyl cwrs dŵr yn darparu mwy o reolaeth dros lifogydd y gaeaf a siltio na phyllau yn y cwrs dŵr. Os ydych yn adeiladu pyllau mewn cwrs dŵr, adeiladwch bwl silt llai i fyny'r dyffryn o'r prif bwl a chlirio'r gro a'r silt yn rheolaidd.

Henebion Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn neu ar ffin heneb gofrestredig, rhaid i chi gael cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Mae methu â chael y cydsyniad angenrheidiol cyn ymgymryd â'r gwaith yn drosedd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Gallwch gyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar-lein trwy: [Cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig | Cadw](#)

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: scheduledmonuments@llyw.cymru

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl henebion cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cymeradwyaeth cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Gallwch ddod o hyd i leoliad a maint yr holl Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn: heneb.org.uk/cy/cofnod-amgylchedd-hanesyddol

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/cydsyniad (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/cydsyniad) a sicrhau bod y ddogfen ar gael ar gais.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir.](#)

Mae angen i chi ystyried sut gall eich cynnig effeithio ar lif, lefelau neu gyfanswm y dŵr. Lle gallai cyfleuster cronni dŵr newydd, neu'r broses o addasu neu dynnu cyfleuster cronni dŵr presennol, arwain at newidiadau parhaol neu dros dro yn lefel y dŵr, cyfanswm y dŵr neu barhad llif y dŵr, bydd angen trwydded cronni dŵr fel arfer. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y gweithgaredd wedi'i eithrio o dan ddarpariaethau statudol perthnasol neu y gellir dangos ei fod yn weithgaredd risg isel, heb fawr o effaith ar yr amgylchedd, defnyddwyr dŵr eraill a hawliau. Dylech gyfeirio at yr wybodaeth a'r rhestr wirio [yma](#) i benderfynu a oes angen trwydded. Os ydych yn ateb unrhyw un o gwestiynau'r rhestr wirio yn gadarnhaol, dylech wneud cais am drwydded cronni dŵr. Os ydych chi'n ateb pob cwestiwn yn negyddol, neu os gallwch ddarparu digon o dystiolaeth ategol neu gyfiawnhad i ddangos na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol, ni fydd angen trwydded fel arfer. Os nad ydych yn siŵr a oes

angen trwydded arnoch, gallwch ofyn am gyngor cyn gwneud cais yn [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais ar gyfer trwyddedau tynnu a chronni dŵr](#).

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Mae pridd anathraidd, megis clai, yn ddelfrydol ar gyfer cadw dŵr. Efallai y bydd angen leinin artiffisial neu glai wedi'i fewnforio ar bridd athraidd, megis siâl - gallai hynny fod yn ddrud. Cloddiwch dyllau prawf cyn dechrau ar y gwaith i wirio gallu'r pridd i ddal dŵr.

Dylid defnyddio pridd wedi'i gloddio i dirweddu'r safle lle bo'n bosibl gan y bydd symud y pridd ymaith yn ychwanegu at y gost. Gofalwch nad yw'n cael ei roi mewn lleoliad lle gall olchi i mewn i'r pwll neu i gwrs dŵr cyfagos. Bydd y gwaith adeiladu yn haws os na fydd angen arglawdd i lawr llethr.

Gellir defnyddio isbridd a gloddiwyd i dirweddu'r ardal o amgylch y pwll, neu i gapio'r leinin, os defnyddir un.

Pan ddefnyddir leinin, gofalwch fod is-haen amddiffynnol yn cael ei defnyddio uwchben ac islaw'r leinin, a dylid capio'r haen uchaf o is-haen gydag isbridd neu dywod garw i ddyfnder o 15cm o leiaf. Mae hyn yn amddiffyn y leinin ac yn darparu amgylchedd i blanhigion dyfrol wreiddio ynddo.

Maint a siâp

Bydd maint y pwll yn cael ei gytuno gyda'r Swyddog Cymorth Maes a'i gynnwys yn y Rhaglen Waith.

Rhaid i byllau bywyd gwyllt fod o leiaf 10m² o ran arwynebedd, gydag ymylon ar oledf ysgafn, a rhaid iddynt ddal dŵr am o leiaf 9 mis o'r flwyddyn mewn blwyddyn o lawiad arferol.

Gall pyllau mawr ddarparu ystod ehangach o gynefinoedd, ond bydd sawl pwll bach yn ymgorffori amrywiaeth o amodau a gallant fod yn fwy gwerthfawr i fywyd gwyllt.

Cynyddwch hyd 'ymyl' y pwll trwy greu traethlin afreolaidd gyda thafodau a baeau bach i ddarparu mwy o gysgod a gorchudd i fywyd gwyllt. Bydd llystyfiant sy'n codi o'r dŵr yn darparu cysgod rhag y gwynt a'r haul.

Peidiwch â chynnwys ynysoedd gan fod y rhain yn debygol o ddenu hwyaid neu wyddau

Dyfnder a phroffil

Bydd dyfnder mwyaf y pwll yn dibynnu ar ei arwynebedd. Ni ddylai pyllau bach fod yn fwy nag 1m o ddyfnder. Gall pyllau mwy fod yn ddyfnach, ond nid oes angen i unrhyw bwell fod yn ddyfnach na 3m oni bai bod disgwyl iddo amrywio'n fawr o ran dyfnder. Dylai fod digonedd o ddŵr bas sy'n goleddfu'n raddol i ardaloedd dyfnach (hyd at 2-3 m o ddyfnder).

Y gofyniad allweddol yw bod gan y pwll ymylon ar oleddf ysgafn. Gofalwch fod proffil y pwll yn adlewyrchu hyn. Dŵr bas iawn, 20cm o ddyfnder neu lai, sydd bwysicaf i fywyd gwyllt. Dylai dyfnder mwyaf y pwll adlewyrchu'r llif i'r safle. Gall pyllau sydd â ffynhonnell ddibynadwy o ddŵr (e.e. gyda dalgylch mwy neu ffynhonnell ddibynadwy o ddŵr daear) fod yn fwy bas.

Bydd lefelau dŵr yn amrywio yn ystod y flwyddyn, felly mae'n well proffilio'r pwll fel ei fod ar oleddf raddol yn hytrach na bod ag unrhyw silffoedd / newidiadau sydyn mewn dyfnder.


Mae ardaloedd o ddŵr dyfnach yn llai tebygol o sychu'n llwyr yn yr haf ac yn darparu lloches i rywogaethau nad ydynt yn gallu addasu i newidiadau mawr mewn amodau.

Stocio a phlannu

Fel arfer, bydd llystyfiant yn sefydlu'n gyflym o'r ardal gyfagos a dylid gadael pyllau newydd i gytrefu'n naturiol cyn belled â phosibl. Bydd hadau yn egino o'r banc hadau, neu'n cytrefu'n naturiol. Peidiwch â phlannu planhigion pwll, gan eu bod yn aml yn cynnwys rhywogaethau estron goresgynnol.

Bydd llystyfiant tal sy'n codi o'r dŵr yn yr ymylon bas megis glaswellt hir yn darparu gorchudd da i adar y dŵr. Gellir caniatáu i brysgwydd, gan gynnwys helyg, mieri ac eithin, sefydlu ar ymylon gorllewinol a gogleddol er budd bywyd gwyllt a thirwedd. Mae canghennau sy'n bargodi yn darparu clwydi da i adar.

Diagram – Trawstoriad o bwl



Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dewis safle

Rhaid cytuno ar leoliad addas ar gyfer creu pwll newydd gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Ystyriwch werth presennol y safle i fywyd gwyllt; efallai fod y safle'n fwy gwerthfawr heb bwl. Dewiswch ardal gymharol ddigynnwrf i ffwrdd o adeiladau a cheisiwch osgoi safleoedd sydd â risg uchel o wrtaith yn llifo o gaeau a gorfaethu. Byddwch yn ofalus rhag peryglon tanddaearol neu uwchben megis ceblau trydan.

Ceisiwch gysylltu cynefinoedd presennol megis glaswelltir heb ei wella a phrysgwydd. Mae llawer o rywogaethau pyllau megis madfallod ac amffibiaid eraill yn treulio dim ond rhan o'u bywydau mewn dŵr ac mae angen amodau addas ar dir sych arnynt i gwblhau eu cylch bywyd.

Mae'n synhwyrol osgoi lleoli pwll wrth ymyl coed tal gan y gall hyn achosi problemau o ran dail yn disgyn a lefelau siltio uwch. Bydd sicrhau bod y pwll yn agored i'r de yn caniatáu i olau'r haul gynhesu'r dŵr yn y gwanwyn, ond mae rhywfaint o brysgwydd a chysgod yn debygol o fod yn fuddiol.

Nodwch leoliad isel yn y dirwedd lle mae dŵr glân yn tueddu i gasglu. Gall lleoliadau hen byllau fod yn addas iawn - ar dir wedi'i wella, gellir eu gweld weithiau mewn ffotograffau o'r awyr (gweler y [Ghost Ponds Project](#)).

Y lleoliadau gorau yw lle mae'r pwll yn cael ei fwydo gan ddŵr daear, dŵr glaw neu ddŵr wyneb sy'n draenio o dir dwysedd cymharol isel. Mae safle heulog yn well. Mae pyllau yn addas iawn i'w cyfuno â defnydd tir dwysedd is addas, megis gwair gwyrdd a gwella porfa.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

lleoli'r pwll lle mae'n derbyn dŵr o sefyllfa llawn maethynnau, megis iard neu gae lle mae tail neu slyri yn cael ei wasgaru'n rheolaidd;

creu pwll trwy osod argae ar gwrs dŵr sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, gallwch ledw ffos cae sy'n bodoli eisoes.

lleoli'r pwll o dan neu yn agos at goed, lle bydd llawer o ddail yn cwmpo i'r dŵr, oni bai bod rhywfaint o lif dŵr i mewn i'r pwll.

tynnu unrhyw goed sydd wedi cwmpo i mewn i'r pwll neu'n agos ato.

cwmpo neu fondocio unrhyw goed a nodwyd gan staff CNC fel rhai o bwysigrwydd allweddol i fywyd gwyllt.

aredig na thrin y tir o fewn 10m i'r pwll.

cyflwyno adar y dŵr neu bysgod.

bwydo da byw neu adar gwyllt yn agos at y pwll.

taenu gwrtaith, slyri, tail neu weddillion treuliad anaerobig o fewn 10m i'r pwll neu unrhyw ffosydd, llaciau neu lwybrau llif eraill sy'n bwydo'r pwll.

gwaredu dip defaid o fewn 50m i'r pwll.

defnyddio plaladdwyr, ac eithrio at ddibenion rheoli rhywogaethau goresgynnol neu reoli chwyn niweidiol lle mae chwynladdwyr wedi'u nodi fel yr opsiwn mwyaf effeithiol.

defnyddio'r ardal ar gyfer gweithgareddau cerbydau neu i olchi cerbydau.

Canllawiau pellach

I gael rhagor o arweiniad ar greu a chynnal a chadw pwll a gwybodaeth am ganiatâd cynllunio ac ati, ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw: [Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw – hafan](#)

6742 Torri Cyrs

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Torri Cyrs'. Lle mae dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae torri cyrs yn ddull effeithiol o reoli gwelyau cyrs. Bydd y dull rheoli penodol yn dibynnu ar y safle, a bydd Swyddog Cymorth Maes yn gallu cynghori ar hyn. Yn gyffredinol, yn dibynnu ar y safle, gellir torri'r cyrs bob blwyddyn neu bob yn ail flwyddyn gan ddefnyddio peiriant torri cyrs arbennig neu gynaeafwyr chwyn dyfrol eraill. Dull arall yw torri â llaw gan ddefnyddio pladur.

Dylid cludo'r cyrs a dorrwyd o'r safle a'i ddefnyddio ar gyfer toi gwellt os yw o ansawdd digon da, neu fel cnwd biomas.

Rhaid gofalu lleihau'r peryglon, yr effeithiau a'r tarfu ar fywyd gwyllt wrth wneud y gwaith. Mae'n bwysig gwarchod adar nythu trwy gyfyngu unrhyw dorri i'r cyfnod rhwng diwedd mis Tachwedd a diwedd mis Mawrth.

Os mai cael gwared ar gyrs yw'r nod, dylai hyn ddigwydd ar ddiwedd yr haf.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Cadw at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid cael gwared ar unrhyw ddeunydd a dorrwyd o'r safle.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Ilosgi cyrs fel dull rheoli.



6744 Plannu Cyrs: Hadau o Glystyrau Presennol

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Hadau neu Risomau o Glwstwr Presennol'. Lle mae dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae gwelyau cyrs yn nodwedd gyffredin o amgylch llawer o lynnoedd a phyllau yng Nghymru, yn ogystal â rhannau o ddyffrynnoedd afon a'r arfordir lle mae'r lefel trwythiad ar wyneb y tir neu'n uwch am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o welyau cyrs yn fach iawn o ran maint, gyda llawer o'r enghreifftiau mwy wedi cael eu colli oherwydd cyfuniad o ddraenio a ffactorau rheoli eraill.

Er bod gwelyau cyrs yn cynnwys amrywiaeth eang o blanhigion, y rhywogaeth bennaf o bell ffordd yw'r cyrs cyffredin (*Phragmites australis*), sy'n gallu ffurfio clystyrau trwchus gyda haen sylfaen drwchus o goesynnau pydredig a deiliach marw. Dros amser, mae'r deiliach marw yn cronni ac yn peri i'r gwely cyrs godi uwchben y lefel trwythiad. O ganlyniad, mae llwyni fel helyg a bedw yn gallu dechrau cytrefi. Mae rheoli prysgwydd o'r fath yn aml yn angenrheidiol er mwyn cynnal gwerth gwelyau cyrs i fywyd gwyllt.

Mae adar sydd fel arfer yn gysylltiedig â gwelyau cyrs yn cynnwys telor yr hesg, telor y cyrs a'r rhegen ddŵr. Mae safleoedd ehangach a mwy diarffordd yn gallu denu aderyn y bwn neu delor Cetti hefyd. Mae gwelyau cyrs hefyd yn cefnogi amrywiaeth o blanhigion prin ac infertebratau.

Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r gwaith o blannu cyrs yn cwmpasu'r camau canlynol:

Paratoi safle

Plannu'r risomau cyrs

Ôl-ofal

Gallai'r gwaith paratoi gynnwys tynnu uwchbridd ac yna codi lefelau dŵr gan ddefnyddio byndiau neu lifddorau, ac mae taliadau cyfalaf ar gael ar gyfer hynny. Dim ond o dan arweiniad Swyddog Cymorth Maes y dylid gwaredu uwchbridd ar briddoedd mawn, a defnyddio'r dull hwn ar briddoedd mawn yn fwy cyffredinol.

Mae'n bosibl holi Cyfoeth Naturiol Cymru am gyngor ychwanegol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi

gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Gwaith Paratoi

Mae rheoli llystyfiant cystadleuol yn ffactor pwysig wrth sefydlu gwely cyrs. Mae'n bosibl rheoli chwyn trwy waredu llystyfiant presennol a gorlifo'r safle â dŵr. Bydd llifogydd hirhoedlog trwy sawl tymor tyfu hefyd yn helpu i reoli rhywogaethau diangen.

Plannu Rhisomau

Mae plannu'n digwydd trwy daenu pridd sy'n cynnwys rhisomau. Mae angen cael gafael ar risomau o safle gydag amodau tyfu tebyg, yn ddelfrydol o ran arall o'r un safle neu o leoliad cyfagos.

Rhaid i chi sicrhau caniatâd perchennog y safle rhoi ar gyfer unrhyw gynaeafu o'r fath cyn dechrau ar y gwaith, a gwneud yn siŵr nad yw'r pridd yn cynnwys unrhyw ddeunydd rhywogaethau estron.

Cloddiwch yr uwchbridd o wely cyrs presennol i ddyfnder o tua 30-50cm, gan sicrhau bod y rhisomau yn bresennol ac wedi'u hamddiffyn gan bridd. Taenwch y pridd i ddyfnder o 25cm o leiaf ar draws y safle newydd, gan sicrhau bod y pridd yn llaith ond nid yn ddirlawn. Peidiwch â gadael i'r safle sychu.

Dylid gwneud y gwaith dros y gaeaf, yn ddelfrydol rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror, pan fydd planhigion yn segur. Y nod yw sicrhau isafswm dwysedd o 20,000 o blanhigion yr hectar (sy'n cyfateb i fwllch o 70cm rhwng planhigion).

Mae lefel y dŵr yn hanfodol, gan fod llifogydd a diffyg dŵr yn gallu lladd planhigion ifanc. Yn ddelfrydol, dechreuwch gyda phridd llaith lle mae'r lefel trwythiad ar wyneb y tir neu fymryn oddi tano. Unwaith y bydd egin rhisomau wedi datblygu, mae angen gorlifo'r safle i ddyfnder bas, gan sicrhau bod traean uchaf yr egin uwchben y dŵr; bydd hynny'n cynnal y cyflenwad ocsigen i'r gwreiddiau. Mae'r canlyniadau ar eu gorau mewn dyfnder dŵr o ddim mwy na 5cm.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

gor-drin y rhisomau neu eu storio am fwy nag wythnos.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Ôl-ofal

Mae ôl-ofal yn hanfodol gyda gwelyau cyrs sydd newydd eu plannu. Cystadleuaeth gan blanhigion diangen yw'r broblem fwyaf, ond mae angen ystyried colledion pori a ffactorau hinsawdd hefyd.

Cystadleuaeth gan Blanhigion

Y dulliau arferol ar gyfer delio â phlanhigion diangen yw gwaredu â llaw, neu lifogydd dan reolaeth. Mae llifogydd dan reolaeth hyd at 5cm o ddyfnder, gan gadw traean uchaf y cyrs uwchben y ddŵr, yn ddull effeithiol o reoli planhigion fel danadl poethion ac ysgall nad ydynt yn goddef llifogydd.

Colledion Pori

Mae'n bosibl plannu cyrs ar ddwysedd uwch i wneud iawn am golledion oherwydd anifeiliaid sy'n pori. Gellir codi ffensys addas i warchod rhag adar, cwningod a cheirw lle bo hynny'n briodol.

Tywydd

Mae cyflenwad digonol o ddŵr trwy gydol haf sych yn hanfodol.

6745 Adleoli Dipiau Defaid a Chorlannau Dal i Safle Gwell

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Adleoli dipiau defaid a chorlannau dal i safle gwell'.

Mae ymchwil wedi dangos y gall llygredd o ddip defaid fod yn un o brif achosion niwed, er enghraifft, i lystyfiant, priddoedd, cyrsiau dŵr a dŵr daear, yn ogystal ag i iechyd y cyhoedd. Os darperir cyfleusterau da, gellir trin a dipio defaid heb fawr o straen, ymdrech a risg llygredd.

A. **Adleoli dipiau defaid, gan gynnwys unrhyw gorlannau dal**

Mae'r taliad hwn yn berthnasol ar gyfer adleoli dip defaid presennol a chorlannau cysylltiedig i safle mwy addas.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:-

Addasrwydd y safle

Cytunwch ar leoliad ac addasrwydd y safle gyda'ch Swyddog Cymorth Maes a thrwy ddilyn canllawiau gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Chod Ymarfer Dŵr Daear Llywodraeth Cymru: Dip Defaid.

Mae hyn hefyd yn berthnasol wrth ddefnyddio offer dipio symudol neu drin defaid gyda chwistrellau a chynhyrchion arllwys.

Ni ddylech osod ar dir wedi'i lenwi'n amhriodol neu amodau tir anaddas eraill, mawn, tir meddal neu dir sy'n agored i ymsuddiant.

Dewiswch safle yn agos at gyflenwad dŵr piben neu safle y gellir ei gyrchu i ddefnyddio bowser wedi'i lenwi o gyflenwad amgen.

Rhaid i chi gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru os ydych yn bwriadu dipio ar dir sy'n rhan o safle gwarchodedig.

Rhaid i chi beidio â defnyddio baddonau dipio neu gorlannau diferu ar ffyrdd neu draciau, neu ar lethr sy'n draenio'n uniongyrchol tuag at gwrs dŵr.

Cyfleusterau dipio a draenio

Dyluniwch ac adeiladwch i atal llygredd dŵr. Cyfeiriwch at God Diogelu Dŵr Daear Cymru: Dip Defaid, a Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016, y Cod Dŵr, y Cod Gwyrdd a Chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cydymffurfiwch â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar storfeydd cemegol a chyfleusterau golchi.

Bydd gosod y dip defaid a'r corlannau mewn adeilad sydd wedi'i ddylunio ar gyfer hynny yn dileu glawiad a phroblemau gorlifo posibl

Os nad yw dip defaid dan do, dylech sicrhau nad yw'n llenwi â dŵr glaw. Dylai gorchuddion glaw fod ar gael. Efallai y bydd angen tanc sy'n dal dŵr o dan y ddaear i gasglu a storio dŵr ffo halogedig

Dyluniwch ac adeiladwch yr adeilad i gydymffurfio â BS 5502 Rhannau 22 a 41

Dyluniwch gorlannau a rhwystrau i fodloni'r safonau lles ar gyfer defaid

Gwnewch gorlannau diferu yn ddigon mawr i ddal pob grŵp am 10 munud ar ôl dipio. Dylid cyfeirio'r hyn sy'n draenio o ardaloedd corlannau yn ôl i'r baddon dipio

Darparwch redfa i arwain y defaid i'r dip

Adeiladwch loriau concrit anathraidd gydag uniadau gwrth-ddŵr i'r ardal dipio a'r corlannau diferu. Defnyddiwch gymysgedd concrit RC40 i BS5328 a selwyr uniadau i BS 6213.

Siapiwch y lloriau fel bod gollyngiadau yn cael eu casglu a'u draenio yn ôl i'r baddon dipio. Rhaid i'r sianeli casglu beidio â gollwng dŵr

Ni ddylai'r baddon dipio fod â thwll draenio

Dylai'r dip fod â llethr mynediad i helpu i leihau sblasio

Gosodwch sgriniau mewn mannau mynediad a mannau eraill lle gallai gweithwyr gael eu sblasio

Darparwch gyflenwad dŵr piben ar gyfer ychwanegu dŵr, diheintio a rinsio. Gofalwch na all y cemegau dipio seiffno yn ôl i'r bibell

Rhaid i'r baddon dipio fod yn anathraidd. Defnyddiwch faddon a weithgynhyrchwyd sy'n cydymffurfio â BS 5502 ac sydd dan warant i aros yn anathraidd am hyd at 20 mlynedd. Mae dipiau crwn a hirsgwar ar gael mewn concrit cyfansawdd neu blastigau wedi'u hatgyfnerthu â gwydr. Ymgynghorwch â'r gwneuthurwr am yr angen i amgylchynu'r dip â choncrit o dan lefel y ddaear i roi cryfder ychwanegol, yn enwedig os yw tractorau trwm neu danceri yn debygol o gael eu defnyddio wrth ymyl y dip. Rhoddir amodau llwytho ar gyfer tanciau tebyg yn BS 5502 Rhan 50

Peidiwch â cheisio adeiladu'r baddon dipio eich hun; mae'n well defnyddio baddon a weithgynhyrchwyd mewn ffatri, yn ddelfrydol o adeiladwaith un darn. Mae adeiladu dip nad yw'n gollwng dŵr yn swydd arbenigol

Rhaid i gyfleusterau dipio fod yn ddiogel i blant i gydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch a rhaid gosod clawr atal plant dros y dip pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Corlannau a rhedfeydd

Dylai corlannau cornelu; sy'n siâp crwn neu ddiemwnt fel arfer sy'n arwain at gorlannau trin neu redfeydd, ddal o leiaf 30 o ddefaid, bod â 0.3m^2 o le i bob dafad a bod â ffensys 1.07m o uchder. Rhaid i ffensys fod yn solet a bod ag wyneb llyfn.

Dylai corlannau trin a ddefnyddir i ddrensio, chwistrellu ac ati fod â 0.3m^2 o le i bob dafad a lled o $0.75 - 1.05\text{m}$. Dylai ffensys fod yn 0.84m o uchder, yn solet a bod ag wyneb llyfn

Dylai rhedfa sydd wedi'i dylunio i drefnu'r defaid mewn un rhes yn arwain tuag at gât ddidoli fod o leiaf 4.50m o hyd, dylai fod ganddi ochrau ar oledf i roi lled o 0.30m ar lefel y llawr a 0.60m rhwng top y ffensys. Dylai fod â ffensys 0.90m o uchder ar gyfer didoli yn unig (ond 0.84m o uchder os caiff ei defnyddio fel rhedfa drin) a rhaid iddynt fod yn solet a bod ag wyneb llyfn

Rhedfa baddon traed; baddon gyda dwy adran yn ddelfrydol. Bydd yr adran gyntaf yn cynnwys dŵr i lanhau'r traed, a bydd yr ail yn cynnwys meddyginiaeth a dylid ei hadeiladu fel rhedfa ddidoli

Corlan ddidoli; dwy yn ddelfrydol. Dylai'r gorlan lai ddal 50% a'r gorlan fwy ddal 75% o nifer y defaid i'w trin ar unrhyw adeg

Corlan sychu; yn arwain o'r corlannau diferu lle gall y defaid sychu cyn mynd allan i bori, a dylai allu dal y ddiadell gyfan


Corlannau dal; rhaid cynnwys y rhain ym mhob uned drin, a dylent allu dal hanner y ddiadell, bod â mynediad at gorlannau didoli a chasglu fel bod modd symud defaid heb eu cymysgu, bod â lled o 4.5m o leiaf, bod â lle o 0.5m^2 i bob dafad a bod â ffensys 1.07m o uchder. Nid oes angen i ffensys fod yn solet.

Cyngor ar gael gwared ar ddip gwastraff

Mae dip gwastraff yn beryglus i iechyd a'r amgylchedd.

Ni ddylid ei waredu i ddŵr daear neu ddyfroedd wyneb o dan unrhyw amgylchiadau.

Dilynwch ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar sut i gael gwared ar ddip gwastraff yn ddiogel: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Sut i gael gwared ar ddip defaid gwastraff](#).



6748 Tynnu Pysgod Bras

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Tynnu pysgod bras'.

Mae tynnu pysgod trwy ddefnyddio rhwydi neu bysgota trydan yn ddull derbyniol o reoli pysgodfeydd mewn rhai achosion. Dim ond gyda chydsyniad Cyfoeth Naturiol Cymru y caniateir y gweithgareddau hyn, ac fe'u gwaherddir oni bai bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi awdurdodiad ysgrifenedig. Dim ond os bydd tynnu pysgod o fudd i ecoleg y llyn/afon ar gyfer stoc pysgod brodorol y gellir cynnwys yr eitem hon. Er enghraifft, gellir defnyddio'r opsiwn hwn lle mae rhywogaethau anffroddorol wedi'u cyflwyno yn y gorffennol i bwl neu lyn a lle mae tystiolaeth o effaith barhaus ar bysgod sy'n bwydo ar waelod y corff dŵr (e.e. dŵr mwdlyd trwy'r flwyddyn a diffyg planhigion tanddwr). Gallai tynnu rhai o'r pysgod arwain at wella ansawdd y cynefin, trwy gynyddu nifer yr infertebratau sy'n bwydo ar blancion.

Rhaid defnyddio contractwr pysgodfeydd arbenigol i dynnu'r pysgod gan ddefnyddio dull priodol (e.e. defnyddio rhwydi sâ'n/electrobysgota) a rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gymeradwyo unrhyw benderfyniad i dynnu pysgod.

Dyma ddolenni i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i gael cyngor ar y gweithdrefnau priodol ar gyfer tynnu pysgod bras.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwneud cais am ganiatâd i stocio, tynnu a chyflenwi pysgod](#)

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Cyn dechrau ar y gwaith

Cyn prynu eitemau neu ddechrau ar y gwaith, mae angen tri dyfynbris ar wahân sy'n amlinellu'r deunyddiau i'w prynu neu'r gwaith sydd i'w wneud.

Rhaid i'r dyfynbrisiau hyn gynnwys dadansoddiad manwl o'r eitemau i'w prynu.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo un o'r dyfynbrisiau hyn a'ch hysbysu o'u penderfyniad yn ysgrifenedig. Dim ond wedyn y gellir prynu'r eitemau neu ddechrau ar y gwaith.

Rhaid i chi ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru a chadw at unrhyw ofynion neu argymhellion a nodir gan y corff, gan gynnwys gwneud cais am yr awdurdodiad cywir.

6749 Aildyfiant Naturiol: Ail-fylchu i ffafrio rhywogaethau llydanddail brodorol

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Aildyfiant Naturiol: Ail-fylchu i ffafrio rhywogaethau llydanddail brodorol'. Lle mae dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir defnyddio'r rhain. Rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylai'r ail-fylchu gael ei wneud gan bobl gymwys er mwyn cynhyrchu dwysedd stocio coed llydanddail y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n adlewyrchu'r amcanion y mae adfywio naturiol yn cael ei reoli ar eu cyfer.

Rhowch flaenoriaeth i rywogaethau llydanddail brodorol i'r safle, wedi'u haddasu'n lleol, dros rywogaethau anffrodorol neu brysgwydd ymledol cystadleuol.

Cadwch rai coesynnau a choediach wedi'u torri ar y ddaear i ddarparu cynefin pren marw ar gyfer infertebratau a ffyngau, ond dylech ei gadw'n glir o'r eginblanhigion a ddewiswyd i leihau cynefinoedd llygod pengrwn.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gwaith sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.


Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Ail-fylchu yw'r broses o dorri coed sydd wedi aildyfu'n agos at ei gilydd ar gyfnod cynnar cyn i'r canopi gau. Yn y ddau achos, bydd diamedr cyfartalog y coesyn yn llai na 7cm. Dim ond unwaith yn yr un lleoliad yn ystod y cynllun gweithrediadau pum mlynedd y bydd ail-fylchu yn cael cymorth grant, a hynny dim ond i gynhyrchu coetir brodorol.

6750 Torri llystyfiant â pheiriant ar rodfeydd a llennyrch at ddiben cadwraeth/brêc rhag tân

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Torri Llystyfiant â Pheiriant ar Rodfeydd a Llennyrch at Ddiben Cadwraeth/Brêc Rhag Tân'. Lle mae dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi eu defnyddio, ond mae rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

At ddibenion y nodyn technegol hwn, mae rhodfa yn fan agored llinellol o fewn coetir, yn deillio o'r angen am fynediad. Gallai rhodfeydd fod â thrac arwyneb caled ar gyfran o'u lled, neu'n fwy cyffredin, heb wyneb, ac maen nhw fel arfer yn cynnwys sawl parth gwahanol. Yn fwyaf cyffredin, mae rhodfeydd yn cynnwys parth glaswelltog yn y canol, gyda llystyfiant a llwyni cymysg ar un ochr neu'r ddwy. Dylid rheoli rhodfa i gynhyrchu porfa fer (porfa is na 20cm) sy'n annog gloënnod byw yn arbennig, ond hefyd infertebratau eraill sy'n darparu bwyd i adar coetir ac ystlumod.



Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Mae rheoli rhodfeydd yn seiliedig ar gyfundrefn torri dau barth, lle mae'r parth canolog yn cael ei dorri o leiaf unwaith y flwyddyn a'r parthau allanol am yn ail bob dwy flynedd. Mae angen i gyfartaledd lled y rhodfa fod yn 5m o leiaf.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Mae arweiniad ychwanegol ar gael yn y Canllawiau UKFS: Arferion Coedwigaeth Cyffredinol 1-3, 9, 12, 14, Coedwigoedd a Bioamrywiaeth 1-2, 25-30.

6753 Creithio i annog coed neu grub i aildyfu'n naturiol o hadau

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Creithio coed neu grub i aildyfu'n naturiol o hadau'. Lle mae dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Bydd y Gwaith Cyfalaf hwn yn cael ei ddefnyddio wrth baratoi safleoedd ar gyfer aildyfiant naturiol addas.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Yr allwedd i aildyfiant naturiol llwyddiannus coed a llwyni yw bod creithio'n cael ei wneud ar adeg briodol o'r flwyddyn, fel arfer tua diwedd yr haf.

Dylid amlygu'r pridd yn yr ardal lle mae angen gwaith creithio gan ddefnyddio peiriant torri ffos â disgiau ('disc trencher'), peiriant creithio lleiniau ('patch scarifier'), cloddiwr neu debyg.

Dylid ymgymryd â gwaith creithio yn ystod y ffenestr y cytunwyd arni gyda'ch swyddog cymorth maes ar gyfer y canlyniadau a ddymunir.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Ymgymryd â gwaith creithio ar safleoedd hanesyddol

Ymgymryd â gwaith creithio yn ystod tymor nythu adar (1 Mawrth i ganol mis Awst)

6754 Clirio Prysgwydd/Coed: Â Llaw

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael Taliad ar gyfer 'Clirio Prysgwydd/Coed: Â Llaw'. Mae prysgwydd yn gallu bod yn gynefin pwysig a dymunol. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Torrwch goed a phrysgwydd ar lefel y ddaear, heb adael unrhyw foncyffion ymwithiol, gan ddefnyddio llifiau, lopwyr neu lifiau cadwyn. Fel arall, tynnwch eginblanhigion bach gan ddefnyddio offer codi gwreiddiau coed neu dynnu â llaw. Wrth dynnu, gwnewch yn siŵr bod y gwreiddyn yn dod yn rhydd yn hytrach na'r eginblanhigyn yn torri, neu bydd aildyfiant yn digwydd.

Wrth wneud gwaith clirio prysgwydd rhannol (e.e. ar ymyl rhostir neu fawndir neu wrth dorri clwstwr trwchus o brysgwydd yn flociau llai), gwnewch yn siŵr bod ymylon y prysgwydd yn dal i edrych yn naturiol ac anwastad. Mae baeau bach a lleoliadau cysgodol eraill yn arbennig o werthfawr i loŷnnod byw a bywyd gwyllt arall.

Peidiwch â thorri dim mwy na thraean o'r prysgwydd ym mhob blwyddyn.

Rhaid i chi ofyn am gyngor gan Swyddog Cymorth Maes os yw rhywogaethau gwarchodedig fel moch daear a phathewod yn debygol o fod yn bresennol.

Dylid tynnu deunydd wedi'i dorri oni bai i chi gytuno fel arall â'r Swyddog Cymorth Maes neu fod y gwaith yn cael ei wneud i reoli coetir. Mae'n hawdd iawn i bentyrrau o goediach dagu planhigion llawr. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid pentyrru deunydd wedi'i dorri'n ofalus o dan brysgwydd sy'n weddill ac nad oes bwriad i'w waredu. Mae wedyn yn gallu cael ei adael i bydru a chynnig cysgod ychwanegol i fywyd gwyllt neu i greu cynefinoedd bychan i bryfed mewn mannau heulog. Fel arall, mae'n bosibl llosgi deunydd wedi'i dorri, ar ôl cytuno ar leoliadau ymhell i ffwrdd o glystyrau prysgwydd a choed.

Os yw prysgwydd wedi sefydlu ers sawl blwyddyn, mae'n bosibl y bydd angen cael gwared ar yr haen o domwellt sydd wedi cronni. Mae hyn yn arbennig o wir gydag eithin – mae'r dail a'r nodwyddau yn gallu creu haen drwchus iawn o domwellt.

Ni ddylid tynnu bonion/ymledyddion â llaw e.e. batog/rhaw heb i'ch Swyddog Cymorth Maes gytuno.

Mae'n bosibl y bydd angen trin naill ai'r bonyn wedi'i dorri neu'r aildyfiant perthog gyda chwynladdwr addas, ond mae'n rhaid i Swyddog Cymorth Maes gytuno i hynny.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan

ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Clirio prysgwydd yn ystod y tymor nythu adar, 1 Mawrth i 31 Awst.

Tynnu boncyffion gan ddefnyddio peiriannau trwm.

Llosgi prysgwydd sy'n sefyll heb gytundeb ysgrifenedig Swyddog Cymorth Maes.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manyleb uchod:

Mae prysgwydd yn cynnwys llwyni coediog neu goed fel y ddraenen wen, helyg, eithin a bedw sy'n rhywogaethau arloesol neu fanteisgar. Mae angen rheoli a/neu waredu prysgwydd lle mae'n bygwth disodli cynefinoedd bywyd gwyllt mwy gwerthfawr, yn achosi difrod i olion archaeolegol neu'n cuddio llwybrau sy'n cynnig mynediad i'r cyhoedd.

Er bod taliadau cyfalaf ar gael ar gyfer clirio prysgwydd, mae llawer o ardaloedd o brysgwydd â gwerth tirwedd a bywyd gwyllt sylweddol eu hunain.

Ar ôl torri, bydd llawer o rywogaethau yn ymateb trwy dyfu egin newydd yn hytrach na marw'n llwyr. Mae'n bosibl rheoli'r twf hwn trwy bori neu dorri, ond efallai y bydd angen trin naill ai'r bonyn a dorrwyd neu'r aildyfiant perthog gyda chwynladdwr addas adeg y gwaith torri.

Defnyddio Chwynladdwyr

Mae'n bosibl y bydd angen trin naill ai'r bonyn wedi'i dorri neu'r aildyfiant perthog gyda chwynladdwr addas, ond mae'n rhaid i Swyddog Cymorth Maes gytuno i hynny.

Rhaid i unrhyw gemegyn sy'n cael ei ddefnyddio fod â label sy'n ei argymhell ar gyfer trin prysgwydd (naill ai aildyfiant neu fonion a dorrwyd) a'r dull arfaethedig o'i ddefnyddio. Dylid glynu'n llym at holl argymhellion label y gwneuthurwr ar gyfer defnyddio'r chwynladdwr.

Dilynwch argymhellion y [cod ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion](#).

Clirio Prysgwydd ar Safleoedd Archaeolegol

Mae nodweddion archaeolegol fel beddrodau, caerâu, pentrefi canoloesol anghyfannedd neu gloddiau ffin syml hyd yn oed yn aml yn cael eu cadw orau o dan orchudd glaswellt neu rostir. Cyfundrefn pori neu dorri gwair ysgafn yw'r cyfan sydd ei angen i gynnal y gorchudd hwn ar ôl tynnu prysgwydd.

Rhaid i chi sicrhau nad yw'r gwrthgloddiau yn dioddef unrhyw darfu a bod gorchudd o laswellt neu rostir yn cael ei ailsefydlu'n gyflym.

6755 Clirio Prysgwydd/Coed: Â Pheiriant

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Clirio Prysgwydd/Coed: Â Pheiriant'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Torrwch brysgwydd ar lefel y ddaear, heb adael unrhyw fonion ymwithiol, gan ddefnyddio peiriannau.

Wrth wneud gwaith clirio prysgwydd rhannol (e.e. ar ymyl rhostir neu fawndir neu wrth dorri clwstwr trwchus o brysgwydd yn flociau llai), gwnewch yn siŵr bod ymylon y prysgwydd yn dal i edrych yn naturiol ac anwastad. Mae baeau bach a lleoliadau cysgodol eraill yn arbennig o werthfawr i loŷnnod byw a llawer o infertebratau eraill.

Dylid cadw deunydd wedi'i dorri ar y safle, ond i ffwrdd o gynefinoedd gwerthfawr lle bo hynny'n bosibl, oni bai i chi gytuno fel arall â'r Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid i chi ofyn am gyngor gan Lywodraeth Cymru os yw rhywogaethau gwarchodedig, fel moch daear, yn debygol o fod yn bresennol.

Ni ddylid tynnu bonion/ymledyddion heb i'ch Swyddog Cymorth Maes gytuno i hynny.

Mae'n bosibl y bydd angen trin naill ai'r bonyn wedi'i dorri neu'r aildyfiant perthog gyda chwynladdwr addas, ond mae'n rhaid i Swyddog Cymorth Maes gytuno i hynny.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Clirio prysgwydd yn ystod y tymor nythu adar, 1 Mawrth i 31 Awst.

Llosgi prysgwydd heb gytundeb ysgrifenedig gan Swyddog Cymorth Maes.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manyleb uchod:

Mae prysgwydd yn cynnwys llwyni coediog neu goed fel y ddraenen wen, helyg, eithin a bedw sy'n rhywogaethau arloesol neu fanteisgar. Mae angen rheoli a/neu waredu prysgwydd lle mae'n bygwth disodli cynefinoedd bywyd gwyllt mwy gwerthfawr, yn achosi difrod i olion archaeolegol neu'n cuddio llwybrau sy'n cynnig mynediad i'r cyhoedd.

Er bod taliadau cyfalaf ar gael ar gyfer clirio prysgwydd, mae llawer o ardaloedd o brysgwydd â gwerth tirwedd a bywyd gwyllt sylweddol eu hunain.

Ar ôl torri, bydd llawer o rywogaethau yn ymateb trwy dyfu egin newydd yn hytrach na marw'n llwyr. Mae'n bosibl rheoli'r twf hwn trwy bori neu dorri, ond efallai y bydd angen trin naill ai'r bonyn a dorrwyd neu'r aildyfiant perthog gyda chwynladdwr addas.

Defnyddio Chwynladdwyr

Mae'n bosibl y bydd angen trin naill ai'r bonyn wedi'i dorri neu'r aildyfiant perthog gyda chwynladdwr addas, ond mae'n rhaid i Swyddog Cymorth Maes gytuno i hynny.

Rhaid i unrhyw gemegyn sy'n cael ei ddefnyddio fod â label sy'n ei argymhell ar gyfer trin prysgwydd (naill ai aildyfiant neu fonion a dorrwyd) a'r dull arfaethedig o'i ddefnyddio. Dylid glynu'n llym at holl argymhellion label y gwneuthurwr ar gyfer defnyddio'r chwynladdwr.

Dilynwch argymhellion y [cod ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion](#).

Clirio Prysgwydd ar Safleoedd Archaeolegol

Mae nodweddion archaeolegol fel beddrodau, caerau, pentrefi canoloesol anghyfannedd neu gloddiau ffin syml hyd yn oed yn aml yn cael eu cadw orau o dan orchudd glaswellt neu rostir. Cyfundrefn pori neu dorri gwair ysgafn yw'r cyfan sydd ei angen i gynnal y gorchudd hwn ar ôl tynnu prysgwydd.

Rhaid i chi sicrhau nad yw'r gwrthgloddiau yn dioddef unrhyw darfu a bod gorchudd o laswellt neu rostir yn cael ei ailsefydlu'n gyflym.

6766 Trapiau Gwaddodion

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Trapiau Gwaddodion'.

Mae rhai ardaloedd e.e. traciau fferm neu goedwigaeth/coetir, llwybrau tractor neu lethrau naturiol mewn caeau yn gallu cyflymu llif trostir, gan arwain at lifogydd lleol a cholli pridd. Mae'r opsiwn hwn yn un o nifer o ddulliau sydd ar gael i helpu i leihau'r broblem hon, ond ni ddylid ei ddefnyddio ar draul rheoli eich priddoedd yn briodol.

Mae trapiau gwaddodion yn casglu dŵr ffo o draciau a chaeau trwy arafu symudiad y dŵr trwy lwybrau penodol sy'n helpu i leihau llifogydd lleol, cipio gwaddodion a lleihau'r effeithiau ar dderbynyddion sensitif. Maen nhw hefyd yn darparu manteision cadarnhaol ychwanegol i gadwraeth natur a gwerth tirwedd ar raddfa fferm.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Lleolwch y ffos, y bwnd neu'r llwybr llifogydd sy'n creu'r trap gwaddodion ger pwynt dŵr ffo fel trac fferm neu goedwigaeth/coetir, neu ar bwynt sy'n tarddu o lwybrau tractor.

Os yw'n bosibl, ceisiwch leoli trap o fewn lleiniau clustogi glaswellt presennol.

Dylai'r trap gwaddodion fod oddeutu 8 metr o hyd x 8 metr o led x 1 metr o ddyfnder (mesuriadau mewnol) ac yn ddelfrydol wedi'i greu o bridd â chynnwys clai uchel.

Mae angen atgyfnerthu ochrau'r byndiau sy'n ffurfio'r trap, er mwyn gorfodi dŵr i ymdreiddio i'r dŵr daear a thrwy hynny waredu gwaddodion.

Plannwch hadau rhywogaethau glaswellt brodorol yn y byndiau sy'n ffurfio'r trap. Mae angen tocio bob blwyddyn neu bob dwy flynedd ar ôl 31 Gorffennaf i atal tyfiant prysgwydd ac i osgoi tarfu ar adar sy'n nythu.

Gwaredwch y gwaddodion bob dwy i bum mlynedd. Bydd dyddodiad gwaddodion yn dibynnu ar gyfradd dŵr ffo, y math o bridd ac amodau tywydd. Taenwch y gwaddodion mor denau â phosibl ar dir â'r neu wyndynnydd dros dro.

Dylech gael yr esemptiad gwastraff perthnasol. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cofrestru neu adnewyddu eich esemptiadau gwastraff.](#)

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi ymgynghori'n llawn â Cyfoeth Naturiol Cymru a dilyn eu hargymhellion ynglŷn â'r gwaith cyfalaf hwn. Mae'n rhaid cyflwyno'r dystiolaeth hon ynghyd â'ch Ffurflen Hawlio Gwaith Cyfalaf cyn cael taliad am eich gwaith cyfalaf.

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i ofalu nad yw eich gweithgarwch yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethgu'r perygl o lifogydd sy'n bodoli eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithgarwch sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Tynnu gwrychoedd

Dargyfeirio dŵr ffo o briffordd gyhoeddus.

Pentyrru gwaddodion a waredwyd o'r trap mewn twmpathau, gan y byddant yn gyforiog o faethynnau, ac felly'n gyfrwng tyfu addas ar gyfer chwyn niweidiol fel danadl poethion, tafol llydanddail ac ysgall y maes.


Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Mae'r opsiwn hwn yn addas ar gyfer pob system defnydd tir fel tir âr, garddwriaeth, glaswelltir a choedwigaeth lle mae llif trostir a cholli pridd yn problem.

Mae'n hawdd cynnwys lleiniau clustogi dŵr ffo mewn systemau ymylon caeau presennol heb fawr o darfu ar gynefinoedd cyfredol a'r ardal cnydau.

Mae llif dŵr ffo yn cael ei ailgyfeirio drwy gwlfertau, dargyfeiryddion dŵr ar draws y ffordd neu bantiau. Mae'r llif yn arafu, a hynny'n caniatáu i waddodion setlo yn y trap gwaddodion.

Ni ellir defnyddio'r opsiwn hwn ar gyfer buarthau fferm lle mae siediau da byw, symudiadau da byw neu dail yn cael ei storio.




6767 Rhwystr Diferion

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Rhwystr Diferion'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Mae rhwystrau diferion yn dal dŵr ffo o draciau a chaeau, a fydd yn helpu i leihau llifogydd lleol a lleihau'r effaith ar ardaloedd sensitif. Maen nhw hefyd yn ehangu ac yn ategu rhwydweithiau ymylon cae presennol ac yn integreiddio i weithrediadau amaethyddol cyfredol heb orfod ildio tir sylweddol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Cytunwch ar leoliad addas gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. ***Lleoli mewn ffosydd cam 1.***





Ewch ati i greu rhwystr yn y ffos heb fod yn fwy na 4m o led ac 1m o uchder. Dylid gosod slatiau pren (wedi'u trin o dan wasgedd) naill ai'n fertigol neu'n llorweddol (os yw'n llai na 2m o led) gan adael bwch o 1 neu 2mm rhwng pob un. Effaith hynny yw y dylai'r dŵr dreiddio trwy'r rhwystr dros gyfnod o amser. Mae'n bwysig bod y dŵr yn treiddio rhwng y slatiau, er mwyn hwyluso symudiad dŵr. Mae'n bosibl defnyddio trawstiau dur wedi'u galfaneiddio fel pyst ar gyfer dal y slatiau. Gallwch ddefnyddio deunyddiau naturiol o goetir neu wrychoedd lleol, neu rwystrau o blastig wedi'i ailgylchu. Rhaid i'r slatiau fod yn ddigon cryf i wrthsefyll grym llif dŵr cyflym ac yn ddigon gwydn i bara hyd y dyfarniad grant.

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i ofalu nad yw eich gweithgarwch yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethgu'r perygl o lifogydd sy'n bodoli eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd

neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.


Mae angen i chi ystyried sut gall eich cynnig effeithio ar lif, lefelau neu gyfaint y dŵr. Lle gallai creu cronfa newydd, neu addasu neu ddileu cronfa bresennol, arwain at newidiadau parhaol neu dros dro yn lefel y dŵr, cyfaint y dŵr neu barhad y llif, bydd angen trwydded cronni fel arfer. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y gweithgarwch wedi'i eithrio o dan ddarpariaethau statudol perthnasol neu os yw'n bosibl dangos ei fod yn waith risg isel, heb fawr o effaith ar yr amgylchedd, defnyddwyr dŵr eraill a hawliau. Dylech gyfeirio at y wybodaeth a'r rhestr wirio [yma](#) i benderfynu a oes angen trwydded. Os ydych chi'n ateb unrhyw un o'r cwestiynau ar y rhestr wirio yn gadarnhaol, dylech wneud cais am drwydded cronni. Os ydych chi'n ateb bob cwestiwn yn negyddol, neu os gallwch ddarparu digon o dystiolaeth ategol neu gyfiawnhad i ddangos na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol, ni fydd angen trwydded fel arfer. Os nad ydych yn siŵr a oes angen trwydded arnoch, gallwch ofyn am gyngor cyn ymgeisio yn [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais ar gyfer trwyddedau tynnu a chronni dŵr](#).

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Trin pren gyda chynhyrchion cadw pren cemegol gan eu bod yn wenwynig i fywyd dyfrol.

Lleoli rhwystrau ger tai ac adeiladau er mwyn lleihau'r risg o lifogydd lleol.

Adeiladwaith rhwystr diferion.



Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dylid lleoli rhwystrau diferion mewn ffos lle mae'r tir ar y ddwy ochr iddi o dan reolaeth y ffermwr, a lle mae risg isel i dir neu eiddo pe bai'r rhwystr yn achosi llifogydd lleol.

Mae rhwystrau diferion yn gallu storio hyd at 25m³ o ddŵr a gwaddodion, a mwy os yw'r ffos yn un â graddiant isel. Dim ond yng nghamau uchaf cyntaf ffosydd y dylid eu lleoli, ac ni ddylid eu hadeiladu ar gyrsiau dŵr naturiol. Y lleoliad gorau i'r opsiwn hwn yw lle mae'r system ffosydd yn cario llif cyflym o ddŵr yn ystod cyfnodau o law trwm. Byddai nifer y rhwystrau mewn unrhyw ffos unigol yn dibynnu ar y graddiant, gyda mwy o rwystrau ar raddiant mwy serth.

Mae'r rhain yn addas i'w lleoli wrth ymyl trac gyda ffos yn rhedeg yn gyfochrog, ac mae'n bosibl eu cysylltu â llain glustogi dŵr ffo.

Mae'r opsiwn hwn yn addas ar gyfer pob system defnydd tir fel tir â, garddwriaeth, glaswelltir a choedwigaeth.



Rhwystyr diferion ar draws ffos.

6768 Profi Pridd: Maethynnau a pH

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Profi pridd: Maethynnau a pH'.

Cefndir

Mae dadansoddiad cemegol o briddoedd yn angenrheidiol i nodweddu'r pridd sy'n cael ei astudio'n fanwl gywir a hwyluso argymhellion cywir ar gyfer defnyddio gwrtaith neu greu cynefin. Wrth samplu cae, mae'n hanfodol bod y sampl a gymerir yn gynrychiadol h.y. mae tebygolrwydd uchel y byddai sampl debyg a gymerir yn yr un modd yn cynhyrchu dadansoddiad cemegol tebyg.

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r offer a'r technegau i'w defnyddio i gymryd samplau pridd cynrychiadol ar gyfer dadansoddi pH a maethynnau. Bydd y sampl a gymerir hefyd yn addas ar gyfer mathau eraill o ddadansoddiadau e.e. cynnwys deunydd organig a gweadedd.

Mae angen i chi gadw at y canlynol:

Paratowch fagiau sampl gydag enw'r cae, rhif y sampl a'r dyddiad. Efallai y bydd angen mwy nag un sampl arnoch os ydych chi'n gwybod bod eich priddoedd yn y cae yn amrywio'n sylweddol

Pennwch pa strategaeth samplu rydych yn mynd i'w defnyddio.

Gofalwch eich bod yn gwybod pa faint sampl sydd ei angen ar eich labordy a nodwch yr wybodaeth sydd angen i chi ei hanfon gyda'r sampl.

Deunyddiau a chyfarpar

Yn ddelfrydol, dylid cymryd samplau pridd gyda'r offer canlynol:

Taradr

Taradr sgrïw (gweler Atodiad 2). NID yw taradr sgrïw yn addas ar gyfer samplu glaswelltir neu briddoedd heb eu trin e.e. planhigfeydd ffrwythau

Digreiddiwr caws (gweler Atodiad 2). Addas ar gyfer y rhan fwyaf o gnydau ac amodau pridd. Mae digreiddwyr llaw heb far troed yn addas ar gyfer priddoedd mawnog

Digreiddiwr pot (gweler Atodiad 2). Fe'i defnyddir yn bennaf ar gyfer samplu glaswelltir

Digreiddiwr tiwbaid (gweler Atodiad 2). DIM OND yn addas ar gyfer priddoedd di-gerrig neu briddoedd gydag ychydig iawn o gerrig gyda diamedr tua hanner diamedr tiwb y digreiddiwr.

Sbatwla pridd, i'w ddefnyddio gyda digreiddiwr caws

Pren mesur wedi'i raddio mewn cm

Sbaner addasadwy (i'w ddefnyddio gyda'r digreiddiwr tiwbaid)

Bwced neu bot ar gyfer cyfuno'r is-samplau a gasglwyd a'u cymysgu cyn cymryd is-sampl i'w anfon i'w ddadansoddi

Bagiau polythen glân newydd 300 x 200mm i 500 x 400mm sy'n ddigon mawr i ddarparu'r maint sampl sy'n ofynnol gan eich labordy

Bandiau rwber neu rwymynnau

Labeli i'w clymu ar y bag neu labeli neu hunan-adlynol

Pen marcio parhaol

Map o gaeau'r fferm gydag enwau'r caeau fel y bo'n briodol

Gweithdrefn

Ystyriaethau diogelwch

Mae risg o gael tetanws o'r pridd. Dylai unrhyw un sy'n cymryd samplau pridd sicrhau eu bod wedi cael yr holl bigiadau angenrheidiol i amddiffyn eu hunain rhag haint tetanws.

Mae gan offer samplu pridd effeithlon ymylon miniog; dylid bod yn ofalus wrth eu defnyddio.

Gall anafiadau cefn ddigwydd wrth ddefnyddio offer samplu pridd. Gellir lleihau'r risg hon trwy ddefnyddio'r offer cywir a thechneg godi dda h.y. cadw'r cefn yn syth a phlygu'r pengliniau. Os nad ydych yn siŵr o'r dechneg hon neu os nad ydych wedi defnyddio offeryn samplu pridd o'r blaen, rhaid i chi sicrhau eich bod yn cael hyfforddiant llawn cyn cymryd samplau pridd.

Pryd i gymryd samplau

Gadewch cyn hired â phosibl ers y tro diwethaf i chi roi gwrtaith neu dail ar y cae. Samplwch ar ôl i'r gwrtaith neu'r tail fynd i mewn i'r pridd. **PEIDIWCH** â samplu o fewn tri mis i roi calch, gwrtaith neu dail. Peidiwch â chynnwys gweddillion cnydau neu laswellt yn y sampl a chofiwch dynnu unrhyw gerrig

Labelu

Dylai labeli gynnwys enw/rhif y cae, enw'r fferm/fffermwr, dyfnder y samplu os yw'n ddyfnach na 0-15cm a'r dyddiad samplu. Argymhellir tri dull amgen o adnabod samplau:-

- a) Ysgrifennu'n uniongyrchol ar y bag polythen gyda phen marcio parhaol.
- b) Ysgrifennu ar labeli hunan-adlynnol neu labeli i'w clymu ar y bag.
- c) Argraffu labeli hunan-adlynnol gan ddefnyddio cyfrifiadur gyda meddalwedd labelu ac argraffydd addas.

Lle bo hynny'n briodol, rhwch label ychwanegol yr un fath ym mhob bag i roi sicrwydd ychwanegol. Dylai'r label hwn fod yn wrth-ddŵr e.e. wedi'i lapio mewn bag polythen tenau

Canllawiau ar gyfer cymryd samplau pridd cynrychiadol o gaeau

Dylai pob sampl gynnwys dim llai na 25 craidd o bridd wedi'u cymryd o bwyntiau gwahanol, wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws yr ardal sydd i'w samplu, waeth beth fo'i maint. Defnyddiwch drawsliniad patrwm grid rheolaidd neu siâp 'W'. Mae Atodiad 1 yn rhoi enghreifftiau o gynlluniau samplu addas.

Dylai'r samplau sy'n cael eu casglu gael eu cymysgu'n drylwyr ac yna dylid cymryd is-sampl o'r cymysgedd i ddarparu'r maint sampl priodol fel y nodwyd gan eich labordy. Ni ddylai unrhyw sampl unigol gynrychioli mwy na 10ha.

Cymerwch samplau ar wahân o ardaloedd sydd â gwahaniaethau hysbys o ran:

- a) Y math o bridd,
- b) Hanes cnydio,
- c) Y defnydd o galch a gwrtaith,
- d) Y defnydd o dail organig,
- e) Ardaloedd o fewn caeau sydd â hanes o berfformi'n well neu'n waeth na gweddill y cae.

Os yw caeau wedi'u hisrannu, marciwch fapiau cae gyda rhaniadau sampl er mwyn gallu eu cyfateb â chanlyniadau yn y dyfodol. Ceisiwch osgoi ardaloedd bach annodweddiadol fel hen

domenni tail, pentiroedd, bylchau cae, safleoedd tân, o amgylch coed, o amgylch cafnau bwydo ac ardaloedd lle mae stoc yn ymgynnull.

Dylid cymryd creiddiau o 0 i 15cm ar gyfer caeau cylchdroi â'r, gwyndynnydd tymor byr a gwyndynnydd tymor hir os ydynt ar fin cael eu haredig. Ar gyfer glaswellt parhaol a gwyndynnydd tymor hir sydd i fod heb eu tarfu a safleoedd creu glaswelltir, dylai'r dyfnder samplu fod rhwng 0 a 7.5cm. Ni ddylid samplu tir wedi'i aredig yn ddiweddar nac arwynebau crib eraill (e.e. cribau tatws). Os nad oes modd osgoi hyn am unrhyw reswm, dylid cymryd y sampl i sicrhau bod dyfnder y sampl yn unol â'r hyn sydd ei angen ac nad oes unrhyw isbridd wedi'i gynnwys. Mewn priddoedd â'r rhydd, efallai y bydd angen cywasgu'r pwynt samplu gyda'ch troed i sicrhau dyfnder samplu cyfartal. Os yw'n bosibl, ceisiwch osgoi samplu pan fydd y pridd yn sych iawn.

Cymryd samplau pridd gan ddefnyddio taradr sgrïw

Gan ddilyn patrwm samplu priodol (gweler Ffigur 1), ewch i'r pwynt samplu cyntaf:

Cam 1: Sgrïwiwch y taradr yn fertigol i mewn i'r pridd nes bod y taradr yn cyrraedd y dyfnder samplu gofynnol e.e. sgrïwiwch y taradr i mewn 15cm ar gyfer sampl 0 i 15cm.

Cam 2: Tynnwch y taradr allan o'r ddaear gan gadw'ch pengliniau wedi'u plygu a'ch cefn yn syth.

Cam 3: Archwiliwch y sampl a gafwyd. Os oes unrhyw rannau o bridd ar goll, taflwch y sampl ac ailadroddwch y broses samplu, o fewn 1m i'r pwynt samplu gwreiddiol, nes y ceir sampl heb unrhyw rannau coll.

Cam 4: Tynnwch y sampl pridd o'r taradr a'i roi yn y bag neu'r hambwrdd sampl. Mae technegau yn amrywio ar gyfer trosglwyddo'r pridd o'r taradr i'r bag sampl. Y dechneg fwyaf cyffredin yw dal y taradr dros y bag sampl agored a throi'r taradr gyda'ch llaw dde wrth afael yn ysgafn yn y taradr rhwng bawd a mynegfys eich llaw chwith.

Symudwch i'r pwynt samplu nesaf ac ailadroddwch gamau 1 i 4.

Pan fydd yr holl bwyntiau samplu wedi'u samplu, gellir selio'r bag a'i labelu, os nad yw wedi'i labelu'n barod.

3Cymryd samplau pridd gan ddefnyddio digreiddiwr caws

Gan ddilyn patrwm samplu priodol (gweler Ffigur 1), ewch i'r pwynt samplu cyntaf:

Cam 1: Gydag un droed ar y ddaear a'r llall ar far troed y digreiddiwr, pwyswch y digreiddiwr yn fertigol i'r pridd nes ei fod wedi'i wthio mewn i'r dyfnder samplu gofynnol e.e. pwyswch i mewn i 15cm ar gyfer sampl 0 i 15cm. Cylchdrochwch y digreiddiwr unwaith i dorri silindr fertigol o bridd.

Cam 2: Tynnwch y digreiddiwr allan o'r ddaear, gan gadw'ch pengliniau wedi'u plygu a'ch cefn yn syth.

Cam 3: Archwiliwch y sampl a gafwyd. Os oes unrhyw rannau o bridd ar goll, taflwch y sampl trwy ei grafu oddi ar y digreiddiwr gyda'r sbatwla ac ailadroddwch y broses samplu, o fewn 1m i'r pwynt samplu gwreiddiol, nes y ceir sampl heb unrhyw rannau coll.

Cam 4: Tynnwch y sampl pridd o'r digreiddiwr, trwy ei chrafu gyda'r sbatwla i'r bag sampl.

Symudwch i'r pwynt samplu nesaf ac ailadroddwch gamau 1 i 4.

Pan fydd yr holl bwyntiau samplu wedi'u samplu, gellir selio'r bag a'i labelu, os nad yw wedi'i labelu'n barod.

Cymryd samplau pridd gan ddefnyddio digreiddiwr pot

Gan ddilyn patrwm samplu priodol (gweler Atodiad 1), ewch i'r pwynt samplu cyntaf:

Cam 1: Gydag un droed ar y ddaear a'r llall ar ben y pot, pwyswch y digreiddiwr yn fertigol i'r pridd nes bod gwaelod y pot yn gorffwys ar wyneb y pridd.

Cam 2: Trowch a thynnwch y digreiddiwr allan o'r ddaear, gan gadw'ch pengliniau wedi'u plygu a'ch cefn yn syth.

Symudwch i'r pwynt samplu nesaf ac ailadroddwch gamau 1 i 2.

Ar ôl samplu tua chwe phwynt samplu, tipiwch y pridd sydd wedi ei gasglu yn y pot i mewn i'r bag sampl.

Pan fydd yr holl bwyntiau samplu wedi'u samplu, gellir selio'r bag a'i labelu, os nad yw wedi'i labelu'n barod.

Cymryd samplau pridd gan ddefnyddio digreiddiwr tiwbaid

Defnyddiwch y sbaner a'r pren mesur i addasu lleoliad y plât rheoli dyfnder fel bod y pellter rhwng blaen yr ymyl torri a gwaelod y plât rheoli dyfnder yr un fath â'r dyfnder samplu gofynnol.

Gan ddilyn patrwm samplu priodol (gweler Atodiad 1), ewch i'r pwynt samplu cyntaf:

Cam 1: Gydag un droed ar y ddaear a'r llall ar far troed y digreiddiwr, pwyswch y digreiddiwr yn fertigol i'r pridd nes bod gwaelod y plât rheoli dyfnder yn gorffwys ar wyneb y pridd. Trowch a thynnwch y digreiddiwr allan o'r ddaear, gan gadw'ch pengliniau wedi'u plygu a'ch cefn yn syth.

Cam 2: Tynnwch y sampl pridd trwy dipio'r digreiddiwr ac, os oes angen, pwyswch waelod y sampl pridd yn ofalus gyda'ch bawd, gan adael i'r sampl pridd ollwng i mewn i'r bag sampl.

Symudwch i'r pwynt samplu nesaf ac ailadroddwch gamau 1 i 2.

Pan fydd yr holl bwyntiau samplu wedi'u samplu, gellir selio'r bag a'i labelu, os nad yw wedi'i labelu'n barod.


Anfon samplau i'r labordy

Dylid anfon samplau i labordy achrededig ynghyd â ffurflen cyflwyno samplau i labordy wedi'i llenwi cyn gynted â phosibl ar ôl samplu.


Gofalwch fod y gwaith papur a anfonir gyda'r samplau pridd yn cael ei amddiffyn rhag diraddio ar y daith h.y. ei gadw i ffwrdd o fagiau sampl gwlyb. Rhewch y gwaith papur mewn amlen â chyfeiriad arni a bag polythen glân yn ôl yr angen.

Os na fydd samplau'n cael eu hanfon i'r labordy o fewn 5 diwrnod, dylid eu storio'n ddiogel, yn y tywyllwch, rhwng 1 a 4°C (ni ddylid rhewi samplau).

Noder fod rhaid cadw manylion llawn y labordy a ddefnyddir a'r holl waith papur sy'n ymwneud â'r canlyniadau samplu i'w harchwilio.




☒ Feeding Troughs




⊗ Trees

1. Cae afreolaidd, Patrwm "W" 2. Cae rheolaidd, Patrwm Grid



▨ Straw Stack



⬡ Drinking Trough

3. Cae afreolaidd, Patrwm Grid 4. Cae rheolaidd, patrwm "W"

ATODIAD 2 MATHAU O OFFER SAMPLU PRIDD




Diagram © ADAS 2009

6770 Gât safonol (metel)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gât safonol (metel)'.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gât patrwm saith bar galfanedig 12 troedfedd newydd safonol wedi'i gwneud o ddur galfanedig dip poeth.

Dylai'r rheiliau uchaf ac isaf fod yn diwbiau â diamedr o 41mm o leiaf, a dylai'r rheiliau canol fod o leiaf 32mm. Dylai pyst hongian a bachu fod naill ai'n diwbiau dur galfanedig â diamedr o 88mm neu'n bren caled neu bren meddal wedi'i drin.

200mm sgwâr.

6772 Bwyd adar atodol

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Bwyd adar atodol'.

Gall rhoi hadau allan trwy'r gaeaf ac yn yr haf gefnogi adar sy'n bwyta hadau mewn ardaloedd heb sofr neu gnydau gorchudd adar gwyllt. Mae rhywogaethau megis breision melyn, golfanod y mynydd a llinosiaid y mynydd angen hadau trwy gydol y flwyddyn i oroesi. Bydd darparu hadau o fis Hydref hyd at fis Mawrth yn eu helpu i oroesi'r gaeaf. Mae llinosiaid y mynydd bron yn gwbl ddibynnol ar fwyd hadau ac mae'n fwy buddiol rhoi bwyd atodol iddynt yn y gwanwyn/haf. Felly, dylech ddarparu hadau ar gyfer llinosiaid y mynydd o fis Mawrth tan fis Hydref. Dim ond yn yr haf y dylech roi bwyd atodol os yw'ch fferm o fewn ardal darged llinosiaid y mynydd. Dim ond yn ystod y gaeaf y dylid bwydo pob rhywogaeth arall o adar.

Gellir defnyddio 'tailings', sgil-gynnyrch y broses glanhau grawn, i ategu sofr neu gnydau gorchudd bywyd gwyllt dros y gaeaf. Mae ansawdd y sofr dros y gaeaf yn dibynnu ar faint o hadau sydd ynddo. Yn yr un modd, bydd cnydau gorchudd bywyd gwyllt yn amrywio o ran toreithrwydd yr hadau a gynhyrchir ac, felly, pa mor hir maen nhw'n para fel safle bwydo da. Gellir taenu hadau ar draciau cyfagos i ategu'r ardaloedd bwydo hyn. Gall darparu hadau i adar o fis Chwefror tan fis Ebrill hefyd helpu i lenwi bwlch yn y bwyd sydd ar gael, pan fydd hadnau cnydau gorchudd bywyd gwyllt a sofr y gaeaf wedi'u defnyddio.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Ble i roi gorsaf fwydo

Dylai'r orsaf fwydo fod mewn ardal a ddefnyddir gan adar tir fferm ac yn agos at wrych neu lwyni, fel y gall adar ddod o hyd i orchudd yn gyflym os oes rhywbeth yn aflonyddu arnynt.

Os dewiswch safle agored i ffwrdd o wrychoedd, efallai y byddwch yn denu ehedyddion, ond rydych hefyd yn fwy tebygol o ddenu ysguthanod a brain. Mae ardal heb gnwd megis trac fferm neu ardal o laswelltir byr yn ddelfrydol, gan y byddwch wedyn yn osgoi ailgyflwyno hadau chwyn i'ch tir âr.

Arwyneb cadarn, y mae dŵr yn llifo trwyddo'n rhwydd, sydd orau gan fod llai o risg y bydd yr hadau'n pydru neu'n egino. Mae'n bwysig nad yw'r hadau'n cael eu taenu mewn llystyfiant trwchus, gan fod angen iddynt fod yn weladwy i ddenu'r adar.

Pa fwyd adar i'w ddefnyddio

Dylid newid y dewis o fwyd i weddu i'r adar rydych chi'n eu targedu. Mae breision melyn yn bwydo ar amrywiaeth o hadau, gan gynnwys grawn a hadau chwyn bach. Gellir defnyddio 'tailings' os mai hadau chwyn neu grawn bach ydynt yn bennaf. Gellir defnyddio grawnfwyd pur hefyd, ond mae'n well ganddynt wenith na haidd neu geirch gan nad oes plisgyn. Peidiwch â defnyddio 'tailings' sy'n blisg neu us yn

bennaf gan nad ydynt o fudd i'r adar. Mae'n well gan llinosiaid y mynydd hadau 'Nyjer' (neu Niger) wedi'u gosod mewn iardiau neu ar draciau.

Pryd a sut i fwydo

Ar gyfer pob rhywogaeth o adar, ac eithrio llinosiaid y mynydd, dechreuwch eu bwydo ddechrau mis Hydref fel bod yr adar yn dod i arfer â ffynhonnell fwyd ddibynadwy cyn i'w cyflenwadau bwyd eraill ddod i ben. Daliwch ati i fwydo tan ddiwedd mis Mawrth. Dylid ailgyflenwi'r hadau unwaith yr wythnos trwy gydol y cyfnod. Bydd y galw am hadau yn dibynnu ar faint o adar sy'n cael eu denu a bydd y galw'n uwch mewn cyfnodau o dywydd oer. Dylai'r swm wythnosol cyfartalog o hadau fod yn 20kg/wythnos (500Kg y flwyddyn) neu swm y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel y nodir yn eich dyfarniad grant.

Ar gyfer llinosiaid y mynydd, dechreuwch fwydo gyda hadau nyjer o fis Mawrth tan ddiwedd mis Hydref. Dylid ailgyflenwi'r hadau unwaith yr wythnos trwy gydol y cyfnod. Dylai'r swm wythnosol cyfartalog o hadau nyjer fod yn 8kg/wythnos (200kg y flwyddyn) neu swm y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel y nodir yn eich Cynllun Rheoli.

Peidiwch ag aros mwy nag wythnos cyn rhoi bwyd ffres i lawr. Mae'n syniad da defnyddio darn cyfagos o drac bob tro fel nad yw bwyd newydd yn pentyrru ar ben hen fwyd. Bydd hyn yn lleihau'r risg o glefydau, megis salmonela, yn lledaenu trwy'r poblogaethau adar. Bydd hefyd yn lleihau'r defnydd o'r gorsafoedd bwydo gan gnofilod, gan fod adar tir fferm yn well am ddefnyddio gorsaf fwydo symudol sy'n symud ar hyd trac neu wrych drwy'r gaeaf. Fodd bynnag, os ydych chi'n amau brigiad o achosion o glefyd, megis [Trichomonosis](#), efallai y bydd angen rhoi'r gorau i fwydo neu symud y bwydo i leoliad gwahanol mor bell i ffwrdd â phosibl. Siaradwch â'ch Swyddog Cymorth Maes os ydych chi'n amau brigiad o achosion o glefyd.

6773 Pantiau

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Pantiau'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes. Mae'n ddigon posibl y bydd ardaloedd arbennig ac unigryw fel Gwastadeddau Gwent yn defnyddio dulliau gwahanol, a bydd eich Swyddog Cymorth Maes yn cynnig cyngor am y dulliau hynny yn ôl yr angen.

Mae pantiau yn dir pantiog glaswelltog sy'n arwain dŵr wyneb dros y tir. O'i gymharu â ffos gonfensiynol, mae pant yn fas ac yn gymharol lydan, gan greu lle i gadw dŵr storm dros dro a lleddfu'r llif dŵr pan mae hwnnw ar ei waethaf.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylai'r gwaith gynnwys paratoi'r safle a chloddio'r pant.

Dylech adeiladu'r pant a'r cyfuchlin ar lethr hydredol, fel arfer ar raddiant o ddim mwy na 2°.

Nodwch lwybr y pant ar y ddaear a chloddio i ddyfnder canol o 750mm a lled o 2.5m o leiaf.

Dylid cadw'r uwchbridd ar wahân a'i ddefnyddio yng ngwaelod y pant ac ar y llethrau graddol.

Ni ddylai graddiant y llethrau fod yn fwy serth nag 1 mewn 3.

Cloddiwch lawr y pant am 150–250mm arall a gosod uwchbridd yn lle'r deunydd a gloddiwyd.

Mae angen sefydlu porfa o laswellt trwchus ar ochrau a llawr y pant. Dylid hau cymysgedd hadau ar gyfradd o 25g/m², yn cynnwys hadau rhywogaethau amrywiol o laswellt fel peiswellt coch (70%), gweunwellt llyfn (20%) a maeswellt rhedegog (10%).

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Mae pantiau yn arafu cyfradd y dŵr ffo neu'n cynnig lle i ddal dŵr dros dro. Bydd hyn yn annog dŵr ffo i dreiddio i'r ddaear, yn dibynnu ar amodau pridd a dŵr daear ac anweddiad. Maen nhw hefyd yn trin dŵr ffo drwy ei hidlo gan lystyfiant, drwy'r isbridd a/neu dreiddio i'r pridd islaw.

Mae'n bosibl ychwanegu gwaith cyfalaf arall fel llifddorau, byndiau pridd a rhwystrau diferion i weithredu fel argaeau ataliol i leihau llif dŵr ar lethrau mwy serth. Dylai'r rhain gael eu lleoli yn rheolaidd ar hyd y pant, ond po fwyaf seth yw'r plant, y lleiaf fydd y pellter rhyngddyn nhw.

Mae'n bosibl gofyn am gyngor ychwanegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

At ddibenion hawlio grant, dylai'r gwaith mesur ddechrau ar ymyl fewnol y banc a grëwyd.

6774 Gwella porfa gan ddefnyddio hadau o darddiad lleol (glaswelltir neu rostir)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon ofynnol o waith sydd ei hangen er mwyn cael taliadau 'Gwella porfa gan ddefnyddio hadau o darddiad lleol (glaswelltir neu rostir)'.

Bydd Swyddog Cymorth Maes yn nodi ardaloedd lle gallai cyflwyno hadau brodorol fod yn fuddiol ac yn nodi'r gymuned darged i'w hadfer.

Gwella porfa ar gyfer glaswelltir

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dim ond rhywogaethau sy'n nodweddiadol o'r gymuned sydd i'w hadfer a'r ardal y dylech eu hau. Gall eich Swyddog Cymorth Maes roi rhestr i chi o rywogaethau sy'n addas i ofynion y safle a ffynonellau hadau lleol os ydynt yn hysbys.

Dylech bob amser ofyn am enw'r ffynhonnell a thystiolaeth o darddiad hadau; dylai cyflenwyr wybod ffynhonnell hadau ar gyfer yr holl rywogaethau brodorol maen nhw'n eu gwerthu. Archebwch eich hadau mewn da bryd cyn yr amser plannu. e.e. nid De-ddwyrain Lloegr na Gogledd yr Alban

Dylech gynnwys y gribell felen (*Rhinanthus minor*), os yw'n bosibl, yn y cymysgeddau hadau ar gyfer glaswelltir niwtral

Peidiwch â defnyddio cyltifarau amaethyddol o laswelltau neu flodau gwyllt sydd wedi'u datblygu ar gyfer cynhyrchu porfwyd gan y gallant naill ai dyfu'n drech na'r rhywogaethau eraill neu ddiflannu ar ôl ychydig flynyddoedd.

Dim ond hadau o darddiad gwyllt sy'n frodorol i'r rhanbarth neu'r ardal blannu o ffynhonnell a enwir y dylech eu defnyddio.

Dylech ddefnyddio'r cyfraddau hadau canlynol: 5-10 kg/ha o gymysgedd hadau blodau gwyllt a glaswellt (fel arfer yn cynnwys o leiaf 10% o hadau blodau gwyllt). 1-2 kg/ha o gymysgedd hadau blodau gwyllt pur.

Paratoi'r safle adfer

Rhaid paratoi'r safle adfer yn briodol fel y gellir hau hadau rhwng mis Gorffennaf a chanol mis Medi (cyn canol mis Medi yn ardaloedd yr ucheldir).

Dull chwistrellu clytiau neu sribedi, heb darfu ar y pridd

Nid yw'r dull hwn yn cynnwys unrhyw waith trin pridd, felly mae'n lleihau lefelau trwytholchi nitradau a tharfu a allai arwain at ymchwydd o chwyn lluosflynedd.

Cyn chwistrellu, dylid pori neu dorri a llyfnu'r borfa os oes unrhyw gawn du. Dylid dewis ardaloedd i'w chwistrellu mewn clytiau neu leiniau gyda chwynladdwr lladd yn gyfan gwbl. Dylid defnyddio chwynladdwr ar y borfa pan fydd digon o arwynebedd dail i amsugno'r cemegyn, ond nid ar laswelltir twmpathog neu le mae cawn du yn bresennol. Bydd maint a nifer y clytiau neu'r sribedi yn dibynnu ar faint yr ardal i'w gwella. Ni ddylai cyfanswm yr arwynebedd sy'n cael ei chwistrellu fod yn fwy na 30% o'r safle, a dylai'r clytiau fod wedi'u dosbarthu'n dda ar draws y cae. Bydd hadau brodorol yn cael eu hau dros yr ardaloedd lle mae'r borfa wedi'i chwistrellu.

Triniaethau cae cyfan, gan ddefnyddio dulliau paratoi mecanyddol.

Nid yw'r dechneg hon yn addas ar gyfer safleoedd sydd â hanes diweddar o broblemau gyda dail tafol neu ysgall y maes yn tyfu'n wyllt, neu ar gyfer porfa wedi'i gwella'n sylweddol sydd wedi cael ei gwrteithio'n rheolaidd

Dylech greu 50% o dir moel ar draws y safle cyfan trwy, er enghraifft, lyfnu ag oged bŵer neu oged ddisg neu gyflwyno da byw. Dylid hau hadau dros ardaloedd moel y cae.

Hau hadau brodorol

Dyfnider hau

Dylid drilio hadau neu eu gwasgaru ar led ar wyneb y pridd. Ni ddylid eu claddu trwy hau mewn slotiau, gan fod hadau gwyllt angen golau i egino. Gall claddu hadau ychydig filimetrau yn unig leihau cyfradd egino'r hadau yn sylweddol.

Pryd i hau

Yr amser delfrydol i hau hadau yw diwedd yr haf, dechrau'r hydref (mis Gorffennaf i ganol mis Medi, ond cyn canol mis Medi yn ardaloedd yr ucheldir). Gall hau tua chanol a diwedd mis Gorffennaf weithio'n dda, ond mewn hafau sych gall amodau sychder arwain at rai colledion os bydd egino'n digwydd. Gall planhigion sy'n egino yn hwyr yn yr hydref fod yn agored i ddifrod rhew.

Ni argymhellir hau yn y gwanwyn, ac eithrio ar gyfer ardaloedd sy'n dueddol o gael eu gorlifo yn y gaeaf neu le gall glaw olchi hadau i ffwrdd. Gall hadau a heuir yn y gwanwyn hefyd fod yn agored i sychder yn y gwanwyn neu ddechrau'r haf.

Rhaid i rai blodau gwyllt, megis y gribell felen, aeafu ac ni fyddant yn egino tan y gwanwyn canlynol. Dylid hau hadau'r gribell felen tua diwedd yr haf/hydref, gan ddefnyddio hadau a gynaeafwyd y flwyddyn honno.

Peiriannau ac offer ar gyfer hau hadau

Y ffordd orau o hau cymysgeddau hadau yw trwy ddefnyddio troellwr gwrtaith neu ficro-hadwr bach. Dylech lanhau troellwr gwrtaith cyn ei ddefnyddio, gan y gall gweddillion gwrtaith effeithio ar gyfradd egino'r had. Gellir graddnodi'r gyfradd trwy

ymru ar gyflymder penodol, gan ddefnyddio pwysau mesuredig o hadau dros bellter penodol a thrwy fesur ehangder dosbarthiad hadau o'r troellwr.

Ôl-ofal

Ar ôl hau, rhaid sicrhau bod yr hadau'n dod i gysylltiad da â'r pridd, trwy ddefnyddio da byw (gwartheg yn ddelfrydol) i'w sathru neu drwy rollo'r tir yn ysgafn.

Gwella porfa ar gyfer grug

Efallai y bydd hefyd angen creithio a thorri a thynnu llystyfiant o'r ardal sydd i'w hadfer. Telir am hyn trwy ddefnyddio eitemau gwaith cyfalaf ychwanegol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Hadau o darddiad lleol

Dylid cynaeafu hadau grug ar ôl iddynt aeddfedu, fel arfer rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr yn dibynnu ar y tymor a'r lleoliad, ond cyn iddynt wasgaru. Gellir cynaeafu trwy frwsio neu drwy ddefnyddio cynaeafwr porthiant, a fydd yn casglu'r hadau planhigion ac yn eu trosglwyddo i drelar. Rhaid i chi sicrhau bod perchennog y safle rhoi wedi rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw gynaeafu o'r fath cyn i chi ddechrau ar y gwaith.

Hau hadau

Fel arfer, dylid hau'r deunydd a gynaeafwyd ar gyfradd o 600g/m².

Gall cyfuniad o greithio a hadu roi canlyniadau mwy llwyddiannus, yn enwedig lle gall yr hadau grug fod yn segur yn y pridd. Defnyddir creithio i greu cyfres o rigolau bas ar wyneb y pridd sy'n helpu i amddiffyn yr had. Mae hefyd yn clirio'r deunydd ar y wyneb, gan gynyddu lefel y golau ac annog yr hadau i egino.

Cyn dechrau creithio neu balu â pheiriant ar gyfer adfer rhostir, dylid sefydlu'n glir leoliad yr holl olion archeolegol a hanesyddol. Gwiriwch eich mapiau Cynllun Ffermio Cynaliadwy i gael rhagor o wybodaeth am leoliad yr holl olion hanesyddol a siaradwch â'ch Swyddog Cymorth Maes cyn gwneud unrhyw waith a allai effeithio arnynt.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig CNC](#).

6775 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw: Clirio llystyfiant â llaw, trwy dynnu neu gloddio

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer: Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw: Clirio llystyfiant â llaw, trwy dynnu neu gloddio

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhywogaethau estron goresgynol yw'r enw ar unrhyw rywogaeth estron sy'n gallu ymledu ac achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn gallu amharu ar ffyniant Cymru trwy effeithio ar gynhyrchedd amaethyddiaeth, coedwigaeth a garddwriaeth.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn effeithio ar yr amgylchedd gan eu bod yn cystadlu'n well na phlanhigion brodorol, gan effeithio'n negyddol ar y bywyd gwyllt sy'n dibynnu arnynt. Mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn rhyddhau cemegau niweidiol i'r pridd sy'n gallu atal planhigion eraill rhag tyfu. Pan fyddant yn tyfu mewn clystyrau trwchus ger cyrsiau dŵr, maen nhw'n gallu achosi i'r pridd erydu yn ystod y gaeaf, neu dagu dyfrffyrdd, gan gynyddu'r risg o lifogydd lleol. Maen nhw hefyd yn gallu amharu ar beillio trwy ddenu pryfed peillio i ffwrdd o blanhigion brodorol, sy'n amharu ar lefelau peillio a'i gallu i gynhyrchu hadau.

Maen nhw'n gallu peri risg i iechyd pobl, naill ai trwy waethygu cyflyrau fel asthma neu drwy achosi niwed corfforol fel brech neu bothelli.

Mae'r taliad hwn yn talu cost clirio ardal o rywogaethau planhigion estron goresgynol â llaw, gan gynnwys costau offer llaw i dynnu neu gloddio planhigion a thorri gwreiddiau.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol y cytunwyd arno. Bydd y cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol yn disgrifio nodweddion y safle, gan gynnwys anifeiliaid a chynefinoedd allweddol, safleoedd dynodedig, unrhyw rywogaethau o'r fath sy'n bresennol a'u hyd a'u lled, llwybrau lledaenu posibl a'r risg i hynny ddigwydd, dulliau rheoli, camau a gymerwyd i atal lledaeniad, monitro a manylion unrhyw ddulliau adfer. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6780 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw - Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol am ragor o wybodaeth.

mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynnol yn destun deddfwriaeth, ac mae'n drosedd eu plannu neu beri iddynt dyfu'n wyllt (darllenwch sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 15](#) am ragor o wybodaeth).

bydd cynnal mesurau bioddiogelwch, gan gynnwys sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a cherbydau yn lân wrth gyrraedd ac yn cael eu glanhau cyn gadael y safle, yn lleihau'r risg o ledaenu rhywogaethau planhigion estron goresgynnol. Mae'n bosibl y byddwch am gynnal asesiad risg bioddiogelwch cyn dechrau ar unrhyw waith rhywogaethau estron goresgynnol. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6779 Rhywogaethau Estron Goresgynnol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw: Asesu risg bioddiogelwch am ragor o wybodaeth.

gwneud yn siŵr fod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#), [trwyddedau gwastraff](#) a [thrwyddedau rhywogaethau a warchodir](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith.

byddai clirio rhywogaethau planhigion estron goresgynnol â llaw yn digwydd yn bennaf er mwyn rheoli clytiau bach o blanhigion sydd newydd gyrraedd, neu mewn ardaloedd lle nad yw'n bosibl neu'n ddymunol defnyddio dulliau eraill (e.e. defnyddio peiriannau ar dir creigiog neu anhygyrch neu ddefnyddio chwynladdwyr).

sicrhau bod pob darn olaf o glymog Japan (neu glymogau goresgynnol eraill) yn cael ei waredu, gan eu bod yn gallu aildyfu o dameidiau bach iawn o'r coesyn, y corun a'r rhisomau, ac yn gallu ymestyn am fetrau lawer yn y pridd.

rhaid i chi gadw ffotograffau â geotag i ddangos cyflwr y safle cyn i'r gwaith ddechrau, yn ogystal â ffotograffau o'r gwaith wedi'i gwblhau, a chadw cofnod o'r driniaeth (e.e. amseru, dull a'r ardal a gafodd ei thrin). Rhaid i chi hefyd gadw unrhyw gydsyniad neu ganiatâd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a'u dangos ar gais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid cadw anfonebau taledig neu ddatganiadau banc (lle nad oes anfoneb daledig ar gael) fel tystiolaeth.

Gwneud yn siŵr eich bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, megis menig.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

defnyddio'r dull hwn i reoli Rhododendron neu Lawryf – darllenwch weithredoedd rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer: Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynnol Daearol: Rheoli Rhododendron a Llawryf.

defnyddio'r dull hwn i reoli rhywogaethau goresgynnol brodorol fel chwyn niweidiol, rhedyn, eithin, brwyn, mieri neu ddanadl poethion.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Mae tynnu, cloddio neu dorri â llaw yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau planhigion estron goresgynol, ond mae angen ystyriaeth arbennig yn achos y planhigion canlynol:

Efwr enfawr: nid yw tynnu â llaw yn cael ei argymhell. Torrwch y prif wreiddyn o dan y ddaear gan ddefnyddio rhaw neu offer arbenigol, o leiaf 15cm o dan y dail isaf (rhosglwm gwaelodol); os byddwch yn torri'n uwch na hyn, bydd y planhigyn yn dal i dyfu, blodeuo a hadu. Torrwch deirgwaith y flwyddyn; ewch ati i wneud y toriad cyntaf rhwng mis Chwefror a mis Ebrill, yr ail ym mis Ebrill/Mai a'r trydydd ym mis Mai/Mehefin.

Mae sug efwr enfawr yn gallu achosi goleusensitifedd wrth ddod i gysylltiad â'r croen, gan arwain at bothelli ailadroddus a chreithio. Dylid gwisgo dillad diogelu priodol rhag i unrhyw ran o'r planhigyn hwn gyffwrdd â'r croen.

Mae'n bosibl tynnu pennau blodeuol efwr enfawr cyn iddynt hadu, er mwyn lleihau'r risg o ledaenu planhigion newydd. Dull o reoli yw hwn, yn hytrach na dileu. Mae'r un dull yn addas gyda choesynnau ffrwytho pidyn-y-gog Americanaidd.

Clymog Japan (a chlymogau goresgynol eraill): nid yw tynnu â llaw neu dorri gwreiddiau yn ddull addas. Dim ond pan fydd planhigyn yn newydd iawn, ac yn tyfu mewn ardal gyfyng, y mae cloddio â llaw yn addas. Mae'n hollbwysig cael gwared ar bob darn olaf o'r rhisom gan fod y planhigyn yn gallu tyfu o damaid cyn lleied ag 1cm o hyd. Mae rhisomau yn gallu ymledu am fetrau lawer yn y pridd.

Mae rhywogaethau clymog yn cynnwys:

clymog Japan

corglymog

clymog mawr

clymog Bohemia

clymog yr Himalaya

Ewch i wefan Llywodraeth Cymru i gael rhagor o wybodaeth:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/clymog-japan-gwybodaeth-cyhoedd-reoli-planhigion-goresgynol-nghymru.pdf>

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/clymog-japan-cyngor-grwpiau-cymunedol-gwirfoddol.pdf>

Monitro a thriniaeth ddilynol

Mae angen monitro effeithiolrwydd y driniaeth reoli yn ystod y blynyddoedd dilynol. Os oes unrhyw aildyfiant neu dyfiant newydd yn bresennol, mae'n rhaid ei drin unwaith eto gyda dull rheoli priodol.

Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6777 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli, a gweithredoedd eraill sy'n cwmpasu dulliau rheoli planhigion o'r fath.

Gwaredu deunydd planhigion

Oddi ar y safle:

Mae deunydd rhywogaethau planhigion estron goresgynol neu bridd halogedig yn wastraff a reolir. Os yw'n cael ei symud oddi ar y safle, rhaid iddo gael ei gludo gan gludwr gwastraff cofrestredig a'i waredu mewn cyfleuster gwastraff trwyddedig priodol. Mae'n bosibl y bydd angen i chi wirio eu bod yn barod i dderbyn y gwastraff.

Ar y safle:

Yn aml, mae'n rhatach ac yn well i'r amgylchedd i waredu deunydd rhywogaethau planhigion estron goresgynol ar y safle lle maen nhw wedi tyfu.

Os ydych yn trin neu'n gwaredu rhywogaethau planhigion estron goresgynol ar y safle, bydd angen gwneud cais am drwydded wastraff, oni bai eich bod yn gallu bodloni'r amodau yn Natganiad Rheoleiddio 058.2 Cyfoeth Naturiol Cymru:

[Datganiad rheoleiddio 058.3 Trin a gwaredu planhigion estron goresgynol](#)

Os nad yw'r deunydd planhigion yn cynnwys hadau, coesau neu wreiddiau hyfyw ac mae'n annhebygol o aildyfu (er enghraifft, jac y neidiwr sydd wedi'i dynnu cyn iddo flodeuo), mae'n bosibl ei gompostio ar y safle.

Nid yw compostio yn opsiwn ar gyfer gwaredu clymog Japan (neu glymogau goresgynol eraill).

Rhaid llosgi gwastraff gwyrdd heb ei drin yn unol ag is-ddeddfau lleol a deddfwriaeth gwastraff:

[Cofrestru neu adnewyddu eich esemptiadau gwastraff](#)

6776 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw:

Trin dail â chwynladdwr

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer: Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw: Trin dail â chwynladdwr

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhywogaethau estron goresgynol yw'r enw ar unrhyw rywogaeth estron sy'n gallu ymledu ac achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn gallu amharu ar ffyniant Cymru trwy effeithio ar gynhyrchedd amaethyddiaeth, coedwigaeth a garddwriaeth.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn effeithio ar yr amgylchedd gan eu bod yn cystadlu'n well na phlanhigion brodorol, gan effeithio'n negyddol ar y bywyd gwyllt sy'n dibynnu arnynt. Mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn rhyddhau cemegau niweidiol i'r pridd sy'n gallu atal planhigion eraill rhag tyfu. Pan fyddant yn tyfu mewn clystyrau trwchus ger cyrsiau dŵr, maen nhw'n gallu achosi i'r pridd erydu yn ystod y gaeaf, neu dagu dyfrffyrdd, gan gynyddu'r risg o lifogydd lleol. Maen nhw hefyd yn gallu amharu ar beillio trwy ddenu pryfed peillio i ffwrdd o blanhigion brodorol, sy'n amharu ar lefelau peillio a'i gallu i gynhyrchu hadau.

Maen nhw'n gallu peri risg i iechyd pobl, naill ai trwy waethygu cyflyrau fel asthma neu drwy achosi niwed corfforol fel brech neu bothelli.

Mae trin dail â chwynladdwr yn ffordd effeithiol o drin rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol. Mae sbot-chwynnu yn cyfeirio at driniaethau niferus sy'n defnyddio chwynladdwyr mewn ffordd wedi'i thargedu, gan gynnwys rhoi ar y dail, thorri a thrin y bonyn a chwistrellu coesynnau.

Mae'r taliad hwn yn talu cost clirio ardal o rywogaethau planhigion estron goresgynol trwy drin dail â chwynladdwr.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol y cytunwyd arno. Bydd y cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol yn disgrifio nodweddion y safle, gan gynnwys anifeiliaid a chynefinoedd allweddol, safleoedd dynodedig, unrhyw rywogaethau o'r fath sy'n bresennol a'u hyd a'u lled, llwybrau lledaenu posibl a'r risg i hynny ddigwydd, dulliau rheoli, camau a gymerwyd i atal lledaeniad, monitro a manylion unrhyw ddulliau adfer. Darllenwch

weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw - Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol: 6780 am ragor o wybodaeth.

mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn destun deddfwriaeth, ac mae'n drosedd eu plannu neu beri iddynt dyfu'n wyllt (darllenwch sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 15](#) am ragor o wybodaeth).

bydd cynnal mesurau bioddiogelwch, gan gynnwys sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a cherbydau yn lân wrth gyrraedd ac yn cael eu glanhau cyn gadael y safle, yn lleihau'r risg o ledaenu rhywogaethau planhigion estron goresgynol. Mae'n bosibl y byddwch am gynnal asesiad risg bioddiogelwch cyn dechrau ar unrhyw waith rhywogaethau estron goresgynol. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6779 Rhywogaethau Estron Goresgynol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw: Asesu risg bioddiogelwch am ragor o wybodaeth.

gwneud yn siŵr fod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#), [trwyddedau gwastraff](#) a [thrwyddedau rhywogaethau a warchodir](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith.

rhaid i chi gadw ffotograffau â geotag i ddangos cyflwr y safle cyn i'r gwaith ddechrau, yn ogystal â ffotograffau o'r gwaith wedi'i gwblhau, a chadw cofnod o'r driniaeth (e.e. amseru, dull a'r ardal a gafodd ei thrin). Rhaid i chi hefyd gadw unrhyw gydsyniad neu ganiatâd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a'u dangos ar gais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid cadw anfonebau taledig neu ddatganiadau banc (lle nad oes anfoneb daledig ar gael) fel tystiolaeth.

mabwysiadu dull rheolaeth integredig ar blâu, yn cynnwys cyfyngu i'r eithaf y defnydd o chwynladdwyr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu](#).

rhaid i'r chwynladdwr fod yn un cymeradwy, gyda label sy'n argymhell ei ddefnydd arfaethedig a'r dull defnyddio arfaethedig. Dylid defnyddio chwynladdwr sydd wedi cael ei wanhau i'r cryfder priodol. Mae'n bosibl ychwanegu adjiwfant at y chwynladdwr i wella'r amsugniad gan y planhigyn.

[defnyddio chwynladdwr](#) yn ddiogel a chyda chaniatâd priodol, gan gynnwys defnydd ger cyrsiau dŵr ac ar safleoedd gwarchodedig.

mae angen rhoi chwynladdwr ar dail yn ofalus, a hynny gan weithredwr medrus a chymwysedig i sicrhau defnydd manwl gywir.

gwneud yn siŵr bod cyfarpar diogelu personol priodol, megis menig, yn cael eu gwisgo.

cydymffurfio â'r cyfyngiadau ar ddefnyddio cynnyrch diogelu planhigion yn unol â'r cyfyngiadau yn sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 10](#) gan gynnwys:

bod yn gymwysedig i ddefnyddio chwynladdwyr neu gyflogi contractwr cymwysedig addas.

bod yn ddefnyddiwr cofrestredig cynhyrchion diogelu planhigion.

cadw cofnodion o ddefnydd o gynhyrchion diogelu planhigion gan gynnwys chwynladdwyr yn eich Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu.

rhaid i offer taenu plaladdwyr, ac eithrio chwistrellwyr cefn a chwistrellwyr llaw, fod wedi pasio prawf a gynhaliwyd gan y Cynllun Cenedlaethol Profi Chwistrellwyr.

gwaredu chwynladdwr sy'n weddill mewn ffordd ddiogel ar ddiwedd pob diwrnod.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

defnyddio'r dull hwn i drin Rhododendron neu lawrgeirios gyda chwynladdwyr – darllenwch weithredoedd rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer: Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynnol Daearol: Rheoli Rhododendron a Llawryf.

defnyddio'r dull hwn i reoli rhywogaethau goresgynnol brodorol fel chwyn niweidiol, rhedyn, eithin, brwyn, mieri neu ddanadl poethion.

taenu chwynladdwr mewn amodau gwlyb neu pan mae disgwyl gwyntoedd cryf, glaw neu wllith trwm (o leiaf 6 awr heb ragolygon o law ar gyfer chwistrellu cefn gydag adjiwfant wedi'i ychwanegu, 12 awr heb ei ychwanegu, 24 awr yn ddelfrydol).

taenu chwynladdwr mewn amodau poeth neu heulog oherwydd bydd y chwynladdwr yn anweddu nac mewn amodau oer (<7°C) oherwydd amsugniad is gan y planhigion.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Fel dull annibynnol neu fel triniaeth ddilynol i ddulliau eraill o reoli fel chwistrellu coesynnau neu dorri a thrin y bonyn, mae trin dail â chwynladdwr yn gallu bod yn llwyddiannus iawn.

Rhowch chwynladdwr ar ddail rhywogaethau planhigion estron goresgynnol fel clymog Japan (a chlymogau goresgynnol eraill), efwr enfawr, rhywogaethau rheonllys mawr, pidyn-y-gog Americanaidd, rhywogaethau creigafal goresgynnol a jac y neidiwr (er bod triniaethau eraill fel tynnu â llaw cyn i'r planhigion flodeuo yn gallu bod yn fwy effeithiol).

Mae hefyd yn bosibl ei ddefnyddio ar gyfer rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynnol dŵr croyw lle mae caniatâd priodol ar gyfer defnyddio chwynladdwyr ger dŵr, megis rhywogaethau fel pluen parot, dail-ceiniog arnofiol a gwernydd Awstralia.

Mae'n bosibl defnyddio chwynladdwr gyda:

chwistrellwr cefn ar bwysedd isel wedi'i ffitio â phigyn chwistrellu gwag

sbot-ddryll coedwigaeth gyda phigyn llif solet

chwistrell chwyn bychan – teclyn sbwng

brwsh paent

llif glirio gydag atodiad addas.

gwasgaru diferion dan reolaeth (CDA)

Dylai'r chwynladdwr gael ei wanhau i'r cryfder priodol gyda dŵr, ac mae angen ei gymysgu'n drylwyr (am o leiaf ddau funud) gan ei fod yn hydoddiant olew a dŵr.

Mae'n bosibl ychwanegu adjiwfant i wella gorchudd arwynebau'r dail a'i allu i aros ar y dail mewn glaw. Nid yw ychwanegu adjiwfant yn cael ei argymhell pan fyddwch yn gweithio'n agos at ddŵr.

I'r gwaith fod yn effeithiol, dylid chwistrellu chwynladdwr ar bob deilen nes bod y ddeilen yn wlyb (h.y. y pwynt cyn i'r chwynladdwr ddechrau ddiferu oddi ar y ddeilen).

Mae angen gofal rhag i'r chwynladdwr wedi'i chwistrellu neu ei ddiferion achosi difrod i'r llystyfiant brodorol cyfagos, gan y gallai gymryd blynyddoedd lawer iddo adfer.

Rhywogaethau planhigion estron goresgynnol y mae'n bosibl eu trin trwy roi chwynladdwr ar y dail

Mae'n bosibl defnyddio'r taliad hwn i drin rhywogaethau planhigion estron goresgynnol eraill nad ydynt wedi'u rhestru yma, yn amodol ar gytundeb eich cynghorydd.

Daearol

Clymog Japan (a chlymogau goresgynnol eraill): gellir chwistrellu'r dail gyda chwynladdwr sy'n cynnwys adjiwfant ar ôl i'r planhigyn flodeuo, o fis Awst i fis Hydref. Gall defnyddio chwynladdwr yn gynharach yn y flwyddyn lesteirio twf, ond ni fydd yn lladd y planhigyn. Bydd angen trin clystyrau mawr aeddfed o glymog Japan unwaith y flwyddyn am ddwy neu dair blynedd er mwyn eu cael o dan reolaeth. Ewch i wefan Llywodraeth Cymru i gael rhagor o wybodaeth:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/clymog-japan-gwybodaeth-cyhoedd-reoli-planhigion-goresgynnol-nghymru.pdf>

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/clymog-japan-cyngor-grwpiau-cymunedol-gwirfoddol.pdf>

Efwr enfawr: mae chwistrellu'r dail yn gallu bod yn effeithiol cyn i'r planhigyn gynhyrchu hadau ym mis Awst. Ewch i wefan Llywodraeth Cymru i gael rhagor o wybodaeth:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/efwr-enfawr-gwybodaeth-cyhoedd-reoli-planhigion-goresgynol-nghymru.pdf>

Jac y neidiwr: Ewch i wefan Llywodraeth Cymru i gael rhagor o wybodaeth:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/jac-y-neidiwr-gwybodaeth-cyhoedd-reoli-planhigion-goresgynol-nghymru.pdf>

Rhywogaethau creigafal goresgynol: mae chwistrellu'r dail yn gallu digwydd trwy gydol y flwyddyn, ond y cyfnod rhwng mis Mawrth/Ebrill a mis Medi/Hydref sy'n cael ei argymhell (yn ystod anterth y tymor tyfu cyn dechrau cynhyrchu hadau). Mae'n bosibl ychwanegu lliw i'r toddiant er mwyn adnabod planhigion sydd wedi'u trin yn nes ymlaen. Mae canllawiau pellach ar gael:

<https://www.nonnativespecies.org/assets/OGN-239-Controlling-cotoneaster.pdf>

Rhywogaethau rheonllys mawr: dim ond yn ddiweddarach yn y tymor tyfu (mis Awst i fis Medi) y mae chwistrellu dail gyda chwynladdwr yn effeithiol, pan fydd y dail yn ddigon mawr i amsugno dos angheuol o chwynladdwr. Mae'n bosibl y bydd angen dwy neu fwy o driniaethau y flwyddyn.

Pidyn-y-gog Americanaidd: mae chwistrellu'r dail gyda chwynladdwr addas, sydd wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio mewn amgylcheddau dyfrol lle bo hynny'n berthnasol, yn gallu bod yn effeithiol. Dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr o ran pryd y dylid defnyddio chwynladdwyr penodol.

Crib-y-ceiliog: mae'n bosibl chwistrellu'r dail gyda chwynladdwr yn gynnar yn y tymor tyfu (mis Mawrth i fis Mehefin) cyn i flodau ymddangos. Mae'n bosibl y bydd angen ailadrodd un driniaeth flynyddol.

Marddanhadlen felen amryliw: mae'n bosibl chwistrellu'r dail gyda chwynladdwr trwy gydol y flwyddyn. Mae'n bosibl y bydd angen un driniaeth flynyddol, ac ailadrodd hynny am o leiaf ddwy flynedd.

Ffigysen yr Hotentot: mae chwistrellu'r dail gyda chwynladdwr yn bosibl trwy gydol y tymor tyfu o fis Mehefin i fis Awst. Mae'n bosibl y bydd angen sawl triniaeth bob blwyddyn.

Bambŵ goresgynol: mae'n bosibl chwistrellu'r dail gyda chwynladdwr rhwng diwedd yr haf a'r hydref; mae'n bosibl y bydd angen sawl triniaeth flynyddol dros o leiaf dair blynedd.

Clychau'r-gog Sbaenaidd: mae'n bosibl chwistrellu'r dail gyda chwynladdwr sy'n cynnwys adjiwffant priodol ym mis Mai tan ddiwedd y cyfnod blodeuo yng nghanol mis Mehefin. Bydd hyn yn fwyaf effeithiol o'i gyfuno â chloddio bylbiau â llaw. Bydd angen ailadrodd y driniaeth bob blwyddyn am y ddwy flynedd ganlynol o leiaf.

Dŵr Croyw

Nid trin dail â chwynladdwr yn effeithiol ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau planhigion estron goresgynnol dŵr croyw, ac eithrio'r rhywogaethau canlynol.

Gwernydd Awstralia: mae trin y dail gyda chwynladdwr gydag adjiwfant priodol (y ddau yn addas i'w defnyddio mewn amgylcheddau dyfrol) yn effeithiol ar glystyrau daearol yn unig. Os yw'n bosibl draenio'r ardal ddyfrol, gallai'r driniaeth fod yn fwy llwyddiannus gan nad yw trin y dail o reidrwydd yn effeithio ar blanhigion sy'n tyfu o dan yr wyneb. Mae'n bosibl ymgymryd â'r driniaeth bob deufis yn ystod y tymor tyfu (mis Mawrth i fis Hydref), gan ailadrodd triniaethau dros sawl blwyddyn.

Pluen parot: mae'n bosibl trin clystyrau mwy drwy ddefnyddio chwynladdwr yn cynnwys adjiwfant priodol (y ddau yn addas i'w defnyddio mewn amgylcheddau dyfrol) i drin dail planhigion sy'n tyfu uwchlaw lefel y dŵr, gan wneud hynny bob dau fis yn ystod y tymor tyfu (mis Mawrth i fis Hydref) ac ailadrodd y triniaethau dros sawl blwyddyn. Os yw'n bosibl draenio'r ardal ddyfrol, gallai'r driniaeth fod yn fwy llwyddiannus gan nad yw trin y dail o reidrwydd yn effeithio ar blanhigion sy'n tyfu o dan yr wyneb. Os yw'n cael ei ddefnyddio mewn ardal ddyfrol, mae risg o ddadocsigeneiddio os nad yw biomas yn cael ei waredu.

Dail-ceiniog arnofiol: gellir trin planhigion sy'n tyfu uwchlaw lefel y dŵr trwy drin y dail gyda chwynladdwr sy'n cynnwys adjiwfant priodol (y ddau yn addas i'w defnyddio mewn amgylcheddau dyfrol) o fis Mehefin i fis Medi (1 i 4 gwaith y flwyddyn). Gallai hyn fod yn ddefnyddiol lle nad yw'r planhigyn o dan wyneb y dŵr, ond lle nad yw tynnu â llaw neu beiriant yn bosibl am resymau ymarferol neu amgylcheddol. Os yw'n cael ei ddefnyddio mewn ardal ddyfrol, mae risg o ddadocsigeneiddio os nad yw biomas yn cael ei waredu.

Monitro a thriniaeth ddilynol

Mae angen monitro effeithiolrwydd y driniaeth chwynladdwr yn ystod y blynyddoedd dilynol. Os oes unrhyw aildyfiant neu dyfiant newydd yn bresennol, mae'n rhaid ei drin unwaith eto gyda dull rheoli priodol. Os ydych chi'n defnyddio trin y dail fel dull, gwnewch yn siŵr bod unrhyw aildyfiant yn ddigon mawr i gyflwyno dogn effeithiol o chwynladdwr i ladd y planhigyn.

Gall unrhyw dyfiant newydd o hadau gael ei dynnu â llaw.

Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6777 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynnol Daearol a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli, a gweithredoedd eraill sy'n cwmpasu dulliau rheoli planhigion o'r fath.

6777 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli planhigion o'r fath

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer: Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli planhigion o'r fath

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhywogaethau estron goresgynol yw'r enw ar unrhyw rywogaeth estron sy'n gallu ymledu ac achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw.

Mae rhywogaethau estron goresgynol yn gallu amharu ar ffyniant Cymru trwy effeithio ar gynhyrchedd amaethyddiaeth, coedwigaeth a garddwriaeth.

Mae rhywogaethau estron goresgynol yn effeithio ar yr amgylchedd, trwy gystadlu'n annheg â phlanhigion brodorol, ac effeithio'n negyddol ar y bywyd gwyllt sy'n dibynnu arnynt. Mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn rhyddhau cemegau niweidiol i'r pridd sy'n gallu atal planhigion eraill rhag tyfu. Pan fyddant yn tyfu mewn clystyrau trwchus ger cyrsiau dŵr, maen nhw'n gallu achosi i'r pridd erydu yn ystod y gaeaf, neu dagu dyfrffyrdd, gan gynyddu'r risg o lifogydd lleol. Maen nhw hefyd yn gallu amharu ar beillio trwy ddenu pryfed peillio i ffwrdd o blanhigion brodorol, sy'n amharu ar lefelau peillio a'i gallu i gynhyrchu hadau.

Maen nhw'n gallu peri risg i iechyd pobl, naill ai trwy waethygu cyflyrau fel asthma neu drwy achosi niwed corfforol fel brech neu bothelli.

Yn aml iawn, ni fydd triniaeth unigol neu hyd yn oed driniaethau lluosog yn effeithiol i reoli neu ddileu rhywogaethau estron goresgynol. Bydd angen cynnal gwaith monitro am nifer o flynyddoedd i ddeall a yw'r driniaeth wedi bod yn llwyddiannus. Bydd hyn yn gofyn am ailymweld â'r safle yn achlysurol i chwilio am aildyfiant (ar ôl triniaeth chwynladdwr) neu dyfiant newydd o eginblanhigion neu dameidiau o blanhigion.

Mae'r taliad hwn yn talu cost monitro rhywogaethau planhigion estron goresgynol sydd wedi'u trin ar gyfer tyfiant newydd neu aildyfiant bob blwyddyn yn dilyn mesurau rheoli, fel sy'n cael ei amlinellu yn eich cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

cytuno ar amserlen i fonitro effeithiolrwydd rheoli rhywogaethau estron goresgynol yn ôl yr amseroedd isod a chofnodi hyn yn eich cynllun rheoli.

wrth fonitro safleoedd, rhaid cofnodi dyddiad, lleoliad a hyd a lled yr ardal a gafodd ei monitro a chofnodi a oes unrhyw dyfiant, tyfiant newydd neu aildyfiant (cadwch ffotograffau o unrhyw ymweliadau sy'n dangos yr ardal sy'n cael ei gwirio). Mae'n bosibl defnyddio'r wybodaeth hon fel tystiolaeth bod y monitro wedi digwydd.

rhoi gwybod am unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant rhywogaethau estron goresgynnol i'ch Swyddog Cymorth Maes, a defnyddio'r wybodaeth hon i ddiweddarau eich cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod

Os oes tyfiant newydd neu aildyfiant yn cael ei ganfod, darllenwch weithredoedd rheoli perthnasol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer taliadau sy'n cwrddu dulliau rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Isod, mae rhestr o'r amserau sy'n cael eu hargymell ar gyfer cynnal gwaith monitro. Mae'r rhywogaethau estron goresgynnol yn rhai sy'n cael eu canfod ar dir amaethyddol, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr.

Rhywogaethau Estron Goresgynnol Daearol

Clymog Japan (a chlymogau goresgynnol eraill): Mae angen monitro blynyddol yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf ddau dymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant.

Efwr enfawr: Mae angen monitro blynyddol rhwng mis Ebrill a mis Awst yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod tri thymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant, ynghyd ag ymweliad pellach ddwy flynedd yn ddiweddarach.

Jac y neidiwr: Mae angen monitro blynyddol yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf ddau dymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant.

Rhywogaethau creigafal goresgynnol: Mae angen monitro blynyddol ym mis Gorffennaf yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf dri thymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw aildyfiant.

Rhywogaethau rheonllys mawr: Mae angen monitro blynyddol ym mis Gorffennaf yn dilyn unrhyw driniaeth, a hynny am bedair blynedd neu nes bod o leiaf ddau dymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant, ynghyd ag ymweliad pellach bedair blynedd yn ddiweddarach.

Pidyn-y-gog Americanaidd: Mae angen monitro blynyddol yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf ddau dymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant, ynghyd ag ymweliadau pellach bob dwy flynedd am gyfnod o chwe blynedd.

Crib-y-ceiliog: Mae angen monitro blynyddol yn yr haf yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf dri thymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant.

Marddanhadlen felen amryliw: Mae angen monitro blynyddol rhwng mis Mehefin a mis Medi yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf ddau dymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant, yn ddelfrydol am bum mlynedd.

Ffigysen yr Hotentot: Mae angen monitro blynyddol yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf ddau dymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant.

Coeden y nefoedd: Mae angen monitro blynyddol ar ddiwedd mis Gorffennaf yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf ddau dymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant.

Dringedyddion (y dringwr fflamgoch ac ati): Mae angen monitro blynyddol ar ddiwedd mis Gorffennaf yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf dri thymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant.

Rhododendron: Mae angen monitro blynyddol yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf ddau dymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant, ynghyd ag ymweliadau pellach bob dwy flynedd am gyfnod o chwe blynedd.

Rhosyn Japan: Mae angen monitro blynyddol yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf dri thymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant.

Clymog yr Himalaya: Mae angen monitro blynyddol yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf ddau dymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant neu'n ddelfrydol am hyd at bum mlynedd, gan gynnwys archwilio ardaloedd cyfagos sydd yn addas i hadau dyfu.

Y gynffon las: Mae angen monitro blynyddol yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf ddau dymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant, ynghyd ag ymweliadau pellach bob dwy flynedd am gyfnod o bedair blynedd.

Bambŵ goresgynnol: Mae angen monitro blynyddol rhwng mis Ebrill a mis Awst yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod dau dymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant, ynghyd ag ymweliad pellach ddwy flynedd yn ddiweddarach.

Clychau'r-gog Sbaenaidd: Mae angen monitro blynyddol ym mis Mai/dechrau Mehefin (cyn i hadau ffurfio) yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf dri thymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw aildyfiant.

Rhywogaethau Estron Goresgynnol Dŵr Croyw

Gwernydd Awstralia: Mae angen monitro blynyddol yn yr haf yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf dri thymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant, ynghyd ag ymweliad pellach dair blynedd yn ddiweddarach.

Pluen parot: Mae angen monitro blynyddol yn yr haf yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf dri thymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant, ynghyd ag ymweliad pellach dair blynedd yn ddiweddarach.

Dail-ceiniog arnofiol: Mae angen monitro blynyddol yn ystod y tymor tyfu yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf dri thymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant.

Ffugalaw Nuttall ac alaw Canada: Mae angen monitro blynyddol yn yr haf yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf dri thymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant, ynghyd ag ymweliad pellach dair blynedd yn ddiweddarach.

Ffugalaw crych: Mae angen monitro blynyddol ym mis Gorffennaf yn dilyn unrhyw driniaeth, nes bod o leiaf dri thymor tyfu llawn wedi pasio heb unrhyw dyfiant newydd neu aildyfiant, ynghyd ag ymweliad pellach dair blynedd yn ddiweddarach.

6779 Rhywogaethau Estron Goresgynol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw: Cyfarpar bioddiogelwch

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer: Rhywogaethau Estron Goresgynol, Plâu a Chlefydau – Cyfarpar bioddiogelwch

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r bygythiad amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol i'n hadnoddau naturiol gan blâu, clefydau a rhywogaethau estron goresgynol yn uwch nag erioed, a hynny oherwydd symudiad cynyddol nwyddau a phobl ledled y byd.

Mae plâu, clefydau a rhywogaethau estron goresgynol yn gallu cael effeithiau ariannol sylweddol ar amaethyddiaeth, coedwigaeth a sectorau eraill.

Mae'n bosibl cludo llawer o blâu, clefydau a rhywogaethau estron goresgynol mewn pridd, dŵr a deunydd halogedig ar ddillad, esgidiau, cerbydau, peiriannau ac offer.

Mae atal cyflwyno plâu, clefydau a rhywogaethau estron goresgynol yn allweddol oherwydd ei bod yn anodd iawn ac yn gostus i'w cyfyngu neu eu dileu unwaith maen nhw wedi sefydlu.

Mae bioddiogelwch yn ffordd o weithio sy'n lleihau'r risg o gyflwyno neu ledaenu plâu, clefydau (gan gynnwys bacteria, ffyngau a firysau) a rhywogaethau estron goresgynol. Bydd cynnal mesurau bioddiogelwch, gan gynnwys sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a cherbydau yn lân wrth gyrraedd ac yn cael eu glanhau cyn gadael y safle, a defnyddio diheintydd lle mae risg o glefyd, yn lleihau'r risg o ledaenu ac yn sicrhau nad ydych yn torri'r gyfraith.

Bydd meddu ar gyfarpar bioddiogelwch personol yn cyfyngu ar gario rhywogaethau estron goresgynol, plâu a chlefydau ar ddillad ac offer trwy allu eu glanhau a'u diheintio ar y safle. Gweler Atodiad 1 am restr o eitemau cyfarpar bioddiogelwch.

Mae gorsaf olchi yn ardal bwrpasol gyda dŵr a brwshys, ynghyd â diheintydd weithiau, i lanhau offer, esgidiau a cherbydau yn drylwyr. Mae elfennau allweddol yn cynnwys golchwr pŵer, cynwysyddion ar gyfer dŵr budr a deunydd organig, offer sgwrio, opsiynau diheintio ac arwyddion clir ar ddefnydd priodol er mwyn diogelu amgylcheddau sensitif a da byw. Gweler Atodiad 2 am ragor o wybodaeth am ofynion gorsaf olchi.

Mae'r taliad hwn yn talu cost offer i gyflawni mesurau bioddiogelwch ar eich tir. Mae dwy elfen i'r taliad hwn:

cyfarpar bioddiogelwch personol (gweler Atodiad 1)

cyfleusterau golchi (gweler Atodiad 2)

Nid yw cost diheintydd wedi'i gynnwys yn y taliad hwn.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

bod â Rhywogaethau Estron Goresgynnol, Plâu a Chlefydau - Asesiad risg bioddiogelwch cymeradwy o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn barod cyn gwneud cais am daliad am gyfarpar bioddiogelwch o dan yr opsiwn rheoli hwn.

ar gyfer achosion o glefyd anifeiliaid hysbysadwy ar eich daliad tir, dilynwch ganllawiau Llywodraeth Cymru ar [fioddiogelwch](#) ar gyfer rheoli clefydau anifeiliaid.

wrth ddelio â materion iechyd coed ar eich daliad tir, dilynwch ganllawiau llywodraeth y DU ar fioddiogelwch mewn perthynas â rheoli clefydau ar gyfer [iechyd coed](#).

wrth ddelio â phlâu a chlefydau planhigion, ystyriwch [ganllawiau llywodraeth y DU](#).

mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynnol yn destun deddfwriaeth, ac mae'n drosedd eu plannu neu beri iddynt dyfu'n wyllt (darllenwch sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 15](#) am ragor o wybodaeth). Mae planhigion newydd yn gallu tyfu o hadau, rhisomau neu dameidiau bach iawn o blanhigion. Mae rhagor o wybodaeth am rywogaethau estron goresgynnol ar gael ar wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain: [Gweithwyr maes » NNSS](#)

wrth fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol dyfrol, defnyddiwch y protocol [Gwirio Glanhau Sychu](#) h.y. gwirio dillad, offer a pheiriannau am bresenoldeb rhywogaethau estron goresgynnol, glanhau â dŵr, yn ddelfrydol ar isafswm tymheredd o 45°C a gadael iddynt sychu, os yw'n bosibl, am fwy na 48 awr cyn eu defnyddio eto.

os ydych yn defnyddio diheintydd ar gyfer rheoli clefydau anifeiliaid hysbysadwy, rhaid iddo gael [cymeradwyaeth Defra](#) ar gyfer y clefyd a diben ei ddefnyddio, a bodloni'r holl ofynion iechyd a Diogelwch a [Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd](#) (COSHH).

ystyried defnyddio diheintydd coedyddol gyda'r cynhwysyn actif isopropanol mewn ardaloedd lle mae *Phytophthoras* a phathogenau coed a phlanhigion niweidiol eraill yn bresennol. Rhaid bodloni'r holl ofynion iechyd a Diogelwch a [Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd](#) (COSHH).

os ydych chi'n defnyddio diheintyddion, dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr gan gynnwys:

storio diogel, defnyddio cynhwysydd gwrth-anwedd

cymysgu a defnyddio diheintydd mewn lle wedi'i awyru'n dda

defnyddio chwynladdwr sydd wedi cael ei wanhau i'r cryfder priodol.

cadw at unrhyw amseroedd cyswllt penodol ac, os oes angen, rinsio'r diheintydd ymaith wedyn gyda dŵr glân

cynnal y broses ddiheintio ar ardal wastad ymhell o unrhyw gyrsiau dŵr. Er mwyn lleihau'r risg o lygredd o hylifau ffo, peidiwch â gadael i ddiheintyddion neu olchiadau fynd i mewn i gyrsiau dŵr, draeniau dŵr wyneb neu ffynhonnau

gwaredu diheintydd sydd wedi'i ddefnyddio

rhoi diheintydd ar arwynebau glân – gwaredwch fwd, pridd, dail a malurion organig eraill trwy eu golchi â dŵr yn gyntaf (neu chwistrellu â dŵr os oes angen a lle mae hynny'n cael ei ganiatáu).

ar gyfer gosod cyfleusterau golchi, cysylltwch â Cyfoeth Naturiol Cymru a'ch awdurdod cynllunio lleol i sicrhau'r caniatâd perthnasol cyn i unrhyw waith gael ei wneud.

cadw anfonebau taledig am brynu cyfarpar bioddiogelwch personol a/neu gyfleusterau golchi.

rhaid i'r gwaith o symud unrhyw ddeunydd diangen oddi ar safle gydymffurfio â [deddfwriaeth gwastraff](#).

Peidiwch â gwneud y canlynol:

defnyddio diheintyddion i atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag lledaenu, gan nad ydynt yn effeithiol wrth ladd rhywogaethau o'r fath.

cludo deunydd coedwigaeth ([pren](#)) oddi ar safleoedd lle mae clefydau neu blâu coed rheoleiddiedig yn bresennol, oni bai i hynny gael ei awdurdodi gan y Comisiwn Coedwigaeth (sy'n rhoi trwyddedau yng Nghymru ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru).

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod

Cynlluniwch ymlaen llaw:

mae angen i chi ddeall y risgiau bioddiogelwch i'ch tir a'r gweithgareddau rydych chi'n eu gwneud. Bydd y risg yn uchel os yw eich gweithgareddau yn cynnwys (neu'n debygol o gynnwys) cyswllt â deunydd sydd wedi'i heintio â chlefydau neu blâu. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynnol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw: Asesu risg bioddiogelwch am ragor o wybodaeth.

cynlluniwch unrhyw waith fel mai'r ardal lle mae'r risg fwyaf yw'r ardal olaf i chi ymweld â hi ar y diwrnod.

lle bo hynny'n bosibl, ceisiwch osgoi ardaloedd lle mae risg hysbys o rywogaethau estron goresgynnol, plâu neu glefydau.

ystyriwch a oes angen cyfyngu ar fynediad i rai ardaloedd.

gwnewch yn siŵr bod gennych ddillad diogelu digonol, megis menig ac amddiffynwyr llygaid.

Byddwch yn gyfrifol:

mae angen cyrraedd a gadael safle gydag esgidiau, cerbyd ac offer glân.

Byddwch yn ymarferol:

Ile bo hynny'n bosibl, peidiwch â mynd â cherbydau i fangreoedd eraill. Os oes rhaid gwneud hynny, cadwch at lwybrau sefydledig a pharcio cerbydau ar arwyneb solet.

defnyddiwch gyfleusterau golchi lle maen nhw ar gael.

6781 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Clwt-chwynnu gyda chwynladdwr

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer: Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol
Daearol: Clwt-chwynnu gyda chwynladdwr

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhywogaethau estron goresgynol yw'r enw ar unrhyw rywogaeth estron sy'n gallu ymledu ac achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn gallu amharu ar ffyniant Cymru trwy effeithio ar gynhyrchedd amaethyddiaeth, coedwigaeth a garddwriaeth.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn effeithio ar yr amgylchedd gan eu bod yn cystadlu'n well na phlanhigion brodorol, gan effeithio'n negyddol ar y bywyd gwyllt sy'n dibynnu arnynt. Mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn rhyddhau cemegau niweidiol i'r pridd sy'n gallu atal planhigion eraill rhag tyfu. Pan fyddant yn tyfu mewn clystyrau trwchus ger cyrsiau dŵr, maen nhw'n gallu achosi i'r pridd erydu yn ystod y gaeaf, neu dagu dyfrffyrdd, gan gynyddu'r risg o lifogydd lleol. Maen nhw hefyd yn gallu amharu ar beillio trwy ddenu pryfed peillio i ffwrdd o blanhigion brodorol, sy'n amharu ar lefelau peillio a'i gallu i gynhyrchu hadau.

Maen nhw'n gallu peri risg i iechyd pobl, naill ai trwy waethygu cyflyrau fel asthma neu drwy achosi niwed corfforol fel brech neu bothelli.

Mae clwt-chwynnu yn golygu taenu chwynladdwr yn uniongyrchol ar ddail rhywogaethau planhigion estron goresgynol penodol, gan ddefnyddio teclyn gyda phabwyr neu roler wedi'i fwydo mewn toddiant chwynladdwr. Mae'r teclyn taenu yn symud dros frig y planhigion, gan drosglwyddo'r chwynladdwr i blanhigion talach neu blanhigion penodol sy'n uwch na llystyfiant cyfagos.

Mae'r taliad hwn yn talu cost clirio ardal o rywogaethau planhigion estron goresgynol trwy ddefnyddio peiriant clwt-chwynnu (weed-wiper) i daenu chwynladdwr.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol y cytunwyd arno. Bydd y cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol yn disgrifio nodweddion y safle, gan gynnwys anifeiliaid a chynefinoedd allweddol, safleoedd dynodedig, unrhyw rywogaethau o'r fath sy'n bresennol a'u hyd a'u lled, llwybrau lledaenu posibl a'r risg i hynny ddigwydd, dulliau rheoli, camau a gymerwyd i atal lledaeniad, monitro a manylion unrhyw ddulliau adfer. Darllenwch

weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6780 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw - Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynolam ragor o wybodaeth.

mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn destun deddfwriaeth, ac mae'n drosedd eu plannu neu beri iddynt dyfu'n wyllt (darllenwch sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 15](#) am ragor o wybodaeth).

bydd cynnal mesurau bioddiogelwch, gan gynnwys sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a cherbydau yn lân wrth gyrraedd ac yn cael eu glanhau cyn gadael y safle, yn lleihau'r risg o ledaenu rhywogaethau planhigion estron goresgynol. Mae'n bosibl y byddwch am gynnal asesiad risg bioddiogelwch cyn dechrau ar unrhyw waith rhywogaethau estron goresgynol. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6779 Rhywogaethau Estron Goresgynol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw : Asesu risg bioddiogelwch am ragor o wybodaeth.

gwneud yn siŵr fod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#), [trwyddedau gwastraff](#) a [thrwyddedau rhywogaethau a warchodir](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith.

rhaid i chi gadw ffotograffau â geotag i ddangos cyflwr y safle cyn i'r gwaith ddechrau, yn ogystal â ffotograffau o'r gwaith wedi'i gwblhau, a chadw cofnod o'r driniaeth (e.e. amseru, dull a'r ardal a gafodd ei thrin). Rhaid i chi hefyd gadw unrhyw gydsyniad neu ganiatâd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a'u dangos ar gais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid cadw anfonebau taledig neu ddatganiadau banc (lle nad oes anfoneb daledig ar gael) fel tystiolaeth.

mabwysiadu dull rheolaeth integredig ar blâu, yn cynnwys cyfyngu i'r eithaf y defnydd o chwynladdwyr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu](#).

rhaid i'r chwynladdwr fod yn un cymeradwy, gyda label sy'n argymhell ei ddefnydd arfaethedig a'r dull defnyddio arfaethedig. Dylid defnyddio chwynladdwr sydd wedi cael ei wanhau i'r cryfder priodol. Mae'n bosibl ychwanegu adjiwffant at chwynladdwyr i wella'r amsugniad gan y planhigyn.

[defnyddio chwynladdwr](#) yn ddiogel a chyda chaniatâd priodol, gan gynnwys defnydd ger cyrsiau dŵr ac ar safleoedd gwarchodedig.

gwneud yn siŵr bod cyfarpar diogelu personol priodol, megis menig, yn cael eu gwisgo.

cydymffurfio â'r cyfyngiadau ar ddefnyddio cynnyrch diogelu planhigion yn unol â'r cyfyngiadau yn sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 10](#) gan gynnwys:

bod yn gymwysedig i ddefnyddio chwynladdwyr neu gyflogi contractwr cymwysedig addas.

bod yn ddefnyddiwr cofrestredig cynhyrchion diogelu planhigion.

cadw cofnodion o ddefnydd o gynhyrchion diogelu planhigion gan gynnwys chwynladdwyr yn eich Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu.

rhaid i offer taenu plaladdwyr, ac eithrio chwistrellwyr cefn a chwistrellwyr llaw, fod wedi pasio prawf a gynhaliwyd gan y Cynllun Cenedlaethol Profi Chwistrellwyr.

gwaredu chwynladdwr sy'n weddill mewn ffordd ddiogel ar ddiwedd pob diwrnod.

dylid gosod y peiriant clwt-chwynnu ar dractor neu gerbyd pob tir, a'i osod ar yr uchder cywir uwchben y planhigyn. Bydd y dewis o dractor neu gerbyd pob tir yn dibynnu ar amodau fel mynediad i'r safle, topograffeg, tirwedd anwastad ac agosrwydd dŵr.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

defnyddio'r dull hwn i dorri a thrin bonion Rhododendron neu lawrgeirios sydd newydd eu torri gyda chwynladdwyr – darllenwch weithredoedd rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer: Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynnol Daearol: Rheoli Rhododendron a Llawryf.

defnyddio'r dull hwn i reoli rhywogaethau goresgynnol brodorol fel chwyn niweidiol, rhedyn, eithin, brwyn, mieri neu ddanadl poethion.

ei ddefnyddio ar jac y neidiwr neu blanhigion eraill sy'n cynhyrchu hadau wedi iddynt hadu.

gadael i chwynladdwr ddiferu oddi ar y teclyn taenu, a ddylai fod yn llaith yn hytrach na gwlyb.

taenu chwynladdwr mewn amodau gwlyb neu pan mae disgwyl gwyntoedd cryf, glaw neu wllith trwm (o leiaf 12 awr heb ragolygon o law).

taenu chwynladdwr mewn amodau poeth neu heulog oherwydd bydd y chwynladdwr yn anweddu nac mewn amodau oer (<7°C) oherwydd amusgniad is gan y planhigyn.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Defnyddiwch beiriannau clwt-chwynnu yn ystod y tymor tyfu ar rywogaethau planhigion estron goresgynnol sy'n tyfu ar y pryd; mae'n aneffeithiol defnyddio'r driniaeth hon ar blanhigion sydd wedi'u torri'n ddiweddar, ar blanhigion sydd o dan straen sychder neu ar blanhigion sy'n gwywo.

Taenwch ar y rhywogaethau planhigion estron goresgynnol targed o'r brig, gyda symudiad i lawr y planhigyn lle bo'n bosibl.

Gwnewch yn siŵr bod chwynladdwr yn cael ei daenu ar y dail, nid ar y coesynnau yn unig.

Mae angen osgoi taenu'r un ardal dro ar ôl tro gan y gallai hyn achosi lledaeniad ysgyrion neu sug planhigion.

Rhywogaethau sy'n addas ar gyfer clwt-chwynnu

Clymog Japan a chlymogau goresgynnol eraill: mae clwt-chwynnu'n bosibl ar ddiwedd yr haf pan fydd gwail yn dal a'r dail wedi datblygu'n llawn ac yn uwch na llystyfiant brodorol.

Jac y neidiwr: mae clwt-chwynnu'n bosibl cyn iddo hadu, pan fydd planhigion yn uwch na'r llystyfiant brodorol.

Efwr enfawr: mae clwt-chwynnu'n bosibl cyn iddo hadu, pan fydd planhigion yn uwch na'r llystyfiant brodorol. Gwisgwch gyfarpar diogelu personol priodol gan fod pob rhan o'r planhigyn yn cynnwys sug gwenwynig sy'n gallu achosi pothelli a goleusensitifedd ailadroddus.

Monitro a thriniaeth ddilynol

Mae angen monitro effeithiolrwydd y driniaeth chwynladdwr yn ystod y blynyddoedd dilynol. Os oes unrhyw aildyfiant yn bresennol yn ystod y blynyddoedd dilynol, mae angen ei drin unwaith eto gyda dull rheoli priodol pan fydd aildyfiant yn uwch na'r llystyfiant cyfagos a phan fydd dail yn ddigon mawr i gyflwyno dogn effeithiol o chwynladdwr i ladd y planhigyn.

Gall unrhyw dyfiant newydd o hadau gael ei dynnu â llaw.

Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6777 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynnol Daearol a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli, a gweithredoedd eraill sy'n cwmpasu dulliau rheoli planhigion o'r fath.

6782 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Torri a thrin y bonyn

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer:

Rhywogaethau planhigion Estron Goresgynol Daearol: Torri a thrin y bonyn

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhywogaethau estron goresgynol yw'r enw ar unrhyw rywogaeth estron sy'n gallu ymledu ac achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn gallu amharu ar ffyniant Cymru trwy effeithio ar gynhyrchedd amaethyddiaeth, coedwigaeth a garddwriaeth.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn effeithio ar yr amgylchedd gan eu bod yn cystadlu'n well na phlanhigion brodorol, gan effeithio'n negyddol ar y bywyd gwyllt sy'n dibynnu arnynt. Mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn rhyddhau cemegau niweidiol i'r pridd sy'n gallu atal planhigion eraill rhag tyfu. Pan fyddant yn tyfu mewn clystyrau trwchus ger cyrsiau dŵr, maen nhw'n gallu achosi i'r pridd erydu yn ystod y gaeaf, neu dagu dyfrffyrdd, gan gynyddu'r risg o lifogydd lleol. Maen nhw hefyd yn gallu amharu ar beillio trwy ddenu pryfed peillio i ffwrdd o blanhigion brodorol, sy'n amharu ar lefelau peillio a'i gallu i gynhyrchu hadau.

Maen nhw'n gallu peri risg i iechyd pobl, naill ai trwy waethygu cyflyrau fel asthma neu drwy achosi niwed corfforol fel brech neu bothelli.

Mae torri a thrin boncion yn ffordd effeithiol o drin rhai rhywogaethau estron goresgynol. Mae sbot-chwynnu rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn cyfeirio at sawl triniaeth sy'n defnyddio chwynladdwyr mewn ffordd wedi'i thargedu, gan gynnwys rhoi ar ddail, torri a thrin y bonyn a chwistrellu coesynnau.

Mae'r taliad hwn yn talu cost clirio ardal o rywogaethau planhigion estron goresgynol trwy dorri a thrin bonion gyda chwynladdwr.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol y cytunwyd arno. Bydd y cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol yn disgrifio nodweddion y safle, gan gynnwys anifeiliaid a chynefinoedd allweddol, safleoedd dynodedig, unrhyw rywogaethau o'r fath sy'n bresennol a'u hyd a'u lled, llwybrau lledaenu posibl a'r risg i hynny ddigwydd, dulliau rheoli, camau a gymerwyd i atal lledaeniad, monitro a manylion unrhyw ddulliau adfer. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6780 Rhywogaethau Estron

Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw - Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol am ragor o wybodaeth.

mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn destun deddfwriaeth, ac mae'n drosedd eu plannu neu beri iddynt dyfu'n wyllt (darllenwch sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 15](#) am ragor o wybodaeth).

bydd cynnal mesurau bioddiogelwch, gan gynnwys sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a cherbydau yn lân wrth gyrraedd ac yn cael eu glanhau cyn gadael y safle, yn lleihau'r risg o ledaenu rhywogaethau planhigion estron goresgynol. Mae'n bosibl y byddwch am gynnal asesiad risg bioddiogelwch cyn dechrau ar unrhyw waith rhywogaethau estron goresgynol. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6779 Rhywogaethau Estron Goresgynol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw: Asesu risg bioddiogelwch am ragor o wybodaeth.

gwnewch yn siŵr fod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#), [trwyddedau gwastraff](#) a [thrwyddedau rhywogaethau a warchodir](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith.

rhaid i chi gadw ffotograffau â geotag i ddangos cyflwr y safle cyn i'r gwaith ddechrau, yn ogystal â ffotograffau o'r gwaith wedi'i gwblhau, a chadw cofnod o'r driniaeth (e.e. amseru, dull a'r ardal a gafodd ei thrin). Rhaid i chi hefyd gadw unrhyw gydsyniad neu ganiatâd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a'u dangos ar gais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid cadw anfonebau taledig fel tystiolaeth, neu ddatganiadau banc lle nad oes anfoneb daledig ar gael.

mabwysiadu dull rheolaeth integredig ar blâu, yn cynnwys cyfyngu i'r eithaf y defnydd o chwynladdwyr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu](#).

rhaid i'r chwynladdwr fod yn un cymeradwy, gyda label sy'n argymhell ei ddefnydd arfaethedig a'r dull defnyddio arfaethedig. Dylid defnyddio chwynladdwr sydd wedi cael ei wanhau i'r cryfder priodol. Mae'n bosibl ychwanegu adjiwfant at chwynladdwyr i wella amsugniad gan y planhigyn.

[defnyddio chwynladdwr](#) yn ddiogel a chyda chaniatâd priodol, gan gynnwys defnydd ger cyrsiau dŵr ac ar safleoedd gwarchodedig.

rhaid i chwynladdwyr gael eu defnyddio'n ofalus, a hynny gan weithredwr medrus a chymwysedig i sicrhau taenu manwl gywir.

gwneud yn siŵr bod cyfarpar diogelu personol priodol, megis menig, yn cael eu gwisgo.

cydymffurfio â'r cyfyngiadau ar ddefnyddio cynhyrchion diogelu planhigion yn unol â'r cyfyngiadau yn sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 10](#) gan gynnwys:

bod â chymwysterau addas i ddefnyddio chwynladdwyr neu gyflogi contractwr â chymwysterau addas.

bod yn ddefnyddiwr cofrestredig cynhyrchion diogelu planhigion.

cadw cofnodion o ddefnydd cynhyrchion diogelu planhigion gan gynnwys chwynladdwyr yn eich Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu.

rhaidd i offer taenu plaladdwyr, ac eithrio chwistrellwyr cefn a chwistrellwyr llaw, fod wedi pasio prawf a gynhaliwyd gan y Cynllun Cenedlaethol Profi Chwistrellwyr.

gwaredu chwynladdwr sy'n weddill mewn ffordd ddiogel ar ddiwedd pob diwrnod o'i ddefnyddio.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

defnyddio'r dull hwn i dorri a thrin bonion Rhododendron neu lawrgeirios sydd newydd eu torri gyda chwynladdwyr – darllenwch weithredoedd rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynnol Daearol: Rheoli Rhododendron a Llawryf.

defnyddio'r weithred hon i reoli rhywogaethau goresgynnol brodorol fel chwyn niweidiol, rhedyn, eithin, brwyn, mieri neu ddanadl poethion.

taenu chwynladdwr mewn amodau gwlyb neu pan mae disgwyl gwyntoedd cryf, glaw neu wllith trwm (o leiaf 12 awr heb ragolygon o law).

taenu chwynladdwr mewn amodau poeth neu heulog oherwydd bydd y chwynladdwr yn anweddu nac mewn amodau oer (<7°C) oherwydd amsugniad is gan y planhigion.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod

Defnyddiwch driniaeth torri a thrin y bonyn ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol fel bambŵ goresgynnol, y gynffon las, rhywogaethau creigafal goresgynnol, y dringwr fflamgoch (a'r dringwr fflamgoch ffug a'r dringwr fflamgoch tri phigyn), rheonllys mawr, rhosyn Japan a choeden y nefoedd.

Mae'n rhaid torri'r holl goesynnau i'r un lefel â'r ddaear.

Dylid rhoi chwynladdwr ar goesynnau newydd eu torri cyn gynted â phosibl ar yr un diwrnod ag y byddwch yn eu torri.

Mae'n bosibl taenu chwynladdwr gyda:

chwistrellwr cefn ar bwysedd isel wedi'i ffitio â phigyn chwistrellu solet

sbot-ddryll gyda phigyn llif solet

brwsh paent

dabiwr

llif glirio gydag atodiad addas.

Gwnewch yn siŵr bod y coesyn wedi'i wlychu'n llwyr.

Gan nad yw'r chwynladdwr yn ddetholus, mae difrod i lystyfiant brodorol cyfagos yn gallu digwydd, hyd yn oed wrth gymryd gofal. Dylid cymryd yr holl ragofalon rhesymol i osgoi cyswllt â rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu. Mae'n gallu cymryd blynyddoedd i lystyfiant brodorol adfer ar ôl iddo gael ei ddifrodi.

Triniaethau

Bambŵ: Dylid trin coesynddau a dorrwyd unwaith y flwyddyn yn y gaeaf, a dilyn hynny trwy chwistrellu dail unrhyw aildyfiant dros dair blynedd.

Y gynffon las: Dylid trin coesynddau a dorrwyd unwaith y flwyddyn yn y gaeaf; mae un driniaeth yn gallu bod yn ddigon, ond fel arall, dilynwch hynny trwy chwistrellu dail unrhyw aildyfiant dros ddwy flynedd. Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw dros dair i bedair blynedd, yn dibynnu ar amodau'r pridd.

Creigafal: Dylid trin coesynddau a dorrwyd unwaith y flwyddyn yn y gaeaf; mae un driniaeth yn gallu bod yn ddigon, ond os fel arall, dylech chwistrellu dail unrhyw aildyfiant dros ddwy flynedd. Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw dros bum mlynedd.

Y dringwr fflamgoch (a'r dringwr fflamgoch ffug a'r dringwr fflamgoch tri phigyn): Dylid trin coesynddau a dorrwyd unwaith y flwyddyn yn y gaeaf, gan sicrhau bod ymyl y coesyn wedi'i drochi; mae un driniaeth yn gallu bod yn ddigon, ond fel arall, dylech chwistrellu dail unrhyw aildyfiant dros o leiaf ddwy flynedd.

Rheonllys mawr: Dylid trin coesynddau a dorrwyd o leiaf ddwywaith yn ystod y tymor tyfu (Mawrth – Tachwedd). Mae angen monitro am unrhyw aildyfiant a thrin coesynddau a dorrwyd unwaith eto yn ôl yr angen.

Rhosyn Japan: Dylid trin coesynddau a dorrwyd o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng yr haf a'r hydref. Mae angen monitro unrhyw aildyfiant a thrin coesynddau a dorrwyd unwaith eto yn ôl yr angen.

Coeden y nefoedd: Dylid trin coesynddau a dorrwyd yn ystod y tymor tyfu rhwng Ebrill a Hydref. Mae angen triniaeth unwaith y flwyddyn nes nad oes unrhyw arwydd o dyfiant.

Monitro a thriniaeth ddilynol

Mae angen monitro effeithiolrwydd y driniaeth chwynladdwr yn ystod y blynyddoedd ddilynol. Os oes unrhyw aildyfiant neu dyfiant newydd yn bresennol, mae'n rhaid ei drin unwaith eto gyda dull rheoli priodol. Os ydych chi'n defnyddio chwistrellu'r dail fel dull, gwnewch yn siŵr bod unrhyw aildyfiant yn ddigon mawr i gyflwyno dogn effeithiol o chwynladdwr i ladd y planhigyn.

Gall unrhyw dyfiant newydd o hadau gael ei dynnu â llaw.

Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6777 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynnol Daearyl a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli, a gweithredoedd rheoli eraill sy'n cwmpasu dulliau rheoli planhigion o'r fath.

6783 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Cloddio clymog Japan a chlymogau eraill a'u claddu ar y safle

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer: Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Cloddio a chladdu clymog Japan a chlymogau eraill ar y safle

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae rhywogaethau clymogau estron goresgynol yn cynnwys:

clymog Japan

corglymog

clymog mawr

clymog Bohemia

clymog yr Himalaya

Mae'r planhigion hyn yn gallu creu clystyrau trwchus, gan gystadlu'n well na llystyfiant brodorol. Mae rhai clymogau yn gallu achosi niwsans a gwaethygu difrod i strwythurau.

Mae'r taliad hwn yn talu cost cloddio clymog Japan a chlymogau eraill a deunydd halogedig fel pridd a'u claddu ar y safle, yn unol â pholisi a deddfwriaeth gwastraff.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol y cytunwyd arno. Bydd y cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol yn disgrifio nodweddion y safle, gan gynnwys anifeiliaid a chynefinoedd allweddol, safleoedd dynodedig, unrhyw rywogaethau o'r fath sy'n bresennol a'u hyd a'u lled, llwybrau lledaenu posibl a'r risg i hynny ddigwydd, dulliau rheoli, camau a gymerwyd i atal lledaeniad, monitro a manylion unrhyw ddulliau adfer. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6780 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw - Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol am ragor o wybodaeth.

Mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn destun deddfwriaeth, ac mae'n drosedd eu plannu neu beri iddynt dyfu'n wyllt (darllenwch sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 15](#) am ragor o wybodaeth).

bydd cynnal mesurau bioddiogelwch, gan gynnwys sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a cherbydau yn lân wrth gyrraedd ac yn cael eu glanhau cyn gadael y safle, yn

lleihau'r risg o ledaenu rhywogaethau planhigion estron goresgynol. Mae'n bosibl y byddwch am gynnal asesiad risg boddigolwch cyn dechrau ar unrhyw waith rhywogaethau estron goresgynol. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6779 Rhywogaethau Estron Goresgynol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw: Asesu risg boddigolwch am ragor o wybodaeth.

gwneud yn siŵr fod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#), [trwyddedau gwastraff](#) a [thrwyddedau rhywogaethau a warchodir](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith.

rhaid i chi gadw ffotograffau â geotag i ddangos cyflwr y safle cyn i'r gwaith ddechrau, yn ogystal â ffotograffau o'r gwaith wedi'i gwblhau, a chadw cofnod o gloddio a chladdu (e.e. amseru, dull a'r ardal a gafodd ei chloddio a lleoliad y claddu). Rhaid i chi hefyd gadw unrhyw gydsyniad neu ganiatâd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a'u dangos ar gais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid cadw anfonebau taledig neu ddatganiadau banc (lle nad oes anfoneb daledig ar gael) fel tystiolaeth.

rhaid i'r gwaith o gloddio clymog Japan a chlymogau eraill a'u claddu ar y safle ddigwydd yn unol â pholisi a deddfwriaeth gwastraff.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Gallwch ddefnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru i adnabod clymogau estron goresgynol:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/clymog-japan-gwybodaeth-cyhoedd-reoli-planhigion-goresgynol-nghymru.pdf>

Mae clymog Japan a chlymogau eraill neu ddeunydd halogedig (e.e. pridd a graean sy'n cynnwys clymog Japan a chlymogau eraill) yn wastraff a reolir.

Os ydych yn trin neu'n gwaredu clymog Japan a chlymogau eraill ar y safle, bydd angen gwneud cais am drwydded wastraff, oni bai eich bod yn gallu bodloni'r amodau yn Natganiad Rheoleiddio 058.2 Cyfoeth Naturiol Cymru:

[Datganiad rheoleiddio 058.3 Trin a gwaredu planhigion estron goresgynol](#)

Nid yw'r taliad hwn yn cwmpasu cludo clymog Japan a chlymogau eraill neu ddeunydd halogedig o safle i'w gwaredu oddi ar y safle. Os yw'r deunydd hwn yn cael ei symud oddi ar y safle, rhaid iddo gael ei gludo gan gludwr gwastraff cofrestredig a'i waredu mewn cyfleuster gwastraff trwyddedig priodol. Mae'n bosibl y bydd angen i chi wirio y byddant yn derbyn y gwastraff.

Monitro a thriniaeth ddilynol

Mae angen monitro effeithiolrwydd y driniaeth hon yn ystod y blynyddoedd dilynol. Os oes unrhyw aildyfiant neu dyfiant newydd yn bresennol, mae'n rhaid ei drin

unwaith eto gyda dull rheoli priodol. Os ydych chi'n defnyddio trin y dail â chwynladdwr fel dull, gwnewch yn siŵr bod unrhyw aildyfiant yn ddigon mawr i gyflwyno dogn effeithiol o chwynladdwr i ladd y planhigyn.

Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n ymwneud â: 6777 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynnol Daearol a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli, a chamau eraill sy'n cwmpasu dulliau rheoli planhigion o'r fath.

6784 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Torri (ac eithrio clymog Japan neu glymogau eraill)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer: Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Torri (ac eithrio clymog Japan neu glymogau -eraill)

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Cymorth Maes.

Rhywogaethau estron goresgynol yw'r enw ar unrhyw rywogaeth estron sy'n gallu ymledu ac achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn gallu amharu ar ffyniant Cymru trwy effeithio ar arwynebedd cynhyrchiol a lefel cynnyrch amaethyddiaeth, coedwigaeth a garddwriaeth.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn effeithio ar yr amgylchedd, trwy gystadlu'n well na phlanhigion brodorol, gan effeithio'n negyddol ar y bywyd gwylt sy'n dibynnu arnynt. Mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn alelopathig, sy'n golygu eu bod yn rhyddhau cemegau niweidiol i'r pridd, a hynny'n gallu atal planhigion eraill rhag tyfu. Pan fyddant yn tyfu mewn clystyrau trwchus ger cyrsiau dŵr, maen nhw'n gallu achosi i'r pridd erydu yn ystod y gaeaf, neu dagu dyfrffyrdd, gan gynyddu'r risg o lifogydd lleol. Maen nhw hefyd yn gallu amharu ar beillio trwy ddenu pryfed peillio i ffwrdd o blanhigion brodorol, sy'n amharu ar lefelau peillio a'i gallu i gynhyrchu hadau.

Maen nhw'n gallu peri risg i iechyd pobl, naill ai trwy waethygu cyflyrau fel asthma neu drwy achosi niwed corfforol fel brech neu bothelli.

Mae'r taliad hwn yn talu cost torri rhywogaethau planhigion estron goresgynol mewn ardal benodol gan ddefnyddio peiriant lladd gwair wedi'i osod ar dractor neu gerbyd pob tir.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol y cytunwyd arno. Bydd y cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol yn disgrifio nodweddion y safle, gan gynnwys anifeiliaid a chynefinoedd allweddol, safleoedd dynodedig, unrhyw rywogaethau o'r fath sy'n bresennol a'u hyd a'u lled, llwybrau lledaenu posibl a'r risg i hynny ddigwydd, dulliau rheoli, camau a gymerwyd i atal lledaeniad, monitro a manylion unrhyw ddulliau adfer. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6780 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw – Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol am ragor o wybodaeth.

mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn destun deddfwriaeth, ac mae'n drosedd eu plannu neu beri iddynt dyfu'n wyllt (darllenwch sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 15](#) am ragor o wybodaeth).

bydd cynnal mesurau bioddiogelwch, gan gynnwys sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a cherbydau yn lân wrth gyrraedd ac yn cael eu glanhau cyn gadael y safle, yn lleihau'r risg o ledaenu rhywogaethau planhigion estron goresgynol. Mae'n bosibl y byddwch am gynnal asesiad risg bioddiogelwch cyn dechrau ar unrhyw waith ar rywogaethau estron goresgynol. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6779 Rhywogaethau Estron Goresgynol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw: Asesu risg bioddiogelwch am ragor o wybodaeth.

gwnewch yn siŵr bod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#), [trwyddedau gwastraff](#) a [thrwyddedau rhywogaethau a warchodir](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith.

rhaid i chi gadw ffotograffau â geotag i ddangos cyflwr y safle cyn i'r gwaith ddechrau, yn ogystal â ffotograffau o'r gwaith wedi'i gwblhau, a chadw cofnod o'r driniaeth (e.e. amseru, dull a'r ardal a gafodd ei thrin). Rhaid i chi hefyd gadw unrhyw gydsyniad neu ganiatâd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a'u dangos ar gais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid cadw anfonebau taledig neu ddatganiadau banc (lle nad oes anfoneb daledig ar gael) fel tystiolaeth o daliadau wedi'u gwneud.

defnyddiwch beiriant lladd gwair wedi'i osod wrth dractor neu gerbyd pob tir, neu beiriant torri porfa sy'n cael ei yrru.

gwnewch yn siŵr eich bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, megis menig.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

defnyddio'r camau hyn i reoli rhywogaethau goresgynol **brodorol** fel chwyn niweidiol, rhedyn, eithin, brwyn, mieri neu ddanadl poethion.

torri clymog Japan (neu glymogau goresgynol eraill). Bydd yn peri iddo ledaenu, ac mae'n ddull aneffeithiol o'i reoli. Mae rhywogaethau clymog yn cynnwys:

clymog Japan

corglymog

clymog mawr

clymog Bohemia

clymog yr Himalaya

gosod y peiriant torri/tocio uwchben lefel y ddaear ar gyfer rhywogaethau planhigion estron goresgynol. Mae angen torri ar waelod y planhigyn (islaw'r nod cyntaf) er mwyn ei reoli'n effeithiol ac i leihau'r risg o ledaenu.

Gofynion a chanllawiau ychwanegol at y manylebau uchod:

Dim ond ar gyfer rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynnol y mae torri yn ddull rheoli addas, er enghraifft, jac y neidiwr, bambŵ goresgynnol ac efwr enfawr. Mae'n gallu achosi lledaeniad, ac mae'n ddull aneffeithiol o reoli llawer o rywogaethau planhigion estron goresgynnol eraill.

Dim ond cyn i flodau ffurfio y dylid torri jac y neidiwr ac efwr enfawr, er mwyn atal hadau rhag gwasgaru.

Bydd angen torri planhigion yn agos at wyneb y ddaear (ar gyfer jac y neidiwr, islaw'r nod cyntaf) a bydd angen i'r planhigion gael eu torri yn ysbeidiol dro ar ôl tro ar draws y tymor tyfu ac am nifer o flynyddoedd i atal aildyfiant (bydd amseru'r torri yn dibynnu ar y planhigyn sy'n cael ei dargedu).

Monitro a thriniaeth ddilynol

Mae angen monitro effeithiolrwydd gweithrediadau torri yn ystod y blynyddoedd dilynol. Os oes unrhyw aildyfiant neu dyfiant newydd yn bresennol, mae'n rhaid ei dorri neu ei drin unwaith eto gyda dull rheoli priodol.

Mae gweithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cwmpasu taliadau ar gyfer: 6777 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynnol Daeareol a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli planhigion o'r fath yn cynnwys amserlenni monitro.

Gwaredu deunydd planhigion

Ar y safle:

Yn aml, mae'n rhatach ac yn well i'r amgylchedd os ydych chi'n gwaredu deunydd rhywogaethau planhigion estron goresgynnol ar y safle lle maen nhw wedi tyfu.

Os ydych yn trin neu'n gwaredu rhywogaethau planhigion estron goresgynnol ar y safle, bydd angen gwneud cais am drwydded wastraff, oni bai eich bod yn gallu bodloni'r amodau yn Natganiad Rheoleiddio 058.2 Cyfoeth Naturiol Cymru:

[Datganiad rheoleiddio 058.3 Trin a gwaredu planhigion estron goresgynnol](#)

Os nad yw'r deunydd planhigion yn cynnwys hadau, coesau neu wreiddiau hyfyw ac mae'n annhebygol o aildyfu (er enghraifft, jac y neidiwr sydd wedi'i dynnu cyn iddo flodeuo), mae'n bosibl ei gompostio ar y safle.

Rhaid llosgi gwastraff gwyrdd heb ei drin yn unol ag is-ddeddfau lleol a deddfwriaeth gwastraff: [Cofrestru neu adnewyddu eich esemptiadau gwastraff](#)

Oddi ar y safle:

Mae deunydd rhywogaethau planhigion estron goresgynnol neu bridd halogedig yn wastraff a reolir. Os yw'n cael ei symud oddi ar y safle, rhaid iddo gael ei gludo gan gludwr gwastraff cofrestredig a'i waredu mewn cyfleuster gwastraff trwyddedig priodol. Mae'n bosibl y bydd angen i chi wirio eu bod yn barod i dderbyn y gwastraff. Os ydych yn ystyried gwaredu oddi ar y safle, yr argymhelliad yw trafod hynny ymlaen llaw gyda'ch Swyddog Cymorth Maes, gan nodi unrhyw gytundeb o ran y camau i'w cymryd yn y cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.

6785 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearyl: Rheoli Rhododendron a Llawryf – Ysgafn

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer:

Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearyl: Rheoli Rhododendron a Llawryf – Ysgafn

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r fanyleb dechnegol hon yn berthnasol i bob un o'r tri Rhododendron estron goresgynol (sydd i gyd yn cael eu galw'n Rhododendron yn y canllawiau hyn), i lawrgeirios (*Prunus laurocerasus*) a llawrgeirios Portiwgal (*Prunus lusitanica*), y ddau'n cael eu galw'n Llawryf yn y canllawiau hyn.

Mae llawer o rywogaethau addurniadol estron o Rododendron yn y DU, ond dim ond tri math y gwyddys eu bod yn oresgynol: *Rhododendron ponticum*, ei hybrid *Rhododendron ponticum* x *Rhododendron maximum* a rhododendron melyn, *Rhododendron luteum*.

Llwyn estron gyda blodau porffor a dail cwyradd yw'r Rhododendron cyffredin, *Rhododendron ponticum*. Cafodd ei gyflwyno i Brydain yn wreiddiol tua 1763, fel planhigyn addurnol neu orchudd ar gyfer anifeiliaid hela mewn parciau, gerddi ac ystadau. Unwaith mae'n aeddfed, mae'n gallu cyrraedd uchder o 2.5 metr. Mae'n gallu croesi â *Rhododendron maximum*, planhigyn gardd mwy gyda blodau gwyn-binc sy'n gallu tyfu i uchder o fwy na 4 metr. Am ragor o wybodaeth, darllenwch: <https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/3004>.

Mae rhododendron melyn, *Rhododendron luteum*, yn cynhyrchu blodau persawrus mawr ym mis Mai, a chapsiwlau hadau yn yr hydref. Mae'n gallu cyrraedd uchder o 1.5 i 2.5 metr. Am ragor o wybodaeth, darllenwch: <https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/3003>.

Mae pob un o'r planhigion hyn yn gallu cytrefu amrywiaeth o gynefinoedd yn sydyn, gan gynnwys coetir, rhostir a chorsydd. Maen nhw'n lledaenu trwy sugnwyr neu wrth i hadau ysgafn a niferus iawn (tua miliwn o hadau fesul llwyn) gael eu gwasgaru gan y gwynt, pobl neu anifeiliaid. Mae'r planhigion yn gallu blodeuo pan maen nhw'n cyrraedd 10 – 20 oed.

Ychydig iawn o adar neu anifeiliaid brodorol sy'n byw o fewn clystyrau trwchus o Rododendron, ac ychydig iawn o blanhigion a choed brodorol sy'n gallu goroesi yn yr haen ddwfn o ddeiliach marw o dan y brigdwf trwchus a chysgodol. Mae cynefin a rhywogaethau brodorol yn gallu cymryd degawdau i adfer ar ôl y gwaith rheoli.

Mae'r dail, y gwreiddiau, y neithdar, y blodau a'r paill yn cynnwys grayanotocsinau, cyfansoddion sy'n wenwynig i rai anifeiliaid pori, cŵn a phobl o'u llyncu. Mae'r

neithdar yn gallu bod yn angheuol i rai rhywogaethau o wenyn mêl. Mae mêl o Rododendron yn gallu cael effaith wenwynol ar bobl hefyd.

Mae effeithiau economaidd yn ogystal, gan gynnwys colli tir cynhyrchiol ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth a chostau rheoli uniongyrchol. Mae Rhododendron a Llawryf yn gallu lletya clefydau ffwngaid fel *Phytophthora ramorum* sy'n effeithio ar goed a llawer o blanhigion eraill.

Llwyn estron goresgynol yw llawrgeirios (*Prunus laurocerasus*), gyda dail sgleiniog cwyrdd a blodau gwyn. Mae'n ymledu trwy wreiddio brigau ac wrth i adar wasgaru ei ffrwythau toreithiog. Mae'n ffurfio clystyrau sy'n cael effaith debyg i Rododendron, gan gystadlu'n well na phlanhigion brodorol a thaflu cysgod drostynt. Mae'r dail, yr hadau a'r rhisgl yn cynnwys glycosidau cyanogenig, sy'n gallu rhyddhau cyanid pan gânt eu metaboleiddio yn y corff. Mae'n wenwynig i bobl, anifeiliaid sy'n pori ac adar. Am ragor o wybodaeth, darllenwch: <https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/2853>

Llwyn bytholwyrdd mawr neu goeden fach gyda thuedd i ymledu yw llawrgeirios Portiwgal (*Prunus lusitanica*), gydag egin coch tywyll yn dwyn dail hirgrwn gwyrdd tywyll. Mae blodau bach gwyn persawrus mewn sypiau hyd at 25cm o hyd ar ddechrau'r haf yn cael eu dilyn gan ffrwythau bach, porffor tywyll, sy'n cael eu gwasgaru'n hawdd gan adar. Fel gyda llawrgeirios, mae'r dail a'r ffrwythau yn wenwynig. Am ragor o wybodaeth, darllenwch: <https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/2854>

Mae rheolaeth effeithiol o Rododendron a'r rhywogaethau Llawryf hyn yn cael ei chyflawni trwy gyfuniad o ddulliau gan gynnwys trin coesynnau, torri â llaw a thrin aildyfiant â chemegau a thynnu â llaw. Bydd y dulliau i'w defnyddio yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys tirwedd y safle, mynediad, a dwysedd, maint ac aeddfedrwydd planhigion. Gan fod modd i hadau gael eu gwasgaru gan y gwynt, dylid ystyried cyfeiriad y gwynt wrth gynllunio gweithrediadau hefyd.

Mae'n debygol y bydd angen gwaith rheoli dros gyfnod o bum i saith mlynedd, gan ddefnyddio'r dull/dulliau mwyaf priodol. Fel arfer, bydd tri cham i raglen reoli: triniaeth lawn gychwynnol yn y flwyddyn gyntaf, cam dilynol (yr argymhelliad yw 18–24 mis ar ôl y cyfnod cychwynnol) a cham cynnal a chadw a monitro (ym mlynnyddoedd 5–7 ar ôl y cam rheoli cychwynnol).

Mae taliadau cyfalaf ar gael i dalu am gost rheoli Rhododendron a Llawryf lle mae cynllun rheoli rhywogaethau goresgynol wedi ei lunio a'i gytuno.

Mae'r taliad i dalu am gost clirio cychwynnol y safle ac yna trin aildyfiant gyda chwynladdwr yn ystod y blynnyddoedd dilynol, neu driniaeth gychwynnol ar y coesynnau a thriniaeth ddilynol ar unrhyw aildyfiant. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd eginblanhigion yn ymddangos am sawl blwyddyn ar ôl y clirio cychwynnol. Bydd angen tynnu'r rhain â llaw er mwyn eu hatal rhag ailsefydlu.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol y cytunwyd arno. Bydd y cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol yn disgrifio nodweddion y safle, gan gynnwys anifeiliaid a chynefinoedd allweddol, safleoedd dynodedig, unrhyw rywogaethau o'r fath sy'n bresennol a'u hyd a'u lled, llwybrau lledaenu posibl a'r risg i hynny ddigwydd, dulliau rheoli, camau a gymerwyd i atal lledaeniad, monitro a manylion unrhyw ddulliau adfer. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6780 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw - Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol am ragor o wybodaeth.

dylid dinistrio'r holl Rhododendron a Llawryf o fewn yr ardal darged. Mae angen gwneud y gwaith rheoli mewn ffordd systematig i sicrhau nad oes unrhyw blanhigion yn cael eu gadael heb eu trin.

mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol, gan gynnwys Rhododendron, yn destun deddfwriaeth, ac mae'n drosedd eu plannu neu beri iddynt dyfu'n wyllt (darllenwch sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 15](#) am ragor o wybodaeth).

bydd cynnal mesurau bioddiogelwch, gan gynnwys sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a cherbydau yn lân wrth gyrraedd ac yn cael eu glanhau cyn gadael y safle i gael gwared ar hadau, yn lleihau'r risg o ledaenu. Wrth fynd i'r afael â Rhododendron neu Lawryf heintiedig, bydd angen mesurau bioddiogelwch ychwanegol, h.y. defnyddio diheintydd cymeradwy. Mae'n bosibl y byddwch am gynnal asesiad risg bioddiogelwch cyn dechrau ar unrhyw waith. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6779 Rhywogaethau Estron Goresgynol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw: Asesu risg bioddiogelwch am ragor o wybodaeth.

mae angen ymdrin â deunydd planhigion heintiedig mewn ffordd briodol. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno cyfarwyddiadau i wneud hynny trwy [Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol](#)

gwneud yn siŵr fod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#), [trwyddedau gwastraff](#) a [thrwyddedau rhywogaethau a warchodir](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith.

ystyried sensitifrwydd safle wrth ddewis y dull o reoli; er enghraifft, ar safleoedd Coetir Hynafol, gallai defnyddio chwynladdwyr effeithio ar nodweddion gweddilliol fel coed hynod/cadeiriau/cloddiau â pherthi a fflora Coetir Hynafol. Bydd cyfyngu ar nifer y llwybrau mynediad newydd hefyd yn helpu i atal difrod i nodweddion coetir hynafol ac yn lleihau cymaint â phosibl unrhyw gywasgu a tharfu ar bridd.

rhaid i chi gadw ffotograffau â geotag i ddangos cyflwr y safle cyn i'r gwaith ddechrau, yn ogystal â ffotograffau o'r gwaith wedi'i gwblhau, a chadw cofnod o'r driniaeth (e.e. amseru, dull a'r ardal a gafodd ei thrin). Rhaid i chi hefyd gadw

unrhyw gydsyniad neu ganiatâd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a'u dangos ar gais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid cadw anfonebau taledig neu ddatganiadau banc (lle nad oes anfoneb daledig ar gael) fel tystiolaeth.

mabwysiadu dull rheolaeth integredig ar blâu, yn cynnwys cyfyngu i'r eithaf y defnydd o chwynladdwyr, gan osgoi dulliau cemegol lle mae hynny'n bosibl. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu](#).

[defnyddio chwynladdwr](#) yn ddiogel a chyda chaniatâd priodol, gan gynnwys defnydd ger cyrsiau dŵr ac ar safleoedd gwarchodedig.

cydymffurfio â'r cyfyngiadau ar ddefnyddio cynnyrch diogelu planhigion yn unol â'r cyfyngiadau yn sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 10](#) gan gynnwys:

bod yn gymwysedig i ddefnyddio chwynladdwyr neu gyflogi contractwr cymwysedig addas.

bod yn ddefnyddiwr cofrestredig cynhyrchion diogelu planhigion.

cadw cofnodion o ddefnydd cynhyrchion diogelu planhigion gan gynnwys chwynladdwyr yn eich Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu.

rhaid i offer taenu plaladdwyr, ac eithrio chwistrellwyr cefn a chwistrellwyr llaw, fod wedi pasio prawf a gynhaliwyd gan y Cynllun Cenedlaethol Profi Chwistrellwyr.

dim ond pan fo'r tywydd yn addas y dylid chwistrellu, i leihau'r risg o'r chwynladdwr yn cael ei gario ar y gwynt.

gwaredu chwynladdwr sy'n weddill mewn ffordd ddiogel ar ddiwedd pob diwrnod.

gwneud yn siŵr eich bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol, megis menig, lle bo hynny'n briodol.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

cludo deunydd planhigion Rhododendron neu Lawryf heintiedig oddi ar safleoedd, oni bai i chi gael caniatâd i wneud hynny o dan Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol. Rhaid i'r gwaith o symud unrhyw ddeunydd diangen oddi ar safle gydymffurfio â deddfwriaeth gwastraff.

cludo deunydd coedwigaeth ([pren](#)) oddi ar safleoedd lle mae clefydau neu blâu coed rheoleiddiedig yn bresennol, oni bai i hynny gael ei awdurdodi gan y Comisiwn Coedwigaeth (sy'n rhoi trwyddedau yng Nghymru ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru).

taenu chwynladdwr mewn amodau gwlyb neu pan mae disgwyl gwyntoedd cryf, glaw neu wllth trwm (o leiaf 6 awr heb ragolygon o law ar gyfer chwistrellu cefn gydag adjiwfant wedi'i ychwanegu, 12 awr heb ei ychwanegu, 24 awr yn ddelfrydol).

taenu chwynladdwr mewn amodau poeth neu heulog oherwydd bydd y chwynladdwr yn anweddu nac mewn amodau oer (<7°C) oherwydd amsugniad is gan y planhigyn.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod

Dulliau rheoli

Mae rhaglen reoli effeithiol yn debygol o gynnwys cyfuniad o'r dulliau canlynol, yn dibynnu ar safle, dwysedd a maint y planhigion. Mae'n bosibl defnyddio'r un dulliau ar gyfer rheoli Rhododendron a Llawryf.

Mae'r dull rheoli sy'n cael ei argymhell o dan y cynllun hwn yn seiliedig ar brofiad Parc Cenedlaethol Eryri a'r prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd:

<https://coedwigoeddglawceltaidd.cymru/resources/rhododendron-ponticum-toolkit>

Trin Coesynnau

Mae trin coesynnau yn ddull syml ac effeithiol iawn, yn enwedig ar gyfer llwyni mawr gyda choesynnau â diamedr o 3cm neu fwy.

Mae'r driniaeth hon yn golygu drilio tyllau gyda diamedr o 12mm mor syth i lawr â phosibl yn agos at waelod pob coesyn (8mm yn achos coesynnau teneuach) i greu pant 20mm o ddyfnder (dyfnach os ydych chi'n defnyddio twll 8mm) sy'n ddigon i gymryd 2ml o doddiant chwynladdwr (dyfnder o 30mm ar gyfer ebill 10mm, 20mm ar gyfer ebill 12mm, 10mm ar gyfer ebill 16mm).

Dylai un twll fod yn ddigonol ar gyfer pob 3cm o ddiamedr coesyn; lle mae'r coesynnau'n fwy trwchus, dylai tyllau trin gael eu gwasgaru bob 5cm o amgylch y coesyn.

Dylid ychwanegu'r chwynladdwr cyn gynted â phosibl ar ôl drilio'r tyllau. Defnyddiwch declyn fel sbot-ddryll neu chwistrell filfeddygol i lenwi pob twll yn ofalus, er mwyn osgoi gollyngiadau.

Rhaid i'r chwynladdwr fod yn un cymeradwy, gyda label sy'n argymhell ei ddefnydd arfaethedig a'r dull defnyddio arfaethedig, gan gynnwys ei ddefnydd ger cyrsiau dŵr lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'n bosibl ychwanegu lliw marcio llysieuol cryf. Bydd defnyddio lliw yn ei gwneud hi'n haws gweld pa blanhigion sydd wedi'u trin yn nes ymlaen. Mae hefyd yn bosibl marcio planhigion trwy dorri dail y gangen uchaf neu farcio gyda phaent chwistrell diwenwyn priodol.

Lle mae coesynnau'n deneuach na 3cm, mae'n bosibl gwneud tyllau gyda bwyell neu filwg, neu trwy grafu'r rhisgl oddi ar y coesyn gyda llif gadwyn. Mae'n bosibl taenu'r toddiant chwynladdwr (2ml) yn y toriad gyda brwsh paent.

Gofalwch drin pob coesyn ar wahân, gan gynnwys coesynnau ochrol.

Dylid datgysylltu'r coesynnau haenog, h.y. y rhai sydd wedi gwreiddio o'r rhiant-blanhigyn, a'u trin yn unol â'r disgrifiad o'r dull ar gyfer tynnu â llaw.

Mae'n bosibl trin coesynnau trwy gydol y flwyddyn, er mai mis Mawrth i fis Hydref yw'r cyfnod delfrydol. Ni chaiff y gwaith darfu ar adar sy'n nythu. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Nid oes angen torri neu waredu pren sy'n sefyll oni bai bod risg i ddiogelwch y cyhoedd neu i eiddo.

Mae angen monitro effeithiolrwydd y chwynladdwr, ac os oes aildyfiant yn bresennol, dylid chwistrellu'r dail ymhellach pan fydd y tyfiant newydd yn ddigon mawr i gyflwyno dogn effeithiol o chwynladdwr i ladd y planhigyn. Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw hefyd.

Mae'n bosibl torri â llaw ar ôl trin coesynnau, ac yna llosgi/pentyrru os oes angen, pan mae'n amlwg i'r driniaeth fod yn llwyddiannus. Er mwyn sicrhau hyn, dylid gadael planhigion am o leiaf un tymor tyfu cyn torri'r coesynnau marw.

Torri â llaw ac yna llosgi/pentyrru

Mae'r dull hwn yn addas ar gyfer ardaloedd mawr lle mae tyfiant yn rhy drwchus i allu cyrraedd pob llwyn neu le mae'r coesynnau yn rhy denau i'w drilio er mwyn chwistrellu chwynladdwr i mewn iddynt. Mae hyn yn gallu digwydd ar safleoedd sydd wedi'u trin gyda dull torri a llosgi/pentyrru yn y gorffennol, ond heb gael unrhyw driniaeth ddilynol.

Effeithiol ar gyfer planhigion dros 1.3m o uchder a diamedr o fwy na 1.5m.

Dylid torri'r holl dyfiant mor agos at lefel y ddaear â phosibl gan ddefnyddio llif gadwyn.

Nid yw trin boncyffion â chwynladdwr yn syth ar ôl eu torri yn cael ei argymhell. Mae'n fwy effeithiol chwistrellu dail unrhyw aildyfiant ar ôl i foncyffion a dorrwyd gael eu gadael i aildyfu, a'r dail yn ddigon mawr i dderbyn dogn angheuol o chwynladdwr o'r chwistrellu.

Bydd aildyfiant yn adfywio o fewn misoedd. Yr argymhelliad yw bod y gwaith dilynol o chwistrellu'r dail yn digwydd o fewn 12-18 mis ar ôl torri. Yr uchder delfrydol ar gyfer chwistrellu aildyfiant o goesynnau a dorrwyd yw 50cm, ond ni ddylid chwistrellu pan fydd yr aildyfiant dros 1.5m.

Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw hefyd.

Ni ddylid torri â llaw yn ystod y tymor nythu adar (Mawrth – Awst) oni bai bod arolwg dyddiol yn canfod nad oes adar sy'n nythu yn bresennol. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Dylid pentyrru'r deunydd a dorrwyd a'i adael i bydru neu ei losgi. Mae'n bosibl pentyrru coesynnau a dorrwyd mewn rhenciau, o leiaf 5m i ffwrdd o lwybrau troed

neu gyrsiau dŵr, gyda digon o le rhyngddynt i ganiatáu mynediad ar gyfer chwistrellu aildyfiant.

Dylai unrhyw dân gael ei gynnu o dan amodau diogel ac yn unol ag is-ddeddfau lleol a deddfwriaeth gwastraff.

Gofalwch leihau effaith llosgi i'r eithaf mewn ardaloedd sensitif fel Coetir Hynafol trwy nodi ardaloedd addas ar gyfer llosgi. Rhaid cytuno ar y rhain a'u cynnwys yn y cynllun rheoli.

Nid yw asglodi yn opsiwn sy'n cael ei argymhell, oni bai bod cyfarwyddyd i wneud hynny o dan Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol, gan fod deunydd wedi'i asglodi yn gallu llesteirio adfywio naturiol a chynnig lloches i glefydau, sydd o bwys arbennig mewn safleoedd dynodedig.

Creu tomwellt/ffustio â pheiriant

Ar gyfer ardaloedd sylweddol o lystyfiant lle mae'r tir yn hygyrch i beiriannau mawr ac mae gweithredwyr cymwysedig ar gael, mae creu tomwellt neu ffustio â pheiriant yn gallu bod yn effeithiol, yn enwedig os nad oes unrhyw driniaeth arall wedi digwydd.

Mae'n bosibl ei ddefnyddio ar y cyd â chwistrellu coesynnau a thorri â llaw ar safleoedd anhygyrch i beiriannau.

Dilynwch y driniaeth hon o fewn 24 mis trwy chwistrellu'r dail pan fydd aildyfiant yn ddigon mawr i'r chwynladdwr fod yn effeithiol.

Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw hefyd.

Ni ddylid defnyddio'r dull hwn yn ystod y tymor nythu adar o fis Mawrth i fis Awst. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Chwistrellu dail gyda chwynladdwr

Fel dull annibynnol neu fel triniaeth ddilynol, mae chwistrellu dail planhigion heb fod yn fwy na 1.5m o uchder neu 200cm o ddiamedr, lle mae modd cyrraedd pob rhan o'r planhigyn, neu lle mae coesynnau'n rhy denau ar gyfer chwistrellu coesynnau (megis aildyfiant), yn gallu bod yn llwyddiannus iawn.

Mae angen ymgymryd â chwistrellu dail yn ofalus, a hynny gan weithredwr medrus a chymwysedig i sicrhau taenu manwl gywir.

Rhaid i'r chwynladdwr fod yn un cymeradwy, gyda label sy'n argymhell ei ddefnydd arfaethedig a'r dull defnyddio arfaethedig, gan gynnwys ei ddefnydd ger cyrsiau dŵr lle bo hynny'n berthnasol.

Dylai'r chwynladdwr gael ei wanhau i'r cryfder priodol gyda dŵr, ac mae angen ei gymysgu'n drylwyr (am o leiaf ddau funud) gan ei fod yn hydoddiant olew a dŵr. Dylid ychwanegu lliw i'r toddiant er mwyn adnabod planhigion sydd wedi'u trin.

Mae'n bosibl ychwanegu adjiwfant i orchuddio arwynebau cwyradd y dail yn well a gwella ei allu i aros ar y dail mewn glaw. Nid yw ychwanegu adjiwfant yn cael ei argymhell pan fyddwch yn gweithio'n agos at ddŵr.

Chwistrellwyr cefn gyda phigyn chwistrellu gwag sy'n cael eu defnyddio amlaf i daenu'r chwynladdwr. Mae hefyd yn bosibl defnyddio dull gwasgaru diferion dan reolaeth (CDA) i sicrhau bod y chwynladdwr yn cael ei daenu ar y gyfradd gywir.

Er mwyn lladd y planhigyn, dylid chwistrellu chwynladdwr ar bob deilen nes bod y ddeilen yn wlyb (h.y. y pwynt cyn i'r chwynladdwr ddechrau diferu oddi ar y ddeilen).

Mae'n bosibl chwistrellu trwy gydol y flwyddyn os yw'r tywydd yn briodol i leihau drifft chwynladdwr, er mai mis Mawrth i fis Hydref yw'r cyfnod delfrydol. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Gan nad yw'r chwynladdwr yn ddetholus, mae difrod i llystyfiant brodorol cyfagos yn gallu digwydd gyda drifft chwynladdwr, hyd yn oed wrth gymryd gofal. Mae'n gallu cymryd blynyddoedd i llystyfiant brodorol adfer ar ôl iddo gael ei ddifrodi.

Mae angen monitro effeithiolrwydd y chwynladdwr yn ystod y blynyddoedd dilynol, ac os oes aildyfiant yn bresennol, dylid chwistrellu'r dail ymhellach pan fydd y tyfiant newydd yn ddigon mawr i gyflwyno dogn effeithiol o chwynladdwr i ladd y planhigyn. Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw hefyd.

Tynnu â llaw

Mae'n bosibl tynnu unrhyw blanhigion sy'n ddigon bach (uchder o 60cm neu lai) â llaw. Er mwyn atal ailwreiddio, dylid gwaredu unrhyw bridd a'u gadael neu eu hongian mewn lle diogel oddi ar y llawr i sychu.

Gwnewch yn siŵr bod y nod gwaelod ar bob coesyn yn cael ei dynnu gyda'r coesyn, gan fod y planhigyn yn gallu aildyfu o'r nod hwn. Y nod gwaelod yw'r pwynt ar ran isaf brennaidd y coesyn lle mae deilen neu egin newydd yn ymddangos. Fel arfer mae chwydd neu lwmp bychan i'w weld ychydig bach uwchben wyneb y pridd, neu ychydig oddi tano weithiau.

Mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd (e.e. yng nghanol llystyfiant trwchus ac ati), mae'n bosibl y bydd angen offer llaw i gloddio'r system wreiddiau.

Mae'n hollbwysig mabwysiadu dull trefnus o chwilio am blanhigion trwy ddefnyddio rhesi o weithwyr gyda 10 metr rhyngddynt neu ddefnyddio marcwyr wedi'u gwasgaru'n briodol. Mae gwaith tîm yn cael ei annog o safbwynt diogelwch.

Mae'n bosibl defnyddio'r dull hwn trwy gydol y flwyddyn ond mae'n fwyaf effeithiol ar ddiwedd y gaeaf a dechrau'r gwanwyn cyn i dyfiant trwchus allu cuddio planhigion llai. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Tabl 1. Amseriadau triniaeth

Allwedd

le, gyda gofal - ewch ati gyda gofal ar yr adeg hon

le - amser gweithredu delfrydol

Dim gweithred - peidiwch â gweithredu ar yr adeg hon

Dull	Ion	Chwef	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
Chwistrellu coesynnau	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le	le	le	le	le	le	le	le	le, gyda gofal	le, gyda gofal
Torri â llaw	le	le	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le	le	le	le
Torri/ffustio mecanyddol	le	le	Dim gweithred	Dim gweithred	Dim gweithred	Dim gweithred	Dim gweithred	Dim gweithred	le	le	le	le
Chwistrellu dail	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le	le	le	le	le	le	le	le	le, gyda gofal	le, gyda gofal
Tynnu â llaw	le	le	le	le	le	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le	le	le

Monitro

Mae angen monitro effeithiolrwydd triniaethau yn ystod y blynyddoedd dilynol. Mae gweithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cwmpasu taliadau ar gyfer: 6777 Rhywogaethau planhigion Estron Goresgynnol Daearol a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli planhigion o'r fath, gan gynnwys amserlenni monitro.

6786 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Rheoli Rhododendron a Llawryf – Canolig

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer:

Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Rheoli Rhododendron a Llawryf – Canolig

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r fanyleb dechnegol hon yn berthnasol i bob un o'r tri Rhododendron estron goresgynol (sy'n cael eu galw'n Rhododendron yn y canllawiau hyn), i lawrgeirios (*Prunus laurocerasus*) a llawrgeirios Portiwgal (*Prunus lusitanica*), y ddau'n cael eu galw'n Llawryf yn y canllawiau hyn.

Mae llawer o rywogaethau addurniadol estron o Rododendron yn y DU, ond dim ond tri math y gwyddys eu bod yn oresgynol: *Rhododendron ponticum*, ei hybrid *Rhododendron ponticum* x *Rhododendron maximum* a rhododendron melyn, *Rhododendron luteum*.

Llwyn estron gyda blodau porffor a dail cwyradd yw'r Rhododendron cyffredin, *Rhododendron ponticum*. Cafodd ei gyflwyno i Brydain yn wreiddiol tua 1763, fel planhigyn addurnol neu orchudd ar gyfer anifeiliaid hela mewn parciau, gerddi ac ystadau. Unwaith mae'n aeddfed, mae'n gallu cyrraedd uchder o 2.5 metr. Mae'n gallu croesi â *Rhododendron maximum*, planhigyn gardd mwy gyda blodau gwyn-binc sy'n gallu tyfu i uchder o fwy na 4 metr. Am ragor o wybodaeth, darllenwch: <https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/3004>.

Mae rhododendron melyn, *Rhododendron luteum*, yn cynhyrchu blodau persawrus mawr ym mis Mai, a chapsiwlau hadau yn yr hydref. Mae'n gallu cyrraedd uchder o 1.5 i 2.5 metr. Am ragor o wybodaeth, darllenwch: <https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/3003>.

Mae pob un o'r planhigion hyn yn gallu cytrefu amrywiaeth o gynefinoedd yn sydyn, gan gynnwys coetir, rhostir a chorsydd. Maen nhw'n lledaenu trwy sugnwyr neu wrth i hadau ysgafn a niferus iawn (tua miliwn o hadau fesul llwyn) gael eu gwasgaru gan y gwynt, pobl neu anifeiliaid. Mae'r planhigion yn gallu blodeuo pan maen nhw'n cyrraedd 10 – 20 oed.

Ychydig iawn o adar neu anifeiliaid brodorol sy'n byw o fewn clystyrau trwchus o Rododendron, ac ychydig iawn o blanhigion a choed brodorol sy'n gallu goroesi yn yr haen ddwfn o ddeiliach marw o dan y brigdwf trwchus a chysgodol. Mae cynefin a rhywogaethau brodorol yn gallu cymryd degawdau i adfer ar ôl y gwaith rheoli.

Mae'r dail, y gwreiddiau, y neithdar, y blodau a'r paill yn cynnwys grayanotocsinau, cyfansoddion sy'n wenwynig i rai anifeiliaid pori, cŵn a phobl o'u llyncu. Mae'r

neithdar yn gallu bod yn angheuol i rai rhywogaethau o wenyn mêl. Mae mêl o Rododendron yn gallu cael effaith wenwynol ar bobl hefyd.

Mae effeithiau economaidd yn ogystal, gan gynnwys colli tir cynhyrchiol ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth a chostau rheoli uniongyrchol. Mae Rhododendron a Llawryf yn gallu lletya clefydau ffwngaid fel *Phytophthora ramorum* sy'n effeithio ar goed a llawer o blanhigion eraill.

Llwyn estron goresgynol yw llawrgeirios (*Prunus laurocerasus*), gyda dail sgleiniog cwyrdd a blodau gwyn. Mae'n ymledu trwy wreiddio brigau ac wrth i adar wasgaru ei ffrwythau toreithiog. Mae'n ffurfio clystyrau sy'n cael effaith debyg i Rododendron, gan gystadlu'n well na phlanhigion brodorol a thaflu cysgod drostynt. Mae'r dail, yr hadau a'r rhisgl yn cynnwys glycosidau cyanogenig, sy'n gallu rhyddhau cyanid pan gânt eu metaboleiddio yn y corff. Mae'n wenwynig i bobl, anifeiliaid sy'n pori ac adar. Am ragor o wybodaeth, darllenwch: <https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/2853>

Llwyn bytholwyrdd mawr neu goeden fach gyda thuedd i ymledu yw llawrgeirios Portiwgal (*Prunus lusitanica*), gydag egin coch tywyll yn dwyn dail hirgrwn gwyrdd tywyll. Mae blodau bach gwyn persawrus mewn sypiau hyd at 25cm o hyd ar ddechrau'r haf yn cael eu dilyn gan ffrwythau bach, porffor tywyll, sy'n cael eu gwasgaru'n hawdd gan adar. Fel gyda llawrgeirios, mae'r dail a'r ffrwythau yn wenwynig. Am ragor o wybodaeth, darllenwch: <https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/2854>

Mae rheolaeth effeithiol o Rododendron a'r rhywogaethau Llawryf hyn yn cael ei chyflawni trwy gyfuniad o ddulliau gan gynnwys trin coesynnau, torri â llaw a thrin aildyfiant â chemegau a thynnu â llaw. Bydd y dulliau i'w defnyddio yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys tirwedd y safle, mynediad, a dwysedd, maint ac aeddfedrwydd planhigion. Gan fod modd i hadau gael eu gwasgaru gan y gwynt, dylid ystyried cyfeiriad y gwynt wrth gynllunio gweithrediadau hefyd.

Mae'n debygol y bydd angen gwaith rheoli dros gyfnod o bum i saith mlynedd, gan ddefnyddio'r dull/dulliau mwyaf priodol. Fel arfer, bydd tri cham i raglen reoli: triniaeth lawn gychwynnol yn y flwyddyn gyntaf, cam dilynol (yr argymhelliad yw 18–24 mis ar ôl y cyfnod cychwynnol) a cham cynnal a chadw a monitro (ym mlynnyddoedd 5–7 ar ôl y cam rheoli cychwynnol).

Mae taliadau cyfalaf ar gael i dalu am gost rheoli Rhododendron a Llawryf lle mae cynllun rheoli rhywogaethau goresgynol wedi ei lunio a'i gytuno.

Mae'r taliad i dalu am gost clirio cychwynnol y safle ac yna trin aildyfiant gyda chwynladdwr yn ystod y blynnyddoedd dilynol, neu driniaeth gychwynnol ar y coesynnau a thriniaeth ddilynol ar unrhyw aildyfiant. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd eginblanhigion yn ymddangos am sawl blwyddyn ar ôl y clirio cychwynnol. Bydd angen tynnu'r rhain â llaw er mwyn eu hatal rhag ailsefydlu.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

- mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynnol y cytunwyd arno. Bydd y cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynnol yn disgrifio nodweddion y safle, gan gynnwys anifeiliaid a chynefinoedd allweddol, safleoedd dynodedig, unrhyw rywogaethau o'r fath sy'n bresennol a'u hyd a'u lled, llwybrau lledaenu posibl a'r risg i hynny ddigwydd, dulliau rheoli, camau a gymerwyd i atal lledaeniad, monitro a manylion unrhyw ddulliau adfer. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6780 Rhywogaethau Estron Goresgynnol Daearol a Dŵr Croyw - Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynnol am ragor o wybodaeth.
- dylid dinistrio'r holl Rhododendron a Llawryf o fewn yr ardal darged. Mae angen gwneud y gwaith rheoli mewn ffordd systematig i sicrhau nad oes unrhyw blanhigion yn cael eu gadael heb eu trin.
- mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynnol, gan gynnwys Rhododendron, yn destun deddfwriaeth, ac mae'n drosedd eu plannu neu beri iddynt dyfu'n wyllt (darllenwch sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 15](#) am ragor o wybodaeth).
- bydd cynnal mesurau bioddiogelwch, gan gynnwys sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a cherbydau yn lân wrth gyrraedd ac yn cael eu glanhau cyn gadael y safle i gael gwared ar hadau, yn lleihau'r risg o ledaenu. Wrth fynd i'r afael â Rhododendron neu Lawryf heintiedig, bydd angen mesurau bioddiogelwch ychwanegol, h.y. defnyddio diheintydd cymeradwy. Mae'n bosibl y byddwch am gynnal asesiad risg bioddiogelwch cyn dechrau ar unrhyw waith. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6779 Rhywogaethau Estron Goresgynnol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw: Asesu risg bioddiogelwch am ragor o wybodaeth.
- mae angen ymdrin â deunydd planhigion heintiedig mewn ffordd briodol. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno cyfarwyddiadau i wneud hynny trwy [Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol](#)
- gwneud yn siŵr fod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#), [trwyddedau gwastraff](#) a [thrwyddedau rhywogaethau a warchodir](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith.
- ystyried sensitifrwydd safle wrth ddewis y dull o reoli; er enghraifft, ar safleoedd Coetir Hynafol, gallai defnyddio chwynladdwyr effeithio ar nodweddion gweddilliol fel coed hynod/cadeiriau/cloddiau â pherthi a fflora Coetir Hynafol. Bydd cyfyngu ar nifer y llwybrau mynediad newydd hefyd yn helpu i atal difrod i nodweddion coetir hynafol ac yn lleihau cymaint â phosibl unrhyw gywasgu a tharfu ar bridd.
- rhaid i chi gadw ffotograffau â geotag i ddangos cyflwr y safle cyn i'r gwaith ddechrau, yn ogystal â ffotograffau o'r gwaith wedi'i gwblhau, a chadw cofnod o'r driniaeth (e.e. amseru, dull a'r ardal a gafodd ei thrin). Rhaid i chi hefyd gadw unrhyw gydsyniad neu ganiatâd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a'u dangos

ar gais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid cadw anfonebau taledig neu ddatganiadau banc (lle nad oes anfoneb daledig ar gael) fel tystiolaeth.

- mabwysiadu dull rheolaeth integredig ar blâu, yn cynnwys cyfyngu i'r eithaf y defnydd o chwynladdwyr, gan osgoi dulliau cemegol lle mae hynny'n bosibl. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu](#).
- [defnyddio chwynladdwr](#) yn ddiogel a chyda chaniatâd priodol, gan gynnwys defnydd ger cyrsiau dŵr ac ar safleoedd gwarchodedig.
- cydymffurfio â'r cyfyngiadau ar ddefnyddio cynnyrch diogelu planhigion yn unol â'r cyfyngiadau yn sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 10](#) gan gynnwys:
 - bod yn gymwysedig i ddefnyddio chwynladdwyr neu gyflogi contractwr cymwysedig addas.
 - bod yn ddefnyddiwr cofrestredig cynhyrchion diogelu planhigion.
 - cadw cofnodion o ddefnydd cynhyrchion diogelu planhigion gan gynnwys chwynladdwyr yn eich Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu.
 - rhaid i offer taenu plaladdwyr, ac eithrio chwistrellwyr cefn a chwistrellwyr llaw, fod wedi pasio prawf a gynhaliwyd gan y Cynllun Cenedlaethol Profi Chwistrellwyr.
 - dim ond pan fo'r tywydd yn addas y dylid chwistrellu, i leihau'r risg o'r chwynladdwr yn cael ei gario ar y gwynt.
 - gwaredu chwynladdwr sy'n weddill mewn ffordd ddiogel ar ddiwedd pob diwrnod.
- gwneud yn siŵr eich bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol, megis menig, lle bo hynny'n briodol.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

- cludo deunydd planhigion Rhododendron neu Lawryf heintiedig oddi ar safleoedd, oni bai i chi gael caniatâd i wneud hynny o dan Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol. Rhaid i'r gwaith o symud unrhyw ddeunydd diangen oddi ar safle gydymffurfio â deddfwriaeth gwastraff.
- cludo deunydd coedwigaeth ([pren](#)) oddi ar safleoedd lle mae clefydau neu blâu coed rheoleiddiedig yn bresennol, oni bai i hynny gael ei awdurdodi gan y Comisiwn Coedwigaeth (sy'n rhoi trwyddedau yng Nghymru ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru).
- taenu chwynladdwr mewn amodau gwlyb neu pan mae disgwyl gwyntoedd cryf, glaw neu wllth trwm (o leiaf 6 awr heb ragolygon o law ar gyfer chwistrellu cefn gydag adjiwfant wedi'i ychwanegu, 12 awr heb ei ychwanegu, 24 awr yn ddelfrydol).

- taenu chwynladdwr mewn amodau poeth neu heulog oherwydd bydd y chwynladdwr yn anweddu nac mewn amodau oer (<7°C) oherwydd amsugniad is gan y planhigyn.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dulliau rheoli

Mae rhaglen reoli effeithiol yn debygol o gynnwys cyfuniad o'r dulliau canlynol, yn dibynnu ar safle, dwysedd a maint y planhigion. Mae'n bosibl defnyddio'r un dulliau ar gyfer rheoli Rhododendron a Llawryf.

Mae'r dull rheoli sy'n cael ei argymhell o dan y cynllun hwn yn seiliedig ar brofiad Parc Cenedlaethol Eryri a'r prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd:

<https://coedwigoeddglawceltaidd.cymru/resources/rhododendron-ponticum-toolkit>

Trin Coesynnau

Mae trin coesynnau yn ddull syml ac effeithiol iawn, yn enwedig ar gyfer llwyni mawr gyda choesynnau â diamedr o 3cm neu fwy.

Mae'r driniaeth hon yn golygu drilio tyllau gyda diamedr o 12mm mor syth i lawr â phosibl yn agos at waelod pob coesyn (8mm yn achos coesynnau teneuach) i greu pant 20mm o ddyfnder (dyfnach os ydych chi'n defnyddio twll 8mm) sy'n ddigon i gymryd 2ml o doddiant chwynladdwr (dyfnder o 30mm ar gyfer ebill 10mm, 20mm ar gyfer ebill 12mm, 10mm ar gyfer ebill 16mm).

Dylai un twll fod yn ddigonol ar gyfer pob 3cm o ddiamedr coesyn; lle mae'r coesynnau'n fwy trwchus, dylai tyllau trin gael eu gwasgaru bob 5cm o amgylch y coesyn.

Dylid ychwanegu'r chwynladdwr cyn gynted â phosibl ar ôl drilio'r tyllau.

Defnyddiwch declyn fel sbot-ddryll neu chwistrell filfeddygol i lenwi pob twll yn ofalus, er mwyn osgoi gollyngiadau.

Rhaid i'r chwynladdwr fod yn un cymeradwy, gyda label sy'n argymhell ei ddefnydd arfaethedig a'r dull defnyddio arfaethedig, gan gynnwys ei ddefnydd ger cyrsiau dŵr lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'n bosibl ychwanegu lliw marcio llysieuol cryf. Bydd defnyddio lliw yn ei gwneud hi'n haws gweld pa blanhigion sydd wedi'u trin yn nes ymlaen. Mae hefyd yn bosibl marcio planhigion trwy dorri dail y gangen uchaf neu farcio gyda phaent chwistrell diwenwyn priodol.

Lle mae coesynnau'n deneuach na 3cm, mae'n bosibl gwneud tyllau gyda bwyell neu filwg, neu trwy grafu'r rhisgl oddi ar y coesyn gyda llif gadwyn. Mae'n bosibl taenu'r toddiant chwynladdwr (2ml) yn y toriad gyda brwsh paent.

Gofalwch drin pob coesyn ar wahân, gan gynnwys coesyndau ochrol.

Dylid datgysylltu'r coesyndau haenog, h.y. y rhai sydd wedi gwreiddio o'r rhiant-blanhigyn, a'u trin yn unol â'r disgrifiad o'r dull ar gyfer tynnu â llaw.

Mae'n bosibl trin coesyndau trwy gydol y flwyddyn, er mai mis Mawrth i fis Hydref yw'r cyfnod delfrydol. Ni chaiff y gwaith darfu ar adar sy'n nythu. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Nid oes angen torri neu waredu pren sy'n sefyll oni bai bod risg i ddiogelwch y cyhoedd neu i eiddo.

Mae angen monitro effeithiolrwydd y chwynladdwr, ac os oes aildyfiant yn bresennol, dylid chwistrellu'r dail ymhellach pan fydd y tyfiant newydd yn ddigon mawr i gyflwyno dogn effeithiol o chwynladdwr i ladd y planhigyn. Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw hefyd.

Mae'n bosibl torri â llaw ar ôl trin coesyndau, ac yna llosgi/pentyrru os oes angen, pan mae'n amlwg i'r driniaeth fod yn llwyddiannus. Er mwyn sicrhau hyn, dylid gadael planhigion am o leiaf un tymor tyfu cyn torri'r coesyndau marw.

Torri â llaw ac yna llosgi/pentyrru

Mae'r dull hwn yn addas ar gyfer ardaloedd mawr lle mae tyfiant yn rhy drwchus i allu cyrraedd pob llwyn neu le mae'r coesyndau yn rhy denau i'w drilio er mwyn chwistrellu chwynladdwr i mewn iddynt. Mae hyn yn gallu digwydd ar safleoedd sydd wedi'u trin gyda dull torri a llosgi/pentyrru yn y gorffennol, ond heb gael unrhyw driniaeth ddilynol.

Effeithiol ar gyfer planhigion dros 1.3m o uchder a diamedr o fwy na 1.5m.

Dylid torri'r holl dyfiant mor agos at lefel y ddaear â phosibl gan ddefnyddio llif gadwyn.

Nid yw trin boncyffion â chwynladdwr yn syth ar ôl eu torri yn cael ei argymhell. Mae'n fwy effeithiol chwistrellu dail unrhyw aildyfiant ar ôl i foncyffion a dorwyd gael eu gadael i aildyfu, a'r dail yn ddigon mawr i dderbyn dogn angheuol o chwynladdwr o'r chwistrellu.

Bydd aildyfiant yn adfywio o fewn misoedd. Yr argymhelliad yw bod y gwaith dilynol o chwistrellu'r dail yn digwydd o fewn 12-18 mis ar ôl torri. Yr uchder delfrydol ar gyfer chwistrellu aildyfiant o goesyddau a dorwyd yw 50cm, ond ni ddylid chwistrellu pan fydd yr aildyfiant dros 1.5m.

Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw hefyd.

Ni ddylid torri â llaw yn ystod y tymor nythu adar (Mawrth – Awst) oni bai bod arolwg dyddiol yn canfod nad oes adar sy'n nythu yn bresennol. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Dylid pentyrru'r deunydd a dorrwyd a'i adael i bydru neu ei losgi. Mae'n bosibl pentyrru coesynnau a dorrwyd mewn rhenciau, o leiaf 5m i ffwrdd o lwybrau troed neu gysiau dŵr, gyda digon o le rhyngddynt i ganiatáu mynediad ar gyfer chwistrellu aildyfiant.

Dylai unrhyw dân gael ei gynnu o dan amodau diogel ac yn unol ag is-ddeddfau lleol a deddfwriaeth gwastraff.

Gofalwch leihau effaith llosgi i'r eithaf mewn ardaloedd sensitif fel Coetir Hynafol trwy nodi ardaloedd addas ar gyfer llosgi.

Nid yw asglodi yn opsiwn sy'n cael ei argymhell, oni bai bod cyfarwyddyd i wneud hynny o dan Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol, gan fod deunydd wedi'i asglodi yn gallu llesteirio adfywio naturiol a chynnig lloches i glefydau, sydd o bwys arbennig mewn safleoedd dynodedig.

Creu tomwellt/ffustio â pheiriant

Ar gyfer ardaloedd sylweddol o lystyfiant lle mae'r tir yn hygyrch i beiriannau mawr ac mae gweithredwyr cymwysedig ar gael, mae creu tomwellt neu ffustio â pheiriant yn gallu bod yn effeithiol, yn enwedig os nad oes unrhyw driniaeth arall wedi digwydd. Mae'n bosibl ei ddefnyddio ar y cyd â chwistrellu coesynnau a thorri â llaw ar safleoedd anhygyrch i beiriannau.

Dilynwch y driniaeth hon o fewn 24 mis trwy chwistrellu'r dail pan fydd aildyfiant yn ddigon mawr i'r chwynladdwr fod yn effeithiol.

Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw hefyd.

Ni ddylid defnyddio'r dull hwn yn ystod y tymor nythu adar o fis Mawrth i fis Awst. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Chwistrellu dail gyda chwynladdwr

Fel dull annibynnol neu fel triniaeth ddilynol, mae chwistrellu dail planhigion heb fod yn fwy na 1.5m o uchder neu 200cm o ddiamedr, lle mae modd cyrraedd pob rhan o'r planhigyn, neu le mae coesynnau'n rhy denau ar gyfer chwistrellu coesynnau (megis aildyfiant), yn gallu bod yn llwyddiannus iawn.

Mae angen ymgymryd â chwistrellu dail yn ofalus, a hynny gan weithredwr medrus a chymwysedig i sicrhau taenu manwl gywir.

Rhaid i'r chwynladdwr fod yn un cymeradwy, gyda label sy'n argymhell ei ddefnydd arfaethedig a'r dull defnyddio arfaethedig, gan gynnwys ei ddefnydd ger cysiau dŵr lle bo hynny'n berthnasol.

Dylai'r chwynladdwr gael ei wanhau i'r cryfder priodol gyda dŵr, ac mae angen ei gymysgu'n drylwyr (am o leiaf ddau funud) gan ei fod yn hydoddiant olew a dŵr. Dylid ychwanegu lliw i'r toddiant er mwyn adnabod planhigion sydd wedi'u trin.

Mae'n bosibl ychwanegu adjiwfant i orchuddio arwynebau cwyradd y dail yn well a gwella ei allu i aros ar y dail mewn glaw. Nid yw ychwanegu adjiwfant yn cael ei argymhell pan fyddwch yn gweithio'n agos at ddŵr.

Chwistrellwyr cefn gyda phigyn chwistrellu gwag sy'n cael eu defnyddio amlaf i daenu'r chwynladdwr. Mae hefyd yn bosibl defnyddio dull gwasgaru diferion dan reolaeth (CDA) i sicrhau bod y chwynladdwr yn cael ei daenu ar y gyfradd gywir.

Er mwyn lladd y planhigyn, dylid chwistrellu chwynladdwr ar bob deilen nes bod y ddeilen yn wlyb (h.y. y pwynt cyn i'r chwynladdwr ddechrau diferu oddi ar y ddeilen).

Mae'n bosibl chwistrellu trwy gydol y flwyddyn os yw'r tywydd yn briodol i leihau drifft chwynladdwr, er mai mis Mawrth i fis Hydref yw'r cyfnod delfrydol. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Gan nad yw'r chwynladdwr yn ddetholus, mae difrod i lystyfiant brodorol cyfagos yn gallu digwydd gyda drifft chwynladdwr, hyd yn oed wrth gymryd gofal. Mae'n gallu cymryd blynyddoedd i lystyfiant brodorol adfer ar ôl iddo gael ei ddifrodi.

Mae angen monitro effeithiolrwydd y chwynladdwr yn ystod y blynyddoedd dilynol, ac os oes aildyfiant yn bresennol, dylid chwistrellu'r dail ymhellach pan fydd y tyfiant newydd yn ddigon mawr i gyflwyno dogn effeithiol o chwynladdwr i ladd y planhigyn. Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw hefyd.

Tynnu â llaw

Mae'n bosibl tynnu unrhyw blanhigion sy'n ddigon bach (uchder o 60cm neu lai) â llaw. Er mwyn atal ailwreiddio, dylid gwaredu unrhyw bridd a'u gadael neu eu hongian mewn lle diogel oddi ar y llawr i sychu.

Gwnewch yn siŵr bod y nod gwaelod ar bob coesyn yn cael ei dynnu gyda'r coesyn, gan fod y planhigyn yn gallu aildyfu o'r nod hwn. Y nod gwaelod yw'r pwynt ar ran isaf brennaidd y coesyn lle mae deilen neu egin newydd yn ymddangos. Fel arfer mae chwydd neu lwmp bychan i'w weld ychydig bach uwchben wyneb y pridd, neu ychydig oddi tano weithiau.

Mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd (e.e. yng nghanol llystyfiant trwchus ac ati), mae'n bosibl y bydd angen offer llaw i gloddio'r system wreiddiau.

Mae'n hollbwysig mabwysiadu dull trefnus o chwilio am blanhigion trwy ddefnyddio rhesi o weithwyr gyda 10 metr rhyngddynt neu ddefnyddio marcwyr wedi'u gwasgaru'n briodol. Mae gwaith tîm yn cael ei annog o safbwynt diogelwch.

Mae'n bosibl defnyddio'r dull hwn trwy gydol y flwyddyn ond mae'n fwyaf effeithiol ar ddiwedd y gaeaf a dechrau'r gwanwyn cyn i dyfiant trwchus allu cuddio planhigion llai. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Tabl 1. Amseriadau triniaeth

Dull	Ion	Chwef	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
Chwistrellu coesynnau	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le	le	le	le	le	le	le	le	le, gyda gofal	le, gyda gofal
Torri â llaw	le	le	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le	le	le	le
Torri/ffustio mecanyddol	le	le	Dim gweithred	Dim gweithred	Dim gweithred	Dim gweithred	Dim gweithred	Dim gweithred	le	le	le	le
Chwistrellu dail	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le	le	le	le	le	le	le	le	le, gyda gofal	le, gyda gofal
Tynnu â llaw	le	le	le	le	le	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le	le	le

Allwedd

le, gyda gofal - ewch ati gyda gofal ar yr adeg hon

le - amser gweithredu delfrydol

Dim Gweithred - peidiwch â gweithredu ar yr adeg hon

Monitro

Mae angen monitro effeithiolrwydd triniaethau yn ystod y blynyddoedd dilynol. Mae gweithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cwmpasu taliadau ar gyfer: 6777 Rhywogaethau planhigion Estron Goresgynnol Daearol a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli planhigion o'r fath, gan gynnwys amserlenni monitro.

6787 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearyl: Rheoli Rhododendron a Llawryf – Anodd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer:

Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearyl: Rheoli Rhododendron a Llawryf – Anodd

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r fanyleb dechnegol hon yn berthnasol i bob un o'r tri Rhododendron estron goresgynol (sy'n cael eu galw'n Rhododendron yn y canllawiau hyn), i lawrgeirios (*Prunus laurocerasus*) a llawrgeirios Portiwgal (*Prunus lusitanica*), y ddau'n cael eu galw'n Llawryf yn y canllawiau hyn.

Mae llawer o rywogaethau addurniadol estron o Rododendron yn y DU, ond dim ond tri math y gwyddys eu bod yn oresgynol: *Rhododendron ponticum*, ei hybrid *Rhododendron ponticum* x *Rhododendron maximum* a rhododendron melyn, *Rhododendron luteum*.

Llwyn estron gyda blodau porffor a dail cwyradd yw'r Rhododendron cyffredin, *Rhododendron ponticum*. Cafodd ei gyflwyno i Brydain yn wreiddiol tua 1763, fel planhigyn addurnol neu orchudd ar gyfer anifeiliaid hela mewn parciau, gerddi ac ystadau. Unwaith mae'n aeddfed, mae'n gallu cyrraedd uchder o 2.5 metr. Mae'n gallu croesi â *Rhododendron maximum*, planhigyn gardd mwy gyda blodau gwyn-binc sy'n gallu tyfu i uchder o fwy na 4 metr. Am ragor o wybodaeth, darllenwch: <https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/3004>.

Mae rhododendron melyn, *Rhododendron luteum*, yn cynhyrchu blodau persawrus mawr ym mis Mai, a chapsiwlau hadau yn yr hydref. Mae'n gallu cyrraedd uchder o 1.5 i 2.5 metr. Am ragor o wybodaeth, darllenwch: <https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/3003>.

Mae pob un o'r planhigion hyn yn gallu cytrefu amrywiaeth o gynefinoedd yn sydyn, gan gynnwys coetir, rhostir a chorsydd. Maen nhw'n lledaenu trwy sugnwyr neu wrth i hadau ysgafn a niferus iawn (tua miliwn o hadau fesul llwyn) gael eu gwasgaru gan y gwynt, pobl neu anifeiliaid. Mae'r planhigion yn gallu blodeuo pan maen nhw'n cyrraedd 10 – 20 oed.

Ychydig iawn o adar neu anifeiliaid brodorol sy'n byw o fewn clystyrau trwchus o Rododendron, ac ychydig iawn o blanhigion a choed brodorol sy'n gallu goroesi yn yr haen ddwfn o ddeiliach marw o dan y brigdwf trwchus a chysgodol. Mae cynefin a rhywogaethau brodorol yn gallu cymryd degawdau i adfer ar ôl y gwaith rheoli.

Mae'r dail, y gwreiddiau, y neithdar, y blodau a'r paill yn cynnwys grayanotocsinau, cyfansoddion sy'n wenwynig i rai anifeiliaid pori, cŵn a phobl o'u llyncu. Mae'r

neithdar yn gallu bod yn angheuol i rai rhywogaethau o wenyn mêl. Mae mêl o Rododendron yn gallu cael effaith wenwynol ar bobl hefyd.

Mae effeithiau economaidd yn ogystal, gan gynnwys colli tir cynhyrchiol ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth a chostau rheoli uniongyrchol. Mae Rhododendron a Llawryf yn gallu lletya clefydau ffwngaid fel *Phytophthora ramorum* sy'n effeithio ar goed a llawer o blanhigion eraill.

Llwyn estron goresgynol yw llawrgeirios (*Prunus laurocerasus*), gyda dail sgleiniog cwyrdd a blodau gwyn. Mae'n ymledu trwy wreiddio brigau ac wrth i adar wasgaru ei ffrwythau toreithiog. Mae'n ffurfio clystyrau sy'n cael effaith debyg i Rododendron, gan gystadlu'n well na phlanhigion brodorol a thaflu cysgod drostynt. Mae'r dail, yr hadau a'r rhisgl yn cynnwys glycosidau cyanogenig, sy'n gallu rhyddhau cyanid pan gânt eu metaboleiddio yn y corff. Mae'n wenwynig i bobl, anifeiliaid sy'n pori ac adar. Am ragor o wybodaeth, darllenwch: <https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/2853>

Llwyn bytholwyrdd mawr neu goeden fach gyda thuedd i ymledu yw llawrgeirios Portiwgal (*Prunus lusitanica*), gydag egin coch tywyll yn dwyn dail hirgrwn gwyrdd tywyll. Mae blodau bach gwyn persawrus mewn sypiau hyd at 25cm o hyd ar ddechrau'r haf yn cael eu dilyn gan ffrwythau bach, porffor tywyll, sy'n cael eu gwasgaru'n hawdd gan adar. Fel gyda llawrgeirios, mae'r dail a'r ffrwythau yn wenwynig. Am ragor o wybodaeth, darllenwch: <https://www.nonnativespecies.org/non-native-species/information-portal/view/2854>

Mae rheolaeth effeithiol o Rododendron a'r rhywogaethau Llawryf hyn yn cael ei chyflawni trwy gyfuniad o ddulliau gan gynnwys trin coesynnau, torri â llaw a thrin aildyfiant â chemegau a thynnu â llaw. Bydd y dulliau i'w defnyddio yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys tirwedd y safle, mynediad, a dwysedd, maint ac aeddfedrwydd planhigion. Gan fod modd i hadau gael eu gwasgaru gan y gwynt, dylid ystyried cyfeiriad y gwynt wrth gynllunio gweithrediadau hefyd.

Mae'n debygol y bydd angen gwaith rheoli dros gyfnod o bum i saith mlynedd, gan ddefnyddio'r dull/dulliau mwyaf priodol. Fel arfer, bydd tri cham i raglen reoli: triniaeth lawn gychwynnol yn y flwyddyn gyntaf, cam dilynol (yr argymhelliad yw 18–24 mis ar ôl y cyfnod cychwynnol) a cham cynnal a chadw a monitro (ym mlynnyddoedd 5–7 ar ôl y cam rheoli cychwynnol).

Mae taliadau cyfalaf ar gael i dalu am gost rheoli Rhododendron a Llawryf lle mae cynllun rheoli rhywogaethau goresgynol wedi ei lunio a'i gytuno.

Mae'r taliad i dalu am gost clirio cychwynnol y safle ac yna trin aildyfiant gyda chwynladdwr yn ystod y blynnyddoedd dilynol, neu driniaeth gychwynnol ar y coesynnau a thriniaeth ddilynol ar unrhyw aildyfiant. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd eginblanhigion yn ymddangos am sawl blwyddyn ar ôl y clirio cychwynnol. Bydd angen tynnu'r rhain â llaw er mwyn eu hatal rhag ailsefydlu.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol y cytunwyd arno. Bydd y cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol yn disgrifio nodweddion y safle, gan gynnwys anifeiliaid a chynefinoedd allweddol, safleoedd dynodedig, unrhyw rywogaethau o'r fath sy'n bresennol a'u hyd a'u lled, llwybrau lledaenu posibl a'r risg i hynny ddigwydd, dulliau rheoli, camau a gymerwyd i atal lledaeniad, monitro a manylion unrhyw ddulliau adfer. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6780 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw - Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol am ragor o wybodaeth.

dylid dinistrio'r holl Rhododendron a Llawryf o fewn yr ardal darged. Mae angen gwneud y gwaith rheoli mewn ffordd systematig i sicrhau nad oes unrhyw blanhigion yn cael eu gadael heb eu trin.

mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol, gan gynnwys Rhododendron, yn destun deddfwriaeth, ac mae'n drosedd eu plannu neu beri iddynt dyfu'n wyllt (darllenwch sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 15](#) am ragor o wybodaeth).

bydd cynnal mesurau bioddiogelwch, gan gynnwys sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a cherbydau yn lân wrth gyrraedd ac yn cael eu glanhau cyn gadael y safle i gael gwared ar hadau, yn lleihau'r risg o ledaenu. Wrth fynd i'r afael â Rhododendron neu Lawryf heintiedig, bydd angen mesurau bioddiogelwch ychwanegol, h.y. defnyddio diheintydd cymeradwy. Mae'n bosibl y byddwch am gynnal asesiad risg bioddiogelwch cyn dechrau ar unrhyw waith. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6779 Rhywogaethau Estron Goresgynol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw: Asesu risg bioddiogelwch am ragor o wybodaeth.

mae angen ymdrin â deunydd planhigion heintiedig mewn ffordd briodol. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno cyfarwyddiadau i wneud hynny trwy [Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol](#)

gwneud yn siŵr fod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#), [trwyddedau gwastraff](#) a [thrwyddedau rhywogaethau a warchodir](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith.

ystyried sensitifrwydd safle wrth ddewis y dull o reoli; er enghraifft, ar safleoedd Coetir Hynafol, gallai defnyddio chwynladdwyr effeithio ar nodweddion gweddilliol fel coed hynod/cadeiriau/cloddiau â pherthi a fflora Coetir Hynafol. Bydd cyfyngu ar nifer y llwybrau mynediad newydd hefyd yn helpu i atal difrod i nodweddion coetir hynafol ac yn lleihau cymaint â phosibl unrhyw gywasgu a tharfu ar bridd.

rhaid i chi gadw ffotograffau â geotag i ddangos cyflwr y safle cyn i'r gwaith ddechrau, yn ogystal â ffotograffau o'r gwaith wedi'i gwblhau, a chadw cofnod o'r driniaeth (e.e. amseru, dull a'r ardal a gafodd ei thrin). Rhaid i chi hefyd gadw

unrhyw gydsyniad neu ganiatâd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a'u dangos ar gais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid cadw anfonebau taledig neu ddatganiadau banc (lle nad oes anfoneb daledig ar gael) fel tystiolaeth.

mabwysiadu dull rheolaeth integredig ar blâu, yn cynnwys cyfyngu i'r eithaf y defnydd o chwynladdwyr, gan osgoi dulliau cemegol lle mae hynny'n bosibl. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu](#).

[defnyddio chwynladdwr](#) yn ddiogel a chyda chaniatâd priodol, gan gynnwys defnydd ger cyrsiau dŵr ac ar safleoedd gwarchodedig.

cydymffurfio â'r cyfyngiadau ar ddefnyddio cynnyrch diogelu planhigion yn unol â'r cyfyngiadau yn sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 10](#) gan gynnwys:

bod yn gymwysedig i ddefnyddio chwynladdwyr neu gyflogi contractwr cymwysedig addas.

bod yn ddefnyddiwr cofrestredig cynhyrchion diogelu planhigion.

cadw cofnodion o ddefnydd cynhyrchion diogelu planhigion gan gynnwys chwynladdwyr yn eich Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu.

rhaid i offer taenu plaladdwyr, ac eithrio chwistrellwyr cefn a chwistrellwyr llaw, fod wedi pasio prawf a gynhaliwyd gan y Cynllun Cenedlaethol Profi Chwistrellwyr.

dim ond pan fo'r tywydd yn addas y dylid chwistrellu, i leihau'r risg o'r chwynladdwr yn cael ei gario ar y gwynt.

gwaredu chwynladdwr sy'n weddill mewn ffordd ddiogel ar ddiwedd pob diwrnod.

gwneud yn siŵr eich bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol, megis menig, lle bo hynny'n briodol.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

cludo deunydd planhigion Rhododendron neu Lawryf heintiedig oddi ar safleoedd, oni bai i chi gael caniatâd i wneud hynny o dan Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol. Rhaid i'r gwaith o symud unrhyw ddeunydd diangen oddi ar safle gydymffurfio â deddfwriaeth gwastraff.

cludo deunydd coedwigaeth ([pren](#)) oddi ar safleoedd lle mae clefydau neu blâu coed rheoleiddiedig yn bresennol, oni bai i hynny gael ei awdurdodi gan y Comisiwn Coedwigaeth (sy'n rhoi trwyddedau yng Nghymru ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru).

taenu chwynladdwr mewn amodau gwlyb neu pan mae disgwyl gwyntoedd cryf, glaw neu wllith trwm (o leiaf 6 awr heb ragolygon o law ar gyfer chwistrellu cefn gydag adjiwfant wedi'i ychwanegu, 12 awr heb ei ychwanegu, 24 awr yn ddelfrydol).

taenu chwynladdwr mewn amodau poeth neu heulog oherwydd bydd y chwynladdwr yn anweddu nac mewn amodau oer (<7°C) oherwydd amsugniad is gan y planhigyn.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dulliau rheoli

Mae rhaglen reoli effeithiol yn debygol o gynnwys cyfuniad o'r dulliau canlynol, yn dibynnu ar safle, dwysedd a maint y planhigion. Mae'n bosibl defnyddio'r un dulliau ar gyfer rheoli Rhododendron a Llawryf.

Mae'r dull rheoli sy'n cael ei argymhell o dan y cynllun hwn yn seiliedig ar brofiad Parc Cenedlaethol Eryri a'r prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd:

<https://coedwigoeddglawceltaidd.cymru/resources/rhododendron-ponticum-toolkit>

Trin Coesynddau

Mae trin coesynddau yn ddull syml ac effeithiol iawn, yn enwedig ar gyfer llwyni mawr gyda choesynddau â diamedr o 3cm neu fwy.

Mae'r driniaeth hon yn golygu drilio tyllau gyda diamedr o 12mm mor syth i lawr â phosibl yn agos at waelod pob coesyn (8mm yn achos coesynddau teneuach) i greu pant 20mm o ddyfnder (dyfnach os ydych chi'n defnyddio twll 8mm) sy'n ddigon i gymryd 2ml o doddiant chwynladdwr (dyfnder o 30mm ar gyfer ebill 10mm, 20mm ar gyfer ebill 12mm, 10mm ar gyfer ebill 16mm).

Dylai un twll fod yn ddigonol ar gyfer pob 3cm o ddiamedr coesyn; lle mae'r coesynddau'n fwy trwchus, dylai tyllau trin gael eu gwasgaru bob 5cm o amgylch y coesyn.

Dylid ychwanegu'r chwynladdwr cyn gynted â phosibl ar ôl drilio'r tyllau. Defnyddiwch declyn fel sbot-ddryll neu chwistrell filfeddygol i lenwi pob twll yn ofalus, er mwyn osgoi gollyngiadau.

Rhaid i'r chwynladdwr fod yn un cymeradwy, gyda label sy'n argymhell ei ddefnydd arfaethedig a'r dull defnyddio arfaethedig, gan gynnwys ei ddefnydd ger cyrsiau dŵr lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'n bosibl ychwanegu lliw marcio llysieuol cryf. Bydd defnyddio lliw yn ei gwneud hi'n haws gweld pa blanhigion sydd wedi'u trin yn nes ymlaen. Mae hefyd yn bosibl marcio planhigion trwy dorri dail y gangen uchaf neu farcio gyda phaent chwistrell diwenwyn priodol.

Lle mae coesynnau'n deneuach na 3cm, mae'n bosibl gwneud tyllau gyda bwyell neu filwg, neu trwy grafu'r rhisgl oddi ar y coesyn gyda llif gadwyn. Mae'n bosibl taenu'r toddiant chwynladdwr (2ml) yn y toriad gyda brwsh paent.

Gofalwch drin pob coesyn ar wahân, gan gynnwys coesynnau ochrol.

Dylid datgysylltu'r coesynnau haenog, h.y. y rhai sydd wedi gwreiddio o'r rhiant-blanhigyn, a'u trin yn unol â'r disgrifiad o'r dull ar gyfer tynnu â llaw.

Mae'n bosibl trin coesynnau trwy gydol y flwyddyn, er mai mis Mawrth i fis Hydref yw'r cyfnod delfrydol. Ni chaiff y gwaith darfu ar adar sy'n nythu. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Nid oes angen torri neu waredu pren sy'n sefyll oni bai bod risg i ddiogelwch y cyhoedd neu i eiddo.

Mae angen monitro effeithiolrwydd y chwynladdwr, ac os oes aildyfiant yn bresennol, dylid chwistrellu'r dail ymhellach pan fydd y tyfiant newydd yn ddigon mawr i gyflwyno dogn effeithiol o chwynladdwr i ladd y planhigyn. Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw hefyd.

Mae'n bosibl torri â llaw ar ôl trin coesynnau, ac yna llosgi/pentyrru os oes angen, pan mae'n amlwg i'r driniaeth fod yn llwyddiannus. Er mwyn sicrhau hyn, dylid gadael planhigion am o leiaf un tymor tyfu cyn torri'r coesynnau marw.

Torri â llaw ac yna llosgi/pentyrru

Mae'r dull hwn yn addas ar gyfer ardaloedd mawr lle mae tyfiant yn rhy drwchus i allu cyrraedd pob llwyn neu le mae'r coesynnau yn rhy denau i'w drilio er mwyn chwistrellu chwynladdwr i mewn iddynt. Mae hyn yn gallu digwydd ar safleoedd sydd wedi'u trin gyda dull torri a llosgi/pentyrru yn y gorffennol, ond heb gael unrhyw driniaeth ddilynol.

Effeithiol ar gyfer planhigion dros 1.3m o uchder a diamedr o fwy na 1.5m.

Dylid torri'r holl dyfiant mor agos at lefel y ddaear â phosibl gan ddefnyddio llif gadwyn.

Nid yw trin boncyffion â chwynladdwr yn syth ar ôl eu torri yn cael ei argymhell. Mae'n fwy effeithiol chwistrellu dail unrhyw aildyfiant ar ôl i foncyffion a dorwyd gael eu gadael i aildyfu, a'r dail yn ddigon mawr i dderbyn dogn angheuol o chwynladdwr o'r chwistrellu.

Bydd aildyfiant yn adfywio o fewn misoedd. Yr argymhelliad yw bod y gwaith dilynol o chwistrellu'r dail yn digwydd o fewn 12-18 mis ar ôl torri. Yr uchder delfrydol ar gyfer chwistrellu aildyfiant o goesynnau a dorwyd yw 50cm, ond ni ddylid chwistrellu pan fydd yr aildyfiant dros 1.5m.

Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw hefyd.

Ni ddylid torri â llaw yn ystod y tymor nythu adar (Mawrth – Awst) oni bai bod arolwg dyddiol yn canfod nad oes adar sy'n nythu yn bresennol. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Dylid pentyrru'r deunydd a dorrwyd a'i adael i bydru neu ei losgi. Mae'n bosibl pentyrru coesynnau a dorrwyd mewn rhenciau, o leiaf 5m i ffwrdd o lwybrau troed neu gysiau dŵr, gyda digon o le rhyngddynt i ganiatáu mynediad ar gyfer chwistrellu aildyfiant.

Dylai unrhyw dân gael ei gynnu o dan amodau diogel ac yn unol ag is-ddeddfau lleol a deddfwriaeth gwastraff.

Gofalwch leihau effaith llosgi i'r eithaf mewn ardaloedd sensitif fel Coetir Hynafol trwy nodi ardaloedd addas ar gyfer llosgi.

Nid yw asglodi yn opsiwn sy'n cael ei argymhell, oni bai bod cyfarwyddyd i wneud hynny o dan Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol, gan fod deunydd wedi'i asglodi yn gallu llesteirio adfywio naturiol a chynnig lloches i glefydau, sydd o bwys arbennig mewn safleoedd dynodedig.

Creu tomwellt/ffustio â pheiriant

Ar gyfer ardaloedd sylweddol o lystyfiant lle mae'r tir yn hygyrch i beiriannau mawr ac mae gweithredwyr cymwysedig ar gael, mae creu tomwellt neu ffustio â pheiriant yn gallu bod yn effeithiol, yn enwedig os nad oes unrhyw driniaeth arall wedi digwydd. Mae'n bosibl ei ddefnyddio ar y cyd â chwistrellu coesynnau a thorri â llaw ar safleoedd anhygyrch i beiriannau.

Dilynwch y driniaeth hon o fewn 24 mis trwy chwistrellu'r dail pan fydd aildyfiant yn ddigon mawr i'r chwynladdwr fod yn effeithiol.

Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw hefyd.

Ni ddylid defnyddio'r dull hwn yn ystod y tymor nythu adar o fis Mawrth i fis Awst. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Chwistrellu dail gyda chwynladdwr

Fel dull annibynnol neu fel triniaeth ddilynol, mae chwistrellu dail planhigion heb fod yn fwy na 1.5m o uchder neu 200cm o ddiamedr, lle mae modd cyrraedd pob rhan o'r planhigyn, neu le mae coesynnau'n rhy denau ar gyfer chwistrellu coesynnau (megis aildyfiant), yn gallu bod yn llwyddiannus iawn.

Mae angen ymgymryd â chwistrellu dail yn ofalus, a hynny gan weithredwr medrus a chymwysedig i sicrhau taenu manwl gywir.

Rhaid i'r chwynladdwr fod yn un cymeradwy, gyda label sy'n argymhell ei ddefnydd arfaethedig a'r dull defnyddio arfaethedig, gan gynnwys ei ddefnydd ger cyrsiau dŵr lle bo hynny'n berthnasol.

Dylai'r chwynladdwr gael ei wanhau i'r cryfder priodol gyda dŵr, ac mae angen ei gymysgu'n drylwyr (am o leiaf ddau funud) gan ei fod yn hydoddiant olew a dŵr. Dylid ychwanegu lliw i'r toddiant er mwyn adnabod planhigion sydd wedi'u trin.

Mae'n bosibl ychwanegu adjiwfant i orchuddio arwynebau cwyradd y dail yn well a gwella ei allu i aros ar y dail mewn glaw. Nid yw ychwanegu adjiwfant yn cael ei argymhell pan fyddwch yn gweithio'n agos at ddŵr.

Chwistrellwyr cefn gyda phigyn chwistrellu gwag sy'n cael eu defnyddio amlaf i daenu'r chwynladdwr. Mae hefyd yn bosibl defnyddio dull gwasgaru diferion dan reolaeth (CDA) i sicrhau bod y chwynladdwr yn cael ei daenu ar y gyfradd gywir.

Er mwyn lladd y planhigyn, dylid chwistrellu chwynladdwr ar bob deilen nes bod y ddeilen yn wlyb (h.y. y pwynt cyn i'r chwynladdwr ddechrau diferu oddi ar y ddeilen).

Mae'n bosibl chwistrellu trwy gydol y flwyddyn os yw'r tywydd yn briodol i leihau drifft chwynladdwr, er mai mis Mawrth i fis Hydref yw'r cyfnod delfrydol. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Gan nad yw'r chwynladdwr yn ddetholus, mae difrod i llystyfiant brodorol cyfagos yn gallu digwydd gyda drifft chwynladdwr, hyd yn oed wrth gymryd gofal. Mae'n gallu cymryd blynyddoedd i llystyfiant brodorol adfer ar ôl iddo gael ei ddifrodi.

Mae angen monitro effeithiolrwydd y chwynladdwr yn ystod y blynyddoedd dilynol, ac os oes aildyfiant yn bresennol, dylid chwistrellu'r dail ymhellach pan fydd y tyfiant newydd yn ddigon mawr i gyflwyno dogn effeithiol o chwynladdwr i ladd y planhigyn. Mae'n bosibl y bydd angen tynnu eginblanhigion â llaw hefyd.

Tynnu â llaw

Mae'n bosibl tynnu unrhyw blanhigion sy'n ddigon bach (uchder o 60cm neu lai) â llaw. Er mwyn atal ailwreiddio, dylid gwaredu unrhyw bridd a'u gadael neu eu hongian mewn lle diogel oddi ar y llawr i sychu.

Gwnewch yn siŵr bod y nod gwaelod ar bob coesyn yn cael ei dynnu gyda'r coesyn, gan fod y planhigyn yn gallu aildyfu o'r nod hwn. Y nod gwaelod yw'r pwynt ar ran isaf brennaidd y coesyn lle mae deilen neu egin newydd yn ymddangos. Fel arfer mae chwydd neu lwmp bychan i'w weld ychydig bach uwchben wyneb y pridd, neu ychydig oddi tano weithiau.

Mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd (e.e. yng nghanol llystyfiant trwchus ac ati), mae'n bosibl y bydd angen offer llaw i gloddio'r system wreiddiau.

Mae'n hollbwysig mabwysiadu dull trefnus o chwilio am blanhigion trwy ddefnyddio rhesi o weithwyr gyda 10 metr rhyngddynt neu ddefnyddio marcwyr wedi'u gwasgaru'n briodol. Mae gwaith tîm yn cael ei annog o safbwynt diogelwch.

Mae'n bosibl defnyddio'r dull hwn trwy gydol y flwyddyn ond mae'n fwyaf effeithiol ar ddiwedd y gaeaf a dechrau'r gwanwyn cyn i dyfiant trwchus allu cuddio planhigion llai. Mae amseriad y driniaeth i'w weld yn Nhabl 1.

Tabl 1. Amseriadau triniaeth

Dull	Ion	Chwef	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
Chwistrellu coesynnau	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le	le	le	le	le	le	le	le	le, gyda gofal	le, gyda gofal
Torri â llaw	le	le	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le	le	le	le
Torri/ffustio mecanyddol	le	le	Dim gweithred	Dim gweithred	Dim gweithred	Dim gweithred	Dim gweithred	Dim gweithred	le	le	le	le
Chwistrellu dail	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le	le	le	le	le	le	le	le	le, gyda gofal	le, gyda gofal
Tynnu â llaw	le	le	le	le	le	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le, gyda gofal	le	le	le

Allwedd

le gyda gofal - ewch ati gyda gofal

le - amser gweithredu delfrydol

Dim gweithred - peidiwch â gweithredu ar yr adeg hon **Monitro**

Mae angen monitro effeithiolrwydd triniaethau yn ystod y blynyddoedd dilynol. Mae gweithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cwmpasu taliadau ar gyfer: 6777 Rhywogaethau planhigion Estron Goresgynnol Daearol a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli planhigion o'r fath, gan gynnwys amserlenni monitro.

6788 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Chwistrellu coesynnau gyda chwynladdwr

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer: Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol
Daearol: Rheoli cemegol – Chwynladdwr – Chwistrellu coesynnau

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhywogaethau estron goresgynol yw'r enw ar unrhyw rywogaeth estron sy'n gallu ymledu ac achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn gallu amharu ar ffyniant Cymru trwy effeithio ar gynhyrchedd amaethyddiaeth, coedwigaeth a garddwriaeth.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn effeithio ar yr amgylchedd gan eu bod yn cystadlu'n well na phlanhigion brodorol, gan effeithio'n negyddol ar y bywyd gwyllt sy'n dibynnu arnynt. Mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn rhyddhau cemegau niweidiol i'r pridd sy'n gallu atal planhigion eraill rhag tyfu. Pan fyddant yn tyfu mewn clystyrau trwchus ger cyrsiau dŵr, maen nhw'n gallu achosi i'r pridd erydu yn ystod y gaeaf, neu dagu dyfrffyrdd, gan gynyddu'r risg o lifogydd lleol. Maen nhw hefyd yn gallu amharu ar beillio trwy ddenu pryfed peillio i ffwrdd o blanhigion brodorol, sy'n amharu ar lefelau peillio a'i gallu i gynhyrchu hadau.

Maen nhw'n gallu peri risg i iechyd pobl, naill ai trwy waethygu cyflyrau fel asthma neu drwy achosi niwed corfforol fel brech neu bothelli.

Mae chwistrellu coesynnau yn ffordd effeithiol o drin rhywogaethau planhigion estron goresgynol penodol. Mae sbot-chwynnu yn cyfeirio at driniaethau niferus sy'n defnyddio chwynladdwyr mewn ffordd wedi'i thargedu, gan gynnwys rhoi ar y dail, torri a thrin y bonyn a chwistrellu coesynnau.

Mae'r taliad hwn yn talu cost clirio ardal o rywogaethau planhigion estron goresgynol trwy chwistrellu chwynladdwr i'r coesynnau.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol y cytunwyd arno. Bydd y cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol yn disgrifio nodweddion y safle, gan gynnwys anifeiliaid a chynefinoedd allweddol, safleoedd dynodedig, unrhyw rywogaethau o'r fath sy'n bresennol a'u hyd a'u lled, llwybrau lledaenu posibl a'r risg i hynny ddigwydd, dulliau rheoli, camau a gymerwyd i atal lledaeniad, monitro a manylion unrhyw ddulliau adfer. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6780 Rhywogaethau Estron

Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw - Cynllun Rheoli Rhywogaethau Estron
Goresgynol am ragor o wybodaeth.

mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn destun deddfwriaeth, ac mae'n drosedd eu plannu neu beri iddynt dyfu'n wyllt (darllenwch sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 15](#) am ragor o wybodaeth).

bydd cynnal mesurau bioddiogelwch, gan gynnwys sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a cherbydau yn lân wrth gyrraedd ac yn cael eu glanhau cyn gadael y safle, yn lleihau'r risg o ledaenu rhywogaethau planhigion estron goresgynol. Mae'n bosibl y byddwch am gynnal asesiad risg bioddiogelwch cyn dechrau ar unrhyw waith rhywogaethau estron goresgynol. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6779 Rhywogaethau Estron Goresgynol, Plâu a Chlefydau Daearol a Dŵr Croyw: Asesu risg bioddiogelwch am ragor o wybodaeth.

gwneud yn siŵr fod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#), [trwyddedau gwastraff](#) a [thrwyddedau rhywogaethau a warchodir](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith.

Rhaid i chi gadw ffotograffau â geotag i ddangos cyflwr y safle cyn i'r gwaith ddechrau, yn ogystal â ffotograffau o'r gwaith wedi'i gwblhau, a chadw cofnod o'r driniaeth (e.e. amseru, dull a'r ardal a gafodd ei thrin). Rhaid i chi hefyd gadw unrhyw gydsyniad neu ganiatâd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a'u dangos ar gais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid cadw anfonebau taledig neu ddatganiadau banc (lle nad oes anfoneb daledig ar gael) fel tystiolaeth.

mabwysiadu dull rheolaeth integredig ar blâu, yn cynnwys cyfyngu i'r eithaf y defnydd o chwynladdwyr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu](#).

rhaid i'r chwynladdwr fod yn un cymeradwy, gyda label sy'n argymhell ei ddefnydd arfaethedig a'r dull defnyddio arfaethedig. Dylid defnyddio chwynladdwr sydd wedi cael ei wanhau i'r cryfder priodol. Mae'n bosibl ychwanegu adjiwfant at chwynladdwyr i wella'r amsugniad gan y planhigyn.

[defnyddio chwynladdwr](#) yn ddiogel a chyda chaniatâd priodol, gan gynnwys defnydd ger cyrsiau dŵr ac ar safleoedd gwarchodedig.

rhaid defnyddio chwynladdwyr yn ofalus, a hynny gan weithredwr medrus a chymwysedig i sicrhau taenu manwl gywir.

gwneud yn siŵr bod cyfarpar diogelu personol priodol, megis menig, yn cael eu gwisgo.

cydymffurfio â'r cyfyngiadau ar ddefnyddio cynnyrch diogelu planhigion yn unol â'r cyfyngiadau yn sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 10](#) gan gynnwys:

bod yn gymwysedig i ddefnyddio chwynladdwyr neu gyflogi contractwr cymwysedig addas.

bod yn ddefnyddiwr cofrestredig cynhyrchion diogelu planhigion.

cadw cofnodion o ddefnydd o gynhyrchion diogelu planhigion gan gynnwys chwynladdwyr yn eich Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu.

rhaid i offer taenu plaladdwyr, ac eithrio chwistrellwyr cefn a chwistrellwyr llaw, fod wedi pasio prawf a gynhaliwyd gan y Cynllun Cenedlaethol Profi Chwistrellwyr.

gwaredu chwynladdwr sy'n weddill mewn ffordd ddiogel ar ddiwedd pob diwrnod.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

defnyddio'r dull hwn i chwistrellu chwynladdwyr i goesynnau Rhododendron neu lawrgeirios – darllenwch weithredoedd rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer: Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol: Rheoli Rhododendron a Llawryf.

defnyddio'r dull hwn i reoli rhywogaethau goresgynol brodorol fel chwyn niweidiol, rhedyn, eithin, brwyn, mieri neu ddanadl poethion.

taenu chwynladdwr mewn amodau gwlyb neu pan mae disgwyl gwyntoedd cryf, glaw neu wllth trwm (o leiaf 12 awr heb ragolygon o law).

taenu chwynladdwr mewn amodau poeth neu heulog oherwydd bydd y chwynladdwr yn anweddu nac mewn amodau oer (<7°C) oherwydd amsugniad is gan y planhigyn.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Defnyddiwch y dull hwn o reoli ar gyfer rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol cnawdol, gyda choesynnau trwchus, fel clymog Japan, clymogau goresgynol eraill a rheonllys mawr (rhywogaethau Gunnera).

Defnyddiwch declyn fel sbot-ddryll neu chwistrell filfeddygol i lenwi pob twll yn ofalus, er mwyn osgoi gollyngiadau.

Dylid ychwanegu'r chwynladdwr cyn gynted â phosibl ar ôl drilio'r tyllau.

Mae'n bosibl chwistrellu coesynnau clymogau unwaith y flwyddyn rhwng diwedd yr haf a'r hydref, lle mae diamedr y coesynnau yn fwy nag 8mm. Mae'n bosibl y bydd angen ailadrodd y driniaeth dros ddwy neu dair blynedd. Ar gyfer coesynnau llai nag 8mm mewn diamedr, mae'n debygol mai rhoi chwynladdwr ar y dail fydd fwyaf effeithiol.

Ar gyfer rhywogaethau planhigion estron goresgynol sydd â choesau prenaidd fel rheonllys mawr (rhywogaeth Gunnera), dylid drilio tyllau i'r rhisom (gwreiddgyff).

Dylid chwistrellu coesynnau rheonllys mawr o leiaf ddwywaith yn ystod y tymor tyfu o fis Mawrth i fis Tachwedd.

Monitro a thriniaeth ddilynol

Mae angen monitro effeithiolrwydd trin coesynnau â chwynladdwr yn ystod y blynyddoedd dilynol. Os oes unrhyw aildyfiant neu dyfiant newydd yn bresennol, chwistrellwch y dail pan fydd y tyfiant newydd yn ddigon mawr i gyflwyno dogn effeithiol o chwynladdwr i ladd y planhigyn.

Gall unrhyw dyfiant newydd o hadau gael ei dynnu â llaw.

Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6777 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw - Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli, a gweithredoedd eraill sy'n cwmpasu dulliau rheoli planhigion o'r fath.

6789 Rhywogaethau Planhigion Estron Goresgynol Daearyl: Strimio a thocio (ac eithrio clymog Japan neu glymogau goresgynol eraill)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer:

Rhywogaethau planhigion estron goresgynol daearyl: strimio a thocio (ac eithrio clymog Japan neu glymogau goresgynol eraill).

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rhywogaethau estron goresgynol yw'r enw ar unrhyw rywogaeth estron sy'n gallu ymledu ac achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn gallu amharu ar ffyniant Cymru trwy effeithio ar gynhyrchedd amaethyddiaeth, coedwigaeth a garddwriaeth.

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn effeithio ar yr amgylchedd trwy gystadlu'n well na phlanhigion brodorol, gan effeithio'n negyddol ar y bywyd gwyllt sy'n dibynnu arnynt. Mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynol yn rhyddhau cemegau niweidiol i'r pridd sy'n gallu atal planhigion eraill rhag tyfu. Pan fyddant yn tyfu mewn clystyrau trwchus ger cyrsiau dŵr, maen nhw'n gallu achosi i'r pridd erydu yn ystod y gaeaf, neu dagu dyfrffyrdd, gan gynyddu'r risg o lifogydd lleol. Maen nhw hefyd yn gallu amharu ar beillio trwy ddenu pryfed peillio brodorol i ffwrdd o blanhigion brodorol, sy'n amharu ar lefelau peillio a'i gallu i gynhyrchu hadau.

Maen nhw'n gallu peri risg i iechyd pobl, naill ai trwy waethygu cyflyrau fel asthma neu drwy achosi niwed corfforol fel brech neu bothelli.

Mae'r taliad hwn yn talu cost torri neu docio rhywogaethau planhigion estron goresgynol mewn ardal benodol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol y cytunwyd arno. Bydd y cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol yn disgrifio nodweddion y safle, gan gynnwys anifeiliaid a chynefinoedd allweddol, safleoedd dynodedig, unrhyw rywogaethau o'r fath sy'n bresennol a'u hyd a'u lled, llwybrau lledaenu posibl a'r risg i hynny ddigwydd, dulliau rheoli, camau a gymerwyd i atal lledaeniad, monitro a manylion unrhyw ddulliau adfer. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy:6780 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearyl a Dŵr Croyw – Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol am ragor o wybodaeth.

mae rhai rhywogaethau planhigion estron goresgynnol yn destun deddfwriaeth, ac mae'n drosedd eu plannu neu beri iddynt dyfu'n wyllt (darllenwch sylfaen reoleiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy [SMR 15](#) am ragor o wybodaeth).

bydd cynnal mesurau bioddiogelwch, gan gynnwys sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar a cherbydau yn lân wrth gyrraedd ac yn cael eu glanhau cyn gadael y safle, yn lleihau'r risg o ledaenu rhywogaethau planhigion estron goresgynnol. Dylech gynnal asesiad risg bioddiogelwch cyn dechrau ar unrhyw waith rhywogaethau estron goresgynnol. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6779 Rhywogaethau Estron Goresgynnol, Plâu a Chlefydau Daearyl a Dŵr Croyw: Asesu risg bioddiogelwch am ragor o wybodaeth.

gwnewch yn siŵr bod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#), [trwyddedau gwastraff](#) a [thrwyddedau rhywogaethau a warchodir](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith.

rhaid i chi gadw ffotograffau â geotag i ddangos cyflwr y safle cyn i'r gwaith ddechrau, yn ogystal â ffotograffau o'r gwaith wedi'i gwblhau, a chadw cofnod o'r driniaeth (e.e. amseru, dull a'r ardal a gafodd ei thrin). Rhaid i chi hefyd gadw unrhyw gydsyniad neu ganiatâd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a'u dangos ar gais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid cadw anfonebau taledig fel tystiolaeth, neu ddatganiadau banc lle nad oes anfoneb daledig ar gael.

gwnewch yn siŵr eich bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, megis feisor, menig ac amddiffynwyr clustiau.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

defnyddio'r camau hyn i reoli rhywogaethau goresgynnol **brodorol** fel chwyn niweidiol, rhedyn, eithin, brwyn, mieri neu ddanadl poethion.

strimio neu docio clymog Japan (neu glymogau goresgynnol eraill). Bydd yn peri iddo ledaenu, ac mae'n ddull aneffeithiol o'i reoli. Mae rhywogaethau clymog yn cynnwys:

clymog Japan

corglymog

clymog mawr

clymog yr Himalaya

clymog Bohemia

strimio neu docio efwr enfawr, gan nad yw'n ddull effeithiol o'i reoli. Mae sug efwr enfawr yn gallu achosi goleusensitifedd wrth ddod i gysylltiad â'r croen, gan arwain at bothelli ailadroddus a chreithio.

gosod y peiriant torri/tocio uwchben lefel y ddaear ar gyfer rhywogaethau planhigion estron goresgynol. Mae angen torri ar waelod y planhigyn (islaw'r nod cyntaf) er mwyn ei reoli'n effeithiol ac i leihau'r risg o ledaenu.

Gofynion a chanllawiau sy'n ychwanegol at y manylebau uchod:

Dim ond ar gyfer rheoli rhai rhywogaethau estron goresgynol penodol (e.e. jac y neidiwr a bambŵ goresgynol) y mae strimio neu docio yn addas, gan ei fod yn gallu achosi lledaeniad, ac mae'n ddull rheoli aneffeithiol.

Dim ond cyn i flodau ffurfio y mae'n bosibl strimio neu docio jac y neidiwr, er mwyn atal hadau rhag gwasgaru.

Bydd angen torri planhigion yn agos at wyneb y ddaear (ar gyfer jac y neidiwr, islaw'r nod cyntaf) a bydd angen i'r planhigion gael eu strimio/tocio yn ysbeidiol dro ar ôl tro ar draws y tymor tyfu ac am nifer o flynyddoedd i atal aildyfiant (bydd amseru'r torri yn dibynnu ar y planhigyn sy'n cael ei dargedu).

Monitro a thriniaeth ddilynol

Mae angen monitro effeithiolrwydd strimio neu docio yn ystod y blynyddoedd dilynol. Os oes unrhyw aildyfiant neu dyfiant newydd yn bresennol, mae'n rhaid ei strimio, ei dorri neu ei drin unwaith eto gyda dull rheoli priodol.

Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6777 Rhywogaethau planhigion Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw: Monitro effeithiolrwydd triniaeth ar ôl rheoli, a gweithredoedd rheoli eraill ar gyfer dulliau rheoli planhigion o'r fath.

Gwaredu deunydd planhigion

Oddi ar y safle:

Mae rhywogaethau planhigion estron goresgynol neu bridd halogedig yn wastraff a reolir. Os yw'n cael ei symud oddi ar y safle, rhaid iddo gael ei gludo gan gludwr gwastraff cofrestredig a'i waredu mewn cyfleuster gwastraff trwyddedig priodol. Mae'n bosibl y bydd angen i chi wirio y byddant yn derbyn y gwastraff.

Ar y safle:

Yn aml, mae'n rhatach ac yn well i'r amgylchedd os ydych chi'n gwaredu deunydd rhywogaethau planhigion estron goresgynol ar y safle lle maen nhw wedi tyfu.

Os ydych yn trin neu'n gwaredu rhywogaethau planhigion estron goresgynol ar y safle, bydd angen gwneud cais am drwydded wastraff, oni bai eich bod yn gallu bodloni'r amodau yn Natganiad Rheoleiddio 058.2 Cyfoeth Naturiol Cymru:

[Datganiad rheoleiddio 058.3 Trin a gwaredu planhigion estron goresgynol](#)

Os nad yw'r deunydd planhigion yn cynnwys hadau, coesau neu wreiddiau hyfyw ac mae'n annhebygol o aildyfu (er enghraifft, jac y neidiwr sydd wedi'i dynnu cyn iddo flodeuo), mae'n bosibl ei gompostio ar y safle.

Rhaid llosgi gwastraff gwyrdd heb ei drin yn unol ag is-ddeddfau lleol a deddfwriaeth gwastraff: [Cofrestru neu adnewyddu eich esemptiadau gwastraff](#)

6790 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Rafft mincod Americanaidd

Mae'r nodyn technegol hwn yn amlinellu'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i fod yn gymwys ar gyfer taliadau sy'n gysylltiedig â:

Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Rafft mincod Americanaidd

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae mincod Americanaidd wedi cyfrannu'n sylweddol at ddirywiad poblogaethau llygod pengrwn y dŵr yng Nghymru, ac wedi effeithio ar fywyd gwyllt arall hefyd, megis adar sy'n nythu ar y ddaear. Heb reolaeth effeithiol ar fincod Americanaidd, gallai llygod pengrwn y dŵr wynebu difodiant yn lleol.

Mae tiriogaethau mincod Americanaidd fel arfer yn ymestyn 5km i'r minc gwryw a 3km i'r minc benyw, felly mae trapio ynysig yn gallu creu bwlch tiriogaethol sy'n cael ei lenwi'n gyflym gan unigolion newydd. Er y gallai rheoli lleol amddiffyn cytrefi llygod pengrwn y dŵr allweddol, mae ymdrechion ar raddfa dalgylch yn cynnig canlyniadau mwy cynaliadwy.

Mae rafftiau yn cael eu defnyddio fel sylfaen arnofiol i osod trapiau mincod ar ddŵr. Mae defnyddio rafftiau arnofiol yn lleihau'r risg o ddal anifeiliaid nad ydynt yn cael eu targedu.

Mae'r taliad hwn yn talu cost prynu rafft mincod.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Rhaid defnyddio rafftiau mincod yn unol â gweithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6793 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Gosod a gwirio trapiau, lladd a gwaredu mincod Americanaidd.

Prynwch rafftiau sy'n addas i'w defnyddio gyda thrap clyfar (cawell) i ddal mincod yn unig h.y. trap gydag uned monitro'r trap o bell (fel sy'n cael ei amlinellu yng ngham rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6791 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Trapiau clyfar mincod Americanaidd).

Cadwch anfonebau taledig am bryniant y rafft mincod neu'r deunydd i adeiladu'r rafft.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Defnyddio rafft mincod gyda thrap lladd (sbring) oherwydd y risg o ladd anifeiliaid nad ydynt yn cael eu targedu (e.e. dyfrgwn, llygod pengrwn y dŵr ac adar).

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dylai rafftiau mincod:

fod yn llwyfannau arnofiol wedi'u clymu'n ddiogel i'r lan, gyda rhaffau ynghlwm wrth folltau dolen ar gorneli'r rafft

cynnwys twnnel canolog sy'n ddigon mawr i ddal trap dal yn fyw (cawell) gyda gard dyfrgwn ac uned monitro'r trap o bell

Mae angen i arwynebedd y rafft fod oddeutu 115cm x 59cm o leiaf, yn dibynnu ar faint y trap a'r deunyddiau, gyda digon o le i fincod ddringo arno cyn mynd i mewn i'r twnnel.

Mae trapiau fel arfer yn mesur tua 60cm x 18cm x 16cm (hyd x lled x uchder), ac mae'n rhaid i'r twnnel hefyd fod â digon o le i gard dyfrgwn (e.e. rhwyll fetel neu estyll pren/gwifrau) i atal dyfrgwn llawn dwf rhag mynd i mewn i'r trap.

Yn dibynnu ar y drefn sydd ar waith, gallai'r uned monitro'r trap o bell fod wedi'i gosod uwchben y trap ac mae'n rhaid cael bod digon o le yn y twnnel i'r uned.

Mae gwybodaeth am sut i osod trap clyfar ar rafft i ddal mincod ar gael ar wefan y Waterlife Recovery Trust:

<https://www.waterliferecoverytrust.org.uk/the-smart-mink-trap-raft/>

Mae rafftiau mincod ar gael i'w prynu ar-lein gan wahanol gyflenwyr neu mae'n bosibl eu hadeiladu (gweler Ffigur 1) yn dilyn canllawiau ar wefan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Hela a Bywyd Gwylt (canllawiau rafftiau mincod GWCT):

<https://www.gwct.org.uk/advisory/guides/mink-raft-guidelines/building/>

Ystyriaethau cyn prynu/adeiladu rafft mincod

Mae rafftiau mincod yn helpu i leihau sgil-ddalfeydd rhywogaethau daearol, ond mae'n bosibl nad ydynt yn addas ar gyfer afonydd sydd yn newid dyfnder yn sydyn, afonydd sy'n cael eu heffeithio gan y llanw, neu yn ystod adegau penodol o'r flwyddyn (h.y. os yw'r ardal yn debygol o ddioddef llifogydd). Dylid asesu amodau'r safle cyn penderfynu prynu rafft mincod ai peidio.

Er bod padiau clai yn arfer cael eu defnyddio ar rafftiau mincod i nodi presenoldeb mincod cyn eu trapio, mae unedau monitro'r trap o bell bellach yn caniatáu i drapio ddechrau ar unwaith, oni bai bod problemau signal yn atal defnyddio uned o'r fath. Mae angen ystyried hyn wrth benderfynu ar ddyluniad y rafft sy'n cael ei brynu/adeiladu.

O ran dwysedd y trapiau, yr argymhelliad yw uchafswm o oddeutu 1 trap fesul 1km o gynefin glan afon, er y gallai dwysedd y trapiau fod yn is yn dibynnu ar ansawdd y cynefin (1 fesul 5-10 km o gynefin glan afon). Enghraifft o gynefin o ansawdd isel fyddai ffosydd draenio syth gydag ochrau uchel syth. Mae cynefin o ansawdd uwch

yn cynnwys mannau lle mae cyrsiau dŵr yn uno, nentydd dolennog ac ardaloedd â llystyfiant ar y glannau a choed bargodol.

Mae'n bosibl y byddai grŵp trapio mincod Americanaidd lleol yn gallu cynnig cyngor ar rafftiau mincod a thrapiau clyfar.



Ffigur 1. Llun o rafft mincod cartref

6791 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Trapiau clyfar mincod Americanaidd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer:

Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Trapiau clyfar mincod Americanaidd

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae mincod Americanaidd wedi cyfrannu'n sylweddol at ddirywiad poblogaethau llygod pengrwn y dŵr yng Nghymru, ac wedi effeithio ar fywyd gwyllt arall hefyd, megis adar sy'n nythu ar y ddaear. Heb reolaeth effeithiol o fincod Americanaidd, gallai llygod pengrwn y dŵr wynebu difodiant yn lleol.

Mae tiriogaethau mincod Americanaidd fel arfer yn ymestyn 5km i'r minc gwryw a 3km i'r minc benyw, felly mae trapio ynysig yn gallu creu bwlch tiriogaethol sy'n cael ei lenwi'n gyflym gan unigolion newydd. Er y gallai rheoli lleol amddiffyn cytrefi llygod pengrwn y dŵr allweddol, mae ymdrechion ar raddfa dalgylch yn cynnig canlyniadau mwy cynaliadwy.

Mae trapiau wedi'u monitro o bell (trapiau clyfar) yn anfon rhybudd pan fydd anifail yn cael ei ddal, gan alluogi gwirio prydlon a lleihau'r angen am ymweliadau diangen â thrapiau gwag.

Mae abwyd arogl yn helpu i ddenu'r rhywogaeth sy'n cael ei thargedu a gwella cyfraddau dal. Mae abwyd o'r fath fel arfer yn cael ei osod ar ffilter sigarét y tu mewn i bêl golff blastig dyllog sy'n cael ei chlymu y tu mewn i'r trap.

Mae'n bosibl gosod trapiau ar rafftau arnofiol neu eu defnyddio ar y tir.

Mae'r taliad hwn yn talu cost prynu abwyd arogl, trap clyfar sy'n cynnwys trap dal yn fyw (cawell) gyda gard trap ac uned monitro'r trap o bell.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Rhaid defnyddio trapiau clyfar ar gyfer mincod Americanaidd yn unol â gweithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6793 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Gosod a gwirio trapiau, lladd a gwaredu mincod Americanaidd.

Prynwch drapiau dal yn fyw (cawell) sy'n addas ar gyfer trapio mincod yn unig.

Rhaid i'r uned monitro'r trap o bell fod yn addas i'w defnyddio gyda'r trap dal yn fyw (cawell) ar gyfer trapio mincod.

Dylai agoriad y trap fod yn ddigon bach i gadw dyfrgwn allan, neu dylid defnyddio gard trap gydag uchafswm lled o 60mm i gyfyngu'r agoriad.

Cadwch anfonebau taledig ar gyfer y trap/trapiau clyfar h.y. derbynebau ar gyfer y trap dal yn fyw (cawell), y gard trap a'r uned monitro'r trap o bell.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Prynu trapiau lladd (sbring) fel rhan o'r weithred hon oherwydd y risg o ladd anifeiliaid nad ydynt yn cael eu targedu (e.e. dyfrgwn, llygod pengrwn y dŵr ac adar).


Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

O dan y gyfraith bresennol, dim ond dau fath o drap sy'n gyfreithlon: trapiau dal yn fyw (cawell) a thrapiau lladd (sbring).

Mae trapiau lladd (sbring) yn peri risg uchel i rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu, fel dyfrgwn ifanc, ffwlbartiaid a llygod pengrwn y dŵr, felly mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn mynnu mai dim ond trapiau dal yn fyw (cawell) sy'n cael eu defnyddio.

Mae trap clyfar ar gyfer mincod Americanaidd yn cyfuno trap dal yn fyw (cawell) gydag uned monitro'r trap o bell a gard trap.

Mae **trapiau dal yn fyw (cawell)** ar gael mewn gwahanol feintiau, ond mae'n rhaid iddynt fod yn addas ar gyfer mincod; y mesuriadau cyffredin a ddefnyddir yw tua 60cm × 18cm × 16cm (hyd x lled x uchder). Mae'r trapiau hyn ar werth mewn siopau nwyddau metel a manwerthwyr arbenigol (gweler Ffigur 1).



Ffigur 1 Trap dal yn fyw (cawell) ar gyfer mincod

Wrth ddewis trap dal yn fyw (cawell), mynnwch un â handlen er mwyn gallu symud y trap mewn ffordd ddiogel (yn enwedig pan fydd anifail yn gaeth ynddo). Os oes angen, dylid ychwanegu handlen at drap cawell.

Mae'r trapiau sy'n cael eu ffafrio yn flychau wedi'u gwneud o rwyll wifrog sydd wedi'i weldio, yn gryf a galfanedig, gydag un drws, a hwnnw'n cau pan fydd yr anifail yn camu ar y plât troed.

Er mwyn osgoi dal dyfrgwn, mae angen cyfyngu ar faint yr agoriad trwy osod gard dyfrgwn (darn rhwyll wifrog) neu leihau maint y fynedfa gan ddefnyddio gwifren gref neu estyll pren i gyfyngu'r lled i 60mm ar y mwyaf. Lle bo hynny'n briodol, mae'n bosibl gosod dyfais atal llygod pengrwn y dŵr ar y trap i leihau'r risg o'u dal

Mae **uned monitro'r trap o bell** yn cael ei gosod ar drap i synhwyro pan fydd y drws yn cau, a bydd yn anfon neges e-bost neu neges destun ar unwaith i'r enwau cyswllt perthnasol; dylai hefyd anfon rhybudd os oes amharu ar y signal. Bydd hyn yn galluogi monitro'r trap o bell, gan leihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn gwirio'r trap.

Mae'r rhan fwyaf o unedau yn gofyn am danysgrifiad blynyddol, gan eu bod yn cyfathrebu trwy rwydwaith y darparwr. Maen nhw'n dibynnu ar signal ffôn symudol, felly mae'n bosibl na fyddant yn gwbl effeithiol mewn ardaloedd anghysbell.

Mae'n bosibl y bydd grŵp trapio mincod Americanaidd lleol yn gallu cynnig cyngor ar y math mwyaf addas o uned monitro o bell ar gyfer eich ardal chi.

6792 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Trapiau gwiwerod llwyd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer: Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Trapiau gwiwerod llwyd

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Ers eu cyflwyno i Brydain rhwng 1876 a'r 1920au, mae gwiwerod llwyd wedi lledaenu'n gyflym ac wedi disodli'r wiwer goch frodorol dros y rhan fwyaf o Gymru, naill ai trwy gystadleuaeth uniongyrchol neu glefyd. Yn ogystal â dadleoli'r rhywogaeth hon, maen nhw'n achosi difrod i goetir trwy dynnu rhisgl o brif foncyff a changhennau coed.

Un o'r dulliau mwyaf effeithiol o deneuo poblogaethau'r wiwer llwyd yw trwy eu dal yn fyw mewn trapiau abwyd (cawell) ac yna'u lladd; fel hyn, mae modd rhyddhau rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu (h.y. y wiwer goch, y bele).

Mae'r taliad hwn yn talu cost prynu trap dal yn fyw (cawell) ar gyfer y wiwer llwyd.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Rhaid defnyddio trapiau gwiwer llwyd yn unol â'r cam rheoli ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Gosod a gwirio trapiau, lladd a gwaredu gwiwerod llwyd.

Prynwch drapiau dal yn fyw (cawell) sy'n addas ar gyfer trapio gwiwerod llwyd yn unig.

Trapiau dal un yw'r unig fath o drapiau sydd i'w defnyddio mewn ardaloedd lle mae gwiwerod coch.

Cadwch anfonebau taledig am y trapiau dal yn fyw (cawell).

Dylid dal gwiwerod llwyd am un o'r rhesymau canlynol:

I reoli gwiwerod llwyd mewn ardaloedd lle mae poblogaethau gwiwerod coch

Er budd bioamrywiaeth neu at ddibenion cadwraeth

I reoli poblogaethau gwiwerod llwyd er mwyn amddiffyn coetir a choed rhag difrod

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Prynu trapiau lladd (sbring) fel rhan o'r cam hwn oherwydd y risg o ladd anifeiliaid nad ydynt yn cael eu targedu (h.y. gwiwerod coch).

Defnyddio trapiau dal mwy nag un mewn ardaloedd lle mae gwiwerod coch.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dim ond trapiau dal yn fyw (cawell) sy'n cael eu caniatáu ar gyfer trapio gwiwerod llwyd o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Ni ellir defnyddio trapiau lladd (sbring) i ddal gwiwerod llwyd fel rhan o'r taliad hwn oherwydd eu bod yn peri risg uchel i rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu fel y wiwer goch a'r bele.


Y Trap

Mae trapiau dal yn fyw (cawell) yn gewyll rhwyll wifrog gyda drysau sbring, drysau gollwng neu ddrysau codi. Rhaid i'r rhwyll beidio â bod yn fwy na 25mm x 25mm, a rhaid i'r wifren fod o leiaf 1.6mm o ddiamedr. Mae pren a phlastig yn anaddas gan fod gwiwerod llwyd yn gallu cnoi drwyddynt. Mae'n bosibl defnyddio dau fath o drap dal yn fyw (cawell): trapiau dal un a thrapiau dal mwy nag un.

Trapiau Dal Un

Mae trapiau o'r math yma'n dal un wiwer lwyd ar y tro; rhaid ailosod y trap bob tro ar ôl dal gwiwer. Mae'r mecanwaith yn defnyddio troedlath sy'n gysylltiedig â gwifren sy'n dal y drws ar agor. Pan fydd gwiwer yn tarfu ar y ddyfais, mae sbring neu bwysau yn peri i'r drws gau (Ffigur 1).

Dim ond trapiau dal un sy'n cael eu caniatáu mewn ardaloedd lle mae gwiwerod coch.



Ffigur 1 Trap dal yn fyw (cawell) ar gyfer un anifail

Trapiau dal mwy nag un

Mae trapiau dal mwy nag un yn dal yn barhaus ac fel arfer yn dal 1–3 o wiwerod llwyd (hyd at 7). Mae dau ddrws twnnel ar waith (Ffigur 2); mae'r ail yn atal anifeiliaid sydd eisoes yn y trap rhag dianc pan fydd gwiwer lwyd newydd yn dod i mewn. Mae drysau rhwyll yn gwneud y trap yn fwy effeithiol oherwydd bod y wiwer lwyd yn gallu gweld yr abwyd. Mae bariau baffl y tu ôl i'r drysau yn atal gwiwerod rhag dianc.

Mae rhai trapiau yn cynnwys abwyd parhaol gydag indrawn mewn padell o dan y llawr, gyda rhwyll fân yn ei warchod rhag llygod, llygod y gwair a gwiwerod llwyd (rhaid i dyllau'r rhwyll fod yn llai na 6mm x 6mm). Ni ddylid defnyddio trapiau dal mwy nag un mewn ardaloedd lle mae gwiwerod coch.



Ffigur 2 Trap dal yn fyw (cawell) ar gyfer anifeiliaid niferus

6793 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Gosod a gwirio trapiau, lladd a gwaredu mincod Americanaidd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer:

Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Gosod a gwirio trapiau, lladd a gwaredu mincod Americanaidd

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae mincod Americanaidd wedi cyfrannu'n sylweddol at ddirywiad poblogaethau llygod pengrwn y dŵr yng Nghymru, ac wedi effeithio ar fywyd gwyllt arall hefyd, megis adar sy'n nythu ar y ddaear. Heb reolaeth effeithiol ar fincod Americanaidd, gallai llygod pengrwn y dŵr wynebu difodiant yn lleol.

Mae tiriogaethau mincod Americanaidd fel arfer yn ymestyn 5km i'r minc gwryw a 3km i'r minc benyw, felly mae trapio ynysig yn gallu creu bwlch tiriogaethol sy'n cael ei lenwi'n gyflym gan unigolion newydd. Er y gallai rheoli lleol amddiffyn cytrefi llygod pengrwn y dŵr allweddol, mae ymdrechion ar raddfa dalgylch yn cynnig canlyniadau mwy cynaliadwy.

Mae'n bosibl trapio mincod Americanaidd gan ddefnyddio trapiau dal yn fyw (cawell) y gellir eu monitro o bell (trap clyfar). Mae modd gosod y trapiau ar y tir neu ar rafftiaau wedi'u clymu. Dylid cymryd camau i sicrhau nad yw rhywogaethau eraill fel dyfrgwn yn cael eu trapio.

Mae'r taliad hwn yn talu cost gosod a gwirio trapiau, lladd a gwaredu mincod Americanaidd.

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y taliad hwn, rhaid i'r trap gael ei gynnal/ei ddefnyddio am o leiaf chwe mis yn ystod y cyfnodau mwyaf effeithiol (Ionawr – Mawrth ac Awst – Tachwedd). Gweler y canllawiau 'Pryd i drapio' isod.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

mae'n rhaid defnyddio trapiau clyfar (trapiau dal yn fyw) sy'n bodloni'r manylebau a amlinellir yng ngham rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6791 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Trapiau clyfar mincod Americanaidd.

mae'n rhaid defnyddio rafftiaau sy'n addas i'w defnyddio gyda thrap clyfar mincod Americanaidd (trapiau dal yn fyw) fel sy'n cael ei amlinellu yng ngweithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6790 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Rafft mincod Americanaidd.

gwneud yn siŵr fod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#) a [thrwyddedau gwastraff](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith. Mae'n bosibl y bydd angen i chi gofrestru [esemptiad gweithgarwch perygl llifogydd](#) er mwyn gosod rafftau mincod ar brif afon. Mae'n bosibl y bydd angen [trwydded rhywogaethau a warchodir](#) os yw llygod pengrwn y dŵr, dyfrgwn neu rywogaethau eraill a warchodir yn Ewrop yn debygol o gael eu heffeithio gan weithgareddau.

rhaid i denantiaid wirio cytundebau tenantiaeth a cheisio caniatâd y landlord yn ôl yr angen cyn trapio mincod Americanaidd. Lle mae hawliau helwriaeth ar wahân i gytundebau perchnogaeth/tenantiaeth, byddai angen caniatâd gan ddeiliad yr hawliau i saethu.

mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynnol y cytunwyd arno. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6780 Rhywogaethau Estron Goresgynnol Daearyl a Dŵr Croyw - Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.

cadw tystiolaeth eich bod wedi cwblhau'r weithred, gan gynnwys:

caniatâd neu gydsyniad perthnasol

prawf o wariant ar eitemau cyfalaf i gwblhau'r weithred hon e.e. anfonebau taledig neu ddatganiadau banc lle nad oes anfoneb daledig ar gael.

cofnodion o leoliadau, pryd a pha mor aml y gosodwyd trapiau mincod Americanaidd a phryd cawson nhw eu harchwilio

manylyon mincod Americanaidd a laddwyd (nifer, rhyw a gwahaniaethu rhwng mincod ifanc a llawn dwf)

manylyon sgil-ddalfeydd (rhywogaethau, a gawson nhw eu rhyddhau'n fyw neu'n farw)

ffotograffau o'r defnydd o drap/rafft

ffotograffau o fincod Americanaidd a laddwyd

mae trapio yn gorfod digwydd mewn ardal ddyfrol, neu'n agos at ardal ddyfrol, gan gynnwys afonydd, camlesi, pyllau, llynnoedd, sianeli draenio, ffosydd a gwlyptir gyda dŵr agored.

dylai agoriad y trap fod yn ddigon bach i gadw dyfrgwn allan, neu dylid defnyddio gard trap gydag uchafswm lled o 60mm i gyfyngu'r agoriad.

gwneud yn siŵr bod cyfarpar diogelu personol priodol, megis menig, yn cael eu gwisgo.

sicrhau unrhyw hyfforddiant, cymwysterau neu drwyddedau angenrheidiol ar gyfer cyfarpar ac ymarfer.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

defnyddio trapiau sbring (lladd) i ddal mincod Americanaidd oherwydd y risg o ladd anifeiliaid nad ydynt yn cael eu targedu (e.e. dyfrgwn, llygod penguwn y dŵr ac adar).

rhoi rafftiau ym mynedfeydd, neu'n agos at fynedfeydd, gwaliau dyfrgwn hysbys.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Adnabod mincod Americanaidd

Mae mincod Americanaidd fel arfer yn byw mewn gwlyptiroedd, llynnoedd, afonydd ac ardaloedd arfordirol. Maen nhw fel arfer yn frown tywyll, bron yn ddu, gyda darn gwyn nodweddiadol ar yr ên sydd braidd byth yn ymestyn y tu hwnt i'r wefus isaf. Mae mincod Americanaidd yn llai na dyfrgwn llawn dwf, ond yn fwy na charlymod a beleod. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn gallu adnabod mincod Americanaidd er mwyn osgoi niweidio rhywogaethau gwarchodedig fel dyfrgwn.

Mae taflen adnabod ar gael ar wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain:

https://www.nonnativespecies.org/assets/Uploads/ID_Mustela_vison_American_min_k-v2.pdf

Mae mincod gwryw llawn dwf (900 g–2 kg) tua dwywaith maint y benywod llawn dwf (550–850 g). Mae gwrywod ifanc yn gallu gorgyffwrdd â benywod llawn dwf o ran pwysau, felly mae pennu rhyw yn ôl maint yn unig yn annibynadwy. Yn yr achosion hyn, mae'n bosib pennu'r rhyw wrth edrych ar yr organau cenhedlu: mewn mincod gwryw, mae bwlch eang rhwng yr anws a'r agoriad wrinol (tua 6-7cm mewn mincod llawn dwf), ond mewn mincod benyw, mae'r bwlch gryn dipyn yn llai (tua 1cm).

Pryd i drapio

Mae trapio yn gyfreithlon trwy gydol y flwyddyn, ond ar ei fwyaf effeithiol yn ystod y tymor paru o ddiwedd mis Ionawr i ddiwedd mis Mawrth a phan fydd anifeiliaid ifanc yn gwasgaru rhwng mis Awst a mis Tachwedd.

Mae angen osgoi gosod trapiau mewn tywydd garw (glaw trwm neu stormydd) i atal trallod i'r anifeiliaid a'r perygl o golli cyfarpar. Ni ddylid gosod trapiau mewn gwres eithafol gan fod anifeiliaid caeth mewn perygl mawr o ddioddef straen gwres a dadhydradu.

Dwysedd a lleoliadau trapiau

Mae'n bosibl defnyddio trapiau clyfar (trapiau dal yn fyw) ar gyfer mincod Americanaidd ar y tir neu ar rafftiau mincod.

Gosodwch drapiau a rafftiau lle mae mincod Americanaidd yn fwyaf tebygol o deithio, fel cilfachau/allfeydd pyllau, lle mae cyrsiau dŵr yn cydlifo, neu le mae

gwrychoedd, ffensys neu ddraeniau yn cyfarfod â chysiau dŵr. Os ydych yn gosod trapiau ar y tir, gwnewch yn siŵr eu bod mewn cysgod.

Argymhelliad o ran dwysedd:

Cynefinoedd o ansawdd uchel (e.e., lle mae cysiau dŵr yn cydlifo, nentydd dolennog ac ardaloedd â llystyfiant ar y glannau): oddeutu 1 trap fesul 1 km

Cynefin o ansawdd isel (e.e., ffosydd syth, ochrau uchel): 1 trap fesul 5–10km

Dewiswch safleoedd sy'n hygyrch trwy gydol y flwyddyn a dylech osgoi glannau serth.

Lle bo'n bosibl, gosodwch y trapiau i ffwrdd o olwg y cyhoedd i leihau fandaliaeth, lladrad a thrallod i'r anifeiliaid.

Mae rafftau mincod yn helpu i leihau sgil-ddalfeydd rhywogaethau daearol, ond mae'n bosibl nad ydynt yn addas ar gyfer afonydd sydd yn newid dyfnder yn sydyn, afonydd sy'n cael eu heffeithio gan y llanw, neu yn ystod adegau penodol o'r flwyddyn (h.y. os yw'r ardal yn debygol o ddioddef llifogydd). Dewiswch safleoedd gyda lefelau dŵr sefydlog ac, os oes modd, mae angen osgoi llifddorau a gollyngfeydd.

Er mwyn sicrhau trapio effeithiol ar raddfa tirwedd, ystyriwch gwmpasu'r ardal ehangaf bosibl, cydweithio â chymdogion a/neu ymuno â chynllun neu brosiect dileu mincod Americanaidd yn yr ardal leol.

Defnyddio rafftau

Defnyddiwch rafftau a gynlluniwyd ar gyfer trapiau clyfar (trapiau cawell) ar gyfer mincod Americanaidd, yn unol â manyleb gweithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6790 Rhywogaethau Estron Goresgynnol Daearol: Rafft mincod Americanaidd.

Lleolwch y rafftau mewn ardaloedd distyll.

Mae angen clymu dau ben y rafft wrth adeiladwaith neu bolion cadarn (50 mm x 1.5 m) gan ddefnyddio rhaff polypropylen gwydn (gyda diamedr o 6mm neu fwy), gan ganiatáu hyd ychwanegol ar gyfer newidiadau yn lefel y dŵr. Mae'n rhaid osgoi cortyn tenau.

Gosod y rafft: lansiwch y rafft, gwirio'r rhaffau, clirio rhwystrau, tynnu'r rafft i'r lan, gosod y trap, yna gwrthio'r rafft yn ôl i'w le.

Gosod trapiau clyfar mincod Americanaidd (trapiau dal yn fyw)

Mae trap clyfar yn cynnwys trap dal yn fyw (trap cawell) gyda gard dyfrgwn ac uned monitro'r trap o bell.

Mae trapiau clyfar yn anfon neges pan fydd anifail yn cael ei ddal, gan alluogi gwiriadau prydlon a lleihau'r angen am ymweliadau diangen â thrapiau gwag.

Mae uned monitro'r trap o bell yn dibynnu ar signal ffôn symudol, felly mae'n bosibl na fyddant yn gwbl effeithiol mewn ardaloedd anghysbell.

Mae'n bosibl y bydd grŵp trapio mincod Americanaidd lleol yn gallu cynnig cyngor ar y math mwyaf addas o uned monitro o bell ar gyfer eich ardal chi.

Darllenwch ganllawiau ar osod trapiau clyfar ar gyfer mincod Americanaidd ar wefan y Waterlife Recovery Trust:

<https://www.waterliferecoverytrust.org.uk/the-smart-mink-trap-raft/>

Darllenwch gyngor pellach ar drapio ar wefan Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC):

<https://basc.org.uk/pest-and-predator-control/mink-control-guidance/>

Mae defnyddio abwyd arogl yn gwella cyfraddau dal. Un ffynhonnell yw chwarennau mincod Americanaidd, neu mae'n bosibl ei brynu'n fasnachol. Mae abwyd o'r fath fel arfer yn cael ei osod ar ffilter sigarét y tu mewn i bêl golff blastig dyllog sy'n cael ei chlymu yn y trap.

Lles

Mae mincod Americanaidd yn cael eu gwarchod o dan Ddeddf Amddiffyn Mamaliaid Gwylt 1996 a Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn cwmpasu unrhyw anifail o dan reolaeth 'dyn' sy'n golygu bod y person sy'n gosod y trap yn gyfrifol am les unrhyw anifail sy'n cael ei ddal yn y trap hwnnw.

Mae adran 2 o'r Ddeddf Lles Anifeiliaid yn diffinio anifeiliaid sy'n cael eu 'hamddiffyn' o dan y Ddeddf ac mae'n cynnwys anifeiliaid gwylt sy'n cael eu dal, eu caethiwo neu eu ffrwyno dros dro gan weithred ddynol, megis mewn trapiau neu wrth eu cludo.

Mae achosi dioddefaint diangen i fincod Americanaidd yn anghyfreithlon, ac mae'n gallu arwain at ddirwy neu ddedfryd o garchar.

Gwirio trapiau

Defnyddiwch drapiau clyfar i ddal mincod pryd bynnag y gallwch, gan fod modd eu monitro o bell a hynny'n lleihau'r angen am wiriadau corfforol rheolaidd. Mae trapiau clyfar yn anfon neges pan fydd tarfu'n digwydd neu os oes problemau signal; dylid gwirio trapiau ar unwaith yn yr achosion hyn.

Os na ellir defnyddio trapiau clyfar (e.e. signal gwael), rhaid eu gwirio yn y cnawd unwaith yn y bore bob 24 awr ar ôl iddynt gael eu gosod.

Dylid rhyddhau rhywogaethau brodorol nad ydynt yn cael eu targedu ar unwaith. Mae mincod Americanaidd wedi'u rhestru ar Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 ac ni ddylid eu rhyddhau. Mae Gorchymyn Cadw Mincod

(Gwahardd) (Cymru) 2012 yn gwahardd cadw mincod Americanaidd yng Nghymru.

Gwiriwch y trap (a'r rafft) yn rheolaidd i sicrhau eu bod mewn cyflwr da.

Trapiau – mae angen gwirio nad oes malurion yn y trapiau, gwirio'r mecanwaith a sicrhau nad yw'r cysylltiad rhwng yr uned monitro o bell a drws y trap wedi'i ddifrodi.

Rafftiau – mae angen archwilio rhaffau, clymau a phwyntiau clymu.

Gwiriadau arferol i'w cynnal:

- Yn ystod pob ymweliad
- Ar ôl llifogydd
- O leiaf bob 3 mis os nad yw'r trap wedi cael ei weithredu

Lladd

Bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu gan eich Swyddog Cymorth Maes.

Gwaredu mincod Americanaidd

Bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu gan eich Swyddog Cymorth Maes. gwyddonol arbennig (SoDdGA).

Ymdrechion cofnodi

Bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu gan eich Swyddog Cymorth Maes.

6794 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Gosod a gwirio trapiau, lladd a gwaredu gwiwerod llwyd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer: Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: Gosod a gwirio trapiau, lladd a gwaredu gwiwerod llwyd.

Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Ers eu cyflwyno i Brydain rhwng 1876 a'r 1920au, mae gwiwerod llwyd wedi lledaenu'n gyflym ac wedi disodli'r wiwer goch frodorol dros y rhan fwyaf o Gymru, naill ai trwy gystadleuaeth uniongyrchol neu glefyd. Yn ogystal â dadleoli'r rhywogaeth hon, maen nhw'n achosi difrod i goetir trwy dynnu rhisgl o brif foncyff a changhennau coed.

Un o'r dulliau mwyaf effeithiol o deneuo poblogaethau'r wiwer llwyd yw trwy eu dal yn fyw mewn trapiau dal yn fyw (cawell) gydag abwyd ac yna'u lladd; mae hyn yn galluogi rhyddhau rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu (h.y. y wiwer goch, y bele).

Mae angen dewis safleoedd addas a gosod trapiau ar ddwysedd priodol wrth ddefnyddio trapiau dal yn fyw (cawell). Nid yw'r trapiau yn cael eu rhoi i weithio i ddechrau, ond mae abwyd yn cael ei ddosbarthu yn yr ardal o amgylch y trapiau er mwyn i'r gwiwerod llwyd ddod i arfer â'u presenoldeb. Wedi i hynny ddigwydd, gellir gosod abwyd yn y trapiau a'u gosod i gau. Mae'n rhaid eu gwirio'n rheolaidd a lladd unrhyw wiwerod llwyd sy'n cael eu dal heb greulondeb.

Mae'r taliad hwn yn talu cost gosod a gwirio trapiau dal yn fyw (cawell) a lladd a gwaredu gwiwerod llwyd.

Bydd y taliad yn cael ei dalu am un trap ar ddwysedd y cytunwyd arno.

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y taliad hwn, rhaid i'r trap gael ei gynnal/ei ddefnyddio am o leiaf dri mis yn ystod y flwyddyn galendr.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

mae rheoli gwiwerod llwyd yn gallu digwydd am un neu fwy o'r rhesymau canlynol:

i reoli gwiwerod llwyd mewn ardaloedd lle mae poblogaethau gwiwerod coch

er budd bioamrywiaeth neu at ddibenion cadwraeth

i reoli poblogaethau gwiwerod llwyd er mwyn amddiffyn coetir a choed rhag difrod

gwneud yn siŵr fod pob caniatâd [SoDdGA](#) neu [Heneb Gofrestredig](#), [trwyddedau gwastraff](#) a [thrwyddedau rhywogaethau a warchodir](#) perthnasol wedi eu sicrhau cyn dechrau ar unrhyw waith. Bydd angen [trwydded rhywogaethau a warchodir](#) os yw trapio yn digwydd mewn ardal lle mae'n hysbys bod wiwer goch a/neu'r bele yn bresennol.

mae'n rhaid defnyddio trapiau dal yn fyw (cawell) sy'n bodloni'r manylebau a amlinellir yng ngham rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol: 6792 Trapiau gwiwerod llwyd.

mae'r weithred i'w chynnal yn unol â chynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol y cytunwyd arno. Darllenwch weithred rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: 6780 Rhywogaethau Estron Goresgynol Daearol a Dŵr Croyw - Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynol.

cadw tystiolaeth eich bod wedi cwblhau'r weithred, gan gynnwys:

caniatâd neu gydsyniad perthnasol

prawf o wariant ar eitemau cyfalaf i gwblhau'r weithred hon e.e. anfonebau taledig neu ddatganiadau banc lle nad oes anfoneb daledig ar gael.

nifer y trapiau, hyd y cyfnod trapio

cofnodi pryd y gosodwyd trapiau gwiwerod llwyd a pha mor aml oedden nhw'n cael eu gwirio

nifer y gwiwerod llwyd a laddwyd

manylyon sgil-ddalfeydd (rhywogaethau, rhyddhau'n fyw, marwolaethau); ar gyfer gwiwerod coch yn unig, cofnodi a oedd clefyd yn bresennol ac i ble'r anfonwyd y carcass i'w ddadansoddi

ffotograffau o'r defnydd o drapiau

ffotograffau o wiwerod llwyd a laddwyd

sicrhau unrhyw hyfforddiant, cymwysterau neu drwyddedau angenrheidiol ar gyfer cyfarpar ac ymarfer.

rhaid i denantiaid wirio cytundebau tenantiaeth a cheisio caniatâd y landlord yn ôl yr angen cyn trapio gwiwerod llwyd. Lle mae hawliau helwriaeth ar wahân i gytundebau perchnogaeth/tenantiaeth, byddai angen caniatâd gan ddeiliad yr hawliau i saethu.

gwneud yn siŵr bod cyfarpar diogelu personol priodol, megis menig, yn cael eu gwisgo.

defnyddio diheintydd priodol i leihau'r risg o ledaenu clefyd.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

defnyddio trapiau lladd (sbring) i ddal gwiwerod llwyd fel rhan o'r taliad hwn oherwydd y risg o ladd anifeiliaid nad ydynt yn cael eu targedu (e.e. y wiwer goch neu'r bele). Nid yw hyn yn atal eu defnydd fel dull o ladd pan maen nhw'n cael eu defnyddio ar y cyd â thrapiau dal yn fyw (cawell).

defnyddio trapiau dal mwy nag un mewn ardaloedd lle mae gwiwerod coch.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Cynllunio i ddal gwiwerod llwyd

Dyma rai o'r pethau allweddol i'w hystyried cyn dewis safleoedd a sut i ddal gwiwerod llwyd:

sefydlu'r rheswm dros drapio

asesu'r sefyllfa leol

cynefin gwiwerod llwyd addas

mynediad

presenoldeb gwiwerod llwyd yn seiliedig ar eu gweld neu wybodaeth arall

agosrwydd rhywogaethau gwarchodedig fel y wiwer goch neu'r bele

lleoliad coridorau gwasgaru gwiwerod llwyd tebygol

unigolion eraill yn trapio gerllaw

dewis rhaglen drapio addas

dewis trapiau addas

Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chofnodi yn eich cynllun rheoli rhywogaethau estron.

Er mwyn bod yn effeithiol, dylid ystyried rheoli gwiwerod llwyd yn y tymor hwy h.y. dros 10 mlynedd.

Mae'n bosibl cadarnhau presenoldeb gwiwerod llwyd gan ddefnyddio camerâu bywyd gwyllt, arwyddion bwydo (mae angen nodi bod arwyddion bwydo yn edrych yn debyg i'r ddwy rywogaeth) neu arsylwi uniongyrchol. Mae nythod y ddwy rywogaeth yn debyg.

Mae tair ardal ffocws hysbys yng Nghymru lle mae gwiwerod coch yn bresennol (Ynys Môn, Coedwig Clocaenog yn y gogledd ac ardal gyda phocedi llai yng nghanolbarth Cymru) gydag ardaloedd clustogi o'u cwmpas lle mae gwiwerod coch a llwyd yn bresennol.

Y cynefin sy'n cael ei ffafrio gan wiwerod llwyd yw coetir aeddfed gydag isdyfiant amrywiol, ond maen nhw hefyd yn gyffredin ar dir amaethyddol, mewn coedwigoedd wedi'u plannu, mewn prysgwydd ac mewn ardaloedd trefol.

Mae rheolaeth effeithiol o wiwerod llwyd yn gallu bod yn anodd lle mae daliadau tir a choetir bregus cyfagos yn nwylo perchnogion gwahanol. Bydd rheolaeth gydweithredol, trwy grwpiau rheoli gwiwerod llwyd anffurfiol neu ffurfiol, yn galluogi cynllunio gwell ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd dros ardaloedd daearyddol ehangach.

Mae cadw cofnodion yn ofynnol i ddangos tystiolaeth bod y gweithgaredd hwn wedi digwydd. Mae cofnodi ymdrech a monitro effeithiolrwydd rheoli yn llywio gweithrediadau nawr ac yn y dyfodol. Er enghraifft, mae newidiadau i gyfraddau dal yn amlygu pryd mae angen adleoli trapiau.

Darllenwch fwy o gyngor ar ddal gwiwerod llwyd ar wefan Forest Research:

https://cdn.forestresearch.gov.uk/2019/12/ukfstn022_m7ldper.pdf

Adnabod gwiwerod llwyd

Mae adnabod anifeiliaid yn gywir yn hollbwysig wrth drapio er mwyn osgoi niweidio gwiwerod coch brodorol sy'n rhywogaeth warchodedig.

Y wiwer llwyd: Mwy o ran corffolaeth (corff 24–29cm, cynffon 19–24cm). Llwyd gydag arlliwiau brown a thor wen, gall fod ffurfiau melanig (tywyll) neu or-goch sy'n debyg i wiwerod coch o ran lliw. Does gan y wiwer llwyd ddim cudynnau clust. Mae gan y wiwer llwyd eurgylch o amgylch y gynffon ar ffurf blew allanol gwyn neu arian, nodwedd nad yw'n bresennol byth yn y wiwer goch.

Y wiwer goch: Llai o ran corffolaeth (corff 18–24cm, cynffon 17–18cm). Browngoch fel arfer (ond yn gallu amrywio o felyn golau i ddu), cudynnau clust nodweddiadol, yn enwedig yn y gaeaf, ddim bob amser yn bresennol yn yr haf. Y cynffonnau fel arfer yr un lliw â'r corff.

Dewis y math o drap

Mae trapiau dal yn fyw (cawell) yn gewyll rhwyll wifrog gyda drysau sbring neu ddrysau codi, ar gael ar ffurf **dal un** neu **ddal mwy nag un**. Ni ddylai maint y rhwyll fod yn fwy na 25 mm, gyda gwifren 1.6mm o drwch neu fwy er mwyn anhyblygedd. Mae angen hindreulio trapiau newydd yn yr awyr agored cyn eu defnyddio. Mae'n bosibl i un person reoli oddeutu 20 trap y dydd.

Mae **trapiau dal un** yn dal un wiwer, ac mae'n rhaid eu hailosod wedi iddyn nhw weithio. Maen nhw'n defnyddio mecanwaith troedlath neu ddrws codi gyda bariau baffl i atal yr anifail rhag dianc. Mae trapiau drws agored yn fwy atyniadol i wiwerod llwyd na thrapiau drws codi.

Mae **trapiau dal mwy nag un** yn drapiau mwy, gydag ardaloedd dal a dau ddrws codi i ganiatáu dal parhaus (fel arfer 1–3 o wiwerod fesul ymweliad). Nid ydynt yn

addas i'w defnyddio lle mae gwiwerod coch yn bresennol oherwydd straen a'r risg o heintio gan frech y gwiwerod.

Mae gosod **padelli abwyd** o dan dwnnel mynediad trap yn gallu gwella effeithlonrwydd a chyfyngu ar allu mamaliaid bach (e.e. llygod) i ddwyn abwyd. Gan ei bod yn anoddach cael gafael ar yr abwyd, bydd yr abwyd yn cadw'r trapiau'n weithredol am gyfnod hirach.

Dewis safle gosod trapiau

Y cynefinoedd gorau ar gyfer targedu trapio yw coetir llydanddail cymysg aeddfed neu led-aeddfed.

Gosodwch drapiau dal yn fyw (cawell) lle mae gwiwerod llwyd yn bwydo neu'n symud (ger boncyffion, coed sydd wedi cwmpo, bonion coed mawr). Mae angen osgoi tir agored, prysgwydd trwchus neu safleoedd dirlawn. Mae'n bwysig cadw trapiau o olwg traciau a llwybrau troed i gyfyngu ar unrhyw darfu.

Dechreuwch mewn ardaloedd lle mae dwysedd uchel o wiwerod llwyd a symud am allan.

Cynllun trapiau

Mae angen y bylchau canlynol wrth osod trapiau dal yn fyw (cawell):

Trapiau dal un: 1 fesul hectar (~100 m ar wahân)

Trapiau dal mwy nag un: 1 fesul 2 hectar (~140 m ar wahân)

Mae angen addasu'r bylchau yn unol â dwysedd gwiwerod llwyd; gosodwch barau o drapiau dal un mewn ardaloedd lle mae dwysedd gwiwerod llwyd yn uchel.

Pryd i drapio

Mae trapio yn gyfreithlon trwy gydol y flwyddyn, ac ar ei fwyaf effeithiol mewn coetir llydanddail pan fydd bwyd yn brin.

Mewn ardaloedd gwiwerod coch, ni ddylid trapio yn ystod y cyfnodau bridio rhwng mis Mawrth a mis Mai neu fis Gorffennaf i fis Medi.

Mewn ardaloedd lle nad oes gwiwerod coch, mae trapio'n gallu digwydd rhwng mis Rhagfyr a mis Gorffennaf. Mae'n bosibl y bydd angen amrywio'r cyfnodau yn dibynnu ar amrywiadau lleol, y tywydd, rhesymau penodol i safle a'r tymor bridio.

Yr argymhelliad yw na ddylid trapio gwiwerod llwyd yn ystod cyfnod bridio'r bele, rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf, lle mae'r bele wedi'i gofnodi/le mae poblogaeth hysbys o'r bele neu le mae cynlluniau blychau ffau'r bele ar waith lleoli gerllaw.

Trapio

Trefn gosod trapiau

Mae'n bosibl lleoli trapiau dal yn fyw (cawell) ar y ddaear neu oddi ar y ddaear ar lwyfannau mewn coed i leihau sgil-ddalfeydd a chynnal effeithlonrwydd.

Os yw'r trap i'w osod ar y ddaear, dewiswch dir gwastad, cysgodol. Cliriwch falurion o'r ardal, cloddiwch bant bas ar gyfer y badell abwyd ac alinio'r pant â mynedfa'r trap. Llenwch y badell abwyd gyda phridd ac indrawn melyn a'i gosod yn y pant, yna gosod y trap ar yr un lefel â'r ddaear. Defnyddiwch begiau i gadw'r trap yn gadarn yn ei le, a defnyddiwch wifren i gadw'r drysau ar agor wrth ei osod. Gorchuddiwch y trap gyda phlastig du neu ffelt toi, i'w gysgodi ac i'w guddio.

Gosodwch drapiau dal un ar lwyfannau 1–2m o uchder mewn coed os oes perygl o darfu ar y ddaear (e.e. gan foch daear neu lwynogod). Ar gyfer trapiau dal yn fyw (cawell) sy'n cael eu gosod ar goed, defnyddiwch orchudd sy'n dal dŵr neu gosodwch flwch nythu i roi cysgod. Clymwch y trap yn sownd i'r goeden a defnyddiwch wifren i gadw'r drysau ar agor wrth ei osod.

Gosodwch drapiau dal mwy nag un y tu ôl i foncyffion, cloddiau neu goed sydd wedi cwmpo, i ffwrdd o lwybrau cyhoeddus.

Abwyd

Indrawn melyn cyflawn yw'r abwyd mwyaf effeithiol oherwydd ei fod yn rhad, yn cadw'n dda, ac mae ei liw llachar yn denu gwiwerod. Mae gwiwerod yn bwyta'r bywyn yn unig, gan adael y plisgyn, sy'n ffordd ddefnyddiol o nodi presenoldeb gwiwerod. Maen nhw hefyd yn claddu indrawn, gan adael tyllau bach o 2cm ger trapiau. Os nad yw'r trap yn gweithio'n dda o ran denu gwiwerod llwyd, mae'n bosibl ychwanegu bwydydd o ansawdd uwch at yr abwyd (e.e. cnau cyll).

Abwydo ymlaen llaw

Gadewch y trapiau gyda gwifren yn dal y drws ar agor a'r abwyd yn ei le cyn gosod y trap i gau. Rhewch indrawn y tu mewn i'r trap (dau lond llaw) ac ychydig bach yn nhwnnel y fynedfa, cyn gwasgaru 4–5 llond llaw o fewn 10m i'r trap. Ar ôl 2–3 diwrnod, chwiliwch am arwydd fod bywyn indrawn wedi cael ei fwyta, ac ychwanegwch at yr abwyd os oes angen. Ailadroddwch y broses yn yr un lleoliad os nad oes arwyddion o bresenoldeb gwiwerod llwyd (hyd at 5 diwrnod). Mae'r broses o abwydo ymlaen llaw yn gallu cymryd mwy o amser mewn coedwigoedd conwydd na choetir brodorol. Os nad oes arwyddion o wiwerod llwyd ar ôl 5 diwrnod, symudwch i leoliad arall.

Gosod trapiau

Ar ôl abwydo ymlaen llaw a gweld bod gwiwerod llwyd ar y safle, rhewch y trapiau dal yn fyw (cawell) i weithio. Profwch fecanweithiau drysau yr holl drapiau, cliriwch unrhyw falurion a'u haddasu os oes angen. Ychwanegwch fwy o indrawn y tu mewn i'r trap, a gwasgaru llond llaw bach wrth y fynedfa yn unig. Gosodwch y gorchudd plastig/ffelt toi cyn gadael.

Gwirio trapiau

Gwiriwch y trapiau dal yn fyw (cawell) yn rheolaidd er lles anifeiliaid. Gwiriwch y trapiau ddwywaith y dydd – unwaith yn y bore ac unwaith gyda'r nos. Peidiwch â dal gwiwerod yn gaeth am fwy na 12 awr.

Lle mae perygl y bydd gwiwerod coch yn cael eu dal yn ystod y tymor bridio (mis Mawrth i fis Mai neu fis Gorffennaf i fis Medi), archwiliwch y trapiau bob 4 awr.

Cariwch ddiheintydd milfeddygol cymeradwy a chwistrellu'r trapiau ar ôl pob defnydd i atal clefyd rhag lledaenu.

Tynnwch unrhyw fwyd sydd heb ei fwyta neu sydd wedi difetha. Yn ôl yr angen, sgwriwch y trapiau gyda hydoddiant ysgafn o lanedydd a dŵr i gael gwared ar weddillion seimllyd a'u rinsio â dŵr glân cyn eu chwistrellu â diheintydd.

Mae'n bwysig glanhau'r trap ar ôl dal carlwm neu wenci er mwyn cael gwared ar eu harogl.

Ychwanegwch fwy o abwyd yn rheolaidd.

Os yw gwiwerod llwyd yn ymweld â'r trap ond ddim yn mynd i mewn iddo, ystyriwch wneud addasiadau bach i leoliad y trap (e.e. symud y trap 10–20m neu ei gylchdroi 180°). Gosodwch y trapiau ar goed os yw anifeiliaid mawr yn ymyrryd â thrapiau ar y ddaear.

Mae angen rhyddhau rhywogaethau brodorol nad ydynt yn cael eu targedu ar unwaith (e.e. gwiwerod coch). Ni ddylid rhyddhau gwiwerod coch sy'n dangos symptomau brech y gwiwerod (crachod ar y llygaid, trwyn, ceg neu draed) a dylid eu hanfon i'w profi os ydynt yn farw neu at filfeddyg os ydynt yn fyw. Peidiwch â rhyddhau anifeiliaid heintiedig.

Mae Grŵp Moredun yn cynnal profion brech y gwiwerod: www.moredun.org.uk

Darllenwch gyngor ar risg clefyd ar dudalen we yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar gadw gwyliadwriaeth ar glefydau anifeiliaid:

<https://www.gov.uk/guidance/animal-disease-scanning-surveillance-at-apha>

Gallwch hefyd gysylltu â'r grŵp gwiwerod coch lleol am wybodaeth a chyngor.

Lles

Mae gwiwerod llwyd yn cael eu gwarchod o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a Deddf Amddiffyn Mamaliaid Gwyllt 1996. Mae achosi dioddefaint diangen yn anghyfreithlon ac mae'n gallu arwain at ddirwy neu ddeddfryd o garchar. Bydd gorchuddio trapiau â phlastig du neu ffelt toi i'w cadw'n dywyll a'u cysgodi rhag y tywydd yn amddiffyn unrhyw anifeiliaid sy'n cael eu dal ac yn lleihau straen.

Gosodwch drapiau mewn lle cysgodol, gydag abwyd digonol a'u clymu'n sownd i'r ddaear neu'r coed i'w cadw rhag symud neu fod yn agored i'r tywydd.

Cylch trapio

Defnyddiwch amserlen drapio barhaus trwy adleoli trapiau dal yn fyw (cawell) ar ôl 7–10 diwrnod.

Diwrnod 1: Gosod trapiau ac abwydo ymlaen llaw

Diwrnod 3: Gwirio'r trapiau ac ychwanegu at yr abwyd

Diwrnod 6: Gosod trapiau

Diwrnodau 7–10: Gwirio bob dydd, ac ar ddiwrnod 10, codi'r trapiau er mwyn eu hadleoli

Mae angen ymestyn y cyfnod trapio'r tu hwnt i ddiwrnod 10 os yw gwiwerod llwyd yn dal i gael eu dal. Mae'r rhan fwyaf o ddaliadau yn digwydd yn gynnar, ac mae'n werth symud trapiau yn gynt os yw cyfraddau trapio yn gostwng.

Lladd

Bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu gan eich Swyddog Cymorth Maes.

Gwaredu gwiwerod llwyd

Bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu gan eich Swyddog Cymorth Maes.

6795 Llifddor Bren

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae'n rhaid i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Llifddor Bren'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Mae taliadau ar gael ar gyfer creu neu osod llifddorau pren mewn glaswelltir, ffeniau, corsydd a gwelyau cyrs presennol, yn ogystal ag ar gyfer creu ardaloedd newydd o wlyptir. Bydd llifddor bren yn cadw'r lefel trwythiad yn uwch na lefel draenio naturiol yr ardal.

Rhaid cael caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn adeiladu llifddor bren, oherwydd bod dŵr yn cael ei gronni a bod llifddorau yn gallu atal symudiadau pysgod, fel mudo eogiaid.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch ger prif afon, gorlifdir neu adeiledd amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'u dangos pan gewch gais i wneud hynny.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgarwch perygl llifogydd](#)

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn Ardal Ddraenio Fewnol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i ofalu nad yw eich gweithgarwch yn achosi perygl o lifogydd neu'n gwaethygu'r perygl o lifogydd sy'n bodoli eisoes.

Mae angen caniatâd hefyd i ofalu na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli perygl llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithgaredd sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael cydsyniad SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Mae angen i chi ystyried sut gall eich cynnig effeithio ar lif, lefelau neu gyfaint dŵr. Lle gallai creu cronfa newydd, neu addasu neu ddileu cronfa bresennol, arwain at

newidiadau parhaol neu dros dro yn lefel y dŵr, cyfaint y dŵr neu barhad y llif, bydd angen trwydded cronni fel arfer. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y gweithgarwch wedi'i eithrio o dan ddarpariaethau statudol perthnasol neu os yw'n bosibl dangos ei fod yn waith risg isel, heb fawr o effaith ar yr amgylchedd, defnyddwyr dŵr eraill a hawliau. Dylech gyfeirio at y wybodaeth a'r rhestr wirio [yma](#) i benderfynu a oes angen trwydded. Os ydych chi'n ateb unrhyw un o'r cwestiynau ar y rhestr wirio yn gadarnhaol, dylech wneud cais am drwydded cronni. Os ydych chi'n ateb bob cwestiwn yn negyddol, neu os gallwch ddarparu digon o dystiolaeth ategol neu gyfiawnhad i ddangos na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol, ni fydd angen trwydded fel arfer. Os nad ydych yn siŵr a oes angen trwydded arnoch, gallwch ofyn am gyngor cyn ymgeisio yn [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais ar gyfer trwyddedau tynnu a chronni dŵr](#).

Mae'n bosibl i chi gael cyngor ar ddeunyddiau a dulliau adeiladu addas gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu eich Swyddog Cymorth Maes.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Bydd y math mwyaf addas o lifddor ar gyfer eich lleoliad yn dibynnu ar nifer o ffactorau:

y lefel o gywirdeb sy'n ofynnol wrth reoli lefelau dŵr;

yr ystod o ddyfnderoedd dŵr sydd eu hangen;

y llafur sydd ar gael i weithredu a chynnal a chadw'r strwythurau;


maint tebygol yr amrywiadau tymhorol ac amrywiadau eraill yn y llif dŵr;

pa mor debygol yw'r strwythurau o ddioddef fandaliaeth;

pa mor debygol yw'r strwythurau o gael eu mygu gan falurion a thyfiant planhigion.

Mae llifddorau pren yn cyflawni'r un swyddogaeth â llifddorau pibell, ond maen nhw wedi cael eu cynllunio i ymdopi â llawer iawn mwy o ddŵr. Mae tri phrif fath:

Llifddor Ystyllen Gwyp: mae'r rhain yn strwythurau cymharol syml sy'n cynnwys cyfres o estyll sy'n disgyn i orlifan rigolog (gweler y diagram). Er mwyn gwrthbwysio diferu, mae'n bosibl defnyddio dwy set o estyll cyfochrog.



Diagramau © Gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Gadwraeth Prydain
Llifddor Ystyllen Gwyp

Llifddor Gât Godi: mae'r rhain yn nodweddiadol o hen systemau gweirglodd. Mae'n bosibl bod atgyweirio hen system yn ymarferol, ond byddai gosod llifddor newydd o'r math hwn yn gymhleth ac yn ddrud. Mae rheoli lefel dŵr yn anodd gyda'r math hwn o llifddor.

Llifddor Cored Godi: mae'r rhain yn gallu bod yn effeithiol, ond maen nhw'n anghyffredin. Maen nhw'n seiliedig ar gored golfachog, gyda'r gallu i'w haddasu er mwyn rheoli lefel y dŵr yn fanwl gywir. Fel gatiau codi, fodd bynnag, maen nhw'n ddrud.

6799 Bondocio Coed

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Bondocio'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Gwneud y gwaith bondocio yn yr ardal y cytunwyd arni gyda'r Swyddog Cymorth Maes yn unol â'r canllawiau isod.

Dylid torri coesynnau ar ongl fel bod dŵr yn rhedeg oddi ar y bonion, gan atal dŵr rhag cronni a'r pren rhag pydru.

Monitro difrod a cheisio cyngor arbenigol os oes angen. Datblygu strategaeth ar gyfer amddiffyn e.e. mewn ardaloedd lle mae ceirw yn fygythiad, ystyried rheoli ceirw mewn cydweithrediad â grwpiau rheoli ceirw lleol.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Bondocio o dan frigdwf trwchus.

Gofynion a chanllawiau ychwanegol at y fanyleb uchod:

Defnyddir y term bondocio i ddisgrifio cwmpo coed llydanddail aml-goesyn, sydd â choesyn â diamedr o 15cm neu lai ar uchder y fron.

Mae bondocio yn ffurf hynafol o reoli coetir sy'n cynnwys cwmpo yr un bonyn drosodd a throsodd yn agos at lefel y ddaear, a chaniatáu i'r egin aildyfu o'r prif fonyn (neu'r gadair).

Mae'r arfer neu'r traddodiad o reoli trwy fondocio wedi cael ei atgyfodi yn ddiweddar, am resymau amgylcheddol yn bennaf. Fodd bynnag, mae clystyrau o goed llydanddail gyda choesynnau niferus dros 50 oed yn dal i fod yn eithaf cyffredin. Gallai clystyrau o'r fath fod wedi bod yn goedlannau bondocio penodol ar un adeg, neu efallai eu wedi cael eu llwyrwgwmpo a'u gadael heb unrhyw ymyrraeth ers

hynny. Byddai clirio neu deneuo clystyrau fel y rhain yn cael ei ddosbarthu felly, ac nid fel bondocio.

Ystyriaethau gweithredol

Wrth gynllunio gweithrediadau bondocio, mae angen ystyried y materion canlynol:

Iechyd y cadeiriau, a'r posibilrwydd nad yw cadeiriau hen iawn yn ddigon iach i wrthsefyll cael eu bondocio.


Mae lefelau golau hefyd yn bwysig, hyd yn oed wrth bondocio rhywogaethau sy'n goddef cysgod fel coed cyll. Sicrhewch fod digon o olau yn cyrraedd llawr y coetir.

Mae aildyfiant coedlan yn ddeniadol iawn i anifeiliaid sy'n pori, ceirw, cwningod ac ysgyfarnogod. Mae'n bosibl darparu rhywfaint o amddiffyniad trwy bentyrru'r deunydd a dorrwyd o amgylch y gadair, ond mae lefelau uchel iawn o bori yn gallu gwneud bondocio yn beth annoeth.

Os nad ydych yn siŵr o unrhyw un o'r ffactorau hyn, mae'n ddoeth arbrofi ar raddfa fach cyn mynd ymhellach.

Yn gyffredinol, mae bondocio yn digwydd mewn ardaloedd bach i greu amrywiaeth o fewn coetir.

Mae'r diagram llif isod yn mynd â chi trwy'r broses benderfynu:



6800 Trin coed (y dydd)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Trin coed (y dydd)'. Dim ond os oes budd amgylcheddol neu gymdeithasol sylweddol y gellir ystyried yr eitem gwaith cyfalaf hon. Bydd eich Swyddog Cymorth Maes yn cynnwys unrhyw waith Trin Coed fel rhan o'ch cynllun reoli os yw'n berthnasol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dylai'r holl waith trin coed gael ei wneud gan feddyg coed â chymwysterau addas a rhaid i'r holl waith fodloni safon BS 3998:2010.

Y rhagdybiaeth yw y byddai'r gwaith a wneir o dan y fanyleb hon yn cael ei wneud o dan yr eithriad Trwydded Cwmpo Coed o 5m³/chwarter, sydd wedi'i gyfyngu ymhellach ar gyfer ymgeiswyr yr SFS i 5m³/chwarter calendr ar gyfer chwarteri'r hydref a'r gaeaf yn unig. Pe bai'r gwaith a gynlluniwyd yn mynd dros y terfynau hyn, byddai angen caniatâd cwmpo coed (naill ai trwy Drwydded Cwmpo Coed neu drwy gynllun a gymeradwywyd gan y Cynllun Rheoli Coedwig/y Cynllun Cynllunio Rheoli Coetir).

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Gwneud gwaith trin coed rhwng 1 Mawrth a 31 Awst er mwyn amddiffyn adar sy'n nythu.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Mae coed yn nodweddion strwythurol pwysig yn y dirwedd ac maen nhw'n darparu amrywiaeth o gynefinoedd ar gyfer nifer o organebau eraill. Mae rhai organebau dibynnol yn brin neu'n dirywio, felly maen nhw'n cael eu diogelu gan y gyfraith. Y prif rywogaethau a warchodir sy'n debygol o gael eu heffeithio gan feddygon coed yng Nghymru yw: ystlumod (pob rhywogaeth), pathewod, madfallod cribog a dyfrgwn. Y rhywogaethau sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan drin coed yw ystlumod ac adar sy'n nythu.

Mae gan amddiffyn y rhywogaethau hyn oblygiadau o ran amseru, maint neu ddull gweithrediadau rheoli coed. Mae rhywogaethau a warchodir yn aml yn defnyddio nodweddion coed penodol, a bydd meddyg coed cymwysedig wedi'i hyfforddi'n briodol i'w hadnabod ac argymhell camau priodol. Rhaid cymryd gofal hefyd i leihau effeithiau ac osgoi tarfu ar adar, ystlumod a bywyd gwyllt arall. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi [canllawiau](#) sy'n esbonio sut i gynnal gweithrediadau coedwig

yn gyfreithlon ym mhresenoldeb rhywogaethau a warchodir a beth i'w wneud pan na allwch osgoi niweidio rhywogaethau a warchodir neu ddifrodi eu cynefinoedd.

Gellir defnyddio'r taliad Trin Coed ar gyfer y gwaith canlynol:

Tynnu canghennau i gefnogi iechyd a hirhoedledd coed

Trin coed i hwyluso mynediad cyhoeddus i goetiroedd (e.e. codi brigdyfiant, tynnu canghennau sy'n rhwystro mynediad presennol neu arfaethedig)

Efallai y bydd angen trin coed i ymestyn oes rhai coed hynod. Gan eu bod yn arbennig o agored i straen amgylcheddol a gwaith trin coed ansensitif, dylid gwneud cyn lleied o waith trin coed ag sy'n hanfodol i gynnal a chadw'r goeden neu am resymau iechyd a diogelwch.

Mae pren marw sy'n sefyll ar ffurf canghennau a choed cyfan yn gynefin pwysig i lawer o bryfed a ffyngau. Dylech osgoi tynnu pren marw sy'n sefyll oni bai ei fod yn achosi perygl. Dylid pentyrru torbrennau a'u gadael fel pren marw mewn cymysgedd o ardaloedd heulog a chysgodol yn yr ardal ger y goeden, oni bai eich bod wedi cytuno fel arall gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

6802 Coed Llydanddail: Tocio Ffurfiannol

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Coed Llydanddail: Tocio Ffurfiannol'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau, yr amser gorau ar gyfer tocio ffurfiannol yw'n hwyr yn y gwanwyn, ychydig cyn i goed ddeilio. Mae hyn yn sicrhau bod clwyfau yn gwella'n gyflym. Gyda'r coed yn rhydd o ddail, mae'n haws gweld siâp y brigdyfiant, felly mae'r canghennau gorau i'w tocio yn amlwg.

Rhaid tocio coed ceirios du a choed cnau Ffrengig ddiwedd mis Mehefin neu ddechrau mis Gorffennaf. O ran coed ceirios, mae hyn er mwyn lleihau'r risg o glefyd cancr bacteriol a haint y ddeilen arian, ac o ran coed cnau Ffrengig, er mwyn osgoi diferu gormodol. Mae'n bosibl tocio coed ynn, derw a phoplys yn y gaeaf (mis Rhagfyr neu fis Ionawr).

Yn ddelfrydol, dylid tynnu canghennau cyn iddynt gyrraedd diamedr o 2cm lle maen nhw'n cyfarfod â'r prif goesyn. Yn gyffredinol, ni ddylent fod yn fwy na 4cm.

Wrth dynnu cangen, mae'n well yn aml i dorri'r gangen oddeutu 6cm o'r coesyn, cyn gwneud y toriad terfynol a ddylai fod mor agos â phosibl at ymyl allanol y crych ym môn y gangen, er mwyn osgoi'r risg o rwygo.

Y crych ym môn y gangen yw'r crych neu'r plygiad o risgl sy'n ymddangos lle mae'r gangen yn ymuno â phrif goesyn y goeden. Dylid gwneud pob toriad ar ochr y gangen i'r crych hwn, gan fod y goeden yn mynd i dyfu'n gyflymach dros y toriad 'agored' yn y rhan hon, a hynny'n amddiffyn y goeden rhag haint ac osgoi diraddio pren.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Tynnu mwy na thraean o frigdyfiant (canghennau) y goeden mewn un tymor.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y fanyleb uchod:

Tocio Ffurfiannol

Tocio ffurfiannol yw'r enw ar y gwaith o dynnu canghennau neu brifgeinciau yn gynnar ym mywyd coeden (2 – 8 mlynedd), er mwyn gwella siâp (ffurf) y goeden, a chaniatáu iddi wireddu'r potensial mwyaf o ran cynhyrchu pren. Mae coed llydanddail

yn tueddu i gynhyrchu tyfiant canghennau bras a gormodol a phrifgeinciau lluosog, yn enwedig o'u plannu ymhellach oddi wrth ei gilydd. Ffactorau eraill sydd hefyd yn gallu achosi hynny yw pori, adar yn clwydo, pryfed, rhew a gwynt.

Nod tocio ffurfiannol yw cynhyrchu un coesyn syth hyd at 3 metr o daldra, gyda thraean o'r uchder cyfan yn frigdyfiant (gyda changhennau). Nid oes angen tocio pob coeden – y peth pwysig yw sicrhau bod gan ddigon o goed y potensial i gynhyrchu pren defnyddiadwy. Bydd y Swyddog Cymorth Maes yn nodi nifer y coed sydd angen eu tocio.

Dylid ystyried difrod sydd eisoes yn bodoli neu ddifrod disgwylidig gan famaliaid, yn enwedig gwiwerod llwyd, lle mae rheolaeth yn bosibl. Mae tocio yn waith costus gyda nodau hirdymor sy'n ofer os achosir difrod helaeth.

Amseru

Dylai tocio ddechrau unwaith mae'r cnwd wedi sefydlu'n dda, fel arfer rhwng yr ail a'r pedwerydd tymor tyfu. Gallai barhau nes bod y cnwd yn 3 metr o daldra, ac ar ôl hynny gellid ystyried tocio uchel.

Offer


Siswrn tocio (miniog) ar gyfer canghennau hyd at 2cm.

Ar gyfer canghennau mwy, mae'n bosibl defnyddio lopwyr a llifiau llaw cyn belled â'u bod hefyd yn cael eu cadw'n finnog.

Cofiwch lanhau'r holl offer torri gyda chwistrellau diheintio bob amser wrth symud rhwng coed.

Engbreifftiau


Arfer gywir



Mae'r ddau doriad yn dilyn y crych ym môn y gangen, neu'n cael eu torri ychydig i ffwrdd i leihau arwynebedd y clwyf agored.




Arfer wael



Tynnu canghennau gormesol.

- Tynnwch naill ai'r gangen dan sylw neu'r brifgainc wan.
- Tynnwch rai o'r canghennau bach is i annog tyfiant am i fyny.





Cyn

Ar ôl

Tynnu canghennau bras.

- Mae angen dileu'r cylch isaf o ganghennau mewn blynyddoedd olynol.
- Tynnwch y canghennau isaf, yn ddelfrydol cyn i'w diamedr fynd yn fwy na 2cm.
- Cofiwch docio coed ceirios du ym mis Mehefin/Gorffennaf/Awst yn unig.





Cyn

Ar ôl

Torri tua un rhan o dair o ganghennau gormesol.

Drwy beidio â thynnu'r gangen yn llwyr, mae'r goeden yn llai tebygol o gynhyrchu prifgainc hir, tenau a llipa. Cofiwch fod angen canghennau deiliog ar y goeden i dyfu.





Cyn

Ar ôl

Tynnu canghennau fforchog.

Cyffredin mewn coed ynn, tynnwch bob cangen heblaw'r brifgainc fwyaf syth a chryf.



Cyn

Ar ôl

6804 Coed: Brigdocio

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Brigdocio Coed'. Lle bo dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hwn, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Mae brigdocio yn ddull traddodiadol o gynhyrchu polion a choed tân o goed. Mae'n golygu torri'r goeden ar uchder o tua 2.5m i 4m uwchben y ddaear ac allan o gyrraedd anifeiliaid sy'n pori. Mae'n bosibl defnyddio brigdocio i ddarparu porthiant i dda byw a choed tân, ac mae'n dechneg ddefnyddiol i ymestyn oes llawer o rywogaethau llydanddail brodorol.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Brigdocio coed iach a chadarn yn unig.

Brigdocio cyn i goed egino.

Dim ond yn ystod misoedd y gaeaf y dylid brigdocio, tra bod y goeden yn segur (mis Rhagfyr, mis Ionawr a mis Chwefror).

Dylid tynnu canghennau yn unigol dros gyfnod o flynyddoedd fel bod y goeden yn goroesi.

Torri ar ongl i gynyddu perimedr y rhisgl a dorri'r lle mae egin yn gallu tyfu. Dylid gwneud toriadau ar ongl fel eu bod yn gwyro i ffwrdd o'r brigdyfiant ac yn caniatáu i'r dŵr redeg ymaith.

Gadewch fonion o leiaf 50cm o hyd, a'u gadael heb eu trin.

Torri'n rheolaidd ar ôl ailsefydlu brigdocio.

Brigdocio fesul cam (mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer coed ffawydd a choed sydd wedi cael eu brigdocio am gyfnod hir iawn).

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Cael gwared ar hen goed oni bai bod hynny'n hollol angenrheidiol. Ceisiwch gyngor proffesiynol ac asesu'r risg cyn tynnu coed o'r fath.

Torri mewn tywydd rhewllyd.

Torri ar ôl blwyddyn o sychder, gan y bydd hyn yn lleihau siawns y goeden o oroesi.

Torri coed mewn cysgod trwm neu sy'n cael gormod o haul.

Torri'n wastad gyda'r boncyff

Brigdocio unrhyw goeden rhwng 1 Mawrth a 30 Tachwedd.

Torri mwy na 50% o'r canghennau mewn unrhyw un cylch gwaith. Dim ond ar ôl i ailddyfu ddigwydd y dylid mynd yn ôl i dorri'r canghennau hynny a gadwyd yn flaenorol. Mae'r bwlch rhwng toriadau yn debygol o fod yn sawl blwyddyn.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y fanyleb uchod:

Mae coed sydd wedi cael eu brigdocio yn gallu byw yn hen iawn. Mewn sawl rhan o Gymru, maen nhw'n rhan annatod o'r dirwedd hanesyddol. Maen nhw i'w gweld fel coed unigol, mewn rhesi ar hyd ffiniau neu ar wasgar ar barcdir mewn niferoedd mawr. Mae pob un yn dyst i ddull o reoli coed a oedd unwaith yn gyffredin ond sydd wedi diflannu bellach, i bob pwrpas.

Wrth frigdocio, bydd egin newydd yn egino ychydig o dan y wyneb a dorwyd; mae'r egin hyn yn cael rhwydd hynt i dyfu'n ganghennau sy'n cael eu cynaeafu bob 10-25 mlynedd, yn dibynnu ar rywogaethau coed, cyflymder tyfu a defnydd terfynol arfaethedig y pren.

Ar ôl sawl cylch o frigdocio, mae boncyff y goeden yn chwyddedig a chnotiog. Mae brigdocio yn adfywio coed, gan ganiatáu iddyn nhw gyrraedd oed llawer hŷn na choeden o'r un rhywogaeth nad yw wedi cael ei rheoli. O ganlyniad, mae brigdocio yn creu cynefinoedd amrywiol ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae brigdocio coed newydd ac ailafael â brigdocio coed mawr sydd wedi cael eu trin yn y gorffennol yn bwysig oherwydd:

mae llawer o blanhigion ac infertebratau sy'n byw mewn coed yn dibynnu ar hen goed er mwyn goroesi.

mae'n bosibl cynnal a hyd yn oed wella cymeriad tirwedd neu barcdir penodol.

heb reolaeth, bydd brigdyfiant y goeden yn mynd yn bendrwm, gan beri iddi gwympo o dan ei phwysau ei hun.

mae'n bosibl y bydd angen mynd i'r afael â hen ganghennau pydredig sy'n crogi dros lwybrau, ffyrdd neu feysydd parcio am resymau diogelwch.

Brigdocio Coed am y Tro Cyntaf

Chwiliwch am goeden 25-30 mlwydd oed, gydag o leiaf rhai canghennau islaw'r pwynt lle mae'r toriad i'w wneud. Brigdociwch ar uchder cyfleus ond uwchlaw'r pwynt lle mae anifeiliaid yn gallu pori. Gwnewch y toriad uwchben cylch o ganghennau sydd i'w gadael yn gyfan am o leiaf y ddau dymor tyfu nesaf. Ar ôl y pwynt hwnnw, gellir ailffurfio'r goeden os oes angen. Dylid gwneud y toriad ar ogwydd ond ei adael heb ei drin. Bydd hyn yn ysgogi ailddyfiant, gan ei fod yn cynyddu perimedr y rhisgl y

mae'r egin yn tyfu ohono. Os mai bwriad y brigdocio newydd yw cynnal tirwedd hanesyddol, yna dylid gwneud y toriad cychwynnol ar yr un uchder ag unrhyw frigdocio sy'n bodoli eisoes.

Ailgyflwyno Brigdocio

Mae'r holl goed presennol sydd wedi cael eu brigdocio yn bwysig, o safbwynt hanesyddol a biolegol.

Po hiraf yw'r cyfnod ers i'r goeden gael ei brigdocio ddiwethaf, y gwaethaf yw'r siawns o ailsefydlu'r cylch brigdocio. Lle mae coed yn 200+ mlwydd oed, mae'n bwysig gadael rhai canghennau a brigau byw o amgylch y boncyff a sicrhau bod y toriadau yn cael eu gwneud uwchben y canghennau ochr iach hyn.

Mae goddefgarwch gwahanol rywogaethau i frigdocio yn amrywio. Mae coed helyg, pisgwydd, ieuwydd ac ynn yn debygol o ymateb yn dda i ailgyflwyno brigdocio, tra bod coed ffawydd yn ymateb yn wael iawn ac yn gofyn am ofal arbennig. Mae hen goed brigdocio sydd â llawer o godennau pigau a brigau yn fwy tebygol o gael aildyfiant llwyddiannus ar ôl brigdocio na'r rhai llyfn eu rhisgl, gan fod y codennau pigau yn arwydd o grynodiad o flagur.

Problemau Posibl ar ôl Brigdocio:

brigdyfiant anghytwys. Wrth gadw canghennau, mae angen sicrhau bod y brigdyfiant sy'n weddill yn gytwys.

dim digon o olau. Efallai y bydd angen bondocio neu dorri pennau coed cyfagos.

gormod o olau. Gallai llosg haul atal tyfiant os yw'r goeden yng ngolau'r haul wedi cyfnod o fod mewn cysgod trwm.

haint ffwngaid. Nid yw ffyngau ysgwydd mawr sy'n pydru'r rhuddin yn broblem, gan mai pydru pren marw'n unig y maen nhw, ond mae ffyngau eraill yn ymosod ar bren byw ac yn achosi difrod difrifol.

difrod rhew ar egin ifanc.

6805 Stripio tyweirch

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Stripio tyweirch'.

Bydd eich Swyddog Cymorth Maes yn nodi ardaloedd lle gallai stripio tyweirch fod yn fuddiol. Dim ond ar ardaloedd o laswelltir wedi'i wella y gellir defnyddio'r dechneg hon i leihau lefelau maethynnau yn y pridd ac annog adfywiad twyni, rhostir a glaswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau. Mae grub fel arfer yn datblygu lle mae pridd asidig tenau, prin ei faethynnau.

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol pan na fydd arferion rheoli llai mewnwithiol eraill yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir y dylid defnyddio dull stripio tyweirch.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Tynnu tyweirch

Datgelwch yr uwchbridd trwy dynnu tyweirch i ddyfnder o rhwng 5 a 10cm. Gellir gwneud hyn gan ddefnyddio peiriant stripio tyweirch neu hof fecanyddol neu atodiad tarw dur wedi'i osod ar beiriant tyrchu.

Ni ddylid rhoi uwchbridd ar dir cynefin.

Nid yw stripio tyweirch yn addas ar gyfer safleoedd sydd ag unrhyw nodweddion hanesyddol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

Henebion Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin heneb gofrestredig, rhaid i chi gael cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Mae methu â chael y cydsyniad angenrheidiol cyn ymgymryd â'r gwaith yn drosedd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Gallwch gyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar-lein trwy: [Cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig | Cadw](#)

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: scheduledmonuments@llyw.cymru

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl henebion cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch:

heritagemanagement@heneb.org.uk

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cymeradwyaeth cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Gallwch ddod o hyd i leoliad a maint yr holl Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn: heneb.org.uk/cy/cofnod-amgylchedd-hanesyddol

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, e-bostiwch:

heritagemanagement@heneb.org.uk

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/cydsyniad (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/cydsyniad) a sicrhau bod y dogfennau ar gael ar gais.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

Sefydlu rhostir neu laswelltir cyfoethog ei rywogaethau

Os yw'r safle ar rostir creiriol, ger rhostir presennol neu laswelltir cyfoethog ei rywogaethau, ystyriwch ganiatáu aildyfiant naturiol. Ar y safleoedd hyn, mae'n debygol y bydd banc hadau presennol ac amodau pridd addas. Mae rhywogaethau

rhostir yn sensitif i pH, mae angen safleoedd gyda pH o lai na 4.5. Gall y banc hadau aros yn hyfyw am hyd at 90 mlynedd.

Ar safleoedd eraill, efallai y bydd yn briodol creu cynefin newydd, trwy hau grug neu laswellt cyfoethog ei rywogaethau.

Hau grug (Taliad ychwanegol - Gwella porfa gan ddefnyddio hadau o darddiad lleol (glaswelltir neu rostir)

Gyda chytundeb y Swyddog Cymorth Maes, dewiswch safle rhoi sydd ag amodau tir tebyg i'r safle derbyn. Os yw'r safle derbyn yn wlyb, dewiswch rostir gwlyb. Yn yr un modd, os yw'r safle derbyn yn sych, dewiswch rostir sych.

Torrwch y rhostir ar y safle rhoi yn yr hydref gan ddefnyddio peiriant lladd gwair heb gyflyrydd. Dylid torri'r rhostir pan fydd y grug yn dechrau gollwng hadau pan gaiff ei ysgwyd. Bydd osgoi defnyddio peiriant lladd gwair gyda chyflyrydd yn golygu bod llai o hadau'n cael eu colli. Byrnwch y grug, ei gludo i'r safle rhoi a dadrolio'r bêl cyn iddi ddechrau poethi. Bydd poethi yn lleihau cyfanswm yr hadau hyfyw. Gwasgarwch y tocion grug gan ddefnyddio peiriant chwalu gwair. Mae gadael y tocion grug yn y fan a'r lle yn annog eginblanhigion grug i egino.

Hau glaswellt cyfoethog ei rywogaethau (Taliad ychwanegol – Gwella porfa gan ddefnyddio hadau o darddiad lleol (glaswelltir neu rostir) neu *wair gwyrdd*)

Gyda chytundeb y Swyddog Cymorth Maes, dewiswch gymysgedd addas o hadau cyfoethog ei rywogaethau. Ar ôl tynnu tyweirch, dylech rollo'r safle a'i lyfnu'n ysgafn ag oged gadwyn gyda'r nod o sicrhau gwely had briwsionllyd cadarn. Gwasgarwch y cymysgedd hadau gan ddefnyddio peiriant gwasgaru gwrtaith, oged gadwyn a rholer. Cyfeiriwch at y canllawiau cyfoethog ei rywogaethau am ragor o fanylion a thaliad.

Henebion Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin heneb gofrestredig, rhaid i chi gael cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Mae methu â chael y cydsyniad angenrheidiol cyn ymgymryd â'r gwaith yn drosedd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Gallwch gyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar-lein trwy: [Cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig | Cadw](#)

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: scheduledmonuments@llyw.cymru

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl henebion cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch:

heritagemanagement@heneb.org.uk

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cymeradwyaeth cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Gallwch ddod o hyd i leoliad a maint yr holl Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn: heneb.org.uk/cy/cofnod-amgylchedd-hanesyddol

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, e-bostiwch:

heritagemanagement@heneb.org.uk

6806 Clwt-chwynnu

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Clwt-chwynnu'.

Mae clwt-chwynnu yn ddewis amgen da i chwistrellu mewn ardaloedd lle mae cynefinoedd sensitif, ac mae'n cael ei ddefnyddio i reoli rhywogaethau annymunol lle mae gwahaniaeth taldra rhwng y rhywogaeth darged a phlanhigion daear.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Wrth reoli lledaeniad rhywogaethau annymunol, dylid ystyried chwynladdwr fel dewis olaf yn unig, gan fod y cemegau cymeradwy yn chwynladdwyr sbectrwm eang a fydd hefyd yn dinistrio planhigion eraill nad ydynt yn cael eu targedu.

Defnyddiwch chwynladdwr pan fydd y rhywogaeth annymunol yn dalach (o leiaf 10cm neu 4") na'r llystyfiant arall yn y cae, gan ei daenu bryd hynny gan ddefnyddio peiriant clwt-chwynnu wedi'i osod uwchben uchder gweddill y borfa.

Rhaid i label y chwynladdwr a ddefnyddir argymhell eich defnydd arfaethedig ohono a'r dull arfaethedig o'i ddefnyddio.

Ni ddylid defnyddio chwynladdwr o fewn 6m i gwrs dŵr neu o fewn 1m i ffiniau caeau. Peidiwch â'i ddefnyddio o fewn 50 metr i darddiad dŵr, ffynnon, twll turio nac unrhyw gyflenwad dŵr cyhoeddus neu breifat. Dylid dilyn y cod ymarfer ar gyfer chwistrellu ger cyrsiau dŵr sy'n cael ei gynhyrchu gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Defnyddio chwynladdwyr](#)

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Caniatáu i chwynladdwr niweidio cynefin sy'n llawn bioamrywiaeth, e.e. trwy ddiferu.

Clwt-chwynnu neu ddefnyddio unrhyw ddull rheoli arall ar frwyn rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf mewn unrhyw flwyddyn.

Clwt-chwynnu pan fydd y llystyfiant yn wlyb neu pan fydd ar fin glawio. Os yw chwynladdwr yn cael ei ddefnyddio o dan yr amodau hyn, bydd chwynladdwr wedi'i wanhau yn diferu ar y cnwd/planhigion oddi tano gan arwain at ddifrod i'r cnwd.

Ni ddylid defnyddio chwynladdwr o fewn 6m i gwrs dŵr neu o fewn 1m i ffiniau caeau. Peidiwch â'i ddefnyddio o fewn 50 metr i darddiad dŵr, ffynnon, twll turio nac unrhyw gyflenwad dŵr cyhoeddus neu breifat. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Defnyddio chwynladdwyr](#)

6858 Rheoli Rhedyn: Torri neu rollo â pheiriant ddwywaith y flwyddyn

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Rheoli Rhedyn (Torri â Pheiriant, neu Rollo'. Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r gwaith.

Planhigyn lluosflwydd cryf yw rhedyn, ac mae'n tyfu o system o risomau o dan y ddaear. Uwchben y ddaear, mae ffrondau'r rhedyn yn agored o ganol Mehefin tan fis Awst a dyma'r adeg pan fydd y planhigyn wedi defnyddio'r rhan fwyaf o'u storfeydd maethynnau. Mae'r gweithred hwn ar gael i glirio rhedyn er mwyn i blanhigion y llawr gael tyfu neu er mwyn i goed a pherthi newydd sefydlu. Mae torri yn cael ei ffafrio dros rollo, ac mae rheolaeth â pheiriant yn cael ei ffafrio dros reolaeth gemegol.

Dylid nodi bod rheoli lleiniau trwchus o redyn yn debygol o gymryd ychydig flynyddoedd o leiaf cyn cyflawni'r canlyniad a ddymunir.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dim ond drwy gleisio, malu neu dorri y dylech reoli rhedyn

Dylech reoli rhedyn drwy dorri neu rollo o leiaf ddwywaith yn ystod y tymor tyfu. Mae rhagor o ganllawiau i'w gweld isod am yr amser gorau i reoli rhedyn.

Dylid gwneud hyn am 3 blynedd yn olynol i gael rheolaeth dda.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Rheoli rhedyn trwy ddefnyddio cemegau.

Rheoli rhedyn trwy losgi.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Trefnwch fod rhedyn yn cael eu malu a'u torri pan fydd y ffrond wedi agor yn llawn fel ei fod yn cael ei dynnu cyn i'r planhigyn gael amser i drosglwyddo storfeydd bwyd o'r ffrond yn ôl i'r rhisom. Mae'r planhigyn wedi defnyddio llawer iawn o'i storfeydd bwyd

i gynhyrchu'r ffrond a bydd ei dorri ar yr amser priodol yn ei wanhau'n fawr. Y cyfnod rhwng mis Mai a chanol mis Awst yw'r amser gorau fel arfer i falu neu dorri, gan ddibynnu ar y tywydd. Gadewch 6 wythnos rhwng pob gwaith rholio neu dorri.

Lle mai'r prif bwrpas yw cynyddu amrywiaeth yr haen berlysiau, dylid cael gwared ar redyn wedi'i dorri o'r ardal dorri i atal mygu.

Yn ddelfrydol, os oes bwriad i blannu coed yn yr ardal, ar ôl y mesurau rheoli, dylai'r tir gael ei bori gan dda byw trwm, fel gwartheg neu ferlod, gan y bydd hyn yn helpu i atal ffrondau rhag aildyfu. Bydd pori gan dda byw trwm yn ystod y cyfnod twf cynnar (Mai a dechrau Mehefin) mewn blynyddoedd dilynol yn helpu i atal rhedyn rhag aildyfu.

Mae'n bwysig cofio bod lleiniau o redyn yn gallu cyfrannu at amrywiaeth tirwedd, ac y gallant fod yn werthfawr iawn i fywyd gwyllt eu hunain. Lle maen nhw'n tyfu yn gymysg â llwyni a choed gwasgaredig, mae rhedyn yn bwysig i adar fel crec yr eithin, y bras melyn a'r troellwr mawr. Gallai rhedyn agored ac isdyfiant o fioled gynnal poblogaethau o loynnod byw teulu'r britheg. Mae hyd yn oed lleiniau trwchus sydd â thrwch o ddeiliach marw yn gallu cynnig cysgod i adar ysglyfaethus sy'n gaeafu fel y bod tinwen a'r dylluan glustiog, ynghyd â mamaliaid fel llygod pengrwn coch, moch daear a cheirw.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng [nghanllawiau arfer gorau y DU – rheoli rhedyn](#)

6860 Darnio neu gau draeniau caeau

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau ar gyfer 'Darnio Draeniau Caeau'. Lle mae dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad sylweddol gael ei gymeradwyo gan Swyddog Cymorth Maes.

Mae darnio draeniau caeau yn ddull syml ac effeithiol o gynyddu lefelau dŵr daear i gynnal neu wella cynefinoedd presennol a dal carbon yn y pridd. Gellir ei ddefnyddio hefyd i reoli dŵr trwy leihau'r risg o fflachlifoedd yn ystod glaw trwm a llygryddion yn mynd i mewn i lynnoedd ac afonydd.

Gellir defnyddio'r eitem gwaith cyfalaf hon fel rhan o weithred reoli ail-wlychu i gynyddu lefelau dŵr daear dros gynefinoedd penodol a hefyd ar briddoedd organo-mwynol ar dir wedi'i wella.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dewch o hyd i ddraen cae a marcio ei leoliad gyda ffyn.

Cloddiwch i lawr i'r draen mor agos â phosibl at ymyl gwlyptir (neu'r ardal sydd i'w hail-wlychu) y llain glustogi, fel na fydd lefel uwch newydd y dŵr yn effeithio ar dir cyfagos sydd wedi'i drin ac nad yw wedi'i gynnwys yn yr weithred ail-wlychu.

Ar ôl ei leoli, darniwrch y draen a chau'r pen isaf gyda phridd neu ddeunydd anhydraidd arall.

Tynnwch rywfaint o'r ôl-lenwad hydraidd uwchben y draen sy'n mynd i lawr y llethr a'i roi yng ngwaelod y twll uwchben y darn a ddarniwyd.

Seliwch yr ôl-lenwad ar ochr y twll sy'n mynd i lawr y llethr trwy osod a chywasgu pridd ar wyneb y twll. Ôl-lenwch y twll.

Crëwch dwll gydag ochrau grisiog o amgylch y darn a ddarniwyd. Dylai'r twll fod 2 gwaith yn fwy llydan na'i ddyfnder. Defnyddiwrch y sborion o'r twll i greu cilgant bas (30 i 50cm o uchder) i lawr y llethr (3 i 5m) o'r darn a ddarniwyd. Bydd y cilgant yn cadw pwll o ddŵr a bydd yn cynyddu lledaeniad y llif wyneb i lawr y llethr.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Rhaid cymryd gofal i leihau'r peryglon, yr effeithiau a'r tarfu ar dda byw a bywyd gwyllt wrth gyflawni'r gwaith.

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA

hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Os ydych yn ymgymryd â gwaith o fewn ardal ddraenio fewnol, efallai y bydd angen i chi gael caniatâd draenio tir i sicrhau nad yw eich gweithgareddau yn achosi risg llifogydd neu'n gwaethygu risg bresennol.

Mae angen caniatâd hefyd i sicrhau na fydd eich gwaith yn ymyrryd â'n hasedau rheoli risg llifogydd nac yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd neu fywyd gwyllt. [Cyfoeth Naturiol Cymru / Caniatâd draenio tir](#)

Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd, rhaid i chi wirio a oes angen Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd, a chael trwydded os oes angen. Dylid cadw unrhyw drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a sicrhau bod y ddogfen ar gael ar gais.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld a oes arnoch angen trwydded gweithgaredd perygl llifogydd](#)

6862 Aredig gan ddefnyddio aradr gynion

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau 'Aredig gan ddefnyddio aradr gynion'.

Mae aredig gan ddefnyddio aradr gynion yn torri wyneb y borfa ac yn creu ponciau a thyweirch bach o fewn wyneb unffurf glaswelltir wedi'i wella, sy'n creu porfa fwy deniadol ar gyfer cornchwiglod sy'n bridio.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Dim ond ar laswelltir wedi'i wella y gellir defnyddio ar gyfer y weithred yma.

Mae'r aradr gynion yn cael ei thynnu gan dractor i dorri rhannau o'r cae. Bydd hyn yn creu clytwaith o borfa dynn a phorfa wedi'i thorri.

Dylai dyfnder aradr gynion fod rhwng 5 a 10cm ar gyfer y rhan fwyaf o briddoedd a 5-7cm ar gyfer priddoedd clai

Dylid cytuno ar gynllun aredig gan ddefnyddio aradr gynion gyda'ch swyddog Cymorth Maes.

Cadwch yr wyneb sydd wedi'i greu gan aradr gynion.

Gofalwch eich bod yn bodloni gofynion y Cod i Bawb: Rhan 1: diogelu pridd

Henebion Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn neu ar ffin heneb gofrestredig, rhaid i chi gael cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Mae methu â chael y cydsyniad angenrheidiol cyn ymgymryd â'r gwaith yn drosedd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Gallwch gyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar-lein trwy: [Cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig | Cadw](#)

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: scheduledmonuments@llyw.cymru

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl henebion cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn neu ar ffin Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn neu ar ffin Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cymeradwyaeth cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Gallwch ddod o hyd i leoliad a maint yr holl Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn: heneb.org.uk/cy/cofnod-amgylchedd-hanesyddol

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn SoDdGA a'i fod wedi'i restru fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig (OLDSI) y SoDdGA hwnnw, rhaid i chi roi gwybod i CNC yn ysgrifenedig a chael caniatâd SoDdGA cyn i chi gyflawni'r gweithgaredd neu ganiatáu i rywun arall gyflawni'r gweithgaredd. Gallwch wneud hyn ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael [yma](#). Fe ddylech fod wedi cael copi o'r rhestr OLDSI pan oedd y safle'n cael ei ddynodi. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr gan ddefnyddio cyfleuster [chwilio safleoedd dynodedig](#) CNC.

Peidiwch â gwneud y canlynol:

Aredig gan ddefnyddio aradr gynion rhwng 1 Mawrth a 31 Awst.

Gofynion a chanllawiau yn ychwanegol at y manylebau uchod:

Dim ond fel rhan o gynllun i reoli tir ar gyfer cornchwiglod y gellir ystyried y weithred gwaith cyfalaf hon.

6864 Camfa risiau

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y mae angen i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliadau am 'Camfa risiau'. Lle mae dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n amrywio o'r safon hon, gellir eu defnyddio, ond rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Cymorth Maes.

Mae taliadau safonol ar gael ar gyfer darparu cyfleusterau i gynorthwyo'r cyhoedd i ddefnyddio llwybrau mynediad ac ardaloedd caniatol.

Dylid adeiladu camfeydd grisiau neu gamfeydd camu trwyddynt o gerrig gan ddefnyddio traddodiadau'r ardal leol, a dylent gael eu hadeiladu gan rywun sydd â gwybodaeth am adeiladu waliau cerrig. Dylid defnyddio deunyddiau lleol bob amser. Gellir naill ai adeiladu grisiau yn y wal neu adael bwlch a defnyddio slab carreg i ffurfio'r gris. Dylech gytuno ar y dyluniad mwyaf addas gyda Swyddog Cymorth Maes cyn i chi ddechrau ar y gwaith.

Rhaid i chi gadw at y canlynol:

Camfa risiau


Rhaid i'r grisiau ymwthio allan o leiaf 30cm o'r wal. Yn ddelfrydol, dylid defnyddio cerrig sy'n ddigon hir i ymwthio allan i'r naill ochr neu'r llall ond, os nad oes cerrig digon hir ar gael, dylai'r cerrig gael eu mewnbrannu am o leiaf ddwywaith hyd y cam. Mae cerrig ag wynebau hir yn helpu i ddal y gris yn ddiogel, ond efallai y bydd angen defnyddio mortar i gadw'r gris yn gadarn.

Gall grisiau cerrig fod yn llithrig a, lle bo'n bosibl, dylid adeiladu canllaw pren, fel y dangosir yn y diagram. Bydd hyn hefyd yn gwasanaethu fel nodwr llwybr, gan leihau'r risg o ddifrod i'r wal mewn mannau eraill.

Camfa slab

Gellir adeiladu camfa slab mewn wal sy'n bodoli eisoes fel y dangosir. Bydd maint y slab a'r grisiau yn dibynnu ar y cerrig sydd ar gael, ond rhaid i'r bwlch fod o leiaf 40cm o led. Rhaid i'r slab gael ei osod yn sOWNd i'r wal o'i amgylch. Wrth greu bwlch o 40cm, dylid defnyddio carreg 60cm a dylai 10cm o'i lled fod wedi'i gosod yn ddiogel yn y wal ar bob ochr.

Lle bo'n bosibl, dylid adeiladu canllaw pren, sy'n ymwthio allan o leiaf 50cm uwchben uchder y wal.



© Diagram Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain

Henebion Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin heneb gofrestredig, rhaid i chi gael cydsyniad heneb gofrestredig gan Cadw cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith. Mae methu â chael y cydsyniad angenrheidiol cyn ymgymryd â'r gwaith yn drosedd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Gallwch gyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar-lein trwy: [Cais am Gydsyniad Heneb Gofrestredig | Cadw](#)

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: scheduledmonuments@llyw.cymru

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl henebion cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk

Gallwch ddod o hyd i leoliad, maint a disgrifiad o'r holl Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru yn: [Chwilio cofnodion Cadw | Cadw](#)

Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol. Os ydych yn ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffin neu ar ffin Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol, rhaid i chi gysylltu â Heneb i gael cymeradwyaeth cyn ymgymryd â'r gwaith neu ganiatáu i rywun arall wneud y gwaith

Gallwch ddod o hyd i leoliad a maint yr holl Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru yn: heneb.org.uk/cy/cofnod-amgylchedd-hanesyddol

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch, e-bostiwch: heritagemanagement@heneb.org.uk